

**Effaith Iaith ar Hunaniaeth
Ddiwylliannol: Goblygiadau ar gyfer
Cyfiawnder Ieithyddol a
Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol**

Rhianwen E. Daniel

**Traethawd ymchwil a gyflwynwyd i Ysgol y Gyfraith a
Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd, ar gyfer gradd PhD
(Doethuriaeth)**

Cyflwynwyd yn 2021

Crynodeb

Mae athronwyr ac ymgyrchwyr cenedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol megis J.G. Herder, Franz Fanon, a J.R. Jones wedi apelio'n helaeth (er ymhlyg) at berthynoledd ieithyddol fel y mecanwaith lle ceir cysylltiad annatod rhwng iaith a diwylliant. Perthynoledd ieithyddol yw'r farn bod iaith yn adlewyrchu nodweddion diwylliannol ei defnyddwyr ac yn dylanwadu ar eu prosesau meddwl yn unol â hynny. Mae ei rym gwleidyddol ac ysgogol yn ymwneud â'r syniad bod iaith yn gyfrwng ac yn angor ar gyfer hunaniaeth a pharhad diwylliannol Pobl. Ar y sail hyn, dadleir y dylid gwarchod, adfywio, a hyrwyddo priod iaith er mwyn ymledu ymwybyddiaeth genedlaethol neu ddiwylliannol.

Er gwaetha'r cyfoeth o dystiolaeth empiraidd a dadleuon dadansoddol y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau perthynoledd ieithyddol, fodd bynnag, nid oes fawr ddim gwaith wedi cael ei wneud i archwilio ei berthnasedd tuag at gwestiynau sy'n ymwneud â chyfiawnder ieithyddol neu ymgorfforiad sefydliadol hunaniaeth genedlaethol. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei fod yn cael ei astudio mewn modd aml- yn hytrach na rhyngdisgyblaethol; ac yn rhannol oherwydd dylanwad cryf damcaniaethau anghyson cyffredinolaid (*universalist*) o ystyr ieithyddol, megis Empiriaeth Brydeinig a ieithyddiaeth Chomskyaidd a'i ddisgynyddion.

Pwrpas y traethawd ymchwil hwn, felly, yw datblygu'r ddolen gyswllt mewn dwy ffordd benodol. Yn gyntaf, mae'n datblygu cyfiawnhad rhesymegol o blaid perthynoledd ieithyddol, gan ddefnyddio dadleuon a gwahaniaethiadau Wittgensteinaidd, yn ogystal â'r dystiolaeth empirig, arbrolfol cyfredol. Yn ail, mae'n esbonio goblygiadau perthynoledd ieithyddol ar gyfer dadleuon cyfoes sy'n ymwneud â chyfiawnder ieithyddol ac ymgorfforiad sefydliadol diwylliant cenedlaethol. O ran cyd-destun, ceir pennod ragarweiniol sylweddol sy'n manylu ar y prif gyd-destunau hanesyddol a diwylliannol y mae perthynoledd ieithyddol wedi chwarae rhan ganolog ynddynt. Yma, rhoddir pwyslais penodol ar Ramantiaeth Almaeneg, llenyddiaeth gwrth- ac ôl-drefedigaethol, a chenedlaetholdeb ieithyddol Cymraeg.

Cydnabyddiadau

Hoffwn ddiolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd am gyllido'r prosiect hwn.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm goruchwylwyr Yr Athro Andrew Vincent a Dr Huw L. Williams am eu harbenigedd, cefnogaeth, a'u cyngor gwerthfawr.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Athro David Boucher a David Miller a fu'n fentoriaid academaidd a ddarparodd adborth ar sawl pennod ynghyd ag ysbrydoliaeth ehangach yn natblygiad y traethawd ymchwil hwn.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Athro Severin Schroeder am gyfrannu arbenigedd ac eglurder yn natblygiad y dimensiwn Wittgensteinaidd i'r gwaith, ac i Dr Gwyneth Lewis am ysbrydoliaeth a chyingor di-flewyn ar dafod!

Yn olaf ond nid yn lleiaf, hoffwn ddiolch i'm teulu sydd oll wedi bod yn anhepgor.

Effaith Iaith ar Hunaniaeth Ddiwylliannol : Goblygiadau ar gyfer Cyfiawnder leithyddol a Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cyflwyniad	5
§1. Seiliau Damcaniaethol Perthynoledd leithyddol: Herder a Rhamantiaeth Almaenaidd	5
§1.1 Casgliadau Gwleidyddol Herder	9
§1.2 Fichte	10
§2. Safbwyntiau Gwrth-drefedigaethol ar iaith a Hunaniaeth	14
§2.1. Ieithoedd Brodorol fel Prif Ffynonellau Diwylliant	15
§2.2. Meddiannu Iaith y Gormeswr	17
§2.3. Ieithoedd Creole	19
§3. Cenedlaetholdeb leithyddol Cymru: Saunders Lewis a J.R. Jones	21
§3.1. J.R. Jones	24
§4. Y Drafodaeth Gyfoes: Cyfiawnder leithyddol a Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol	30
§4.1 Olrhain y Gorgyffwrdd: Beirniadaeth y Comiwnitariaid, a Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol	31
§4.2 Aneglurder Ynghylch y Cysylltiad Rhwng Iaith, Diwylliant, a Hunaniaeth	32
§4.3. Gwrthwynebiadau	34
Casgliad	35
Pennod 2: Meddiannu Wittgenstein ar gyfer Perthynoledd leithyddol	37
Cyflwyniad	37
§1. Perthynoledd leithyddol: Anghyfieithiadwyedd	39
§2. Perthynoledd leithyddol: Y Cysylltiad Annatod Rhwng Iaith a'r Meddwl	41
§3. Beirniadaeth Wittgensteinaidd o'r Darlun Seicolegaidd o Iaith	43
§4. Y Darlun Wittgensteinaidd o Berthynoledd leithyddol: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd leithyddol	46
§4.1 Tystiolaeth Empirig o Blaid y Darlun Wittgensteinaidd	48
§5. Ateb Wittgensteinaidd i'r Gwrthwynebiadau yn erbyn Perthynoledd leithyddol	50
Casgliad	52
Pennod 3: Beirniadaeth Fethodolegol o Chomsky: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd leithyddol	54
Cyflwyniad	54
§1. Y Darlun Cyfansoddiadol o Iaith a'i Berthnasedd at Berthynoledd leithyddol	56
§2. Ieithyddiaeth Chomsky a'i Elfennau Cyffredinolaid	59
§3. Eiliwr Occam	61

§4. Yr Egwyddor Anwirio.....	62
§5. Casgliad: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd Ieithyddol a'r Darlun Cyfansoddiadol o Iaith .	65
Pennod 4: Ail-fframio'r Disgwrs Cyfiawnder Ieithyddol yng ngoleuni Perthynoledd Ieithyddol.....	67
Cyflwyniad	67
§1. Dwy Feirniadaeth: Blaenoriaethu Amhriodol Diwylliant Cenedlaethol a Diffyg Democrataidd	69
§1.1 Diffyg Democratiaeth o ganlyniad i Sefydliadu Diwylliant Cenedlaethol	71
§1.2 Perthnasedd y Paradeim Ethno-Symboliaeth	72
§2. Y Gwrthwynebiad 'Essentialeiddio'	73
§3. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol tuag at ddiffiniad Cenedlaetholwyr Rhyddfrydol o Ddiwylliant.....	75
§4. Ateb i'r Gwrthwynebiadau yng Ngolau Perthynoledd Ieithyddol	75
§4.1. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol at Ddarlun Patten o Ddiwylliant	78
§5. Dau Wrthwynebiad Pellach i'r Defnydd o Berthynoledd Ieithyddol fel Dolen Gyswilt.....	80
Casgliad	81
Pennod 5: Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Chenedlaetholdeb Ceidwadol: Gwahaniaethiad Camarweiniol?.....	83
Cyflwyniad	83
§1. Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol fel Ateb i Boblyddiaeth Cenedlaethol	85
§2. Shifftiau yn Nefnydd y Gair 'Rhyddfrydol'.....	87
§3. Y Gwahaniaethiad Rhwng Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Chenedlaetholdeb Geidwadol... ..	89
§4. Awdurdod Sefydliadol, Rhesymoliaeth, ac Elitiaeth	92
§5. Y Sfferau Cyhoeddus a Phreifat	95
§6. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol tuag at y Gwahaniaethiad rhwng Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Cheidwadol.....	96
Casgliad	98
Casgliad.....	100
Llyfryddiaeth	104

Cyflwyniad

Mae'r syniad o iaith fel ceidwad ysbryd y genedl wedi bod yn ran ganolog mewn nifer eang o fudiadau cenedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol. Amrywia'r rhain o ymwrthodiad yr Almaenwyr ag imperialaeth Ffrengig yn y 19eg ganrif, i adfywiad ymwybyddiaeth genedlaethol Gwlad yr Iâ cyn iddynt ennill annibyniaeth rhag Denmarc, i fudiadau gwrth-imperialaidd yr 20fed a'r 21ain ganrif, i fudiadau Pan Affricanaidd ac ôl-drefedigaethol, i genedlaetholdeb Cymreig a Gwyddelig, i enwi ond ychydig (gweler Fichte 1808; Tolkien 1955; Sartre 1962; Fanon 1952; Jones 1966; Sartre 1965).

Yn ddi-ffael, caiff perthynoledd ieithyddol, sef y syniad bod iaith yn adlewyrchu diwylliant ei siaradwyr ac yn effeithio ar eu cyflyrau meddyliol, ei drin fel egwyddor sylfaenol yn y mudiadau hyn. Y gred gyffredinol yw bod iaith yn gyfrwng ac yn angor i ddiwylliant Pobl a'i barhad; ac felly mae angen ei ddiogeli, adfywio, hybu, a'i feddiannu er mwyn ymledu ymwybyddiaeth genedlaethol neu ddiwylliannol. Pan hawlia Fanon (1952), er enghraifft, bod cymhlethdod taeog pobl ddarostyngedig yn cael ei luosogi wrth i'r pwerau imperialaidd arddodi eu hiaith arnynt, a thrwy hynny erydu eu diwylliant, mae'n ensynio bod iaith yn ystorfa diwylliant: mae imperialaeth ieithyddol yn *rhwym* o achosi dadwreiddio diwylliannol.

Os yw perthynoledd ieithyddol yn wir, yna nid oes angen edrych yn bell i weld sut mae iaith yn adlewyrchu diwylliant. Mae perthynoledd ieithyddol wedi'i seilio ar y ddwy egwyddor ganlynol. (1) mae yna wahaniaethau mewn cysyniadau ar draws ieithoedd gwahanol; a (2) mae'r cysyniadau hyn yn effeithio ar wybyddiaeth / meddyliau'r siaradwyr. Os yw'r ddwy egwyddor hyn yn wir, yna mae'n dilyn bod prosesau meddyliol y siaradwyr yn amrywio yn ôl pa iaith maent yn siarad. Yn ôl y ddamcaniaeth hon, felly, mae yna gysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant, a chyflyrau meddyliol. Fel y dyweda Ngũgĩ wa Thiong'o: 'Language as culture is the collective memory bank of a people's experience in history. Culture is almost indistinguishable from the language that makes possible its genesis, growth, banking, articulation, and indeed its transmission from one generation to the next' (1986: 15). Efallai nad yw'n syndod, felly, bod iaith wedi cael ei feddiannu mor aml er mwyn hybu ymwybyddiaeth cenedlaetholgar. Byddai'r cysylltiad annatod hwn rhwng iaith, diwylliant, a chyflyrau meddyliol yn helpu esbonio pam bod grwpiau ieithyddol a diwylliannol megis y Cymry, y Gwyddelwyr, y Quebecois, y Basgwyr, a'r Maori a.y.y.b. wedi blaenoriaethu iaith i'r fath radd yn eu hymgyrchoedd dros gydnabyddiaeth diwylliannol a gwleidyddol.

Ond yn affodus, does dim o'r llenyddiaeth hwn (heb law Herder – dychwelwn ato ym mhennod 1) yn cynnig unrhyw gyfiawnhad rhesymegol nag unrhyw fanylder craff o berthynoledd ieithyddol. Yn hytrach, maent yn ei ragdybio'n llwyr. Mae hyn yn creu tipyn o drafferth, gan nad oes cytundeb rhemp ymhlith ieithyddwyr nag anthropolegwyr ynglŷn â gwirionedd perthynoledd ieithyddol (Pinker 1994, 2002); ac felly nid yw'n addas nac yn weddus i'w ragdybio fel petai dim angen ei gyfiawnhau. Yn wir, mae perthynoledd ieithyddol yn mynd yn groes i nifer o ddamcaniaethau ieithyddol ynglŷn â natur seicolegol honedig iaith, megis damcaniaethau Noam Chomsky (1965, 1986) a Jerry Fodor (1975, 1983), yn ogystal â Carruthers (2006), Keller & Keller (1996), Carey (2009), and Spelke (2003).

Mae'r methiant hwn i gyfiawnhau perthynoledd ieithyddol yn broblem nid yn unig o safbwynt academiaidd; ond hefyd o safbwynt gwleidyddol. Os yw'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant yn ansicr, yna nid yw'n amlwg bod llawer o sail i'r mudiadau cenedlaetholgar ac amlddiwylliannol sy'n hyrwyddo'r cysylltiad hwn, a'i ddefnyddio i hybu ymwybyddiaeth llwythol. Pam buddsoddi cymaint o amser ac adnoddau mewn i raglenni cynllunio ieithyddol drudfawr, neu'r ymdrech i hawlio

cydnabyddiaeth wleidyddol o ieithoedd lleiafrifol, os nad yw iaith hyd yn oed yn ran sylweddol o ddiwylliant, ond yn hytrach yn ddim ond dyfais offerynnol er mwyn cyfathrebu gwybodaeth?

Yn wir, heb gyfiawnhad rhesymegol dros berthynoledd ieithyddol, mae'n anodd gweld sut y gellir cyfiawnhau polisiau iaith sy'n hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol o gwbl ar sail hunaniaeth ddiwylliannol. Oherwydd os mai dyfais offerynnol yn unig yw iaith, yna gellid cyfleu'r union wybodaeth mewn unrhyw iaith arall, ac ni fyddai unrhyw golled ystyr yn digwydd o ganlyniad: ni fyddai disodli un iaith gydag un arall yn arwain at unrhyw golled ddiwylliannol sylweddol. Ymhellach, hyd yn oed os tybiwn bod iaith yn elfen bwysig o ddiwylliant, yna heb yr esboniad cadarn y rhoddir perthynoledd ieithyddol dros sut a pham mae hyn yn wir, erys yn aneglur pam y dylid blaenoriaethu iaith o gwbl dros elfennau eraill o ddiwylliant. Os mai dim ond un agwedd o ddiwylliant ymhlith eraill yw iaith, yna pam rhoi mwy o bwyslais arno nag e.e. danteithfwyd cenedlaethol mewn achosion o hyrwyddo diwylliant cenedlaethol?

Cymerwch strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn nodi ar sawl achlysur bod y Gymraeg yn 'elfen allweddol' ac yn 'rhan annatod' o ddiwylliant cyfoes Cymru (Llywodraeth Cymru 2017: 60-66). Ac eto, yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, mae llai na thraean o drigolion Cymru yn gallu siarad Cymraeg: 29% ar hyn o bryd (Llywodraeth Cymru 2021). Ymhellach, dengys Astudiaeth Etholiad Cymru 2016 mai dim ond 27% o boblogaeth Cymru sy'n ystyried y Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth Gymreig, a dim ond 3% sy'n ystyried mai dyma'r elfen *bwysicaf oll* (Scully 2018). Felly heb gyfiawnhad dros natur annatod iaith a diwylliant, pam y dylai etholwyr Cymru gael eu arwain ymlaen gan y strategaeth? Beth am hyrwyddo e.e. Bara Brith yn lle hynny fel ffordd llawer symlach a llai costus o ledaenu diwylliant cenedlaethol?

Neu ystyriwch ddyrchafiad aelod-wladwriaethau Cymuned Dwyrain Affrica (EAC) o Swahili i statws iaith swyddogol. Yn 2015, sefydlodd Tanzania yr iaith Swahili fel prif iaith addysg ysgolion cyfun, ac yn 2019 llofnodwyd Memorandum Cyd-ddealltwriaeth rhwng Tanzania a De Sudan i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Swahili yn ysgolion De Sudan; a rhwng Kenya a De Affrica i addysgu Swahili yn ysgolion De Affrica. Mae'r cymhellion hyn yn ran o ymrwymiad ehangach yr Undeb Affricanaidd i hyrwyddo Swahili fel *lingua franca*; sydd ei hun yn enghraifft o ddad-drefedigaethu ieithyddol ac adfer diwylliant. Yn aml, caiff y drafodaeth wleidyddol ynghylch cydnabyddiaeth a dyrchafiad Swahili y gwladwriaethau Affricanaidd hyn ei fframio yn nhermau hybu hunaniaeth Affricanaidd, sbarduno ymwybyddiaeth, ac integreiddio diwylliannol. Yng nghynhadledd Plaid EFF De Affrica yn 2018, er enghraifft, honnodd Llywydd y blaid, Julius Malema:

“Decolonising Africa starts with [...] doing away with colonial symbols and colonial ways of doing things. We must [...] have a language that unites Africans like kiSwahili [which can] become a continental language and we do away with speaking to each other in English [...] Kiswahili has the power to expand to countries that never spoke it and has the power to bring Africans together. [...] We are confident that the teaching of Kiswahili in South African Schools will help to promote social cohesion with our fellow Africans”¹.

Os yw perthynoledd ieithyddol yn wir, yna mae'n siŵr bod y mesurau adeiladu cenedl, adfywio iaith a dad-drefedigaethu uchod yn briodol, gan fod hyrwyddo iaith yn lledaenu diwylliant, ac felly'n debygol o feithrin mwy o undod diwylliannol a chydlyniant cymdeithasol. Ar y llaw arall, os nad yw perthynoledd ieithyddol yn wir, a bod iaith dim ond yn ddyfais offerynnol, yna mae'r mesurau hyn, i'r

¹ <https://www.iol.co.za/news/south-africa/malema-wants-language-to-unite-africans-as-kiswahili-gets-depts-nod-17141694>

graddau y mae eu prif gymhellion yn rai diwylliannol, yn ddiangen. Hynny yw: ni fyddai hyrwyddo iaith benodol yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ffyniant y diwylliant cysylltiedig. Gan fod y cymhellion adeiladu cenedl a dad-drefedigaethu uchod yn dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol, felly, rhaid gofyn: heb gyfiawnhad rhesymegol o'i plaid, a ydynt megis tai ar dywod, neu'n seiliedig ar ffug-ymwybyddiaeth fel petai?

O ran y llenyddiaeth academaidd gyfoes ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth wleidyddol o ddiwylliannau cenedlaethol a lleiafrifol, mae llawer ohono'n hyrwyddo dadleuon o blaid polisïau iaith amlieithog megis statws gyfartal gan sefydliadau cyhoeddus, ac mae'r rhain oll yn seiliedig ar ystyriaethau hunaniaeth (gweler e. e. Kymlicka & Patten 2003; Patten 2014, 2019; De Schutter & Robichaud (2015); Fishman (1999), Mai (2014) a Réaume (2000). Dibynna'r dadleuon hyn ar ddarlun 'gyfansoddiadol' am iaith. Fel y mae De Schutter yn ei fynegi - 'language constitutes who I am, that my language and my identity are inextricably intertwined, that I cannot have concepts or views for which I do not have language' (2007: 8). Hawlia'r darlun hwn bod iaith wedi'i chysylltu'n anorfod â hunaniaeth ddiwylliannol a phersonol pobl; ac ar ben hynny, mae cydnabyddiaeth gyhoeddus o'r iaith honno yn angenrheidiol i'w e.e. urddas, hunan-barch, neu i'w rhyddid personol. Ar sail y farn hon, gallwn weld mai un o'r dadleuon mwyaf cyffredin yn y llenyddiaeth yw'r syniad y dylai gwladwriaethau hyrwyddo polisïau iaith lleiafrifol ar sail eu cyfraniad at wireddu'r nodau lles rhyddfrydol hyn.

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth academaidd gyfoes hon yr un mor atebol i'r gwrthwynebiad bod diffyg cyfiawnhad rhesymegol, neu fynegiant digon manwl, o'r darlun cyfansoddiadol o iaith ynddo, er bod gwirionedd y dadleuon a geir yn y llenyddiaeth yn dibynnu arno. Er bod y rhan fwyaf ddamcaniaethwyr hawliau iaith ac amlddiwylliannedd yn cytuno bod gan y rhan fwyaf o bobl ymlyniad sylweddol i'w hunaniaeth ddiwylliannol, a bod iaith yn un o brif elfennau eu diwylliant, nid oes consensws clir yn eu plith ynghylch sut na pham mai dyma'r sefyllfa. Er bod rhai eithriadau *cyfyngedig* fan yma, megis Peled & Bonotti (2016) a Taylor (2016), nid oes fawr ddim sôn am berthynoledd ieithyddol o gwbl, heb sôn am gyfiawnhad. Nid ydynt ychwaith yn cynnig unrhyw esboniad arall ynglŷn â pham y dylid ystyried iaith yn un o elfennau sylweddol diwylliant. Mae'r diffyg eglurder hwn ynglŷn â beth yn union sy'n esbonio neu'n cyfiawnhau'r darlun cyfansoddiadol yn ei adael yn ddi-sail: erys y llenyddiaeth sy'n apelio ato ar seiliau sigledig. Efallai nad yw'n syndod, felly, fod erthyglau diweddar wedi'i cyhoeddi sy'n dadlau o blaid troi i ffwrdd o ddadleuon o blaid sffêr gyhoeddus amlieithog sy'n seiliedig ar hunaniaeth, a'i disodli o blaid dadleuon sy'n pwysleisio manteision offerynnol amlieithrwydd (e.e. Rubin 2017). Yn wir, heb ddolen gyswllt sy'n cyfiawnhau ac esbonio perthynoledd ieithyddol, mae'n anodd gweld pam y dylai dadleuon sy'n seiliedig ar hunaniaeth gael llawer o sylw o gwbl yn y llenyddiaeth gyfoes ar gyfiawnder ieithyddol.

Fy nadl ganolog i yn y thesis hwn yw bod fframio'r darlun cyfansoddiadol o iaith yn nhermau perthynoledd ieithyddol yn fanteisiol, ac yn wir, yn angenrheidiol er mwyn meithrin digon o eglurder a hygredd yn y llenyddiaeth ar gydnabyddiaeth wleidyddol o hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol. Y rheswm am hyn yw mai perthynoledd ieithyddol yw'r mynegiant mwyaf uniongyrchol a thrylwyr o'r darlun cyfansoddiadol o iaith. Nid yn unig yw perthynoledd ieithyddol wedi bod yn rhan ganolog o weithiau sylfaenol Herder yn y maes astudiaethau cenedlaetholdeb (ac felly mae'n parhau i fod yn berthnasol tu hwnt i ddilyniant a threftadaeth hanesyddol y maes). Yn ogystal â hyn, perthynoledd ieithyddol – fel y gwelwn ym Mhennod 2 – yw'r unig seilwaith damcaniaethol neilltuol, sydd wedi'i astudio'n helaeth a'i roi o dan y chwyddwydr o safbwynt empiraidd, sy'n cyfiawnhau ac esbonio natur y darlun cyfansoddiadol o iaith. Fel canlyniad, mae'n bosib apelio'n helaeth – fel y gwnaiff y thesis hwn - ar y cyfoeth helaeth o ddata arbrofol sydd wedi cynyddu yn ystod y ddau

ddegawd diwethaf er mwyn ei wireddu; tra ni ellir gwneud yr un peth ar gyfer y mynegiant mwy llac o'r darlun cyfansoddiadol o iaith a geir yn y llenyddiaeth cyfoes ar gyfiawnder iaith.

Prif bwrpas y thesis hwn, felly, yw darparu'r ddolen gyswllt goll drwy (1) ddatblygu cyfiawnhad rhesymegol ac empiraidd o blaid perthynoledd ieithyddol, a (2) esbonio goblygiadau hyn ar gyfer y dadleuon cyfoes sy'n ymwneud â chyfiawnder ieithyddol ac ymgorfforiad sefydliadol o ddiwylliant cenedlaethol. Caiff y traethawd ymchwil hwn ei rannu mewn i ddwy brif ran, sydd oll yn berwi lawr i bum pennod ganolog. Mae'r rhan gyntaf yn ymdrin â thystiolaeth empirig a dadleuon athronyddol o blaid, ac yn erbyn, perthynoledd ieithyddol. Gwneir hyn mewn ffordd sy'n (1) egluro ble mae'r anghytundebau sylfaenol rhwng dwy ochr y ddadl; a (2) yn esbonio sut gellir cyfuno dadleuon a gwahaniaethiadau Wittgensteinaidd, ynghyd â thystiolaeth empirig ddiweddar, er mwyn cyfiawnhau perthynoledd ieithyddol, tra ar yr un pryd dileu'r prif rwystr i'w dderbyn: gwaddol ieithyddiaeth Chomskyaidd. Archwilia ail ran y traethawd ymchwil hwn berthnasedd perthynoledd ieithyddol ar gyfer y dadleuon cyfoes sy'n ymwneud â chyfiawnder ieithyddol a chenedlaetholdeb rhyddfrydol – sydd, fel y gwelwn, yn gorgyffwrdd a'i gilydd².

² Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol yw'r farn bod rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb yn gyson â'i gilydd, a bod ymgorfforiad sefydliadol diwylliant cenedlaethol yn helpu i feithrin y cydlyniant cymdeithasol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau rhyddfrydol / cyfiawnder cymdeithasol megis cyfiawnder dosbarthol, rhyddid personol, ac ystyriaethau lles eraill.

Pennod 1: Perthynoledd ieithyddol a'r Darlun Cyfansoddiadol o iaith: Trosolwg Hanesyddol

Cyflwyniad

Mae'r bennod ragarweiniol hon yn rhoi trosolwg o (1) y cyd-destunau hanesyddol a diwylliannol lle mae perthynoledd ieithyddol wedi chwarae rhan ganolog mewn mudiadau cenedlaetholgar; a (2) y llenyddiaeth genedlaetholgar a damcaniaethol sy'n dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol. Bydd y trosolwg hwn yn datblygu mewn trefn gronolegol. Bydd yn dechrau gyda Herder gan fod ei waith wedi bod yn sylfaenol yn y meysydd o astudiaethau cenedlaetholgar a pherthynoledd ieithyddol; yna, y gwaith gwrth/ôl-drefedigaethol sy'n beirniadu imperialaeth ieithyddol a'i ddrwg-effeithiau. Dilynir hyn gan archwiliad manwl o genedlaetholdeb ieithyddol Cymreig: yma, bydd gweithiau J.R. Jones (a ddarparodd lawer o'i ddeunyddiau deallusol) yn derbyn archwiliad trylwyr. Yn olaf, edrychaf ar y dadleuon cyfiawnder ieithyddol cyfoes a chenedlaetholdeb rhyddfrydol.

Mae'r bennod wedi'i strwythuro yn y modd canlynol. Archwilia §1 gyfraniad sylfaenol gwaith Herder a Fichte i astudiaethau gwleidyddol cenedlaetholgar, perthynoledd ieithyddol, a'r gorgyffwrdd rhyngddynt. Archwilia §2 y llenyddiaeth gwrth/ôl-drefedigaethol sy'n tynnu ar berthynoledd ieithyddol a'r darlun cyfansoddiadol o iaith i gyfleu graddau'r dadleoli diwylliannol a seicolegol a achosir gan imperialaeth. Mae §3 yn cynnwys astudiaeth trylwyr o waith J.R. Jones, ac archwilir hyn yng nghyd-destun cenedlaetholdeb Cymreig yr 20fed ganrif. Ceir hefyd gymhariaeth o brif themâu J.R. Jones â themâu cyfatebol y Rhamantwyr Almaenaidd, yn ogystal â awduron gwrth-drefedigaethol. Mae §4 yn esbonio'r trywyddau mae'r drafodaeth wedi cymryd ers hynny yn y llenyddiaeth cyfiawnder ieithyddol a chenedlaetholdeb rhyddfrydol ar ddiwedd yr 20fed ganrif hyd heddiw. Yma, nodaf ddadleuon sy'n gorgyffwrdd â syniadau damcaniaethwyr comiwnitariaeth, cenedlaetholwyr rhyddfrydol a chyfiawnder ieithyddol, er mwyn dadlau: heb gydnabyddiaeth o berthnasedd a manteision eglurhaol perthynoledd ieithyddol, mae eu dadleuon o blaid polisïau amlieithog a chydabyddiaeth ddiwylliannol sy'n dibynnu ar ystyriaethau hunaniaeth ar seiliau ansicr.

§1. Seiliau Damcaniaethol Perthynoledd Ieithyddol: Herder a Rhamantiaeth Almaenaidd

Gellir olrhain perthynoledd ieithyddol fel damcaniaeth gynhwysfawr yn ôl i waith athronwyr Rhamantaidd yr Almaen; yn arbennig Hamann (1730-1788), Herder, (1744-1803), Fichte (1762-1814), a Wilhelm von Humboldt (1767-1835). Yn ôl, Von Humboldt, er enghraifft, iaith yw'r 'formative organ of thought... Thought and language are therefore one and inseparable from each other' (Von Humboldt 1999 [1836]: §9); yn ogystal â 'the external manifestation of the minds of the people. Their language is their soul, and their soul is their language' (Humboldt 1971: 24). Ac yn ôl Fichte, '...we give the name of People to men whose organs of speech are influenced by the same external conditions, who live together, and who develop their language in continuous communication with each other' (Fichte 1808: 56). Gan mai gwaith Herder sydd wedi bod yn fwyaf sylfaenol yn y maes hwn (Forster 2010), byddaf yn crynhoi ei brif ddadleuon o blaid perthynoledd ieithyddol, yn ogystal â'r dadleuon cysylltiedig a ddatblygodd o blaid hunan-lywodraethiant diwylliannol, a chyfatebiaeth / gorgyffwrdd y genedl a'r wladwriaeth ar sail yr ystyriaethau ieithyddol hyn.

Dadleuodd Herder (1784) fod gan bob gwlad ei hunaniaeth ddiwylliannol unigryw ei hun (Volksgeist) sydd wedi'i hymgorffori yn eu priod ieithoedd. Nid oes unrhyw ddiwylliant cenedlaethol yn well nag unrhyw un arall, a dylai pob gwlad fynegi ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun, yn hytrach na

chydymffurfio ag e.e. syniadau meddylwyr Ymoleuad Ffrengig megis Voltaire (1756) a honnodd bod pob diwylliant yn y pen draw yn datblygu ar hyd llwybrau tebyg sy'n arwain o farbariaeth i wareiddiad; neu'r syniad y byddai pob Pobl yn elwa o'r un math llinelllog o 'gynnydd' (Barnard 1969).

Mae'r syniad o berthynoledd ieithyddol eisoes yn ymhlwg yn y syniad uchod o *Volksgeist*: os yw'r *Volksgeist* wedi'i wreiddio yn iaith Pobl, a bod gan bob Pobl ei gymeriad cenedlaethol unigryw ei hun, yna ceir awgrym gref bod iaith yn 'ddrych ysbryd y bobl', fel petai. I'r perwyl hwn, ysgrifenna Herder : 'Has a nation... anything more precious than the language of its fathers? In it dwells its entire world of tradition, history, religion, principles of existence; its whole heart and soul' (dyfynnwyd yn Berlin 1976: 165).

Ond yn hytrach na jest datgan a chymryd gwirionedd perthynoledd ieithyddol yn ganiataol, fodd bynnag, datblygodd Herder, yn ei waith yn rhychwantu 1764-1799, ddwy egwyddor sy'n ganolog i'r syniad, yn ogystal â dadleuon i'w cyfiawnhau . Mae'r cyntaf yn ymwneud â dibyniaeth hanfodol meddwl ar iaith; mae meddwl ac iaith yn annatod o'i gilydd yn yr ystyr mai dim ond drwy'r cysyniadau a ymgorfforir mewn iaith y gellir meddwl:

[Language is] the form of cognition, not merely in which but also in accordance with which thoughts take shape, where in all parts of literature thought sticks [*klebt*] to expression, and forms itself in accordance with this . . . Language sets limits and contour for all human cognition (Herder 1767-8, dyfynnwyd hefyd yn Forster 2010: 56).

Ail egwyddor Herder yw bod ystyr ieithyddol yn tarddi o ddefnydd iaith: mae'r ffyrdd confensiynol y defnyddir geiriau'n o fewn cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol penodol yn penderfynu eu hystyron. 'Let us seek the word's concept [...] according to the clear use [Gebrauch] of the name in its various times' (Herder 1782-3). Os mai ystyr gair yw ei ddefnydd mewn iaith, a bod meddwl yn dibynnu ar iaith, mae'n dilyn bod prosesau meddwl y siaradwyr yn wahanol yn ôl pa iaith y maent yn ei siarad (ar yr amod bod gwahanol ieithoedd yn ymgorffori cysyniadau gwahanol); h.y. perthynoledd ieithyddol. Gan ein bod yn meddwl drwy gysyniadau, a bod y cysyniadau hynny'n tarddi o arferion diwylliannol, mae'n dilyn ein ffyrdd i feddwl yn mynd law-yn-llaw gyda agweddau diwylliannol ein cymuned ieithyddol.

Mae yna dair amod pellach i ddarlun penodol Herder o berthynoledd ieithyddol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r berthynas rhwng canfyddiad a chysyniadau; mae'r ail yn ymwneud â 'myfyrio' (*Besonnenheit*); mae'r trydydd yn ymwneud â'r syniad o iaith fel cyfrwng ar gyfer parhad diwylliannol hanesyddol a thraws-genhedlaethol. O ran yr amod gyntaf, y berthynas rhwng canfyddiad a chysyniadau, roedd gan Herder ddarlun a elwir gan Forster (2010: 71-2) yn 'lled-empirig'. Hynny yw: yn debyg i'r paradeim empirig ag arddelwyd gan Locke a'i gyfoedion, lle mae syniadau i bob diben yn gopïau o wrthrychau rydym yn canfod trwy ein synhwyrâu (Locke 1689), honnodd Herder fod cysyniadau wedi'u gwreiddio yn y pen draw mewn canfyddiad synnwyr. Yn wreiddiol, tarddodd pob enghraifft o feddwl 'from and through sensation, and also still bears, despite all distillation, rich traces of it' (Herder 2002 [1778]: 242).

Yn ôl y paradeim empirig hwn, mae gwrthrychau allanol yn effeithio ein synhwyrâu, gan beri i ni eu profi; ac wedi hynny, mae ein meddyliau'n storio copi o'r gwrthrych ar ffurf delwedd feddyliol. Wedyn, rydym yn galw'r ddelwedd hon i gof ym mhob achos yn y dyfodol lle'r ydym yn meddwl amdano. Er enghraifft, pan welwn y lliw coch i ddechrau, mae ein meddyliau'n creu ac yn storio delwedd feddyliol / copi o'r lliw coch. Y ddelwedd feddyliol hon yw ein cysyniad o goch; ac mae meddwl am y lliw coch yn gyfystyr a ail-alw'r ddelwedd feddyliol honno i lygad ein meddwl, fel petai. Felly y berthynas rhwng iaith a meddwl yw mai labeli yn unig yw geiriau ar gyfer syniadau ym

meddwl y siaradwr: 'Words in their primary or immediate signification signify nothing but the ideas in the mind of him that uses them' (Locke 1689: III.2.2). Yn ôl y darlun hwn, ystyr gair yw'r syniad sy'n cyfateb iddo, fel bod dealltwriaeth ieithyddol yn gwbl gyfystyr a chysylltu gair penodol â'i syniad cyfatebol.

Yn wahanol i Locke (1689) a gweddill yr Empiriwyr Prydeinig a gredai fod syniadau sy'n tarddi o ganfyddiad synnwyr yn *ddigonol* ar gyfer deall iaith a chysyniadau, dadleuodd Herder i'r gwrthwyneb fod ein profiadau canfyddiadol a'n cysyniadau yn dibynnu'n anochel ar iaith (Herder 1784–91, 1767–8, 1764). Er bod yr Empiriwyr Prydeinig yn tybio bod meddwl yn rhagflaeni iaith yn y synnwyr bod canfyddiad yn dod yn gyntaf, yna cysyniadau, yna iaith, dadleuodd Herder i'r gwrthwyneb fod meddwl o reidrwydd yn annatod o iaith (Forster 2002: 178). Iaith sy'n darparu'r fframwaith sy'n integreiddio'r data a gaffaelwyd drwy ganfyddiad synnwyr mewn i gysyniadau dealladwy, sydd yn ei dro yn ein galluogi i ganfod a meddwl mewn modd cydlynol, trefnus (Herder 1784–91).

Galwodd Herder (1772) y broses hon o integreiddio'r data a gaffaelwyd drwy ganfyddiad i gysyniadau dealladwy yn *Besonnenheit* ('myfyrio'). Un o brif swyddogaethau *Besonnenheit* yw bod iaith yn ein galluogi i adnabod gwrthrychau drwy eu rhoi mewn ffocws. Y syniad sylfaenol yw y byddai canfyddiad heb ei gyfryngu gan iaith yn rhy gyfoethog ac amhenodol: byddai ein synhwyrâu'n cael eu trechu gan ddilyw o ddata. Heb *Besonnenheit*, byddem yn cael ein trechu gan orlwythiad o'r synhwyrâu, yn hytrach na phrofi'r realiti trefnus a brofwn yn lle hynny. Yn wir, heb yr amrywiaeth o gysyniadau a ddarperir gan iaith, ni fyddem yn gallu adnabod na gwahaniaethu'n iawn rhwng gwahanol wrthrychau, gan y byddai ei nodweddai a'i ffiniau yn amhenodol (Herder 1772). *Besonnenheit* yw'r effaith lle mae iaith yn ein galluogi i ffocysu mewn ffordd sy'n blaenoriaethu gwybodaeth berthnasol dros wybodaeth amherthnasol; ac o ganlyniad yn ein galluogi i weld pethau fel yr hyn yr ydynt, mewn modd sydd yn cyd-fynd â'n cysyniadau. Dengys Herder gyda'r enghraifft ganlynol:

'Who can speak shapes? Who can sound colors? He takes the sheep under his groping hand [...] The sheep bleats! There, a characteristic mark of itself tears itself free from the canvas of the colored picture in which so little could be distinguished—has penetrated deeply and distinctly into the soul. 'Aha!' [says the language learner] 'Now I will know you again' (Herder 1772: 98, dyfynnwyd hefyd yn Ferber 2010: 218).

Mae iaith, felly, yn galluogi ffurfweddiad (*Gestalt*) o ddata a fyddai fel arall yn amhenodol er mwyn creu 'undod allan o lluosogrwydd' 'unity out of multiplicity' (Ideas 118). Mewn astudiaethau seicolegol cyfoes, rhennir hyn mewn i dair proses (sy'n gorgyffwrdd), sef pwysoli sylw (attentional weighting), dysgu canfyddiadol (perceptual learning), a phrosesu ffurfweddu (configural processing). Pwysoli sylw yw'r broses lle rhoddir sylw i'r rhannau o'r gwrthrych sydd fwyaf perthnasol i'r dasg dan sylw, yn enwedig pan fydd yn golygu gwneud gwahaniaethu neu gategoreiddio lefel uchel (Ransom 2020). Dysgu canfyddiadol yw'r broses lle mae gwybodaeth arbenigol am wrthrych penodol yn arwain at newidiadau parhaus i'n systemau canfyddiadol sy'n ein galluogi i lunio barn gyflym a dibynadwy amdano (ibid). Yn gysylltiedig, mae prosesu ffurfweddu yn golygu gweld y berthynas rhwng nodweddion gwrthrych mewn modd cydlynol er mwyn sicrhau *Gestalt* unedig.

Ystyriwch y broses o ganfod wyneb, er enghraifft: rydym byth a hefyd yn gwneud penderfyniadau 'snap' ynghylch emosiynau, personoliaethau, rhinweddau atyniadol (a gwrth-atyniadol) pobl ar sail eu hwyneb; ac mae'r dyfarniadau hyn yn aml yn wahanol yn ôl normau diwylliannol, cyfarwyddra, a chwaith unigol. Mae'r normau diwylliannol gwahanol hyn yn arwain at wahaniaethau yn y ffordd y caiff sylw ei ddsbarthu ar draws nodweddion yr wyneb (pwysoli sylw), gan effeithio felly ar ba mor amlwg neu awtomatig yr ydym yn gweld rhai nodweddion ar draul eraill

(dysgu canfyddiadol). Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at wahaniaethau mewn prosesu ffurfweddu. O ganlyniad, mae *Gestalt* wyneb person yn aml yn wahanol rhwng unigolion yn ôl diwylliant, arferion, a chonfensiynau esthetig, ymhlith agweddau eraill. Enghraifft synnwyr cyffredin arall o *Besonnenheit* yw chwaraeon. Mae arbenigwr sglefrio ia, er enghraifft, yn gweld perfformiad lefel elitaidd yn wahanol i berson sydd heb ddim arbenigedd: mae gwybodaeth yr arbenigwr am y gwahanol dechnegau dan sylw yn ei alluogi i weld y manylion mewn modd mwy amlwg. Mae canfyddiad synnwyr, felly, yn cael ei gyfryngu gan gysyniadau: mae gwahaniaethau mewn cysyniadau (a'r ieithoedd sy'n eu hymgorffori) yn arwain at wahaniaethau cyfatebol mewn canfyddiad synnwyr.

Ail swyddogaeth *Besonnenheit* yw ei fod yn cynnwys syniad o 'gywirder' ieithyddol sy'n berthnasol i'r hil ddynol yn unig, ac sydd yn rhoi iaith yn gwbl ar wahân o ddulliau cyfathrebu ymhlith anifeiliaid. Er y gall anifeiliaid ymateb i bethau o'u cwmpas, ni allant amgyffred pethau fel yr hyn ydynt heb iaith. Mae iaith yn galluogi pobl i ddisgrifio, ac mae pob ymadrodd disgrifiadol naill ai'n iawn neu'n anghywir. Mae'r cywirdeb neu'r anghywirdeb yn dibynnu ar beth yw nodweddion y gwrthrychau a ddisgrifiwyd yn yr iaith. Mae'n nodwedd angenrheidiol o iaith bod datganiadau'n atebol i wirionedd: wrth siarad, rydym yn ddi-ffael yn atebol i (an)wirionedd ein datganiadau; ac mae'r gwirionedd neu anwirionedd yn dibynnu yn eu tro ar y nodweddion diffiniedig. Mewn gwrth-gyferbyniaeth, mae anifeiliaid dim ond yn ymateb i signalau presennol er mwyn cyflawni eu nodau. Nid yw hyn yn gofyn am unrhyw sensitifrwydd i'r mater o gywirdeb, yn wahanol i ddefnyddio iaith (Herder 1772). Mae *Besonnenheit*, felly, yn sicrhau bod iaith a realiti mwy neu lai yn cyfateb i'w gilydd.

Un agwedd bellach ganolog i ddarlun Herder o berthynoledd ieithyddol yw bod iaith wedi'i wreiddio'n hanesyddol. Nid yw iaith yn datblygu mewn gwagle; yn hytrach, mae'n datblygu drwy gwrs hanes er mwyn ymgorffori cysyniadau, trosiadau ac idiomau ei siaradwyr i raddau cynyddol. Ysgrifenna Herder: 'the whole soul, the whole manner of thinking, of [a person's] begetters gets communicated to him with the language' (PW 142, fel y dyfynnir yn Patten 2010: 665).

Ystyriwch, er enghraifft, yr ymadrodd cyffredin Saesneg 'taken aback', sy'n cyfeirio at y teimlad o gael eich synnu neu eich tramgwyddo. Yn wreiddiol, tarddodd ystyr canolog y term hwn o'r llynges: dywedwyd bod llong wedi'i 'chymryd yn ôl' pan gafodd ei hwyliau eu chwythu'n sydyn yn erbyn y mastiau oherwydd newid annisgwyl yng nghyfeiriad y gwynt, fel bod yr hwyliau a'r mastiau a oedd yn eu cefnogi mewn peryg o chwalu. Neu cymerwch ymadroddion gan Shakespeare megis 'breaking the ice' a 'faint-hearted' (*Taming of the Shrew* a *Henry VI*, yn y drefn honno). Dengys y rhain ymhlith enghreifftiau di-ri eraill sut mae iaith yn ymgorffori gorffennol diwylliannol ei siaradwyr: adlewyrchir bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol y Llynges Brydeinig a Shakespeare, er enghraifft, mewn Saesneg cyfoes bob dydd. Er efallai nad yw'r rhan fwyaf o siaradwyr Saesneg yn meddwl yn benodol am y Llynges Brydeinig neu Shakespeare wrth ddefnyddio ymadroddion o'r fath, mae ffaith eu defnydd rhemp yn dangos sut mae cysyniadau a gronwyd yn hanesyddol yn cael eu cywasgu i iaith, gan roi fframweithiau cysyniadol parod i'r siaradwyr.

Mae'r dimensiwn hanesyddol hwn i berthynoledd ieithyddol yn cynyddu'r gradd y mae iaith yn ymgorffori diwylliant i raddau sylweddol. Nid nodweddion diwylliannol presennol y siaradwyr yn unig sydd wedi'i cywasgu mewn i'r iaith; mae'r iaith hefyd yn cronni cyfanswm y cysyniadau a'r ymadroddion sydd wedi goroesi trwy gwrs hanes ei siaradwyr. Dyma sut gellir dweud bod iaith yn ffynhonnell parhad diwylliannol traws-genhedlaethol: mae ei ddefnydd parhaus yn sicrhau bod y cysyniadau sy'n benodol i ddiwylliant ei siaradwyr yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, gan atgyfnerthu parhad diwylliannol. Nid yw hyn yn awgrymu bod iaith yn ffenomenon statig: mae iaith yn ddeinamig ac ystwyth, ac yn dibynnu bron yn ddi-ffael ar y cyd-destun: mae geiriau benthg, newidiadau cysyniadol, a throsiadau benthg yn rhan o'i diffiniad. [Yn wir, mae Herder yn cydnabod y rhain fel arwyddion o ddiwylliant byw, iach (SW 5: 134-35)]. Doedd y gair 'microaggression', er

enghraifft, ddim yn bodoli tan y 1970au; ac roedd y gair 'trans' yn arfer golygu 'ar draws' heb unrhyw amheuaeth, ond erbyn hyn mae ei ddefnydd cyfoes yn gyfystyr a thraws-rywioldeb. Mae newidiadau diwylliannol, felly, yn arwain at newidiadau ieithyddol cyfatebol. Er hynny, erys y ffaith bod newidiadau cysyniadol o'r fath yn digwydd mewn modd graddol a chymharol friwsionllyd; ac maent o reidrwydd yn cael eu hintegreiddio o fewn cyd-destun fframwaith barod yr iaith ehangach, sydd ei hun yn weddol gyson ac wedi'i dreiddio â'r diwylliant hanesyddol.

§1.1 Casgliadau Gwleidyddol Herder

Caiff y dystiolaeth empirig a'r dadleuon dadansoddol pellach o blaid perthynoledd ieithyddol eu harchwilio ym Mhennod 2. Ond hyd yn hyn, gallwn dynnu'r casgliad bod darlun Herder o berthynoledd ieithyddol - sy'n rhagflaenu ieithyddiaeth arbrofol gan ddwy ganrif - yn amlweddol iawn ac yn llawn mewnwelediadau. Beth, felly, yw'r casgliadau gwleidyddol a dynnodd Herder ar sail perthynoledd ieithyddol? Y rhain yw: (1) hunan-lywodraethiant diwylliannol; a (2) dylai ffiniau gwladwriaeth gyfateb a ffiniau cenedl. Yn yr hyn sy'n dilyn, cawn gip ar y rhesymeg y tu ôl i'r ddau gasgliad hyn, a thynnaf sylw at eu cysylltiad anorfod a pherthynoledd ieithyddol.

Yn gyntaf, ystyriwn y ddadl o blaid hunan-lywodraethiant diwylliannol. Roedd Herder yn weriniaethwr democrataidd a bwysleisiodd bwysigrwydd pleidlais i bawb, yn ogystal â thrafodaeth democrataidd: 'it [y wladwriaeth] will hear every voice and will stimulate and awaken the activity of people according to their various tendencies, sensitivities, weaknesses and needs' (Herder SW 17: 122, dyfynnir hefyd yn Spencer 2007: 97). Gweriniaeth ddemocrataidd, yn ôl Herder, yw'r math o lywodraethiant sydd yn fwyaf tebygol o hybu creadigrwydd unigol a chymunedol, yn ogystal â rhyddid, rheswm, a llewyrch, sydd gyda'i gilydd yn gyfystyr â'r hyn a galwodd Herder yn *Humanität* (Barnard 1965: 81; Spencer 2007: 98).

Beth, yn fwy penodol, mae'r cysyniad o *Humanität* yn ei olygu? Yn y bôn, math penodol o hapusrwydd sy'n cyflawni natur ddynol Pobo neilltuol ydyw; ac mae pob unigolyn a diwylliant yn anelu tuag ato. Mae hyn yn golygu 'freely and rationally exerting one's powers and capacities in response to the challenges that one faces, and of experiencing a sense of joy and contentment in the process' (Patten 2010: 671). Mae gan bob Pobl eu safon a'i dehongliad unigryw o *Humanität* (SW 14: 10), sy'n cael ei gyflawni'n raddol trwy eu dewisiadau a'i gweithredoedd mewn ymateb i'w hamgylcheddau diwylliannol, cymdeithasol a naturiol eu hunain. Ymhellach, mae cyflawni *Humanität* yn dibynnu ar gyfathrebu a dysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau diwylliannau eraill (SW13: 117-18).

Mae'r ddadl o blaid hunan-lywodraethiant diwylliannol yn seiliedig ar yr ystyriaethau uchod. Gan fod gan wahanol ddiwylliannau gysyniadau gwahanol o *Humanität*, yn ogystal â gwahanol amodau cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer ei gyflawni, cyd-wladwyr sydd yn y safle gorau i lywodraethu eu hunain. Er bod gwahaniaethau barn sylweddol o fewn gwledydd o ran sut i gyflawni *Humanität*, mae'n debygol, fel y dadleua Patten (2010), y bydd mwy o or-gyffwrdd rhwng cyflyrau hapusrwydd a delfrydau diwylliannol ymhlith cyd-wladwyr nac ar draws gwahanol wledydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd eu hiaith gyffredin, a'i sefydliadau ac amgylcheddau cyffredin. Mewn geiriau eraill, mae'r penderfyniadau a wneir ar y cyd rhwng cyd-ddinasyddion yn fwy tebygol o fod yn effeithiol ac yn llesol i ddatblygiad diwylliannol, ac yn llai tebygol o arwain at gamgymeriadau na phenderfyniadau a wneir gan sawl grŵp diwylliannol gwahanol, neu unben, neu bwerau imperialaidd.

Ar sail yr ystyriaethau hyn, tynnodd Herder'r casgliad pellach y dylai ffiniau gwladwriaeth gyfateb a ffiniau'r genedl (Patten 2010). Mae hyn er mwyn galluogi'r cyd-wladwyr i gyfranogi mewn penderfyniadau ar y cyd, yn gyson â'u buddiannau a'i synhwyrau cyffredin, yn ogystal â'u *Humanität*:

mae ganddynt fwy o'r nodweddion hyn yn gyffredin a'i gilydd nag i gymharu a phobl estron (Herder 2002: 297). 'The most natural state [Staat] is ... one people [Volk], with one national character' (Herder 1966 [1800]: 249). Yn yr un modd, mae diffyg cyfreithlondeb i wladwriaethau a'i ffiniau yn cwmpasu nifer o bobloedd, yn enwedig i'r graddau y maent yn cyfyngu ar allu pobl i benderfynu ar eu materion mewnol a'u datblygiad diwylliannol eu hunain:

'an empire consisting of one nation [*Das Reich Eines Volks*] is a family, a well-ordered household: it reposes on itself, for it is founded on nature, and stands and falls by time alone. An empire forcing together a hundred peoples and a hundred-twenty provinces is a monstrosity and no body of state' (Herder 1966 [1802]: 325, dyfynnir hefyd yn Patten 2010: 659).

Gellir gweld, felly, nad oedd cenedlaetholdeb Herder yn gyfystyr a hiliaeth mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, pwysleisiodd dro ar ôl tro gydraddoldeb rhwng diwylliannau gwahanol, yn ogystal â amddiffyn hawliau pob gwlad i lywodraethu eu hunain tra'n gwrthwynebu gormes o bob math. Fodd bynnag, ni ddylid drysu rhwng hyn a'r syniad bod pob diwylliant yn gwbl ddi-fai fal na fedrwn eu beirniadu o gwbl: '[nations] may have the most sublime virtues in some respects and blemishes in others' (Herder 1877-1913: 505-6). Ymhellach, nid yw pwyslais Herder ar werth diwylliant cenedlaethol yn rhagdybio bod pob gwlad yn unffurf nac unfath chwaith. I'r gwrthwyneb, cydnabodd Herder natur heterogenaidd a deinamig diwylliannau cenedlaethol; a thanlinellodd bwysigrwydd amrywiaeth a chyd-weithredu o fewn a rhwng cenedloedd (Herder 1877-1913: 212).

Ym mha ffordd, felly, mae'r dadleuon gwleidyddol hyn yn tarddu o berthynoledd ieithyddol? Mae'r ateb yma'n syml: cofiwch mai prif reswm Herder dros y ddwy egwyddor bod mwy o or-gyffwrdd mewn syniadau, synhwyrau a gwerthoedd ymhlith cyd-wladwyr nag ar draws diwylliannau gwahanol. Y rheswm am hyn, yn ei dro, yw perthynoledd ieithyddol. I grynhoi felly: mae perthynoledd ieithyddol yn hawlio bod gwahanol ieithoedd yn adlewyrchu manylion diwylliannol eu siaradwyr (hanesyddol a presennol) ac yn dylanwadu ar eu prosesau meddwl. Adlewyrcha'r iaith gredoau, sefydliadau ac arferion ei siaradwyr, sy'n amrywio ar draws gwahanol ddiwylliannau oherwydd y gwahanol gyd-destunau hanesyddol a diwylliannol y mae'r ieithoedd hynny wedi'u ymdoddi â hwy.

Mewn Lladin, er enghraifft, ceir detholiad amrywiol o eiriau sy'n dynodi'r weithred o ladd: *interficere, necare, mortificare, trucidare occidere* – i enwi ond ychydig - gyda mân wahaniaethau yn eu cynodiadau. Er enghraifft, defnyddir *interficere* yn aml mewn cyd-destun brwydrau; mae *mortificare* yn golygu 'gwneud yn farw'; mae *trucidare* yn golygu 'ei gigydda'. Mae'r amrywiaeth hyn yn siŵr o fod yn adlewyrchiad o'r chwilfrydedd a oedd gan y Rhufeiniaid tuag at wahanol arddulliau o ladd. Dengys y fath enghreifftiau (ymhlith eraill a caiff eu harchwilio ym Mhennod 2) sut mae gwahanol ieithoedd yn ymgorffori gwahanol gysyniadau sy'n adlewyrchu normau diwylliannol y siaradwyr. O ystyried natur annatod iaith a meddwl, mae'n dilyn bod aelodau cymuned ddiwylliannol-ieithyddol benodol yn meddwl yn nhermau'r fframwaith gysyniadol barod a gynigir gan eu hiaith. Felly, nid yw'n anodd gweld ei fod yn debygol y bydd mwy o or-gyffwrdd syniadau, synhwyrau, a gwerthoedd ac ati ymhlith aelodau o'r un gymuned ddiwylliannol-ieithyddol: 'whoever was raised in the same language, who poured his heart into it, and learned to express his soul in it, he belongs to the nation (*Volk*) of this language' (Herder 1971 [1795]: 294-5, dyfynnir hefyd yn Patten 2010: 667).

§1.2 Fichte

Mae'n bwysig cydnabod sut oedd Herder yn ysgrifennu mewn cyd-destun lle'r oedd yr Almaen, yn y 18fed ganrif, yn dioddef o ffragmenteiddio diwylliannol, gwleidyddol a ieithyddol sylweddol. Yn

wleidyddol, fe'i rhannwyd yn nifer o daleithiau bach o dan yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd heb fawr o undod rhyngddynt. Yn ieithyddol, roedd Almaeneg yn dod yn fwyfwy lleol a briwsionllyd: roedd pob talaith wedi datblygu ei thafodiaith ei hun, ac roedd rhain yn aml yn annealladwy o'r un dalaith i'r llall. Yn ddiwylliannol, roedd diwylliant yr Almaen yn cael ei reoli fwyfwy gan ddylanwadau Ffrengig, tra roedd yr iaith Ffrengig yn prysur ddod yn brif iaith Ewropeaidd, yn enwedig mewn materion o ddiwylliant ac addysg. O ganlyniad, daeth yr iaith Almaeneg yn fwyfwy cyfyngedig i'r dosbarthiadau is, gan atgyfnerthu shifftiau diwylliannol ymhlith y dosbarthiadau llythrennog. Yn wir, daeth deallusion yr Almaen i weld eu hiaith yn fwyfwy israddol oherwydd ei statws gymharol gyntefig, a dylanwad deallusion Ffrainc a honnodd fod yr iaith Ffrangeg yn well (Juliard 1970: 84).

O ystyried hyn, felly, gallwn dybio bod honiad Herder bod diwylliant brodorol llewyrchus yn dibynnu ar sefyllfa lle mae'r aelodau yn siarad eu priod hiaith eu hunain wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan ymwrthod yn erbyn tra-arglwyddieithiad cynyddol diwylliant a iaith Ffrainc dros Ewrop, oedd yn ei dro yn israddio'r iaith a diwylliant Almaeneg. Fel y soniwyd yn barod, fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyfystyr a hiliaeth neu rhagfarn yn erbyn diwylliannau eraill; yn hytrach cais resymegol ydoedd i hybu ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith niweidiol gormes ieithyddol a diwylliannol.

Adeiladodd Fichte (1762-1814) ar y mewnwelediadau hyn ynghylch perthynoledd ieithyddol ac effeithiau drwg disodli diwylliannau a ieithoedd, a'u hailgylchu mewn i ddamcaniaethau cryfach (ac amheus mewn rhai ffyrdd, yn ôl ein safonau cyfoes) oedd yn honni bod hunaniaeth genedlaethol yn dibynnu ar *burdeb* iaith y genedl. Yn ei *Anerchiadau i'r Genedl Ellmynig* (1808), er enghraifft, mae'n cwyno am yr holl fenthyciadau ieithyddol sydd wedi ffeindio'i ffordd mewn i'r Almaeneg. Yn ei farn ef, roedd y benthyciadau hyn cyfrannu'n sylweddol at ddadfeiliad diwylliant yr Almaen (o ystyried ei fod yn annatod o'r iaith), am y rhesymau canlynol.

Yn gyntaf, agweddau trosiadol neu gynodiadol (connotative) iaith. Gan bod ystyron trosiadol geiriau yn tarddi o'r cyd-destun diwylliannol y cawsant eu creu ynddo, mae benthg gormod o eiriau ac idiomau / trosiadau o ieithoedd eraill yn amharu ar naws iaith trwy danseilio ei rym mynegiannol a'i ddilysrwydd diwylliannol. Y rheswm am hyn yw bod yr ystyron trosiadol gwreiddiol y geiriau benthg yn cael eu colli yn y cyfieithiad, gan greu diffyg tryloywder ystyr, ac arwain at ddryswch ymhlith y siaradwyr. Pan gaiff trosiadau eu trawsblannu o un cyd-destun diwylliannol-ieithyddol i'r llall, mae'n debygol y byddant yn colli llawer o'u perthnasedd, eu grym mynegiannol a'u eglurder. Gan fod iaith wedi'i gwreiddio yn ei diwylliant brodorol, mae ei hystyrion trosiadol yn aml ond yn ddealladwy / yn berthnasol o fewn yr un diwylliant. O ganlyniad, mae mabwysiadu gormod o eiriau a chyfieithiadau benthg ar draul termau brodorol yn peri i'r iaith frodorol golli llawer o'i bywiogrwydd naturiol, a'i throedle yn ei chartref diwylliannol. Mae hyn, yn ôl Fichte, yn gyfystyr â chael ei 'severed from its living root' (1808: 68) ac 'enshroud[ing] the hearer in darkness and incomprehensibility' (1808: 71).

Yn ail, caiff hyn oll ei waethygu pan nad oes gan yr iaith estron y mae'r geiriau'n cael ei benthg ohono lawer o ddilyniant diwylliannol a hanesyddol ei hun, e.e. oherwydd gormes ieithyddol hanesyddol. Yma, gwahaniaetha Fichte rhwng ieithoedd 'cyntefig' a 'deilliadol'. Ieithoedd cyntefig yw'r rhai sy'n parhau'n gyson a'u hynafiaethwyr uniongyrchol, ac a siaredir yn ddi-dor gan yr un gymuned ieithyddol ddiwylliannol (1808: 61). Almaeneg, yn ôl Fichte, yw'r enghraifft orau o iaith gyntefig yn Ewrop (1808: 61-68) [fodd bynnag, gellid ychwanegu sawl iaith Ewropeaidd arall, megis Cymraeg, Gwyddeleg, Llydaweg, neu ieithoedd Denmarc neu Wlad yr Iâ, er enghraifft]. Ar ochr arall y geiniog, nid oes gan ieithoedd 'deilliadol' unrhyw barhad hanesyddol diwylliannol tebyg, gan eu bod yn tarddi o gymysgu ieithoedd diwylliannau cwbl wahanol i'w gilydd.

Y brif enghraifft o iaith 'deilliadol' y mae Fichte'n cyflwyno yw Ffrangeg. Yn achos Ffrainc, cafodd llawer o iaith y Gâl (Gaulish) ei ddisodli i gan Ladin o dan yr Ymerodraeth Rufeinig, gan arwain at

ddatblygiad yr iaith gyfansawdd Galo-Rufeinig. Yna, achosodd laniad y Franks a'r Burgundiaid Ellmynig yn Ffrainc ddryswch ieithyddol pellach. Mabwysiadodd y llwythau Ellmynig lawer o'r iaith Galo-Rufeinig a siaredir gan y Ffrancwyr, tra mabwysiadodd y Ffrancwyr yn eu tro y rhan fwyaf o dafodiaeth y llwyth Ellmynig Frankaidd. O'r cymysgwch hyn, datblygodd Hen Ffrangeg, a oedd yn amrywiad ar yr iaith Frankaidd, wed'i gymysgu â'r dafodiaith Galo-Rufeinig. Y broblem, yn ôl Fichte, oedd bod y shifftiau ieithyddol hyn wedi peri i'r Ffrancwyr fabwysiadu geiriau nad oeddent yn eu deall yn llawn, o ystyried aneglurder eu gwreiddiau a'u hystyrion trosiadol. Achosodd hyn, yn ei dro, i'r Ffrancwyr gollu eu dilyrswydd diwylliannol, a phrofi dadfeiliad diwylliannol a moesol oedd yn cynnwys 'lack of seriousness about social relations, the idea of self-abandonment, and the idea of heartless laxity' (Fichte 1808: 67).

I'r gwrthwyneb, mae siaradwyr ieithoedd 'cyntefig' fel Almaeneg, yn ôl Fichte, wedi cadw eu parhad diwylliannol drwy hanes, ac felly maent wedi osgoi cael eu caethiwo mewn dryswch. Fel y soniwyd yn gynharach, caiff y dryswch hwn ei achosi gan yr ansicrwydd sy'n tueddi codi ynglŷn â gwreiddiau eu geiriau, a'r anallu i ddeall eu hystyrion yn iawn [sydd, yn ôl Fichte, yn llawn ystyrion anwedus o'r Lladin beth bynnag]:

I take as my example the three notorious words, Humanity, Popularity, and Liberality... Without a scholarly study of antiquity and of its actual language they [the French] understand the roots of those words just as little as the German does. Now if, instead of the word Humanity [*Humanität*], we had said to a German the word *Menschlichkeit*, which is its literal translation, he would have understood us without further historical explanation, but he would have said: "Well, to be a man [Mensch] and not a wild beast is not very much after all" (Fichte 1808: 53).

Rhaid cydnabod nad yw'r rhagfarnau gwrth Ffrengig a amlygir yn y dyfyniad uchod yn haeddu triniaeth cwbl niwtral, ac felly rhaid eu darllen yn eu cyd-destun hanesyddol a diwylliannol priodol. Cyflwynwyd yr *Anerchiadau* yn sgil Brwydr Jena, lle trechodd a meddiannodd y Ffrancwyr Prussia, sef yr unig dalaith Ellmynig a oedd, tan hynny, wedi osgoi cael ei ormesu gan Ffrainc o dan fyddin Napoleon. Rhaid deall felly bod polemig gwrth-Ffrangeg Fichte, sy'n portreadu Pobl yr Almaen fel petaent yn well na'r Ffrancwyr, wedi dod yn sgil gormes imperialaidd Ffrengig. Mae'r *Anerchiadau* yn ymgais i feithrin ymdeimlad o falchder cenedlaethol ym Mhobl yr Almaen, a chreu ymwybyddiaeth genedlaethol unedig yn eu plith, yn wyneb eu hanobeithrwydd wedi iddynt gael eu trechi a'i treisio. O ystyried hyn, dyw'r rhagfarn Gwrth-Ffrengig a gyflëir yn yr *Anerchiadau* ddim yn peri llawer iawn o syndod, o'i ddarllen yng ngoleuni'r cyd-destun hanesyddol ehangach. Mae hefyd yn bwysig ategi nad yw'r rhagfarn hon ynddo'i hun yn tanseilio dylanwad aruthrol y testun ar adfywio ymwybyddiaeth genedlaethol yr Almaen, a oedd yn ganolog i'w uno yn y pen draw ym 1871; nac yn wir ar esblygiad gwleidyddol ehangach cenedl-wladwriaethau Ewrop y 19eg ganrif a thu hwnt (Turnbull 2018: 19-21).

Er gwaetha rhagfarn gwrth-Ffrengig yr *Anerchiadau*, felly, mae'n werth taro golwg agosach ar y gwahaniaeth rhwng ieithoedd cyntefig a deilliadol a gyflwynir ynddynt. Ni allwn wadu bod y syniad wedi cael ei gyflwyno gan Fichte mewn modd sydd wedi cael ei frodio a'i or-liwio'n sylweddol. Mae'r honiad mai Almaeneg yw'r unig iaith Ewropeaidd 'fyw' a 'chyntefig' yn ffals; ac mae cyflwyno'r mater o ran 'purdeb' ieithyddol, gan honni bod geiriau benthg yn cyfateb a llygriadau ac ystyrion anwedus yn agwedd na allwn ei derbyn heddiw. Ond serch hynny, erys y cwestiwn canlynol: a yw defnyddio llawer o eiriau a throsiadau benthg, neu siarad iaith gyfansawdd 'ddeilliadol' fel Ffrangeg neu Saesneg yn arwain at ddryswch ynghylch ystyrion geiriau, neu yn llacio'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant? Yn yr hyn sy'n dilyn, archwiliad y cwestiwn hwn gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel enghreifftiau cynrychioliadol o ieithoedd deilliadol a chyntefig, yn y drefn honno.

O ystyried bod tua tri chwarter eirfa'r iaith Saesneg wedi tarddi o Ladin, Groeg a Ffrangeg, tra dim ond chwarter ohono sy'n Ellmynig (Finkenstaedt & Wolff 1973), mae'n cyfri fel iaith ddeilliadol. Ar y llaw arall gwrthwyneb, mae'r Gymraeg yn cyfri fel iaith gyntefig gan iddi esblygu'n uniongyrchol allan o iaith frodorol Prydain, Brythoneg; ac felly mae'n iaith sydd wedi datblygu'n barhaus ynghyd a'r diwylliant brodorol, ac sydd fel arfer yn cyfyngu ei geirfa i'w gwreiddiau ei hun. Y cwestiwn, felly, yw: a yw'r Gymraeg yn fwy tryloyw ei hystyr na'r Saesneg? A yw'r ffaith bod y Gymraeg yn tueddi cyfyngu ei geiriau a'i gwreiddiau i'r Gymraeg, tra bod yr eirfa Saesneg yn llawn geiriau a gwreiddiau Lladin, Ffrangeg a Groeg, yn golygu bod dealltwriaeth siaradwyr Saesneg o'u geirfa eu hunain yn gymharol gyfyngedig ar adegau?

Mae yna lawer i'w ddweud o blaid yr awgrym hwn. Er y byddai'n afresymol awgrymu bod rhaid deall gwreiddiau geiriau er mwyn eu deall o gwbl, gellid dadlau bod yna ddiffyg tryloywder yn codi rhwng ffurf ac ystyr llawer o eiriau Saesneg, ac mae hyn yn gallu cyfyngu dealltwriaeth y siaradwyr. Hynny yw: dyw bod yn siaradwr rhugl Saesneg ddim, yn ei hun, yn galluogi rhywun i weithio allan ystyron geiriau cyfansawdd lle mae eu gwreiddiau wedi'i benthg o ieithoedd eraill. Gan fod (1) deall gwraidd gair yn cyfoethogi dealltwriaeth rhywun o'i ystyr, a (2) does gan y rhan fwyaf o siaradwyr Saesneg ddim gwybodaeth o'r fath, mae'n dilyn bod cyfyngiadau ar ddealltwriaeth y rhan fwyaf o siaradwyr Saesneg o lawer o'i geirfa eu hunain.

Ystyriwch 'cacophony' (*kakos + phone*, Groeg), er enghraifft. Sut y gallech chi weithio allan ei ystyr oni bai bod gennych eisoes y wybodaeth berthnasol am Roeg? Mewn gwrthgyferbyniad, mae ystyr y gair cyfatebol Cymraeg (drygsain (drwg + sain) yn gwbl dryloyw. Yn yr un modd, mae llawer o eiriau Saesneg yn cyd-fynd o ran eu hystyr, ond eto maent wedi tarddi o wahanol ieithoedd. Ymhlith y rhain ceir e.e. *brotherhood* (Eingl-Sacsonaidd) a *fraternity* (Lladin), tra bod gan y gair cyfatebol Cymreig, brawdoliaeth, ystyr a defnydd unffurf. Gall hyn arwain at ddiffyg cysondeb yn y gwraidd a ddefnyddir wedyn mewn geiriau cysylltiedig: *sea / sailor* (Eingl-Sacsonaidd); *nautical* (Lladin, *nauta*); *maritime* (Lladin, *mare*). Gall hyn, unwaith eto, atal llawer o siaradwyr Saesneg rhag gallu deall ystyron eu geiriau'n llawn, gan nad oes ganddynt wybodaeth am ystyr y gwraidd, a caiff ei waethygu gan yr anghysondebau yn nefnydd y gwreiddiau mewn geiriau sy'n gysylltiedig eu hystyr.

Gall y ffaith bod Saesneg yn llawn trawsblaniadau ieithyddol hefyd alluogi ei siaradwyr i greu'r argraff bod yr hyn y maent yn dweud yn fwy soffistigedig nag ydyw mewn gwirionedd. Y rheswm dros hyn yw bod eu defnydd o fenthycair yn medru cael cynodiadau dirgel (annealladwy ar y cyfan) pan fo'r gair hwnnw wedi'i fewnforio o iaith arall nad ydynt yn deall. Does dim byd ynglŷn â ffurf y gair sy'n rhoi cliw i'r unigolyn ynglŷn â'i ystyr llawn, a gall hyn greu ymdeimlad o ddirgelwch a / neu ddryswch y gellir ei gamgymryd yn hawdd am fod yn soffistigedig. Fel y meddai George Orwell yn ei '*Politics and the English Language*':

'Scientific, political and sociological writers [in particular], are nearly always haunted by the notion that Latin or Greek words are grander than Saxon ones, and unnecessary words like *expedite*, *ameliorate*, *predict*, *extraneous*, *deracinated*, *clandestine*, *sub-aqueous* and hundreds of others constantly gain ground from their Anglo-Saxon opposite numbers' (Orwell 1946).

Mewn gwrthgyferbyniad, mae tryloywder ystyr a geir mewn ieithoedd mwy 'cyntefig' sy'n cyfyngu eu gwreiddiau i'w hadnoddau ieithyddol presennol eu hunain yn atal unrhyw fath gamargraff. Y rheswm am hyn yw bod deall y gwraidd yn eich galluogi'n syth i ddeall yr ystyr, ac felly ni fyddai ceisio swnio'n fwy soffistigedig neu amwys drwy ddefnyddio gair gwahanol ond cyfystyr yn arwain at yr effaith a ddymunir. Dyma agwedd arall o'r cyfyngiadau dealltwriaeth a thryloywder ystyr sy'n gallu codi ymhlith siaradwyr Saesneg.

Dengys yr ystyriaethau hyn bod y graddau mae gwahanol ieithoedd yn adlewyrchu diwylliant hanesyddol eu siaradwyr yn amrywio ar draws ieithoedd, yn ôl p'un a ydynt yn gymharol 'gyntefig' neu'n 'ddeilliadol'. Cofiwch fod perthynoledd ieithyddol yn honni bod iaith yn adlewyrchu nodweddion diwylliannol ei defnyddwyr drwy ymgorffori ystyrion llythrennol a throsiadol sy'n gyson a diwylliant eu defnyddwyr. Pan fydd yr ystyrion aneglur trosiadol yn codi o wreiddiau estron y geiriau, gall yr anallu i ddeall eu hystyrion gyfyngu ar allu rhywun i ddeall y geiriau'n llawn, yn enwedig eu hystyrion cynodiadol. Y rheswm am hyn yw'r diffyg tryloywder rhwng ffurf gair a'i ystyr gyfatebol: nid yw'r ffurf yn dweud dim am yr ystyr pan fo'r gwraidd wedi'i fewnforio o iaith wahanol nad oes gan siaradwr iaith 'deilliadol' lawer o ddealltwriaeth ohoni.

Yr hyn a ddengys gan wahaniaethiad Fichte rhwng ieithoedd cyntefig a deilliadol Fichte, felly, yw bod ieithoedd cyfansawdd, deilliadol fel Saesneg yn llai cynrychioliadol o hunaniaeth ddiwylliannol frodorol eu siaradwyr na ieithoedd 'cyntefig', o ystyried y datgysylltiad hanesyddol cymharol rhwng yr iaith a'r diwylliant. Ymddengys, felly, bod perthynoledd ieithyddol yn fwy perthnasol i rai ieithoedd nac i eraill, yn dibynnu ar y gradd y maent yn gyntefig. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu nad yw ieithoedd deilliadol yn adlewyrchu cymaint o ddiwylliant *per se*, ond yn sicr golyga bod y diwylliant hwnnw yn llai tryloyw i'r siaradwyr, yn ogystal â bod yn fwy cymysg, oherwydd effeithiau gormes ieithyddol. Mae'r un peth yn wir am *linguae francae* eraill sydd, o ganlyniad i imperialaeth ieithyddol, yn cael eu siarad gan nifer o wahanol ddiwylliannau - felly nid ydynt yn gwbl barhaus â hanes eu siaradwyr; a nid ydynt ychwaith yn unigryw i'r diwylliannau hynny. Caiff berthnasedd iaith at hunaniaeth ddiwylliannol, felly, ei bwysoli'n wahanol ar draws gwledydd, yn dibynnu ar (1) faint o barhad uniongyrchol sydd rhwng iaith, diwylliant a hanes ei siaradwyr, a (2) i ba radd mae'r iaith yn unigryw i'w siaradwyr.

Er nad yw dadleuon Fichte am iaith a diwylliant yn yr Anerchiadau wedi derbyn y sylw ac ystyriaeth drylwyr maent yn haeddu gan ysgolheigion (mae hyn, yn ôl pob tebyg, oherwydd eu elfennau rhagfarnllyd), ni ellir gwadu eu bod yn cynnwys mewnwediadau gwreiddiol sydd yr un mor berthnasol i ddadleuon a mudiadau cenedlaetholgar cyfoes ag yr oeddent yn 1808. Ymhellach, gan y cafodd dadleuon Herder a Fichte eu datblygu yng nghyd-destun gormes ac imperialaeth Ffrengig, ni fyddai'n syndod pe bai sawl cymhariaeth i'w tynnu rhyngddynt a llenyddiaeth gwrth drefedigaethol diweddarach yr 20fed ganrif. Yn yr hyn sy'n dilyn, felly, archwiliwn y categori hwn o lenyddiaeth er mwyn datgelu yr hyn sy'n gyffredin ynddynt o ran iaith, diwylliant, gormes, a pherthynoledd ieithyddol.

§2. Safbwyntiau Gwrth-drefedigaethol ar iaith a Hunaniaeth

Mae llenyddiaeth gwrth-drefedigaethol yr 20fed ganrif yn llawn dadleuon a darluniau grymus ynglŷn â effeithiau drwg imperialaeth ieithyddol ar y bobloedd ddarostyngedig. Yn ôl nifer o'r meddylwyr, bu disodli ieithoedd brodorol yn un o brif arfau gormesol y pwerau imperialaidd: trwy atal llewyrch yr ieithoedd brodorol, mygwyd lawer o'i diwylliant a'u ffyrdd o feddwl. Yn wir, trwy'r broses o ormes ieithyddol, gorfodwyd meddylfryd a diwylliant y gormeswr ar y bobloedd frodorol, a thrwy hyn, cawsant eu gorfodi i fewnoli (internalise) y diwylliant newydd hwn, sydd hefyd yn ddiwylliant hiliol. Mae hyn, yn ei dro, yn galluogi'r gormeswr i fynd o dan groen y bobloedd frodorol, gan atgyfnerthu eu hymdeimlad o israddoldeb o'r tu mewn, drwy'r iaith, fel petai (gweler Fanon 1952; Memmi 2016; Sardar 2008:15, er enghraifft). Mae perthynoledd ieithyddol yn ganolog i'r dadleuon a ddatblygwyd yn y cyswllt hwn: y rheswm y honnir bod imperialaeth ieithyddol yn gymaint o gyfrwng gormes yw bod iaith yn storfa o ddiwylliant; y math anghywir o ddiwylliant, yn y cyd-destun trefedigaethol.

Ceir tri math o ddadl yn y cyswllt hwn. *Pace* dosbarthiad David Boucher (2020), y rhain yw: (1) ieithoedd brodorol fel prif ffynonellau diwylliant; (2) meddiannu iaith y gormeswr er mwyn ail-ategi

diwylliant brodorol; a (3) dyrchafi ieithoedd creole i statws prif ffynonellau diwylliannol. Mae pob un o'r dadleuon hyn yn rhagdybio a dibynnu'n drwm ar berthynoledd ieithyddol er mwyn ategi eu datgeliadau seicolegol a'u cymhellion gwleidyddol. Nid yw'r tri math o ddatl yn gwrthdaro a'i gilydd; yn hytrach, mae'r prif wahaniaethau rhyngddynt yn ymwneud a phwyslais a phwrpas.

§2.1. Ieithoedd Brodorol fel Prif Ffynonellau Diwylliant

Mae'r dadleuon sy'n cwmpo mewn i'r categori hwn fel arfer yn arddel adfywio neu hyrwyddo ieithoedd brodorol. Cymerir yn ganiataol mai ieithoedd brodorol yw prif gyfryngau diwylliant y Bobl dan sylw, a bod methiant i'w hadfywio yn tansilio eu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, llais, ac urddas y bobl ddarostyngedig. Dadleuodd Albert Memmi (1920-2020), er enghraifft, fod pobl frodorol sy'n derbyn addysg ffurfiol trwy gyfrwng iaith y gormeswr yn profi gormes diwylliannol pellach, gan mai diwylliant y gormeswr, yn hytrach na'r diwylliant brodorol, sy'n cael ei drosglwyddo i lawr trwy'r gyfundrefn addysg (Memmi 2016: 190).

Mae sgil-efeithiau seicolegol hyn yn drychinebus. Er mwyn osgoi diffyg llythrennedd, rhaid i'r bobl frodorol amsugno iaith y gormeswr a'i defnyddio at bob diben addysg, diwydiannol, gweinyddol, technolegol a biwrocraidd, tra caiff eu hiaith frodorol ei alltudio o fywyd cyhoeddus. Effaith hyn yw proses anwirfoddol o israddio'r iaith frodorol: mae ei statws ymylol a'i waharddiad o fywyd cyhoeddus yn golygu nad oes fawr ddim gwerth yn cael ei roi arno ei wlad ei hun. Mae hyn, yn ei dro, yn peri cywilydd i'r bobl frodorol ynglŷn â'i mamiaith, ac o ganlyniad maent yn mewnloli'r ymdeimlad o israddoldeb a achoswyd yn barod gan y gwladychwyr (Memmi 2016: 150-1). Atgyfnerthir yr ymdeimlad hwn o israddoldeb ymhellach gan y ffaith mai iaith y cyn-wladychwr yn bennaf sy'n cael ei defnyddio mewn manau cyhoeddus: arwyddion strydoedd, ffyrdd a rheilffyrdd, enwau lleoedd, dogfennau swyddogol ac ati: caiff y person brodorol ei wneud i deimlo megis 'like a foreigner in his own country' (ibid., dyfynnir hefyd yn Boucher 2020). Mewn geiriau eraill, mae'r symbolau beunyddiol sy'n cyfryngu hunaniaeth genedlaethol/diwylliannol ac yn atgyfnerthu ymdeimlad y dinasyddion o'r hunaniaeth honno [yr hyn y mae Michael Billig (1995) yn ei alw'n 'genedlaetholdeb banal'] yn parhau i berthyn i'r gormeswr. I'r graddau bod iaith y cyn-wladychwr yn parhau i ddominyddu manau a bywyd cyhoeddus, felly, parheir yr etifeddiaeth imperialaidd i gael ei atgyfnerthu gan hollbresenoldeb yr iaith.

Ymhellach, mae mabwysiadu'r iaith y gormeswr yn peri i'r siaradwr brofi rhwyg diwylliannol mewnlol: y famiaith frodorol yw'r un sy'n cario'r holl rym emosiynol a diwylliannol; fodd bynnag, achosir ei waharddiad o fywyd cyhoeddus i ryddid creadigol ac emosiynol y siaradwr gael ei fygu. Er mwyn cael swydd, mynegi ei hun yn gyhoeddus, neu ddatblygu rhwydwaith cymdeithasol, rhaid i'r siaradwr ddatgysylltu ei hun o'r famiaith frodorol, a chanlyniad hyn yw 'trychineb ddiwylliannol' sy'n cyfyngu'r unigolyn yn ogystal â'r celfyddydau creadigol (Memmi 2016: 152). Ni all ddim byd ond chwyldro, yn ôl Memmi, fedru llethu ar y tranc diwylliannol hwn, a galluogi'r Bobl frodorol i adennill eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain (2016: 194).

Ceir dadleuon tebyg yn Freire & Macedo (1987), Thiong'o (1986) a Fanon (2008). Er enghraifft, dadleua Freire & Macedo (1987) bod addysgu llythrennedd trwy iaith y cyn-wladychwr yn atgyfnerthu ac yn meithrin meddylfryd elitaidd neo-drefedigaethol ymhlith y bobl frodorol. Eto, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod yr iaith y gormeswr yn adlewyrchu eu diwylliant. O ganlyniad, nid yn unig yw addysgu llythrennedd trwy iaith y gormeswr yn parhau i ormesi meddyliau'r bobl frodorol; mae hefyd yn rhwystro eu gallu i ddatblygu dulliau llenyddol diwylliannol dilys, gan eu hatal rhag adennill eu llais hanesyddol a diwylliannol eu hunain. Er efallai bod dad-drefedigaethu gwleidyddol llythrennol wedi'i gyflawni, parheir y grymoedd sy'n peri gormes seicolegol a diwylliannol, yn enwedig o ganlyniad i oruchafiaeth sefydliadol parhaus yr iaith drefedigaethol.

Mewn modd tebyg, pwysleisia Thiong'o bwysigrwydd llenyddiaeth frodorol at gadw, lledaenu, a throsglwyddo etifeddiaeth ddiwylliannol, hanesyddol a chelfyddydol Pobl: y delweddau meddyliol a'r trosiadau sy'n ffrwythloni eu bydysawd meddyliol, fel petai (1986: 15-17). Gan fod cysylltiad annatod rhwng iaith a bydysawd diwylliannol a meddyliol Pobl, mae gormes ieithyddol yn dinistrio ac israddio diwylliant brodorol y colon a'i ddisodli o blaid ieithoedd Ewropeaidd (ibid). Nid damwain, felly yw'r ffaith bod Thiong'o yn ysgrifennu'n bennaf yn ei iaith frodorol *Gikuyu*, o ystyried ei hawliad y dylai pobl ysgrifennu yn eu iaith frodorol i helpu adfywio'r diwylliant cysylltiedig. Mae hyn, yn ei dro, yn hanfodol er mwyn dechrau dadwneud yr enghreifftiau gwahanol o neo-drefedigaetholdeb sy'n dal i barhau mewn gwladwriaethau Affricanaidd.

Un dylanwad sylweddol tu ôl i'r dadleuon hyn gan Memmi a Thiong'o yw Fanon, a ddadleuodd yn ei *Black Skin, White Masks* (2008 [1952]) bod siarad iaith y gormeswr [Ffrangeg yn achos Fanon; fodd bynnag, mae'n honni bod yr un peth yn wir am bob system wladychol (Fanon 2008: 9,15)] yn golygu mabwysiadu chyfranogi ym myd / gwareiddiad y gormeswr ar draul eich un eich hun. 'A man who has a language consequently possesses the world expressed and implied by that language' (Fanon 2008 [1952]: 18). Ymhellach: 'To speak a language is to take on a world, a culture' (ibid: 25).

Y rheswm bod iaith yn arf mor bwerus i fynd o dan groen y bobl frodorol, yn ôl Fanon, yw bod yr orfodaeth i'w siarad yn peri i'r brodorion fewnoli'r diwylliant hiliol y mae'n ymgorffori. Nid yn unig yw hyn yn amddifadu'r brodorion o'u etifedd diwylliannol eu hunain; mae hefyd yn eu gorfodi i fewnoli'r diwyllian Gorllewinol roddodd 'birth to colonial racism, and European racist structures' (Sardar 2008: 15). Y broblem fan hyn yw: gan mai'r iaith wladychol a'i diwylliant cysylltiedig sy'n cario statws, bri, a pharch, mae'r person du yn dechrau chwenychu a chopio'r gormeswr (Fanon 2008: 15-16, 25). Yn wir, meistrol'i'r iaith wladychol yw'r brif ffordd o 'fesur lan' i'r diwylliant hwnnw: 'The Antilles Negro who wants to be white will be the whiter as he gains greater mastery of the cultural tool that language is [...] [he] wants to speak French because it is the key that can open doors which were still barred to him fifty years ago' (Fanon 2008: 25).

Fodd bynnag, o ystyried yr hiliaeth a'r diwylliant estron sydd wedi'i blethu'n ddwfn i iaith y gormeswr, ni all y person du fynegi ei hun yn yr iaith honno'n iawn. Y mwyaf mae'n ceisio, y mwyaf mae'n dynwared y gormeswr ac yn mabwysiadu'r byd-olwg cysylltiedig sydd, o ystyried yr hiliaeth sydd ynghlwm ynddo, yn atgyfnerthu'r cymhlethdod taegog mae e'n barod yn dioddef ohono. [Mae Fanon yn cymryd yn ganiataol ei fod e'n rhan o'r diffiniad o wladoli bod gorfodi'r brodorion i siarad iaith y gormeswr yn creu cymhlethdod taegog yn eu plith 'by the death and burial of its local cultural originality' (Fanon 2008: 9)].

Mae sgil effeithiau gwleidyddol i'r rhwyg diwylliannol-ieithyddol mewnol hwn ymhlith y brodorion. Ystyriwch fudiad *Negritude* y 1930au-50au: ei nod oedd creu ymwybyddiaeth ddu holl-Affricanaidd ymhlith pobl dduon er mwyn adennill ac ail-ategu gwerth ac urddas treftadaeth, gwerthoedd a thraddodiadau diwylliannol Affricanaidd. Yn ôl Boucher (2020) ceir beirniadaeth gudd gan Fanon (1952) o'r mudiad *Negritude* mewn cyswllt â'r ddadl uchod am ddefnydd meistrolgar y person du o iaith y gormeswr, sy'n achosi iddo ddynwared diwylliant y gormeswr. Y broblem, yn ôl Fanon, oedd y ffaith bod y mudiad *Negritude* wedi'i gynnal trwy'r Ffrangeg; ac roedd hyn yn tanseilio'i hun. Hynny yw: nod y mudiad oedd creu ymwybyddiaeth ddu yn erbyn y diwylliant Ewropeaidd hiliol; fodd bynnag, roedd gwneud hynny drwy gyfrwng Ffrangeg yn ategu yr un diwylliant Ewropeaidd ag yr oeddent yn ceisio'i wrthod.

Gellir gweld, felly, bod dadleuon Memmi, Thiong'o a Fanon yn gorgyffwrdd yn eu pwyslais ar effeithiau seicolegol a diwylliannol trychinebus mabwysiadu'r iaith imperialaidd. Mae eu hymrwymiad i'r farn mai ieithoedd brodorol yw prif ffynhonnellau diwylliant yn eu harwain i'r casgliad

bod mabwysiadu'r iaith imperialaidd yn peri dieithriad diwylliannol, a bod hyn yn peri ymddieithriad pellach o'r famiaith, ac yn peri iddynt geisio dynwared y gormeswr. Caiff hyn, yn ei dro, ei gymryd i atgyfnerthu'r cymhlethdod taeg: trwy ddefnyddio'r iaith imperialaidd i geisio dod dros eu statws israddol, mae'r brodorion yn atgyfnerthu yn ddiarwybod y diwylliant hiliol sy'n eu trin yn israddol. Y ffordd fwyaf uniongyrchol o oresgyn y broblem hon, felly, yw adfywio a hyrwyddo ieithoedd brodorol er mwyn mynd i'r afael â gwreiddiau'r broblem.

§2.2. Meddiannu iaith y Gormeswr

Tra bod y dadleuon uchod yn hawlio mai ieithoedd brodorol yw prif ffynonellau diwylliant, ac mai'r unig ffordd i adfer y diwylliant cysylltiedig yw trwy adfywio a hyrwyddo'r ieithoedd brodorol, mae eraill wedi bod yn fwy pragmatig eu hagwedd. Dadleua Amilcar Cabral, Aimé Césaire a Salman Rushdie, er enghraifft, o blaid addasu a meddiannu iaith y gormeswr fel modd amgen o fynegi ac adfywio'r diwylliant brodorol. Datblygwyd y dadleuon hyn mewn cyd-destunau lle nad oedd adfywio iaith brodorol yn opsiwn, gan nad oedd un iaith yn ddealladwy i'r mwyafrifoedd, e.e. yn India a'r rhan fwyaf o wladwriaethau Affricanaidd. Ymhellach, gan i'r ieithoedd brodorol fod wedi cael eu heithrio o'r bydoedd cyhoeddus a llenyddol, ni gawsant y cyfle i ddatblygu'r undod llenyddol na ffonetig a fyddai'n angenrheidiol er mwyn cydlynu ymgyrch rhyddid cenedlaethol.

Pwysleisiwyd y pwynt olaf hwn gan arweinwr chwyldroadol Guinea Bissau, Amilcar Cabral, a honnodd y dylid cynnal y frwydr genedlaethol trwy gyfrwng Portiwgaleg. Y rheswm yma yw fod Portiwgaleg, yn wahanol i'r ieithoedd brodorol (Balanta, Creole, ac ati) yn ddigon soffistigedig i gydlynu'r frwydr (Cabral 2016: 136). Yn ganolog i ymgyrch Cabral oedd y syniad bod yn rhaid lledaenu'r diwylliant brodorol drwy broses addysg drylwyr er mwyn dad-wneud yr anwybodaeth a achoswyd gan y gwladychwyr a thrwy hynny sbarduno proses o 'ail-Affricaneiddio'. '[Colonial rule] cannot be sustained except by the permanent and organized repression of the cultural life of the people in question' (Cabral 1974: 1974: 12). Er byddai modd adfywio ieithoedd brodorol yn y dyfodol, byddai'n anymarferol eu meddiannu ar gyfer meithrin ymwybyddiaeth genedlaethol tan i annibyniaeth gael ei ennill trwy adfywio addysg a diwylliant trwy gyfrwng Portiwgaleg yn gyntaf (Cabral 2016: 136).

Yr hyn a amlygir gan y mewnwelediadau hyn yw: hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle byddai adennill hunaniaeth ddiwylliannol Pobl yn gofyn am adfywio a hyrwyddo eu hieithoedd brodorol, byddai'r rhwystrau ymarferol at gyflawni hyn (e.e. diffyg safoni iaith, absenoldeb un iaith sy'n ddealladwy i'r mwyafrif), yn golygu mai'r unig ddewis ymarferol yw meddiannu iaith y gwladychwr. *Prima facie*, fodd bynnag, ymddengys bod paradocs ar waith yma. Ar y naill law, mae meddiannu iaith y gwladychwr i fod i helpu disodli eu tra-arglwyddiaeth diwylliannol, tra ar y llaw arall, mae parhau i ddefnyddio'r iaith honno yn atgyfnerthu'r tra-arglwyddiaeth hwnnw.

Fodd bynnag, gellid diddymu'r paradocs hwn yn rhannol drwy ystyried y ffyrdd eraill gall iaith ymgorffori diwylliant. Dadleuodd yr ymgyrchydd *Négritude* Césaire, er enghraifft, bod hi'n bosib meddiannu a thrawsffurfio Ffrangeg er mwyn mynegi treftadaeth ddiwylliannol a phrofiad byw ei deiaspora du (Césaire 2000: 83). Cyfeiriodd at y traddodiad swrealaidd i adlewyrchu profiadau pobl dduon yn erbyn y paradeim Ewropeaidd 'rhesymegol', a thrwy hynny gellir trawsnewid neu 'ffrwydro'r iaith Ffrangeg (ibid.) trwy integreiddio delweddau a syniadau Affricanaidd mewn iddo.

Yn yr un modd, honnodd Sédar Senghor (ymgyrchydd *Négritude* arall) bod llyfr Birago Diop *Contes d'Amadou Koumba* (1947) wedi llwyddo trawsblannu ysbryd ac urddas straeon traddodiadol Affricanaidd mewn i ryddiaith Ffrangeg. Yn ôl Thiongo, llwyddodd hyn gadw 'all the virtues of negro-african languages' (Thiong'o 1986: 7). Gwna Chinua Achebe (1975) bwynt tebyg, gan ddadlau bod

Saesneg yn gallu mynegi ei brofiadau Affricanaidd, cyhyd â'i fod wedi'i addasu'n ddigonol i adlewyrchu agweddau Affricanaidd. Yn yr un modd dadleua Gabriel Okara bod goruchafiaeth barhaus y Saesneg mewn (cyn) wladfeydd Prydeinig wedi arwain at broses lle mae'r Saesneg wedi amsugno agweddau o'r diwylliant Affricanaidd, a thrwy hynny cael ei adfywio gan agweddau unigryw Affricanaidd. Mae tafodaethau Saesneg Nigera a Gorllewin Affrica, er enghraifft, wedi dod i ddatblygu eu cymeriad diwylliannol unigryw eu hunain (Okara 1963).

Yn y bon, awgryma'r holl ddadleuon hyn bod hi'n berffaith bosib i linguae francae megis Saesneg a Ffrangeg gael eu ail-bwrpasu a'i meddiannu er mwyn dechrau ymgorffori diwylliant bobloedd frodorol. Er i ormes ieithyddol achosi dadfeiliad diwylliannol *ar y dechrau*, mae'r ffaith bod iaith y gormeswr wedi cael ei ddefnyddio'n barhaus mewn cyd-destun diwylliannol gwahanol wedi galluogi i'r iaith honno amsugno llawer o'r diwylliant brodorol. Nid yw'r dadfeiliad diwylliannol, felly, o reidrwydd yn hollgynhwysol. Yn wir, caiff y pwyntiau hyn eu ategu ymhellach gan Salman Rushdie a Yasmin Alibhai-Brown, ynghylch Saesneg Indiaidd. Dadleua Rushdie (1991) bod Saesneg wedi cael ei siarad yn India ers digon o amser i amsugno llawer o ddiwylliant India, a chael ei ail-bwrpasu at ddibenion India. Cymera Alibhai-Brown (2020) y syniad hwn gam ymhellach, gan ddadlau bod yr Indiaid wedi llwyddo meddiannu'r Saesneg er mwyn gwrthsefyll imperialaeth y Saeson, gan droi eu iaith eu hunain yn eu herbyn. Y rheswm tu ôl i'w llwyddiant yw natur unigryw y Saesneg fel iaith gyfansawdd hyblyg sy'n gallu amsugno geiriau a chysyniadau diddiwedd o ieithoedd eraill, a thrwy hynny cael ei ail-phwrpasu mewn amrywiaeth helaeth o gyd-destunau diwylliannol newydd (Alibhai-Brown 2015: 211).

Mae'n aneglur a yw'r graddau y gellir ailddyfeisio Saesneg er mwyn datod y dadfeiliad diwylliannol mor uchel ag y mae Alibhai-Brown yn honni ei fod. Fodd bynnag, ni ellir gwadu, o ystyried eu natur deinamig, bod ieithoedd yn ddigon hyblyg i fedru cael eu haddasu mewn cyd-destunau diwylliannol newydd. Mae'n rhan o ddiffiniad iaith ei fod yn amsugno geiriau benthg, bathiadau newydd, a dywediadau estron ar raddfa feunyddiol: iaith farw byddai iaith statig. Ymhellach, os yw ystyr yn dibynnu'n bennaf ar ddefnydd, yna o ystyried bod gan wahanol ddiwylliannau wahanol ddefnydd ar gyfer geiriau, mae'n anochel bod trawsblannu iaith i gyd-destun diwylliannol newydd yn achosi newidiadau cysyniadol dros amser. O ystyried hyn, ymddengys bod honiadau Fanon a Memmi mai ieithoedd brodorol yw'r *unig* ffynonellau sy'n cario'r diwylliant brodorol yn rhy eithafol, o ystyried hyblygrwydd ieithoedd a'i gallu i addasu mewn cyd-destunau newydd.

Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae honiad Alibhai-Brown bod modd ail-bwrpasu iaith y cyn-ormeswr i'r fath radd bod hyn yn rhoi'r gorau i'r dominyddu diwylliannol yn gyfan gwbl hefyd yn rhy unllygeidiog, yn enwedig gan ei fod yn anwybyddu dimensiwn hanesyddol iaith. Hynny yw: mae iaith yn datblygu drwy hanes er mwyn ymgorffori cysyniadau, trosiadau ac idiomau ei siaradwyr brodorol. Mae gorfodi iaith y gormeswr ar y brodorion yn gyfystyr a gorfodi cronfa gysyniadol y gormeswr arnynt. Er bod modd i'r brodorion ail-bwrpasu'r iaith i'w dibenion presennol, yn gyson â'u diwylliant eu hunain, erys y ffaith bod hyn yn digwydd yng nghyd-destun fframwaith cysyniadol ehangach yr iaith wladychol, sydd ei hun yn anghydnaws â'r diwylliant brodorol. Mae ail-bwrpasu'r iaith yn raddol, felly, yn sicr yn welliant; serch hynny, mae'n parhau i fod yn annatod o fframwaith cysyniadol y gormeswr, ac ni ellir anwybyddu hyn.

Wedi dweud hynny, mae Alibhai-Brown yn codi pwynt pwysig ynglŷn â natur *sui generis* y Saesneg o ran pa mor hawdd mae'n amsugno geiriau benthg. Fel *linga franca* sy'n perthyn i gategori 'deilliadol' Fichte, mae Saesneg yn iaith gyfansawdd lle mae tua 80% o'i geirfa wedi'i mewnforio o ieithoedd eraill (Stamper 2017). Fel y soniwyd yn §1, mae'r ffaith bod Saesneg yn glytwaith o eiriau benthg gyda dim ond lleiafrif ohono'n deillio o Hen Saesneg / yr iaith Eingl-Sacsonaidd yn awgrymu ei fod yn llai cynrychioladol o'r diwylliant Saesneg brodorol, i gymharu a ieithoedd cymharol

'gyntefig'. Yn ogystal, mae'n werth nodi mai Ffrangeg yw'r prif iaith arall sy'n derbyn sylw y damcaniaethwyr gwrth/ôl-drefedigaethol: eto, maent yn tanlinellu gallu'r iaith i addasu i'r diwylliannau newydd – ac efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried bod Ffrangeg, fel y Saesneg, yn iaith gyfansawdd, 'ddeilliadol' tu hwnt. Mae'n naturiol tybio, felly, mai'r rheswm y tu ôl i hyder e.e. Césaire yng ngallu Ffrangeg i amsugno diwylliant Affricanaidd mor effeithiol yw'r ffaith bod ei natur gymysg fel *lingua franca* yn ei gwneud yn llai cynrychioliadol o ddiwylliant Ffrangeg yn y lle cyntaf, ac felly'n fwy abl i ymaddasu.

Yr hyn a amlygir gan y dadleuon a archwiliwyd yn yr adran hon, felly, yw na ellir cyffredinolli agwedd digyfaddawd Fanon a Memmi tuag at effeithiau niweidiol imperialaeth ieithyddol ar draws pob achos. Mewn sefyllfaoedd lle na ellir defnyddio un iaith brodorol at ddibenion dad-drefedigaethu (boed hynny oherwydd diffyg undod ieithyddol, neu ddiffyg safoni neu soffistigeiddrwydd), rhaid dod o hyd i gyfaddawd. Mae'r dadleuon uchod o blaid meddiannu iaith y gormeswr mewn modd chwyldroadol yn enghreifftiau pwerus o'r fath ddadl. Maent yn cyflwyno iaith y gormeswr naill ai fel dull offerynnol i'w ddefnyddio dros dro tan i annibyniaeth gael ei ennill, neu, fel dyfais i'w ailbwrpasu er mwyn gallu dechrau ymgorffori diwylliant y brodorion.

§2.3. Ieithoedd Creole

Mae ffordd ganol rhwng y ddau safbwynt uchod (ieithoedd brodorol fel prif ffynonellau diwylliant, a meddiannu iaith y gormeswr), sef trydydd math o ddadl sy'n honni mai ieithoedd Creole yw prif ffynonellau diwylliant pobl dduon. Mae ieithoedd Creole yn wahanol i ieithoedd Pidgin yn y ffyrdd canlynol. Tra bod ieithoedd Pidgin yn fersiynau o ieithoedd eraill sydd wedi'u symleiddio'n ramadegol, sydd wedi datblygu rhwng dau neu fwy o grwpiau heb iaith gyffredin ond sydd angen cyfathrebu ar gyfer masnachu, mae ieithoedd Creole yn ieithoedd go iawn. Maent wedi esblygu allan o'r defnydd hir o dafodieithau Pidgin i ddod yn ieithoedd naturiol sefydlog gyda'u strwythurau gramadegol safonedig eu hunain, megis ieithoedd Nigerian Creole neu Jamaican Patois.

Y rheswm bod ieithoedd Creole yn gael eu gweld fel ffynonellau dilys o ddiwylliant brodorol yw eu bod wedi cael eu datblygu'n weithredol gan y siaradwyr yn eu hamgylchiadau hanesyddol unigryw. Yn wahanol i'r achosion uniongyrchol o imperialaeth ieithyddol lle mae iaith y gormeswr yn cael ei orfodi ar y brodorion gan greu dadfeiliad diwylliannol, mai'r broses o drawsnewid iaith Pidgin mewn i iaith Creole yn creu iaith newydd gyda'i diwylliant unigryw. Gain i'r rhan fwyaf o ieithoedd Creole ddatblygu yn y meysydd siwgr a reis yn America, (ac i raddau llai Affrica ac Asia) trwy gyfathrebu hirdymor rhwng y bobl dduon gaeth a'r masnachwyr a gweithwyr gwyn, gellir dweud bod ieithoedd Creole wedi datblygu statws ddiwylliannol unigryw a gwreiddiol ymhlith eu siaradwyr.

Mae'r broses hon o 'drawsffurfio ieithyddol' yn galluogi ieithoedd Creole i ymgorffori diwylliant y brodorion a'r bobloedd ddarostyngedig, ac mae hyn yn tanseilio'r ddeuoliaeth draddodiadol rhwng ieithoedd brodorol a ieithoedd y gormeswyr. Er nad yw ieithoedd Creole yn seiliedig ar wreiddiau brodorol, gellid dadlau eu bod wedi cael eu mowldio'n gyson â diwylliant a hanes eu siaradwyr ers digon o amser i ddatblygu statws brodorol newydd. Datblygodd Jamaican Patois, er enghraifft, ar blanhigfeydd caethiwed yn yr 17eg ganrif allan o gyfathrebu estynedig rhwng deiaspora Gorllewin Affrica a oedd yn siarad ieithoedd Niger-Congo, a thafodieithoedd Saesneg eu perchnogion a gafodd y dylanwad mwyaf achos eu statws a'u mantais economaidd-gymdeithasol (Irvine 2004). Arweiniodd y cyfuniad hwn o dafodieithoedd Affricanaidd a Saesneg at fath o Saesneg Pidgin a gafodd ei safoni gydag amser mewn i Jamaican Patois. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o bobl Jamaica yn uniaethu'n gryf â

hiaith Patois, ac yn ei weld fel arwydd o'i diwylliant eu hunain (Bryan 2004); ac awgryma arolygon a deisebau diweddar bod y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi dyrchafi Patois i statws swyddogol.³

Er gwaetha'r datblygiadau cadarnhaol uchod, fodd bynnag, ni ellir anwybyddu bod ieithoedd Creole yn parhau i gael eu hystyriwyd gan nifer fel fersiynau cwrs, cyntefig ac anwar o ieithoedd Ewropeaidd, yn hytrach na ieithoedd go iawn yn eu hawl eu hunain (Rodríguez & Tate 2015). Mae hyn, mwy na thebyg, o ganlyniad i'r cyd-destun hanesyddol o dlodi a statws 'isel' economaidd-gymdeithasol lle datblygwyd ieithoedd Creole (Tria et al. 2015), yn hytrach na unrhyw ffactorau cynhenid i'r ieithoedd. I dynnu cymhariaeth: datblygodd ieithoedd Rhufeinig mewn modd tebyg: disodlodd Lladin rhan fwyaf o ieithoedd brodorol y gwladfeydd o dan yr Ymerodraeth Rufeinig, a cawsant eu amnewid am drafodaethau oedd yn cyfuno elfennau o'r ieithoedd brodorol gyda Lladin cwrs (ibid.). Ac eto, dyw'r ieithoedd Rhufeinig ddim yn cael eu hystyried fel bratieithoedd cwrs. Mae honni bod ieithoedd Creole rhywsut yn gwrs a chyntefig yn enghraifft o'r duedd ehangach o'r hyn a elwir gan DeGraff (2003) yn 'creole exceptionalism', sydd wedi bod yn ragdybiaeth ddominyddol mewn ieithyddiaeth prif ffrwd hyd heddiw. Yn wir, mae'r gair *patois* yn cyfieithu i 'iaith arw' yn y Ffrangeg.

Bu'r gwrthodiad hwn o'r canfyddiad bod ieithoedd Creole yn fersiynau cwrs a chyntefig o ieithoedd Ewropeaidd yn egwyddor ganolog i'r mudiad *créolité* Caribiaidd yn y 1980au. Tra soniodd y mudiad *Negritude* am hunaniaeth pobloedd dduon y Caribîai yn nhermau treftadaeth hynafol Affricanaidd, symudodd y mudiad *créolité* tu hwnt i hyn gan bwysleisio eu hunaniaeth unigryw o safbwynt hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol (Bernabé, Chamoiseau & Confiant 1989).

Seiliwyd y mudiad hwn yn bennaf ar athroniaeth Edouard Glissant (1981, 1990, 1996, 1997a, 1997b, 2002) ynghylch y broses o ddatblygu ieithoedd Creole. Tra oedd awduron cynharach fel Braithwaite (1971) yn son am ieithoedd Creole mewn ystyr llythrennol; h.y. proses o greu iaith frodorol newydd yn sgil grwpiau ethnig a diwylliannau gwahanol yn cymysgu a chyfathrebu a cyd-fyw, a datblygu eu diwylliant a iaith unigryw eu hunain o ganlyniad, gwadodd Glissant (1996) fod Creole yn ganlyniad anochel i hyn. Honnodd yn lle bod Creole yn unigryw i'r cyd-destun o wladychu a gormesu. Yn benodol, honnodd fod y tensiynau a'r trafferthion a brofodd cymdeithasau'r planhigfeydd Caribiaidd wedi bod yn amodau angenrheidiol unigryw ar gyfer datblygiad Creole. Hynny yw: ni allwn ddatgysylltu'r syniad o Creole o'r hanes o ormes, caethwasiaeth, anghydraddoldeb, a budr-elwa a arweiniodd ato (Glissant 1996: 18). Adlewyrcha'r broses o ddatblygu iaith a diwylliant Creole frwydr neu ymwrthodiad pobloedd y Caribî a'r budr-elwa hwnnw, ac mae'n creu sail ar gyfer 'supple theory of non-essentialist identity formation and transnational belonging' (Ahmed et al. 2003: 279).

Ceisiodd y mudiad *créolité* bortreadu natur neilltuol pobl y Caribî nid yn nhermau llinach Affricanaidd, ond yn hytrach yn nhermau eu *créolité* (Bernabé, Chamoiseau a Confiant 1990: 10). Eto, mae iaith yn ganolog i'r darlun hwn: mae amgylchiadau hanesyddol unigryw pobl y Caribî, eu bywiogrwydd creadigol, ai 'perthynas gymhleth, drafferthus â hanes', fel y mae Stuart Hall (2015) yn ei roi, wedi'u rhwymo'n annatod â'u hieithoedd Creole. Trwy honni bod diwylliannau Caribiaidd yn 'gymdeithasau wedi'u cyfieithu' gellir gweld bod Hall yn gwrthwynebu'r syniad o 'ddychwelyd i'r 'ymwybyddiaeth ddiwylliannol Affricanaidd' trwy bwysleisio nad oes 'no translation achieves total equivalence'; yn wir, mewn unrhyw gyfieithiad, 'the original is impossible to restore' (Hall 2015: 16). Mewn geiriau eraill, ni ellir datgysylltu hunaniaethau diwylliannol-ieithyddol unigryw pobloedd y

³ Mae'r ymgyrch hon i dyrchafi Patois i iaith swyddogol wedi dod yn sgil datblygiadau megis safoni llenyddol cynyddol Patois, gan gynnwys cyhoeddiad cyfieithiad Patois o'r Testament Newydd yn 2012. Yng nheiriau Courtney Stewart, rheolwr y prosiect cyfieithu: "The language is what defines us as Jamaicans. It is who we are - patois-speakers". Gweler: <https://www.bbc.co.uk/news/magazine-16285462>

Caribî o'u hanes unigryw o gaethwasiaeth, anghydraddoldeb, a budr-elwa, a'u gwrthwynebiad gweithredol tuag ato.

Mae'n amlwg, felly, fod perthynoledd ieithyddol wedi bod yn ganolog i lenyddiaeth gwrth-wladychol yr 20fed ganrif. Mae'r pwyslais gan Fanon a Memmi ar ieithoedd brodorol fel prif ffynhonellau diwylliant; gan Césaire a Rushdie ar allu ieithydd i gael ei ail-bwrpasu yn gyson â diwylliant brodorol; a chan Bernabé, Chamoiseau & Confiant ar allu *sui generis* ieithoedd Creole i ymgorffori'r diwylliant Caribïaidd i gyd yn troi o amgylch y cwestiwn o *leoliad* perthynoledd ieithyddol. Hynny yw: tra bod pob un ohonynt yn tybio bod iaith yn ymgorffori diwylliant ac yn effeithio ar gyflyrau meddyliol y siaradwyr, maent yn anghydweld o ran (1) yr union ganlyniadau seicolegol; (2) y goblygiadau gwleidyddol; a (3) i ba radd mae iaith yn gallu cael ei fowldio yn gyson â diwylliant gwahanol.

Nawr ein bod ni wedi archwilio'r dimensiwn ieithyddol i lenyddiaeth gwrth ac ôl-drefedigaethol yr 20fed ganrif, gadewch inni droi'n awr at Gymru a'i hanes o genedlaetholdeb ieithyddol. O gofio bod Cymru wedi'i gwladychu gan Loegr, ni fydd yn syndod bod cryn dipyn o orgyffwrdd yma: mae'r dadleuon (sydd eto yn rhagdybio perthynoledd ieithyddol) yn pwysleisio'r effeithiau canlynol. Yn gyntaf, y rhwygiadau mewnol diwylliannol-ieithyddol mewnol a brofwyd gan y Cymry Cymraeg o ganlyniad i statws israddol y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg. Yn ail, absenoldeb enghreifftiau o 'genedlaetholdeb banal' yn ein bywyd cyhoeddus, sy'n cael ei amlygu i raddau helaeth gan y broses o seisnigeiddio enwau lleoedd. Yn drydydd, yr honiad bod adfywio'r Gymraeg yn debygol o achosi adfywiad cyfatebol o ran diwylliant a chenedligrwydd Cymru.

§3. Cenedlaetholdeb ieithyddol Cymru: Saunders Lewis a J.R. Jones

Mae cenedlaetholdeb Cymreig yr 20-21ain ganrif yn achos perthnasol tu hwnt gan ei fod wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan gyfuniad o ystyriaethau perthynoledd ieithyddol, syniadau gwrth-drefedigaethol, a dylanwadau athronyddol cysylltiedig sy'n ymwneud â'r darlun gyfansoddiadol o iaith. Magodd y dimensiwn ieithyddol i genedlaetholdeb Cymreig dipyn o fomentwm gyda sefydlu Plaid Cymru yn 1925. Egwyddorion sylfaenol y blaid oedd Ymreolaeth (*Home Rule*) a hyrwyddo'r Gymraeg i statws iaith swyddogol yng Nghymru; ond yr ail nod a gafodd ei flaenoriaethu'n helaeth o ganlyniad i ddylanwad eithriadol un o brif sylfaenwyr y blaid sef y bardd, nofelydd, cyfieithydd, hanesydd, ac enwebai Gwobr Nobel Saunders Lewis (Ross 2005: 236). Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth Lewis, o dan ddylanwad gwaith Maurice Barrès, yn argyhoeddedig mai:

'the only way to cultivate your own personality as an artist and develop your own resources is to return to your roots [...] And I think it was Barrès – after Yeats and the Irish – that turned me into a convinced Welsh Nationalist. Then, I decided I had to master Welsh and read Welsh literature' (Lewis 1961).

Yn debyg i ddadleuon gwrth-drefedigaethol Freire & Macedo (1987) a Thiong'o (1986), roedd rhan sylweddol o genedlaetholdeb ieithyddol Lewis yn seiliedig ar yr angen i ysgrifennu yn eich iaith frodorol eich hun. Roedd hyn er mwyn hybu dilyniant gyda'r dreftadaeth lenyddiaeth frodorol (a'r dreftadaeth ddiwylliannol mae'n cynrychioli): dadleuodd Lewis nad oedd y dreftadaeth hon wedi bwydo mewn i'r lenyddiaeth Eingl-Gymreig (Jones & Thomas: 1973). Eifen gref o dröedigaeth Lewis at genedlaetholdeb oedd yr arwyddocâd bod ei dynged fel awdur Cymreig yn annatod o dynged yr iaith Gymraeg (Griffiths 1989: 11). O ganlyniad, roedd yn credu bod y ddwy nod o hyrwyddo treftadaeth diwylliannol llenyddiaeth Cymru, a'r nod o sicrhau newid gwleidyddol yn annatod o'i gilydd. O ran cyd-destun gwleidyddol, cafodd unig fudiad cenedlaetholgar sylweddol Cymru, sef

Cymru Fydd, ei ddiddymu ar droad yr 20fed ganrif, ac cafodd cwestiynau oedd yn benodol i Gymru eu heithrio i bob diben o'r etholiad cyffredinol ym 1924 (Davies 2007: 499). Sefydlwyd Plaid Cymru, felly, yn sgil y gwagle gwleidyddol lle nad oedd unrhyw ymwybyddiaeth echblyg amlwg o hunaniaeth genedlaethol Gymreig ar y pryd, heb sôn am fudiad oedd yn pwysleisio'r iaith.

Mae ffocws ddwys hanesyddol Plaid Cymru ar iaith, unwaith eto, yn ganlyniad o ymrwymiad cudd i berthynoledd ieithyddol. Dechreuodd Lewis, sef prif sefydlwr cenedlaetholdeb Gymreig cyfoes (Griffiths 1989:94; Miles 1973: 19), o'i sylweddoliad fod iaith yn gyfrwng diwylliant, fel y dangosir gan ei sylwadau ynghylch yr anghenrheid i ddychwelyd i'ch gwreiddiau diwylliannol-ieithyddol eich hun. Fel llywydd Plaid Cymru o 1926-39, tra-arglwyddieithodd ei ddylanwad dros flynyddoedd ffurfiannol Plaid Cymru, a cafodd ymrwymiad Lewis i'r Gymraeg fel prif gyfrwng diwylliant Cymru effaith ddofn ar ddatblygiad y blaid. Yng ngeiriau Darryl Jones: gwnaeth hyn 'informed the dominant discourse of Welsh political and cultural nationalism throughout the [20th] century' (Jones 1996: 31). Ystyriwch y sylwadau canlynol, er enghraifft:

...it is only a monoglot Welsh speaking Wales that is consistent with the aims and philosophies of Welsh nationalism... To believe otherwise is self-deceit and a refusal to face the truth. Therefore, if we wish to fight at all for the Welsh language, we must fight seriously for the continuance of the monoglot Welsh-speakers... We wish to free Wales from English grasp [and] de-anglicise Wales (Lewis 1933: 65).

Gellir gweld felly, bod Lewis i bob diben yn uniaethu diwylliant Cymru gyda'r iaith Gymraeg, ac felly gallwn ddehongli hyn yn ddi-os fel ymrwymiad i berthynoledd ieithyddol. Ategodd dro ar ôl tro nad yw hi'n bosib atgynhyrchu diwylliant A trwy iaith B trwy gydol ei waith ysgrifennu. Ar ôl iddo droi ei gefn ar ei ddrama *The Eve of St John* (1921) (roedd wedi ceisio ei hysgrifennu mewn idiom Eingl-Gymreig drwy atgynhyrchu rhythmau a phatrymau gramadegol y Gymraeg trwy'r Saesneg), daeth i'r casgliad bod tafodiaeth Eingl-Gymreig yn ddim byd ond 'the horrible jargon of men who have lost one tongue without acquiring another... no feebler stuff is spoken in these islands' (dyfynnwyd yn Griffiths 1989: 6). Yn gysylltiedig, mynegodd Lewis amheuaeth o Eingl-Wydddeleg hefyd. Mewn ymateb i'r awgrym y gallai Cymru ddysgu gan y mudiad Gwyddelig Sinn Fein a lwyddodd er gwaetha dirywiad yr iaith Wyddeleg, dyfynnodd y llinellau canlynol (gan ffrind) mewn modd cymeradwyol:

'Losing a mother tongue does not change a people at one stroke. The poison works slowly but it results in death. In our Irish case the effects of the evil were hidden over the course of a century by the clear threat of another evil, oppression from without. That oppression has now ceased, but the old poison is still at work in the Irish body. And if the Irish people do not awaken to understand the evil that lies in the loss of their language, it is perfectly possible that there will not be an Irish nation in a century's time. Perhaps the Irish Republic shall remain, but a republic is one thing and a nation another.' (Lewis 1947, dyfynnwyd hefyd yn Jones 1996: 32).

Yn y bon, roedd Lewis yn gweld adfer y Gymraeg fel y *conditio sine qua non* o adfywio'r ymwybyddiaeth genedlaethol Gymreig, a sicrhau parhad diwylliannol a hirhoedledd Cymru. Fel y mae'r pwt uchod yn dangos, mae'n amhosibl, yn ôl Lewis, i ddiwylliant brodorol oroesi'n barhaol trwy iaith arall. Yn hytrach, gellir esbonio'r achos Gwyddelig uchod gan y syniad bod ymgorffori'r diwylliant Cymreig neu Wyddeleg trwy'r Saesneg yn barasitig ar barhad yr iaith frodorol mewn golwg. Hynny yw: dros amser, bydd dirywiad yr iaith frodorol yn arwain at ddirywiad cyfatebol y diwylliant brodorol cysylltiedig nes na fyddynt bellach yn cael eu adlewyrchu trwy gyfrwng y tafodieithoedd 'hybrid' megis Eingl-Gymraeg neu Eingl-Wydddeleg.

Yn debyg i ddadleuon Fanon a Memmi a welsom yn §2, mae argyhoeddiad Lewis mai ieithoedd brodorol yw prif ffynonellau diwylliant yn anghyfaddawol. Tebygrwydd arall rhyngddynt yw eu pwyslais ar y cymhlethdod taeg a ddatblygwyd yn sgil eu concwest imperialaidd hanesyddol: yn ôl Lewis, prif nod Plaid Cymru oedd 'tynnu... oddi wrth Gymry eu taegwrwydd ysbryd... tynnu oddi ar ein gwlad annwyl ni farc a gwarth ei choncwest' (Davies 2007: 538-9). Amod angenrheidiol o drechu'r cymhlethdod taeg hwn yw hyrwyddo a dyrchafu statws y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd Lewis yn credu bod hyn yn ddigonol ynddo'i hun: pwysleisiodd hefyd holl-bwysigrwydd adfer hunanddelwedd y Gymry fel un o sefydlwyr y gwareddiad Ewropeaidd (Davies 2007: 539), yn bennaf drwy ddylanwad ei llenyddiaeth uchel-ael yn yr Oesoedd Canol.

O ystyried eithafiaeth Lewis ynglŷn â'r iaith a'i lle sylfaenol yng nghenedlaetholdeb Cymru, nid yw'n syndod bod iaith wedi tra-arglwyddiaethu ar genedlaetholdeb Cymreig ers 1925 hyd heddiw. Er mai ychydig iawn o effaith wleidyddol *ffurfiol* a gafodd Plaid Cymru yn ystod llywyddiaeth Lewis yn y 1920au a'r 30au, bu dylanwad Plaid Cymru ar y cyfryngau darlledu yn hollbwysig, gan hau'r hadau ar gyfer dylanwad gwleidyddol diweddarach y blaid. Arweiniodd ddylanwad Lewis ar wleidyddiaeth Cymru hefyd at enghreifftiau o weithredaeth sydd wedi meithryn statws symbolaidd. Yn 1936, er enghraifft, llosgodd Lewis a dau aelod arall o'r Blaid ysgol fomio a gafodd ei adeiladu gan lywodraeth Sant Steffan, er gwaethaf protestiadau hanner miliwn o Gymry. Roedd ffermdy Penyberth (a ddymchwelwyd gan y llywodraeth er mwyn creu'r ysgol fomio) yn llecyn treftadaeth ddiwylliannol Cymreig pwysig: bu'n gartref i werth canrifoedd o noddwyr aristocrataidd a beirdd nodedig. Cafodd diffyg ystyriaeth y llywodraeth dros dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, y ffaith i'r gwaith adeiladu ddechrau ar 400 mlwyddiant atodiad anwirfoddol Cymru i Loegr, ac agwedd nawddoglyd y barnwr tuag at y Gymraeg yn yr achos llys i gyd eu gweld yn llygad y cyhoedd fel arwyddion cryf o barhad gormes Lloegr. Hyd heddiw, caiff y drosedd fwriadol hon ei weld fel digwyddiad symbolaidd ganolog yn hanes fodern Cymru (Davies 2007: 540).

Dylanwad mwyaf Lewis, fodd bynnag, oedd ei anerchiad cyhoeddus 'Tynged yr Iaith' a draddodwyd yn Gymraeg ar y radio yn 1962. Ynddo, mae Lewis yn rhagweld y bydd y Gymraeg ar fin diflannu yn wyneb dirywiad parhaus yn niferoedd sy'n siarad Gymraeg. Mae'n mynegi dadansoddiad hanesyddol a gwleidyddol o statws y Gymraeg, ac yn annog gweithredu gwleidyddol radical ymhlith y Gymry. Bu effaith y ddarlith hon yn sylweddol. Yn ogystal â sbarduno nifer o brotestiadau a gwahanol weithredoedd o anufudd-dod sifil, ysgogodd, yn ogystal â hyn, sefydliad *Cymdeithas yr Iaith Gymraeg* yr un flwyddyn (Davies 1994: 649).

Lewis ei hun oedd llywydd cyntaf *Cymdeithas yr Iaith*, sef grŵp ymgyrchu dros hawliau iaith Cymraeg: bu eu hymdrechion yn ganolog i ddatblygiad adeiladu cenedl Cymru. Arweiniodd eu hymgyrchon at greu'r orsaf radio Gymraeg Radio Cymru (1977), y sianel deledu S4C (1982), a *Deddfau'r Iaith Gymraeg* ym 1967 a 1993, lle rhoddodd yr ail ohonynt statws cyfartal i'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae'r dimensiwn ieithyddol hwn i brosiect adeiladu cenedl Cymru wedi dod yn fwyfwy pellgyrhaeddol ers hynny, fel y dengys gan strategaeth iaith *Gymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, er enghraifft, sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Trwy gydol y 1960au, y prif ddylanwad athronyddol ar flynyddoedd ffurfiannol cynnar Cymdeithas yr Iaith oedd yr Athro J.R. Jones. Adeiladodd Jones ar syniadau Lewis ynghylch natur annatod iaith a hunaniaeth genedlaethol, yn ogystal â'r gwrthdaro rhwng hunaniaeth genedlaethol Cymru a hunaniaeth genedlaethol Prydain, ac effeithiau seicolegol niweidiol dirywiad ieithyddol a dadfeiliad diwylliannol; a rhoddodd wedd athronyddol amlycach iddynt. Yng ngeiriau Saunders Lewis:

'...cafodd y mudiad ifanc newydd arweinydd a phroffwyd l'w ysbrydoli a'i borthi yn y meddyliwr cymdeithasol praffaf a godwyd yn ein Cymru Gymraeg ni y ganrif hon, sef yr athro JR Jones.

Llyfrau a phamffledau JR Jones yw clasuron ein cenedlaetholdeb ni heddiw. Ef a roes fawredd i ymgyrch cymdeithas yr iaith yn erbyn gwarth arwisgiad y Tywysog Charles yng Nghaernarfon...’ (Rhagair i’r ail argraffiad o *Tynged yr Iaith*, Saunders Lewis, Mehefin 1972)

§3.1. J.R. Jones

Mae i weithiau J.R. Jones ddwy egwyddor sylfaenol sy’n rhedeg trwyddynt fel rhimyn aur, sef: (1) iaith yw ceidwad ysbryd y genedl; a (2) yr angen am wreiddiau diwylliannol yn eich cenedl eich hun. Mae'r egwyddorion hyn yn ganolog i'r dadleuon mae Jones yn datblygu ynglŷn â drwg-effeithiau seicolegol dadfeiliad diwylliannol, a'r angen am briod iaith er mwyn cynnal a chadw diwylliant. Caiff egwyddor (1) ei rhagdybio gan Jones megis gwirionedd acsiomataidd, ac mae egwyddor (2) yn seiliedig ar ddarlun athronyddol Jones o hunaniaeth bersonol a'r natur ddynol. Mae'n amlwg bod barn Jones am iaith yn gyfystyr a pherthynoledd ieithyddol, gan fod ei brif lyfr ar iaith a hunaniaeth, *Prydeindod* (1966), yn dechrau gyda diffiniad o genedl yn nhermau iaith (+ tiriogaeth a gwladwriaeth sofran), lle diffinnir iaith fel:

‘Lluniwr undod eu hysbryd, sef eu hiaith: nid yn gymaint fel y mae iddi swydd cyfrwng neu dechneg cyfathrebu ond fel y mae hi'n draddodiad, yn etifeddiaeth a gyfoethogir gan gerddeddiad y canrifoedd—'iaith' yn yr ystyr sydd i'r gair pan ddywedir fod holl orffennol diwylliannol Pobl wedi ei gronni i'w priod iaith.’ (Jones 1966: 10)

Er mwyn egluro ymhellach yr hyn y mae'n ei olygu wrth iaith yn yr ystyr ddiwylliannol arwyddocaol hon, dyfynna Jones y datganiad canlynol ieithydd 19eg ganrif Gwlad yr Iâ, Tómas Sæmundsson: "Ni ddaw yr un briod Bobl i fod hyd oni siaradant iaith o'r eiddynt eu hunain ; caniatâer i'r ieithoedd drengi ac fe drenga'r Bobloedd hefyd, neu ymdoddi yn Bobloedd wahanol". (Jones 1966: 11, a ddyfynnir hefyd yn Tolkien 1955). Ac yn yr epigraff i *Prydeindod* (1966), mae'n dyfynnu Herder:

Caredig iawn, gan hynny, a fu Rhagluniaeth, yn gosod uwch pris ar hapusrwydd yr unigolyn nag ar amcanion y cynulladau a'r ymglymiadau mawr. Canys fe wahanodd hi Bobloedd oddi wrth ei gilydd, nid yn unig â choedwigoedd a mynyddoedd ac eithafion hinsawdd, â môr neu anialwch neu afon, eithr â rhywbeth llawer mwy effeithiol, sef â gwahaniaeth iaith ac arbenigrwydd tueddiad a chymeriad cenedligol, er mwyn gwneud gwaith y Grymoedd gormesol yn fwy anodd ac atal cywasgiad y ddynolryw i geubal rhyw un Ceffyl Pren o wladwriaeth fyd-eang.'

Dyfynna hefyd ddarlleniadau o Anerchiadau i'r Bobl Ellmynig gan Fichte megis:

"Fe rown yr enw Pobl ar y sawl y cyflyrrwyd eu horganau llafar gan yr un amgylchiadau, y sawl sydd wrth gydfyw yn meithrin eu hiaith mewn cyfathreb barhaol â'i gilydd. Ac nid o ba gŷff y tarddodd y rhai a ddeil ymlaen i siarad yr un iaith mo'r cwestiwn. Yr ystyriaeth bwysig yw parhad yr arfer o siarad yr iaith, canys ffurfir dynion lawer mwy gan iaith nag y ffurfir iaith gan ddynion." (Fichte 1808: 56, dyfynnir yn Jones 1966: 11).

Wrth wneud hynny, mae Jones yn cyd-fynd â chenedlaetholdeb iaith-ganolog Rhufeiniaid yr Almaen, sydd ei hun yn seiliedig ar ymlacio ieithyddol.

Diffinia Jones y cysyniad o genedligrwydd yn nhermau set o glymau crai yn ei ddau destun sylfaenol ar y pwnc: 'Y Syniad o Genedl' (1961) a *Prydeindod* (1966). Hawlia Jones bod priod iaith yn un o amodau angenrheidiol ('glymau crai') Pobl: 'Y gwir yw, wrth gwrs, mai anghenrhaid ar *bobl* yw eu bod yn siarad eu hiaith briod eu hun' (1961: 5). Mae pobl, yn eu tro, yn un o amodau angenrheidiol cenedl, a gaiff ei ddiffinio yn nhermau tair amod angenrheidiol: (1) tir, (2) iaith, (neu ieithoedd) a (3)

naill ai gwladwriaeth sofran (yn Jones 1966:1), neu ymwybyddiaeth Pobl o'u gorffennol hanesyddol eu hunain (yn Jones 1961: 7).

Ymhellach, rhaid i'r iaith a thiriogaeth, 'gydymdreiddio' a'i gilydd dros gyfnod sylweddol o amser (1966: 13). Ystyr y droseb hon yw bod rhaid i'r briod iaith gael ei defnyddio nid yn unig yn y sffer breifat, ond hefyd yn sffêr gyhoeddus ei siaradwyr. Hynny yw, rhaid defnyddio'r iaith mewn meysydd gweinyddol, cyfreithiol, economaidd, addysgol a gwleidyddol (ac ati) dros gyfnod sylweddol o amser, fel bod yr iaith yn adlewyrchu bywyd / manau cyhoeddus, a bod y bywyd a manau cyhoeddus yn adlewyrchu'r iaith. Y brif enghraifft mae Jones yn rhoi o'r broses hyn ar waith yw enwau llefydd: 'yr enwau a roisant yn eu hiaith ar eu mynyddoedd a'u broydd, eu hafonydd a'u pentrefi—yr 'enwau persain ar fan a lle'' (1966: 14).

Ceir ategiad tebyg o bwysigrwydd diwylliannol presenoldeb iaith mewn manau cyhoeddus hefyd yn nrama *Translations* Brian Friel (1980), sy'n darlunio brwydr y Gwyddelod yn erbyn gormes ddiwylliannol Lloegr yn nhermau ymgais i wrthsefyll y broses o gyfieithu, a newid enwau llefydd lleol i'r Saesneg. Caff yr enwau Saesneg hyn a orfodwyd ar lefydd lleol eu hystyried fel enghreifftiau llythrennol a symbolaidd o amddifadu pobl frodorol o'u gwreiddiau a balchder diwylliannol, o ystyried sut gymaint mae iaith yn adlewyrchu eu diwylliant. Yng ngeiriau Gabriel Okara: 'from a word, a group of words, a sentence and even a name in any African language, one can glean the social norms, attitudes and values of a people' (1963: 15).

Gan ddychwelyd yn ôl at ddiffiniad Jones o genedligrwydd: beth yw natur y trydydd cwlwm / amod angenrheidiol, sef ymwybyddiaeth hanesyddol? Gwahaniaetha Jones rhwng dau fath: ymwybyddiaeth ymhlyg ac ymwybyddiaeth echblyg. Cyfeiria ymwybyddiaeth echblyg at ymwybyddiaeth pobl 'hyddysg' ac 'uchel-ael' (1961: 9) o'u hanes 'drwy eu diddordebau llenyddol, crefyddol, hynafiaethol neu hanesyddol pur' (Jones 1961: 9-10). Mae ymwybyddiaeth ymhlyg, ar y llaw arall, ar gyfer y llwythau 'cyffredin, anolau a diddysg' (1961: 9): caiff eu hymwybyddiaeth ei gyfryngu trwy sefydliadau a symbolau diwylliannol a chenedlaethol. I'w brofi, 'mae'n rhaid i chwi ei ganfod yn feunyddiol symboledig mewn cyfryngau gwrthrychol a fydd yn gefndir cyson i'ch bywyd' (1961: 10). Yn ôl Jones, nid oes symbolau o'r fath yn bodoli yng Nghymru, er eu bod yn bodoli yn Lloegr, er enghraifft y 'Frenhiniaeth, y Prifddinas, y Plas Brenhinol, y Senedd-dai, y Big Ben, y Lluedd Arfog, y Llongau Mawr ac ymlaen' (ibid).

Prima facie, mae'n aneglir pam bod Jones yn credu bod y fath symbolau ('cenedlaetholdeb banal', yn nhermau Billig (1995)) yn gwbl absennol o Gymru, o ystyried bodolaeth yr Eisteddfod genedlaethol, y timau pêl-droed a rygbi, y baneri, a'r prifysgolion ac ati; roedd pob un ohonynt yn bodoli yn y 1960au. Ni ellir ond dod i'r casgliad, felly, bod Jones yn gor-ddweud yn fwriadol, felly, er mwyn tynnu sylw'r darlennydd at y bwch rhwng Cymru a Lloegr yn hyn o beth. Mae'r dehongliad hwn yn arbennig o gredadwy o ystyried rôl y cyfryngau torfol o ran lledaenu diwylliant cenedlaethol: tra roedd digonedd o'r cyfryngau hyn yn bodoli yn Lloegr yn yr 20fed ganrif, ni ellid dweud yr un peth am Gymru. Yn wir, yn ogystal â'r prinder cyfryngau print, nid oedd ganddom orsaf radio na sianel deledu Gymraeg tan 1977 a 1982, yn y drefn honno.

O ran y diffiniad uchod o genedl, gellir ymddangos braidd yn rhyfedd bod y tri chyflwr y mae Jones yn eu rhestru – tiriogaeth, iaith a gwladwriaeth sofran (1966) neu ymwybyddiaeth hanesyddol (1961) – yn cael eu cyflwyno fel amodau angenrheidiol, o ystyried bod rhai ar goll o'r rhan fwyaf o wledydd. Cydnabydda Jones y gwrthwynebiad hwn, gan gyfeirio at Iwerddon (absenoldeb iaith) a'r Iddewon (absenoldeb tiriogaeth) fel enghreifftiau. Fodd bynnag, mae'n awgrymu y gallai wrthsefyll y gwrthwynebiad hwn trwy hawlio y gall cenedl golli rhai o'r elfennau hyn tra'n parhau i fod yn genedl, cyn belled â bod ymwybyddiaeth hanesyddol y Bobl yn parhau (1961: 5-6). Ond rhaid gofyn: a oes

anghysondeb yma? Hynny yw: os yw Pobl angenrheidiol i genedl a bod iaith yn angenrheidiol i Bobl, sut all genedl fodoli heb iaith? Cenedl heb iaith, cenedl heb galon. Tynnwch yr iaith i ffwrdd a bydd y Bobl yn diflannu; tynnwch y Bobl i ffwrdd a bydd y genedl yn diflannu.

Ni fyddai'n syndod pe bai Jones ateb Jones i'r gwrthwynebiad hwn wedi'i ysbrydoli gan Herder, sy'n cyfeirio at yr un math o beth trwy bortreadi'r Iddyewon fel enghraifft berffaith o Bobl â chymeriad cenedlaethol, er nad oes ganddynt iaith neu diriogaeth gyffredin. Mae cymeriad cenedlaethol yr Iddewon, yn ôl Herder (1783), yn byw yn eu credoau cyffredin ynglŷn â e.e. cyfraith Moses, parch at eu cyndeidiau, barddoniaeth a siantiau traddodiadol: 'all the fraternal members [are] connected together, until the tribunal judge[s] them all in Jehovah's name' (Herder 1783, dyfynnir hefyd yn Eggel et al. 2007: 58). Yn yr un modd, ysgrifenna Jones:

'Cynhwysai, yn hanes yr Iddewon, lenyddiaethau yn eu hen iaith, ond, yn fwy arbennig, grefydd draddodiadol a chorff o arferion, defodau a dulliau o fyw ac o feddwl yn mynd ynglŷn â hi. Rhoes hyn i'r Iddewon, er eu gwasgaru, fath o sylwedd ysbrydol parhaol. Ac o fewn i'r sylwedd hwnnw y cadwyd eu cenedligrwydd' (Jones 1961: 4).

Y rheswm nad yw sylwadau Herder yn atebol i'r un anawsterau â sylwadau Jones, fodd bynnag, yw na wnaeth oedd Herder erioed ddiffinio pobloedd na chenchedloedd yn nhermau amodau neu sylweddau *angenrheidiol*. Rhaid ategi, fodd bynnag, bod hi'n nodwedd gyffredin o athroniaeth ddadansoddol yr 20fed ganrif (sef y traddodiad roedd Jones yn ysgrifennu ynddo) i geisio darparu diffiniadau unfath sy'n cwmpasi pob enghraifft yn nhermau amodau angenrheidiol. Y broblem gyda hyn, fel y dangosodd Wittgenstein (1953), yw nad oes gan y rhan fwyaf o eiriau ystyr sefydlog, di-amser nac annibynnol o'i cyd-destynnau sy'n bosib eu crynhoi mewn ychydig eiriau: nid oes gan y rhan fwyaf o gysyniadau ffiniau siarp. Ystyriwch, er enghraifft, yr enghraifft uchod o genedl, neu gemau, neu daldra, neu harddwch (ac ati): mae eu hystyrion yn amrywio'n sylweddol yn ôl eu cyd-destun. Fel y rhan fwyaf o gysyniadau eraill, nid oes ganddynt ddiffiniad cynhwysfawr nac unffurf. Disodlodd Wittgenstein (1953) y Blatoniaeth hyn gyda'r cysyniad o *ddiffiniad tebygrwydd teuluol*. Hynny yw: diffinio pethau nid yn nhermau amodau angenrheidiol, ond yn hytrach yn nhermau nifer o rinweddau sy'n tueddi nodweddi'r cysyniad, ac sy'n aml yn gorgyffwrdd a'i hilydd, ond nid mewn unrhyw ffordd anorfod na hanfodol. Pe bai Jones wedi cyflwyno ei ddiffiniadau yn nhermau'r model tebygrwydd teuluol, gallai wedi osgoi bod yn atebol i'r gwrthwynebiadau uchod.

Dadleua D.Z. Phillips (1995) a Walford Gealy (2009) yn eu herthyglau ar J.R. Jones: bu'n ffynhonnell o densiwn roedd yng waith Jones na roddodd erioed y gorau i'r math Platonaid o ddiffiniad – tuedd a oedd yn symptom o'i hyfforddiant yn y traddodiad Empirig Prydeinig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi: hyd yn oed bod tuedd Jones i gyflwyno diffiniadau unffurf a chaeth (sy'n nodweddiadol o'i amser,) a gor-gyffredinoli yn peri i'w waith esgor ar rai gwrthwynebiadau pan gaiff ei ddarllen drwy lens hollol ddadansoddol, nid yw hyn ynddo'i hun yn tansilio perthnasedd ehangach ei syniadau. Oblegid, fel y soniwyd uchod, gellid eu hailffurfio'n ddigon uniongyrchol mewn modd sy'n osgoi'r Platoniaeth neu hanfodiaeth mewn golwg.

Yr Angen am Wreiddiau

O ran yr ail egwyddor ganolog yng ngwaith Jones, sef yr angen am wreiddiau yn eich cenedl eich hun, hawlia Jones (1961) mai absenoldeb ymwybyddiaeth hanesyddol ymhlith y Cymry sy'n gyfrifol am erydu eu cenedligrwydd. 'Pan gilia gorffennol Pobl allan o'u golwg fel na wyddant mo'r llwybr ato bellach, ni bydd hysbys iddynt o ba le y daethant, na pha bobl ydynt (Jones 1961: 9). O ganlyniad,

maent yn mynd 'fel petai, yn genedligol amwys a chymysglyd. Y mae hyn yn digwydd i lawer o bobl yng Nghymru' (ibid).

Ymhelaetha Jones ar y dadfeiliad diwylliannol hyn yn 'Cristnogaeth a Chenedlaetholdeb' (1963) a *Prydeindod* (1966), lle mae'n darogan bod y Cymry dad-wreiddiedig mewn perygl o brofi cwymp yn ôl i'r bywyd anwar, lle maent yn llercian yng ngwyll y bywyd cyntefig (Jones 1963: 1-2). Cyfuna Jones ddadfeiliad cenedlaethol ac ysbrydol y Cymry, gan fynnu eu bod yn annatod o'i gilydd: 'Wynebwn yn awr felly argyfwng dadfeiliad cenedligol y bobl Gymreig. Ac y mae'n ddigon eglur bod hwn yn argyfwng ysbrydol—yn argyfwng, nid yn unig, nac yn bennaf, yn amgylchiadau darn o diriogaeth, ond yn nhynged eneidiau dynion. (ibid.). Ceir enghraifft o'r dadfeiliad ysbrydol hwn yn *Prydeindod*:

'Dychmyga ferch o gefn gwlad yn dod i dref fel Caerfyrddin i weithio. Magwyd hi'n ymadroddus yn y Gymraeg a rhoed rhywfaint o ehangrwydd yn ei meddwl drwy'r Gymraeg. Ond yn y dref "cais gelu'r ffaith mai Cymraes yw" a throi i siarad y frataith Saesneg dlawd ei hadnoddau sy'n cyfyngu ar bosibiliadau ei hysbryd, yn basáu ei bryd a chrebachu ei meddwl, nes ei thoddi i mewn yn y diwedd i haid dinllom ddiamrywiaeth y caneuon pop a'r papurau pŵls.' (1966: 42).

Aiff y fath ddadfeiliad ysbrydol law yn llaw a datgymaliad iechyd meddwl (ibid.). Cyflwynna Jones y ddameg uchod fel adlewyrchiad o dynged niferoedd cynyddol o boblogaeth Cymru. Ymhelaetha Jones ar seicoleg fewnol y ferch gefn gwlad:

Yn y dref, caeodd 'byd' amdani lle'r aeth y llun ohoni ei hun fel Cymraes yn gymysglyd yn ei meddwl; canys, heb yn wybod iddi, yr oedd yn gweithio arni'n ddirugaredd dynfa hunaniaeth arall. Gweithia'r dynfa ar ei hisymwybod yn ffurf 'awgrym' ymwithiol, perswadiol mai'r Saesneg rywfodd oedd i fod, oedd yn 'bwysig', oedd yn 'iawn'. Ac mewn awyrgylch a lwythai'r perswâd a'r ymdeimlad hwn arni, ni fedrai hi ddim bod fel Cymraes. Nid oedd droedle ar ôl i'r llun hwnnw ohoni, sef i'r hunaniaeth a oedd iddi drwy ac o fewn i gyfrwng y Gymraeg. Holltwyd yr hunaniaeth hen ymaith a'i dileoli yn ei meddwl, fel pe camai dyn allan o ffurf ei gorff ei hun a gadael hwnnw'n sefyll megis caets gwag. Ac o ganlyniad, nid ymglymai'r Gymraeg â dim a fedrai hi fod mwyach. Felly yr aeth yn 'sgerbwyd yn ei chwprdd' (ibid.).

Effaith yr hollt hunaniaeth hyn, yn ei dro, yw'r datblygiad a'r mewnoliad anochel o gymhlethdod taeog, sy'n arwain at 'hunan-ddirmyg a gor-barodrwydd i gydymffurfio' (1966: 43).

Mae darlun Jones o'r adweithiau seicolegol hyn wedi'i seilio ar ei bwyslais am yr angen am wreiddiau yn eich cenedl eich hun, sydd ei hun yn deillio o'i ddarlun o hunaniaeth bersonol a'r natur ddynol, sy'n cael eu esbonio yn nhermau profiad goddrychol a 'bychanfydoedd'. Yn fwy penodol, disgrifia hunaniaeth bersonol mewn modd lled-Hegelaidd, lle mae ymwybyddiaeth dyn yn y ffaith fod y byd yn bod iddo ac felly, fel petai, yn ei gynull ei hun yn brofiad ynddo. (1963: 6). Mae'r darlun hyn yn cynnwys gwahaniaethiad rhwng gwrthrych a goddrych sy'n nodweddiadol o waith Hegelaidd Prydeinig y 19eg/20fed ganrif cynnar. Disgrifia Jones arwyddocâd y ddeuoliaeth gwrthrych/goddrych hwn trwy honni bod ymwybyddiaeth yn gyfystyr a 'not so much the mind confronting its objective field but rather comprehending it in such a way that it included it.' (dyfynnwyd yn Gealy 2009: 71). At ein dibenion presennol, rhown amwysedd y dyfyniad uchod i'r neilltu. Ond naill ffordd neu'r llall mae'n ymddangos bod barn Jones am hunaniaeth bersonol yn ei hanfod yn gyfystyr â'r berthynas rhwng safbwynt goddrychol person o'r byd ar y naill law, ac ar y llaw arall y byd fel y'i 'rhoddir' i ni o fewn ei bamedrau hanesyddol a diwylliannol.

Elfen ganolog arall i'r darlun hwn o hunaniaeth bersonol yw'r natur ddynol. Yn ôl Jones: 'y mae'n rhaid i ni wrth fychanfyd (microcosm) a fydd nid yn unig yn cyflwyno i ni gynnyrch meddwl yr oesoedd ond yn sefyll ei hunan hefyd yn yr oesoedd' (1963: 3). Y rheswm dros hyn yw: 'Oni bai ei

gysylltu o ran ei feddwl â'r hyn a alwaf (yn niffyg ymadrodd Cymraeg) yn 'structures of universality', y mae'n eglur na fedrai dyn fod wedi creu ei wareiddiadau; dal i lercian yng ngwyll y bywyd cyntefig y byddai' (ibid.). Ymhellach, rhaid i'r 'strwythurau' hyn gael eu 'gweithio i mewn i wead sylweddau ei fychanfyd', a rhaid iddo ddod yn rhan o rhan o 'drac mewn amser a fydd yn ehangach ei rychwant na thrac ei hoedl ef ei hun ac na thrac ei linach deuluaidd, hynny yw, rhaid iddo ymglywed â sefyll yn llif amser o fewn i Drac a fydd yn rhychwantu'r oesoedd' (1963: 4). Yr uned fwyaf lle gall hyn ddigwydd, yn ôl Jones, yw eich cenedl eich hun (ibid).

Y syniad yma yw bod bywyd gwareiddiedig yn dibynnu ar yr amod bod pobl yn cael eu gwreiddio mewn cyd-destun diwylliannol sy'n gwneud eu treftadaeth ddiwylliannol yn amlwg iddynt, a'u bod yn deall a pwysigrwydd ei barhad ledled y cenedlaethau. Ar y darlun hwn, mae unigolion a chenchedloedd yn fychanfydoedd - sef dehongliadau a sadbwytiau unigryw, angyfnewidawdy, o'r byd (1963: 6). Yn ôl Jones, mae ystyr ganolog y syniad o fychanfyd yn ymwneud a'r unigolyn, ac wedyn gellir ymestyn y cysyniad i'r genedl hefyd: Ceisiaf, gan hynny, drwy'r syniad o 'fyd', gydio'r genedl wrth yr unigolyn a sefydlu lle'r genedl mewn graddfa gwerth a sylfaenwyd ar weld y gwerth pennaf mewn dyn. (1963: 5). Esbonia werth yr unigolyn yn nhermau marwolaeth: pan fydd unigolyn yn marw, mae hyn yn dod â'i ddehongliad unigryw o'r byd i derfyn (1963: 6). Mae'r un peth yn wir am ddinistrio cenedl, sy'n perthyn i'r 'un dosbarth o ddrygai' â dinistrio bywyd unigol, 'canys math o grynhoad unigryw ar y byd yw pob un ohonynt hwythau' (1963: 7).

Ar un olwg, gallai ymddangos bod y sylwadau hyn yn cyflawni gwall rhesymegol: o'r ffaith bod unigolion (sy'n cyfansoddi cenedloedd) yn fychanfydoedd, nid yw'n dilyn bod y cenedloedd eu hunain hefyd yn fychanfydoedd. Y gair am y naid resymegol hon yw'r 'fallacy of composition' a gaiff ei amlygu gan y ddadl ganlynol: 'mae gan bob dafad fam; felly, mae gan yr haed gyfan fam'. Byddai dehongliad mwy craff, fodd bynnag, yn ceisio olrhain rhesymu tebygol Jones trwy ei seilio yn ei ddarlun o iaith. Os yw iaith, fel y mae Thiong'o (1986: 15) yn ei ddisgrifio, megis 'collective memory bank of a people's experience in history', yna cyhyd a bod yr iaith honno yn ran sylweddol o'r genedl dan sylw, gellir ystyried y genedl fel bychanfyd ar lefel ehangach. Hynny yw: mae'r iaith (= rhan sylweddol o'r genedl) yn ymgorffori cysyniadau'r cenedlaethau; ac felly caiff argraff gref o fychanfydoedd y meirw eu trosglwyddo ar draws cenedlaethau Trwy ddefnydd parhaus yr iaith.

Prydeindod

Yn *Prydeindod* (1966), dadleua Jones bod hunaniaeth genedlaethol Cymru yn gwbl anghydnaws ac anghyson â'r hunaniaeth Brydeinig, a bod ymdrechion gan y Cymry i uniaethu â'r hunaniaeth Brydeinig wedi arwain at adweithiau seicolegol patholegol ar raddfa epig. Yn ôl Jones, mae Prydeindod, sef yr 'ideoleg' bod Prydain yn genedl go iawn sy'n gallu darparu gwreiddiau diwylliannol i'r Cymry dadwreiddiedig yn rhith-goel sy'n peri ffug-ymwybyddiaeth helaeth ymhlith y Cymry. Y rheswm dros hyn yw mai hunaniaeth Lloegr ar wedd gamarweiniol yw Prydeindod. Mae'r rhith-goel hon yn anymwybodol, ac wedi ymgartrefi ym meddyliau'r Cymry dadwreiddiedig trwy genedlaethau o 'ymddigrifo taeg yn y syniad hwn' (1966: 36). O ystyried ei natur anymwybodol, mae'r gred hon yn peri adweithiau patholegol ar raddfa epig' (ibid), megis gwrthgymreigrwydd amddiffynnol a mileinig haenau o boblogaeth Cymru.

Cyfeiria Jones at y ffaith bod seicolegwyr wedi dangos bod mileiniaeth yn symptom o 'ddolur diymwybod' sy'n llechu mewn 'cuddfan ddofn', a daw i'r casgliad mai dolur diymwybod ynglŷn â'i cenedligrwydd sydd wrth wraidd mileindra gwrth-Gymreig y Cymry (1966: 36-7). Ffynhonnell y mileindra hwn yw (1) chwant y Cymry Gwrth-Gymreig i uniaethu â'r hunaniaeth Brydeinig; a (2) eu

sylweddoliad anymwybodol na allant, oblegid ei natur rithiol, uniaethu a'r hunaniaeth honno. Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth sylweddol, oherwydd ar y naill law, maent yn camarwain eu hunain i gredu eu bod yn perthyn i 'genedl' Prydain; tra ar y llaw arall, maent yn gwybod yn ddwfn i lawr ei fod yn amhosibl mewn egwyddor iddynt uniaethu ag ef, o gofio mai cenedligrwydd Lloegr ydyw, mewn gwirionedd.

Mae'n anodd peidio â phendroni sut mae Jones yn meddwl ei fod yn gwybod am y 'dolur diymwybod' hwn sy'n llechu mewn cuddfan ddofn. Os yw'r dolur yn ddiymwybod, sut mae'n gwybod amdano? Os (1) os nad oes modd profi ffynhonnell honedig y dolur hwn o ystyried ei natur anymwybodol; a (2) dos dim tystiolaeth, hyd yn hyn, i awgrymu y byddai'r Cymry Gwrth-Gymreig yn cytuno mai dyma yw ffynhonnell eu mileindra, yna gallai ymddangos bod diagnosis Jones yn ymylu ar seicoleg a chymdeithaseg cadair freichiau.

Ond eto, byddai dehongliad mwy craff o'r ddadl yn ei lawn gyd-destun yn ystyried y ffaith bod esbonio pethau yn nhermau grymoedd seicolegol anymwybodol wedi bod yn duedd gyffredin ymhlith academyddion canol yr 20fed ganrif, o ystyried poblogrwydd y paradeim Freudaidd ar y pryd. Yn ôl y paradeim hwn, gellir esbonio a dadansoddi ymddygiad pobl yn ôl prosesau meddwl anymwybodol a chwantau amheus cudd (Freud 1915). Fodd bynnag, y broblem gyda defnyddio paradeim o'r fath fel offeryn esboniadol gwyddonol, fel y dangosodd Karl Popper (1962, 1974) yn ddiweddarach, yw hyn. Mae'n agor y gatiâu i ddilyw o esboniadau amhenodol (gallent fod yn anghyson â'i gilydd), lle nid yw'n bosib gwrth-brofi dim ohonynt oblegid eu natur anymwybodol – ac mae hyn yn ei dro yn rhwystro gwyddoniaeth rhag symud ymlaen yn ôl ei phroses safonol o ddileu esboniadau ffals. Er mwyn gallu cyfri fel gwyddoniaeth, felly, rhaid i ddamcaniaeth fod yn ddigon manwl ac atebol i gael ei wrthbrofi gan dystiolaeth anghyson, yn hytrach na chael ei fowldio mewn modd *ad hoc* i ffitio'r realiti, tra'n chwilota am dystiolaeth gadarnhaol yn unig.

Gan oedd Jones yn ysgrifennu i fewnwelediad Popper i'r dull gwyddonol ddod yn brif ffrwd, mae ei apêl at brosesau meddyliol anymwybodol fel esboniadau ymddygiad y Cymry yn ddealladwy, o ystyried bod hyn yn cael ei weld fel arfer cwbl wyddonol ar y pryd. Mae hefyd yn bwysig ategi bod yr un paradeim Freudaidd wedi cael ei ddefnyddio'n eang gan yr awduron gwrth-drefedigaethol; ac felly nid yw'r gwrthwynebiadau sy'n codi ohono yn gyfyngedig i waith Jones, o bell ffordd. Yn wir, mae seicoleg Ffreudaidd yn gwbl ganolog i waith Fanon – ac mae ei ddylanwad ef wedi bod yn ganolog tu hwnt yn y maes ôl-wladychol ehangach. Mae hefyd yn werth pwysleisio: er gwaetha nad ydynt yn cydymffurfio'n llwyr a'r dull gwyddonol, byddai'n arwynebol ac esgeulus anwybyddu arwyddocâd dylanwad aruthrol y math hyn o ddadleuon ar fudiadau gwrth-drefedigaethol a chenedlaetholgar, yn ogystal â chenedlaetholdeb Cymreig. Yn wir, gellir dadlau bod eu dylanwad pellgyrhaeddol ar fudiadau gwleidyddol a llenyddol yn cyfri fel tystiolaeth o blaid eu gwirionedd. Felly, er gwaetha rhai o'r anawsterau sy'n codi o'r dadleuon hyn pan edrychir arnynt o safbwynt hollol dechnegol, dyw'r rhain, ar eu pen eu hunain, ddim yn tanseilio sylwedd eu gweledigaeth ehangach am arwyddocâd iaith, gwreiddiau diwylliannol, ac a drwg-ffeithiau dadfeiliad diwylliannol.

Mae'n amlwg, felly, bod llawer yn gyffredin rhwng dadleuon Fichte yn eu cyd-destun gwrth-drefedigaethol Ffrengig; yr awduron du oedd yn ymwrthod a gwladychiaeth Ewropeaidd; ac awduron cenedlaetholdeb Cymru'r 20fed ganrif oedd yn ymwrthod a gwaddol imperialaeth Lloegr. Maent oll yn pwysleisio: cymhlethdodau taeog, y cysylltiad rhwng dadfeiliad diwylliannol a dirywiad moesol neu ysbrydol, a drwg-ffeithiau seicolegol gormes ieithyddol ac eithrio ieithoedd brodorol o'r sffêr gyhoeddus. Caiff y pwyntiau hyn - a'r tebygrwydd a'r gorgyffwrdd rhyngddynt – eu crynhoi mewn modd treiddgar gan ddarlun Jones (1996) o drafferthion y ferch gefn gwlad, yn y modd canlynol. Yn gyntaf, mae'r syniad bod ei thrwythiad cynhwysfawr yn y Saesneg yn llygru ei hysbryd a'i

synhwyrâu yn debyg i sylwadau Fichte (1808) am y Ffrangeg. Yn ail, mae'r gorfodaeth mae'n teimlo i gydymffurfio â diwylliant Lloegr er mwyn 'dod ymlaen', a'r rhwyg hunaniaeth mewnol sy'n deillio o hynny yn debyg i sylwadau cyfochrog Memmi (1957) ar effaith seicolegol tra-arglwyddiaeth barhaus iaith y gormeswr yn y sffêr gyhoeddus. Yn olaf, mae priodoli'r effeithiau hyn a'i symptomau cysylltiedig i'r cymhlethdod taegog, fel y'i mynegir yn helaeth gan Fanon (1952), yn bwynt cyffredin yn eu plith a gaiff ei ategu dro ar ôl tro. Ac yn bwysicaf oll, mae pob un o'r themâu hyn yn tarddu o ymrwymiad di-os yr awduron at berthynoledd ieithyddol, a gaiff ei ragdybio fel egwyddor sylfaenol.

§4. Y Drafodaeth Gyfoes: Cyfiawnder Ieithyddol a Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol

Nawr ein bod wedi archwilio arwyddocâd perthynoledd ieithyddol at fudiadau cenedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol y 18fed i'r 20fed ganrif, trof yn awr at y llenyddiaeth gyfoes ar hawliau iaith ac ymgorfforiad sefydliadol hunaniaeth ddiwylliannol. Fel y soniwyd yng nghyflwyniad y thesis hwn, mae llawer ohono'n cyfeirio at y darlun cyfansoddiadol o iaith er mwyn hyrwyddo'u dadleuon (sy'n seiliedig ar hunaniaeth) o blaid polisiau iaith amlieithog. Fodd bynnag, maent yn cyflwyno'r darlun cyfansoddiadol mewn modd rhy llac o bell ffordd. Gadewir hyn y dadleuon sy'n apelio ato ar seiliau ansicr, ac mae hyn yn agor y drysau i nifer o wrthwynebiadau.

Mae mwyafrif helaeth y llenyddiaeth hawliau iaith diweddar wedi datblygu trwy'r ffrwd ryddfrydol, sy'n seiliedig ar hawliau (Schmidt 2014). Mae damcaniaethwyr rhyddfrydol sy'n cefnogi sffêr gyhoeddus amlieithog yn apelio'n bennaf at y cysylltiad rhwng iaith grŵp lleiafrifol, a'i hunaniaeth ddiwylliannol (e.e. Kymlicka a Patten 2003; Patten 2014, 2019; Van Parijs 2011). Maent yn dadlau y dylai rhai ieithoedd lleiafrifol dderbyn e.e. cydnabyddiaeth swyddogol gan y wladwriaeth, neu driniaeth neu statws cyfartal gan sefydliadau cyhoeddus, o ganlyniad i'w cyfraniad anhepgor at werthoedd rhyddfrydol megis rhyddid personol (e.e. Kymlicka 1989; 1995; Patten 2014; 2019). Ceir enghreifftiau eraill o'r duedd hon yn De Schutter & Robichaud (2015); Fishman (1999), Mai (2014) ac Réaume (2000), i enwi ond ychydig.

Un gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt, fodd bynnag, yw eu barn gwahanol ynglŷn a'r cwestiwn canlynol. A ddylid rhoi cydnabyddiaeth gyfartal i bob iaith leiafrifol o fewn cenedl-wladwriaeth, p'un a ydynt yn gynhenid / wedi'u gwreiddio'n hanesyddol ai peidio; neu a ddylid blaenoriaethu ieithoedd brodorol a hanesyddol dros rai e.e. mewnfudwyr? Gwahaniaetha Will Kymlicka (1989, 1995) a Stephen May (2008, 2014), er enghraifft, rhwng hawliau lleiafrifoedd cenedlaethol/brodorol, a lleiafrifoedd ethnig anffrodorol; ac maent yn blaenoriaethu hawliau cymunedau ieithyddol brodorol dros rai cyfatebol mewnfudwyr. Ar y llaw arall, mae Patten (2014, 2019) a De Schutter (2017) yn dadlau o blaid cydnabyddiaeth ddiwylliannol gyfartal i ddiwylliannau lleiafrifol, sy'n golygu trin hawliau ieithoedd lleiafrifol yn gyfartal, p'un a yw'r grŵp dan sylw wedi'i wreiddio'n hanesyddol ai peidio.

Rhaid crybwyll, fodd bynnag, nad yw cefnogaeth dros sffêr gyhoeddus amlieithog yn gyffredin i'r holl lenyddiaeth hawliau iaith. Yn wir, nid oes prinder damcaniaethwyr sydd o'r farn mai'r ymateb priodol i broblem amrywiaeth ieithyddol yw sicrhau sffêr gyhoeddus unieithog, lle y dylid blaenoriaethu un *lingua franca* swyddogol a'i defnyddio mewn sefydliadau cyhoeddus at ddibenion gwasanaethau cyhoeddus a chyfnewidion busnes. Y prif enghreifftiau o'r rhain yw Brian Barry (2001), Thomas Pogge (2003), a Laitin & Reich (2003).

Mae'r ddadl ynghylch a ddylid blaenoriaethu polisiau sffêr gyhoeddus unieithog ynteu amlieithog yn dibynnu i raddau helaeth ar ba un o'r tri darlun / categori ynglŷn â natur iaith a'i pherthynas â'i

siaradwyr sy'n cael ei arddel gan y damcaniaethwr mewn golwg. Y categorïau hyn yw: cyfansoddiadol, offerynnol a chynhenid (De Schutter 2007). Ar y cyfan, mae cefnogaeth dros sffêr cyhoeddus amlieithog yn myn llaw-yn-llaw a'r darlun gyfansoddiadol o iaith, tra bod cefnogaeth dros sffêr cyhoeddus unieithog yn tueddu pwysleisio nodweddion offerynnol iaith.

Yn ôl y darlun cyfansoddiadol o iaith, 'language constitutes who I am, that my language and my identity are inextricably intertwined, that I cannot have concepts or views for which I do not have language, and that language allows me to express or articulate things that I could not have without having language' (De Schutter 2007: 8). Yn ôl y darlun hwn, mae yna gysylltiad annatod rhwng iaith a hunaniaeth bersonol a diwylliannol ei siaradwyr; ac felly mae methiant i sicrhau cydnabyddiaeth cyhoeddus i'r ieithoedd hyn yn tanseilio urddas, hunan-barch, neu rhyddid yr unigolyn.

Yn ôl y darlun offerynnol o iaith, dylai ieithoedd 'should be primarily seen as tools to perform non-linguistically defined things' (De Schutter 2007: 9). Yn hyn o beth, 'government interference in the domain of language is only legitimate in so far as it attempts to bring about these non-linguistic goals' (ibid.). Mae'r nodau hyn yn cynnwys hyblygrwydd cymdeithasol a thrafodaeth democrataidd (e.e. Barry 2001; Pogge 2003; Rubin 2017; Weinstock 2003). Mae'n bwysig crybwyll, fodd bynnag, nad yw'r damcaniaethwyr hyn o reidrwydd yn gwadu bod cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth; yn hytrach, maent ond yn honni nad yw'r fath gysylltiad yn sail dilys er mwyn pwysu a mesur opsiynau a nodau polisi.

Y trydydd darlun, sy'n gorgyffwrdd â'r cyntaf, yw'r darlun 'gwerth cynhenid', lle ystyrir bod ieithoedd yn 'morally valuable in themselves, independently of the value their speakers attach to them' (De Schutter 2007: 10). Yn ôl y farn hon, gellir cyfiawnhau polisiâu sy'n hybu cadw a chynnal ieithoedd lleiafrifol yn annibynnol o unrhyw ystyriaethau ynglŷn â'i cyfraniad at fuddiannau unigol neu gymdeithasol megis urddas, rhyddid, neu drafodaeth ddemocrataidd (gweler Crystal 2000; Rockebuter 1994; Muscynga 1998). Dadleua David Crystal (2000), er enghraifft, bod ieithoedd, fel llawer o weithiau celf, yn werthfawr mewn modd cynhenid gan eu bod yn gynnyrch creadigrwydd a dyfeisgarwch y dynol ryw. O hyn, tynna Crystal y casgliad eu bod yn werthfawr yn eu hawl eu hunain mewn synnwyr moesol. Fodd bynnag, fel y sonia Léger a Lewis (2017): mae damcaniaethwyr gwleidyddol yn tueddu osgoi y darlun hwn, oherwydd 'it is a morally problematic position as it creates a situation where languages are treated as entities that can place problematic moral duties on their speakers, and indeed other individuals and communities' (Léger & Lewis 2017: 8).

Efallai bod Léger a Lewis yn gywir yn y cyswllt hwn. Nid wyf yn gwadu bod ieithoedd yn gynnyrch creadigrwydd a dyfeisgarwch dynol; yn hytrach, mae'r broblem yn ymwneud â statws y syniad 'gwerthfawr yn eu hawl eu hunain'. Pe bai hynny'n wir am ieithoedd, yn annibynnol ar y gwerth mae siaradwyr yn rhoi arnynt, yna byddai'n rhaid derbyn bod ieithoedd marw o werth cyfartal i ieithoedd byw. Ymhellach, os mai'r unig reswm maent yn werthfawr mewn modd cynhenid yw eu bod yn gynnyrch creadigrwydd a dyfeisgarwch dynol, yna byddai angen estyn yr un cyfiawnhad i gynhyrchion eraill o greadigrwydd a dyfeisgarwch dynol, megis bomiau atomig. Mae'n debyg y gellid ail-lunio'r darlun cynhenid er mwyn osgoi gwrthwynebiadau o'r fath, ond serch hynny, mae'r problemau *prima facie* hyn yn ddigon – i'n dibenion presennol - i gyfiawnhau ei roi i'r neilltu.

§4.1 Olrhain y Gorgyffwrdd: Beirniadaeth y Comiwnitariaid, a Chenedlaetholdeb Rhyddfrydol

Nid yw'n bosib deall y drafodaeth hawliau iaith yn annibynnol o'r drafodaeth a'i ragflaenodd, sef cenedlaetholdeb rhyddfrydol; a ni ellir deall cenedlaetholdeb rhyddfrydol ychwaith heb ystyried y drafodaeth a'i ragflaenodd ef, sef beirniadaeth y comiwnitariaid. Yn yr achos olaf hwn, dadleuodd

gomiwnitariaid (megis Taylor 1989; Sandel 1982; Macintyre 1981; Walzer 1983) bod diffygion sylweddol yn y darlun atomaid, unigolyddol o hunaniaeth bersonol oedd i bob golwg ymhlyg yng ngweithiau'r rhyddfrydwyr prif-ffrwd cyfoesol ar y pryd, megis Rawls (1971) a Nozick (1974). Tra ategodd ryddfrydiaeth Rawls hollbwysigrwydd rhyddid personol er mwyn mynd i'r afael a dewisiadau gwahanol, dadleuodd y comiwnitariaid nad yw hyn yn cydnabod y ffaith bod hunaniaeth unigolion yn gwbl barasitig ar eu cefndiroedd teuluol, cymdeithasol, ac ati. Ategant bod y rhain yn amodau anochel ar gyfer dewisiadau personol a rhyddid yr unigolyn.

Amylgodd Charles Taylor (1989, 1994), er enghraifft, y darlun Hegelaidd sy'n honni bod hunaniaeth rhywun yn cael ei ddatblygu'n bennaf drwy gyfathrebu ag eraill, a phwyslais Edmund Burke ar y berthynas annatod rhwng unigolion a'r gymdeithas sifil sy'n cyfrannu at eu hunaniaeth a'u rhyddid. Yr hyn a amlygwyd gan y gwrthwynebiadau o'r fath yw hyn. Dylai gwleidyddiaeth ymwneud nid yn unig ymwneud â galluogi unigolion i wneud dewisiadau rhydd ar eu cyfer eu hunain. Yn hytrach, dylai gwleidyddiaeth hefyd flaenoriaethu'r mater o gynnal a hyrwyddo'r amodau diwylliannol a chymdeithasol sy'n gwneud y gwerthoedd rhyddfrydol hyn (megis rhyddid a dewis) yn bosib yn y lle cyntaf.

Traflyncodd y cenedlaetholwyr rhyddfrydol yr egwyddorion hyn mewn i'w fframwaith rhyddfrydol eu hunain. Honnodd Kymlicka (1995) a Tamir (1993) bod diwylliannau'n darparu 'cyd-destun dewis' trwy amlinelli dewisiadau ystyrion i ddinasyddion, tra dadleuodd Miller (1995) bod diwylliant cenedlaethol yn angenrheidiol at gydlyniant cymdeithasol – sydd ei hun yn angenrheidiol i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Bu'r rhain (a chyfraniadau eraill tebyg gan genedlaetholwyr rhyddfrydol eraill) yn ganolog at adfer hygrededd rhyddfrydiaeth ar y pryd. Yn hytrach na gorfod troi eu cefnau ar y fframwaith ryddfrydol, nyddodd y cenedlaetholwyr rhyddfrydol bwyslais y comiwnitariaid ar ddibyniaeth annatod hunaniaeth bersonol, hunan-barch ac urddas ar ddiwylliant mewn iddo.

Datblygwyd llawer o'r llenyddiaeth hawliau iaith, yn ei dro, o bwyslais y cenedlaetholwyr rhyddfrydol ar yr angen am ddiwylliant ar gyfer rhyddid unigol ac ati - yn bennaf drwy waith Kymlicka (1989, 1995) lle mynegodd o'i genedlaetholdeb rhyddfrydol yn nhermau hawliau iaith. Gan bod iaith yn cael ei ystyried i fod yn gyfansoddiadol o ddiwylliant, fe'i hystyrid hefyd i fod yn gyfansoddiadol o hunaniaeth bersonol ymhlith y cenedlaetholwyr rhyddfrydol. Trwy estyniad, daeth iaith (oherwydd ei fod yn rhan o'r diwylliant cyfansoddiadol) i gael ei weld fel amod angenrheidiol ar gyfer y nodau rhyddfrydol o ddewis, rhyddid, ac ati. Dyma sut daeth y llenyddiaeth hawliau iaith i ddibynnu ar y darlun cyfansoddiadol o iaith.

§4.2 Aneglurder Ynghylch y Cysylltiad Rhwng Iaith, Diwylliant, a Hunaniaeth

Tra bod y rhan fwyaf o genedlaetholwyr rhyddfrydol a damcaniaethwyr hawliau iaith yn cytuno bod gan y rhan fwyaf o bobl ymlyniad sylweddol i'w hunaniaeth ddiwylliannol, a bod iaith yn ran o hyn, does dim eglurder ynghylch beth yn union all fod yn *sail* i'r fath ymlyniad. Honnai Kymlicka bod 'the causes of this attachment lie deep in the human condition'; a 'a full explanation would involve aspects of psychology, sociology, linguistics, the philosophy of mind, and even neurology' (Kymlicka, 1995: 90). Honna Tamir bod yr ymlyniad hwn yn rhoi ystyr i'n gweithredoedd, gan alluogi pobl i deimlo'n rhan o 'something whose existence seems to extend back into time immemorial, and forward into the indefinite future' (1993: 90). Cyfeiria Miller, ar y llaw arall, at y ffaith bod 'people generally do exhibit such attachments and allegiances' (1993: 4); a atega'r darlun Humeaidd bod y 'fwrn dystiolaeth' fel petai ar bobl eraill i gyflwyno dadleuon yn erbyn credoau ac atodiadau sy'n rhan o synnwyr cyffredin y rhan fwyaf ohonom (ibid.).

Felly, er bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn cytuno'n bod gan bobl gysylltiad cryf â'u diwylliant fel rheol, nid oes ganddynt unrhyw syniad am *sail* y fath ymlyniad – nac yn wir pa mor gryf yw'r ymlyniad hwnnw – ac eithrio'r ffaith ei fod yn rhan o'r seicoleg ddynol, ffynhonnell ystyr, neu'n ran o synnwyr cyffredin, fel petai. Ym Mhennod 4, dadleuaf bod modd defnyddio perthynoledd ieithyddol ar gyfer darparu'r sail hwn, gan ei fod yn tanlinelli'r cysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a hanes. Ond ar hyn o bryd, digon yw pwysleisio bod dod dros yr aneglurder hyn yn hollbwysig ar gyfer hygredd y llenyddiaeth ar hawliau iaith. Mae gan y ddau gwestiwn cysylltiedig, (1) a yw diwylliant cenedlaethol yn rhan bwysig o hunaniaeth bersonol; a (2) a yw iaith yn gyfrwng pwysig i'r diwylliant hwnnw, oblygiadau sylweddol ar gyfer y casgliadau a gellir eu tynnu am gyfraniad hawliau ieithyddol at barhad diwylliannol y lleiafrifoedd mewn golwg.

Beth, felly, yw darlun benodol y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant? Mae egluro hyn yn angenrheidiol er mwyn deall y darlun gyfansoddiadol o iaith a ddefnyddir yn y llenyddiaeth cyfiawnder ieithyddol, gan mai diwylliant sy'n cael ei drosglwyddo drwy iaith, gan gyfrannu at hunaniaeth bersonol rhywun, a thrwy hynny wneud iaith yn 'gyfansoddiadol' yn y lle cyntaf. Y man cychwyn yma yw gwaith Kymlicka (1989; 1995) a greodd sylfaen i genedlaetholwyr rhyddfrydol eraill adeiladu arni (Kaufmann 2000: 1087).

Cyflwyno Kymlicka syniad o ddiwylliant cymdeithasol [=cenedlaethol] ('societal culture') sy'n 'provides its members with meaningful ways of life across the full range of human activities, including social, educational religious, recreational and economic life, encompassing both public and private spheres' (1995: 76). Mae ganddo elfennau gwrthrychol a goddrychol, sy'n cynnwys 'not just shared memories or values but also common institutions and practices' (ibid.). Maent hefyd yn 'tend to be territorially concentrated and based on a shared language' (ibid.). Gwahaniaetha rhwng lleiafrifoedd cenedlaethol a mewnfudwyr, ac mae'n priodoli'r diwylliant cymdeithasol i'r cyntaf o'r rhain yn unig. Diffinia hwy yn nhermau grwpiau diwylliannol brodorol sy'n ffurfio 'intergenerational community, more or less institutionally complete, occupying a given territory or homeland, sharing a distinct language and history' (Kymlicka 1995: 18). Mae'n trin iaith fel elfen ganolog i hunaniaeth y grwpiau hyn, gan eu bod fel arfer yn 'based on a shared language' (Kymlicka 1995: 76).

Diffinia Miller (1995), ar y llaw arall, genedligrwydd yn nhermau pum elfen sy'n cynnwys ffactorau goddrychol a gwrthrychol, gan gynnwys e.e. cred gyffredin ymhlith cyd-ddinasyddion eu bod yn perthyn i'w gilydd; profiad hanes gyffredin; a diwylliant cyhoeddus cyffredin sy'n cynnwys confensiynau ieithyddol a chymdeithasol. Er bod diffiniad Miller o genedligrwydd yn canolbwyntio llai ar iaith na Kymlicka (yn ôl pob tebyg am fod trafodaeth Miller am genedligrwydd yn canolbwyntio mwy ar gyfiawnder dosbarthol a chydlyniant cymdeithasol, yn hytrach na hawliau lleiafrifol), mae'n rhoi pwyslais sylweddol iddo. Diffinia Tamir hefyd ddiwylliant yn nhermau ymdeimlad goddrychol o ymwybyddiaeth genedlaethol, ac elfennau gwrthrychol megis hanes, iaith, crefydd a thiriogaeth (1993: 65-74), gan ychwanegu'r amod ei fod yn fater o debygrwydd teuluol (ibid: 75).

Ond eto, er bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant drwy gynnwys y cyntaf yn eu diffiniadau o'r olaf, does dim esboniad am beth, yn union yw *natur a chryfder* y cyswllt hwnnw. Fel y gwelwn, mae hyn yn broblem gan ei fod yn agor y drws i'r gwrthwynebiadau cysylltiedig bod diwylliant cenedlaethol yn cael ei ddiffinio mewn termau rhy wrthrychol ac unffurf, a bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn pwysleisio ddiwylliannau cenedlaethol mewn modd lle ni ellir ei gyfiawnhau. Oni bai bod modd mynegi'r cysylltiad rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth ar ffurf fwy cadarn, bydd gwrthwynebiadau o'r fath yn cadw eu perthnasedd.

§4.3. Gwrthwynebiadau

Beth, felly, yw prif enghreifftiau'r gwrthwynebiadau uchod? Dadleua Tomer Perry (2014) nad oes angen i'r 'cyd-destunau dewis' mae Kymlicka'n son amdanynt ymwneud yn neilltuol diwylliannau cymdeithasol yr ystyr ieithyddol, hanesyddol a thiriogaethol. Yn hytrach, mae unigolion fel arfer yn 'members of different cultural groups which provide different contexts for different choices as well as meaningful forms of identification' (2014: 6). Yn wir, gall 'ddiwylliannau cynhwysfawr' eraill sy'n gwbl wahanol i rai cenedlaethol fod yr un mor ddylanwadol ac ystyrion i'w haelodau (Perry 2014: 44).

Casgliad Perry yw nad oes unrhyw gyfiawnhad *arbennig* i'w wneud o blaid cydnabyddiaeth wleidyddol o leiafrifoedd diwylliannol (cenedlaethol) a'u hawliau ieithyddol ar sail eu cyfraniad at ddewisiadau rhydd. Y rheswm am hyn yw: byddai'r un broses o ymresymu a geir yn y ddadl 'cyd-destun dewis' yn gallu bod yr un mor berthnasol at niferoedd helaethl o 'ddiwylliannau cynhwysfawr' eraill, megis grwpiau LGBTQ, crefyddau, neu dimau chwaraeon – sy'n aml yn rhoi 'cyd-destunau dewis' yr un mor ystyrion i'w haelodau. Felly mae'n ymddangos braidd yn *ad hoc* blaenoriaethu diwylliannau cymdeithasol dros 'ddiwylliannau cynhwysfawr' eraill fel y mae Kymlicka yn ei wneud: mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn 'privilege national cultures and identities in an unwarranted manner' (Perry 2014: 31).

Yr hyn sy'n gyrru Perry i wadu bod hunaniaethau cenedlaethol yn haeddu mwy o bwyslais na hunaniaethau eraill yw ei honiad nad yw hunaniaethau cenedlaethol yn rhywbeth yr ydym yn 'digwydd ei gael'. (2014: 3). Yn hytrach, maent yn gynnyrch prosesau adeiladu cenedl sydd – yn aml yn ormesol – yn gosod diwylliant a hunaniaeth genedlaethol ar y dinasyddion trwy e.e. ddiwygiadau i'r cwricwlwm addysg a pholisiau unieithog – yn aml ar draul hunaniaethau a diwylliannau eraill. Canlyniad hyn yw nad yw'r undod diwylliannol mae Kymlicka yn ei phriodoli i ddiwylliannau cymdeithasol yn 'ddilys' (Perry 2014: 37). Yn hytrach, mae'n ganlyniad i brosesau adeiladu cenedl sy'n tarddu o ddiwydiannu a moderneiddio, yn hytrach na ffactorau diwylliannol cynhenid.

Yn yr un modd, pwysleisia Gerson & Rubin (2015) natur ddychmygol a dyfeisiedig a hunaniaeth genedlaethol er mwyn dadlau bod diffiniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant yn amheus o amwys. Meddant hwy: er bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn cydnabod dehongliadau lluniadaethol (*constructivist*) o genedligrwydd (ynghyd â nodweddion gwrthrychol), mae hyn mewn gwirionedd yn eu galluogi i 'absolve themselves from the charge of setting up a fictional entity as an objective reality... [by claiming that their] national cultures are openly imagined and invented' (2015: 201). Daw dwy sgil-effaith amheus i'r amlwg o ganlyniad. Y cyntaf yw bod hyrwyddo un neu ychydig o ddiwylliannau yn blaenoriaethu un dehongliad o ddiwylliant cenedlaethol dros eraill (1995: 202), gan achosi anghydbwysedd pŵer, a gwahaniaethu'n annheg yn erbyn y niferoedd sydd ddim yn uniaethu â diwylliant cenedlaethol y wladwriaeth. Mae'r ail broblem yn ymwneud â diffygion democrataidd: mae absenoldeb craidd gwrthrychol neu ddiffiniadau terfynol, gwrthrychol o hunaniaeth genedlaethol (2015: 203) yn ei wneud e'n rhy hyblyg a llac i gael ei graffu arno. Mae hyn yn atal trafodaeth ddemocrataidd wrthrychol rhag digwydd: 'national culture relies on being partially opaque to such processes.' (2015: 203).

Mae'r trydydd math o wrthwynebiad yn honni bod diffinio diwylliant yn nhermau nodweddion gwrthrychol fel iaith a hanes – fel y mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ei wneud – yn 'essentiaiddio' grwpiau diwylliannol (gweler e.e. Patten 2011, 2014; Phillips 2010; Moore 2020). Yng ngeiriau Alan Patten: 'all of the usual features that are taken to define culture run foul of the problems of internal variation and external overlap: The relevant features are not shared by all and

only the members of the groups' (Patten 2011: 736). Mewn geiriau eraill, mae diwylliannau mor amlochrog ceisio eu diffinio yn nhermau iaith, credoau, hanes neu arferion ymddygiadol yn rhwym o arwain at wrth-enghreiffiau. Hyd yn oed o fewn grwpiau diwylliannol, mae'r hyn a allai *ydddangos* fel arferion neu ymddygiad cyffredin yn amrywio'n helaeth: i bob un ohonynt, 'there will be several publicly established meanings that people enact in their behavior' (Patten 2011: 737). Yn y bôn, felly, mae'r holl amrywiaeth o fewn ac ar draws diwylliannau yn golygu nad yw'n rhesymol ceisio eu diffinio yn nhermau nodweddion gwrthrychol cyffredin, gan bod hyn yn debygol o arwain at eu hessentialeiddio.

Dengys y gwrthwynebiadau hyn bod y diffyg eglurder ymhlith cenedlaetholwyr rhyddfrydol ynghylch pam dylid pwysoli iaith a hanes i raddau mor sylweddol yn eu diffiniadau o ddiwylliant yn eu gadael yn atebol i nifer o wrth-ddadleuon a sgil-efeithiau problematig. Mae'r problemau hyn, yn eu tro, yn bwydo mewn i'r drafodaeth ar hawliau iaith: mae'r dadleuon sy'n dibynnu ar y darlun cyfansoddiadol o wedi eu mowldio gan ddarlun y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant (sef yr hyn a drosglwyddir drwy'r iaith, gan ei wneud yn gyfansoddiadol yn y lle cyntaf). Ym Mhennod 4, byddaf yn dadlau bod perthynoledd ieithyddol yn amlygu'r cysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a hanes; ac felly'n esbonio (1) pam dylid rhoi mwy o bwyslais ar iaith nag ar elfennau eraill o ddiwylliant; a (2) natur a chryfder y cysylltiad rhwng diwylliant cenedlaethol a hunaniaeth bersonol. Byddaf yn dadlau bod hyn, yn ei dro, yn cyfrannu'n sylweddol at y gallu i wrthsefyll y gwrthwynebiadau uchod. Yr hyn sydd wedi ei amlygu hyd yn hyn, fodd bynnag, yw: yn absenoldeb perthynoledd ieithyddol, erys dadleuon rhyddfrydol sy'n seiliedig ar hunaniaeth o blaid sffêr gyhoeddus amlieithog, a dadleuon y cenedlaetholwyr rhyddfrydol sy'n eu hysgogi, ill dau ar seiliau ansicr.

Casgliad

Mae'r bennod hon wedi olrhain y prif enghreifftiau hanesyddol o'r egwyddor o berthynoledd ieithyddol yn cael ei roi ar waith yn y cyd-destunau hanesyddol a diwylliannol, yn ogystal â'r llenyddiaeth gyfoes sy'n dibynnu arno. Heb law am Herder, does dim un o'r enghreifftiau llenyddol hyn wedi cyflwyno unrhyw gyfiawnhad rhesymegol na empirig o blaid perthynoledd ieithyddol. O ganlyniad, erys ei statws fel egwyddor sylfaenol acsiomataidd yn ddi-sail yr olwg. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw diffyg cyfiawnhad hwn yn tansilio gwerth y llenyddiaeth dylanwadol hwn o ran ei gyfraniad i'n dealltwriaeth o effeithiau seicolegol dadfeiliad diwylliannol-ieithyddol, a'r angen am wreiddiau a chydabyddiaeth ddiwylliannol. Yn wir, gellid dadlau bod dylanwad pellgyrhaeddol y testunau hyn ei hun yn tystio i'w gwirionedd. Rhaid cydnabod hefyd bod pwrpas y testunau cenedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol hyn wedi bod yn wleidyddol yn hytrach nag academaidd ar y cyfan; felly ni ddylem ddisgwyl gweld cyfiawnhad academaidd cynhwysfawr o berthynoledd ieithyddol ynddynt. Serch hynny, mae triniaeth academaidd ecblyg o berthnasedd ehangach y testunau hyn yn gofyn am archwiliad trylwyr o'r dadleuon dadansoddol a'r dystiolaeth empirig o blaid perthynoledd ieithyddol. Darparu'r rhain, felly, yw nod ganolog y thesis hwn.

Yn olaf oll: gellir codi'r cwestiwn a yw'r fath astudiaeth craff yn gwbl angenrheidiol, o ystyried gwaith sylfaenol Herder ar y pwnc o berthynoledd ieithyddol. Ydy: fel y cawn weld ym Mhennod 2, ers dyddiau Herder, mae perthynoledd ieithyddol wedi esblygu mewn i bwnc sylweddol yn y maes ieithyddiaeth arbrofol; a nid yw pawb yn derbyn ei wirionedd ychwaith. I ddarparu'r ddolen gyswllt, felly, trown yn nawr at archwilio'r dystiolaeth empirig o blaid perthynoledd ieithyddol, yn ogystal â'r dadleuon dadansoddol sy'n llechu yng ngweithiau Wittgenstein. Bydd hyn yn ein harwain at allu

darparu'r cyfiawnhad rhesymegol sydd, hyd yn hyn, wedi bod ar goll o'r llenyddiaeth cenedlaetholgar, gwrth-drefedigaethol, a damcaniaethol priodol; a bydd hyn, yn ei dro, yn darparu'r seilwaith i eglurhau goblygiadau perthynoledd ieithydd ar gyfer cyfiawnder ieithyddol a chenedlaetholdeb rhyddfrydol ym Mhenodau 4 a 5.

Pennod 2: Meddiannu Wittgenstein ar gyfer Perthynoledd Ieithyddol

Cyflwyniad

Beth yw'r berthynas rhwng iaith a hunaniaeth ddiwylliannol? Un ffordd o fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yw gosod yr ateb ar sbectrwm lle, ar yr un eithaf, mae iaith yn adlewyrchu nodweddion diwylliannol ei siaradwyr ac yn dylanwadu ar eu prosesau meddwl (perthynoledd ieithyddol). Yng ngeiriau Gumperz & Levinson: 'the semantic structures of different languages might be fundamentally incommensurable' fel bod 'language, thought and culture are deeply interlocked' (Gumperz & Levinson 1996: 2) Ar y pegwn arall, ni wna iaith unrhyw gyfraniad sylweddol at hunaniaeth ddiwylliannol; a phe bai iaith benodol yn trengi, yna ni fyddai unrhyw golled ddiwylliannol sylweddol yn digwydd o ganlyniad (cyffredinoliaeth ieithyddol).

Fel y gwelsom ym Mhennod 1, mae perthynoledd ieithyddol wedi chwarae rhan allweddol mewn mudiadau cenedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol, yn ogystal â syniadaeth gwleidyddol o'r 18fed ganrif hyd heddiw. Caiff ei ystyried yn ffynhonnell ac angor i hunaniaeth ddiwylliannol Pobl; ac o ystyried hyn, nid yw'n syndod ei fod yn aml wedi cael ei hyrwyddo fel ffactor sy'n cynhyrchu ymwybyddiaeth genedlaethol neu ddiwylliannol. Y broblem, fel y gwelsom, yw nad yw dim o'r llenyddiaeth yn y cyswllt hwn yn cynnwys unrhyw ddadleuon na thystiolaeth o blaid perthynoledd ieithyddol. Mae'r duedd hon i ragdybio gwirionedd perthynoledd ieithyddol yn anghynladwy: nid pawb sy'n ei dderbyn (Pinker 1994, 2002), ac mae'r ddamcaniaeth hefyd yn anghyson â darluniau dylanwadol o ystyr ieithyddol sy'n honni bod yna gyffredinolrwydd sylfaenol i iaith a'r meddwl (e.e. Chomsky 1986; Fodor 1983; Carruthers 2006; Carey 2009).

Pwrpas y bennod hon, felly, yw paratoi'r ffordd i bontio'r bwlch hwn rhwng y gwaith sy'n bodoli yn y meysydd ieithyddiaeth ac athroniaeth sy'n cyfiawnhau perthynoledd ieithyddol, a'r syniadaeth wleidyddol a'r llenyddiaeth ar genedlaetholdeb sy'n dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol. Beth, yn benodol, yw'r cyfiawnhad yn y meysydd ieithyddiaeth ac athroniaeth a all helpu i gyfiawnhau rhagdybiaeth yr egwyddor yn y llenyddiaeth cenedlaetholgar a syniadaeth wleidyddol? Man cychwyn ateb y cwestiwn hwn yw egluro'r diffiniad, y dystiolaeth, a'r dadleuon o blaid perthynoledd ieithyddol; a dyma'r hyn a gaiff ei archwilio yn y bennod hon er mwyn creu'r ddolen gyswllt.

Yn hytrach na bod yn bur ddisgrifiadol, bydd y bennod hon hefyd yn tynnu sylw at broblem ganolog yn y llenyddiaeth gyfoes ar berthynoledd ieithyddol. Hynny yw: er gwaetha'r llw o astudiaethau diweddar sy'n cyfiawnhau perthynoledd ieithyddol, erys diffyg eglurder ynghylch (1) a oes cysylltiad achos-ac-effaith rhwng y gwahaniaethau ieithyddol a meddyliol rhyng-ddiwylliannol mewn golwg; a (2) i *ba radd* mae perthynoledd ieithyddol yn gweithredu. Tan i'r aneglurderau hyn gael eu hatgyweirio, yna ni allwn wybod faint yn union o waith eglurhaol a gwaith cyfiawnhau gall perthynoledd ieithyddol ei wneud yn y llenyddiaeth syniadaeth wleidyddol a chenedlaetholgar, sydd ill dau yn rhagdybio ei wirionedd. Yn hynny o beth, erys y cwestiwn: a yw'r llenyddiaeth honno, gyda'i dibyniaeth sylfaenol ar wirionedd perthynoledd ieithyddol, megis tŷ ar dywod?

O ran (1), y broblem sy'n wynebu llawer o astudiaethau sy'n honni profi effeithiau ieithyddol ar gyflyrau meddyliol yw: yn ddigon syml, dyw cydberthyniad ddim ynddo'i hun yn profi achos-ac-effaith. Er bod llawer o astudiaethau wedi dangos gwahaniaethau traws-ddiwylliannol o ran iaith a gwybyddiaeth (*cognition*), mae'r dasg o brofi bod y gwahaniaethau hyn wedi'u cysylltu'n annatod - h.y. yn ganlyniad i berthynoledd ieithyddol - yn parhau i fod yn her. Ystyriwch Fausey & Boroditsky

(2011), sy'n dangos bod siaradwyr Saesneg, sy'n fwy tebygol na siaradwyr Sbaeneg i ddefnyddio iaith actif i ddisgrifio digwyddiadau damweiniol, yn fwy tebygol o ddwyn i gof pobl sydd wedi cyflawni damweiniau e.e. gollwng fâs blodau. Er bod yr astudiaeth hon yn amlygu gwahaniaethau ieithyddol a gwybyddol rhwng y ddwy boblogaeth dan sylw, ac felly'n awgrymu perthynoledd ieithyddol, nid yw hyn ynddo'i hun yn profi bod y gwahaniaethau gwybyddol hyn yn *ganlyniad uniongyrchol* i'r gwahaniaethau ieithyddol (gweler Everett (2013) am drafodaeth fanwl o natur eang y diffyg methodolegol hwn).

Y ffordd fwyaf uniongyrchol o gyfiawnhau'r cyswllt achos-ac-ffaith fyddai dangos bod meddwl yn dibynnu'n sylfaenol ar iaith. Os yw meddwl yn dibynnu'n sylfaenol ar iaith, yna mewn achosion lle ceir gwahaniaethau gwybyddol a ieithyddol traws-ddiwylliannol, yna mae'n dilyn bod y gwahaniaethau gwybyddol yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan y gwahaniaethau ieithyddol cyfatebol; h.y. perthynoledd ieithyddol. Mewn cyferbyniad, os nad yw meddwl yn dibynnu'n sylfaenol ar iaith, yna byddai'r un mor hawdd i'r gwahaniaethau gwybyddol a ieithyddol traws-ddiwylliannol (a caiff eu hystyried gan nifer i fod yn achosion o berthynoledd ieithyddol) fod o ganlyniad i ffactorau eraill sy'n annibynnol o iaith.

Fodd bynnag, dyw seico-ieithyddwyr ddim fel rheol yn cymryd y llwybr hwn o ddibynnu ar annatodadwyedd iaith a meddwl, oherwydd eu cydsyniad cyffredin bod anifeiliaid (Tomasello & Herrmann 2010) a babanod (Wynn 1992) - sydd oll heb iaith - yn rhannu amrywiaeth o sgiliau a phrosesau gwybyddol â phobl sy'n meddu ar iaith. Caiff hyn, yn ei dro, ei ystyried i danseilio'r syniad bod meddwl yn dibynnu'n sylfaenol ar iaith (Everett 2013: 9). I'w ddatgan yn syml: os yw meddwl yn ddibynnol ar iaith, yna beth sy'n esbonio'r ffaith bod bodau cyn-ieithyddol neu di-iaith yn gallu meddwl? Y modd mae arbrowfwr sy'n cyflwyno darpar-achosion o berthynoledd ieithyddol yn ceisio osgoi yr anhawster hwn fel arfer yw amlygu cydberthyniad rhwng gwahaniaethau ieithyddol a gwybyddol traws-ddiwylliannol trwy ddefnyddio dulliau fel olrhain symudiadau llygaid a phrofion dewis gorfodol. Wedyn, maent yn ceisio sefydlu cyswllt achos-ac-ffaith trwy ddileu darpar-esboniadau eraill. Mae hyn yn sicr yn welliant ar waith cynharach a oedd yn aml yn dibynnu ar dystiolaeth gramadegol yn unig, neu'n amlygu gwahaniaethau ieithyddol / gramadegol traws-ddiwylliannol tra'n cymryd yn ganiataol mai perthynoledd ieithyddol sydd ar waith. Fodd bynnag, mae anuniongyrchedd y dull hwn yn dipyn o rwystr rhag sefydlu i ba radd yn union mae perthynoledd ieithyddol yn digwydd, o ystyried y dulliau llafurus a ddefnyddir, yn ogystal ag amhendrantrwydd y nifer di-ri o astudiaethau y bydda angen er mwyn sicrhau amcangyfrif dibynadwy.

Ffactor arall sy'n ein rhwystro rhag amcangyfrif i ba radd mae perthynoledd ieithyddol yn debygol o ddigwydd yw'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r astudiaethau cynhwysfawr sy'n cyfiawnhau perthynoledd ieithyddol yn canolbwyntio ar gymdeithasau an-Orllewinol, an-ddiwydiannol fel y Pirahã Amasonaidd (Everett 2005, 2008), y Pormpuraawans Aboriginaidd (Boroditsky & Gaby 2010), a Madagascar (Dahl 1995). Mae'r astudiaethau hyn yn tynnu sylw at wahaniaethau sylweddol yn ieithoedd a dealltwriaeth y bobloedd hyn o ran e.e. rhifedd, amser, ac ymwybyddiaeth o ofod o gymharu â chymdeithasau gorllewinol a diwydiannol. Er bod astudiaethau fel rhain o ddarpar-achosion o berthynoledd ieithyddol yn addawol, mae'n anodd cyffredinoli o'r achosion cymharol ynysig ac 'egsotig' hyn i gymdeithasau eraill, mwy diwydiannol. Yn wir, o ystyried y cymhathu diwylliannol a achosir gan y broses globaleiddio ymhlith cymdeithasau WEIRD (gorllewinol, addysgedig, diwydiannol, cyfoethog a democrataidd), mae'n gallu bod yn anodd cyffredinoli yr un effeithiau perthynoledd ieithyddol ar draws e.e. siaradwyr Ffrangeg ac Almaeneg, neu Cymraeg a Saesneg. Yn hynny o beth, erys yn aneglur beth yw union radd perthynoledd ieithyddol, ac mae cwmpwd tebygol perthynoledd ieithyddol yn parhau i fod yn aneglur.

Y dull a gynnigaf yn y bennod hon yw defnyddio mewnwelediadau o waith Wittgenstein er mwyn atgyweirio rhwystrau (1) a (2). Fel y soniwyd, hyd yma, nid yw'r astudiaethau perthynoledd ieithyddol eto wedi profi bod y gwahaniaethau gwybyddol traws-ddiwylliannol yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan y gwahaniaethau ieithyddol dan sylw. Fodd bynnag, byddai yn bosib profi cyswllt achos-ac-ffaith o'r fath trwy ddangos bod meddwl yn dibynnu'n sylfaenol ar iaith. I'r perwyl hwn, felly, gellir tanlinellu'r egwyddor Wittgensteinaidd mai 'ystyr gair yw ei ddefnydd yn yr iaith' (1953: §43) er mwyn taflu golau ar y mater. Dadleuaf fod darlun Wittgenstein o ystyr ieithyddol a dysgu iaith hefyd yn cyfiawnhau'r honiad bod iaith a meddwl yn gyd-ddibynnol. Ar ben hynny, gellir hefyd defnyddio darlun cynhwysfawr Wittgenstein o iaith er mwyn gwrthod y ddau brif reswm sy'n cael eu hystyried i danseilio'r egwyddor o gyd-ddibyniaeth iaith a meddwl; sef y gorgyffwrdd rhwng galluoedd gwybyddol defnyddwyr iaith ac anifeiliaid a babanod di-iaith.

Dyma inni strwythur y bennod: Cyflwyno §1 a §2 ddadansoddiad o'r diffyniadau o berthynoledd ieithyddol, arolwg o'r prif ddadleuon a'r tystiolaeth o'i blaid, a mynegiad o natur a pherthnasedd darluniau seicolegol o ystyr ieithyddol. Bydd §3 yn archwilio beirniadaeth Wittgenstein o ddarluniau seicolegol o ystyr ieithyddol, ac yn cymhwyso ei feirniadaethau cysylltiedig i ddwy brif fersiwn y darlun seicolegol: (1) y farn bod meddwl yn digwydd trwy gyfrwng 'lluniau meddyliol', a (2) y farn bod meddwl yn digwydd trwy 'iaith fewnol'. Mae §4 yn archwilio darlun cadarnhaol Wittgenstein o ddysgu iaith ac ystyr ieithyddol, y dystiolaeth empiraidd o'i blaid, a'i berthnasedd at berthynoledd ieithyddol. Mae §5 yn mynd i'r afael â gwrthwynebiadau cyffredin i berthynoledd ieithyddol trwy ddefnyddio gwahaniaethiadau Wittgensteinaidd pellach. Daw'r bennod i'r casgliad bod mewnforio dadleuon a gwahaniaethiadau Wittgensteinaidd i'r drafodaeth gyfoes ar berthynoledd ieithyddol a'r llenyddiaeth gwleidyddol sy'n rhagdybio ei wirionedd yn fanteisiol mewn dau brif ffordd. Yn gyntaf, gellir ei ddefnyddio i ddisodli'r prif rwystr rhag derbyn annatodrwydd iaith a meddwl; ac yn ail, mae'n darparu'r cyfiawnhad rhesymegol o blaid perthynoledd ieithyddol sydd hyd yma wedi bod ar goll o'r llenyddiaeth gwleidyddol a moesol.

§1. Perthynoledd Ieithyddol: Anghyfieithiadwyedd

Mae perthynoledd ieithyddol yn cychwyn o'r egwyddorion bod (1) gwahaniaethau cysyniadol rhwng ieithoedd, a bod (2) y cysyniadau sydd wedi'u hymgorffori mewn iaith yn effeithio ffyrdd y siaradwyr o feddwl. Os yw'r ddau egwyddor hyn yn wir, mae'n dilyn bod prosesau meddwl y siaradwyr yn amrywio yn ôl pa iaith maent yn siarad, a thrwy hynny cadarnheir wirionedd perthynoledd ieithyddol. Fodd bynnag, erys amwysedd ynglŷn â i ba raddau mae'r ddwy egwyddor hon yn wir. Mae'r sawl sy'n arddel perthynoledd ieithyddol yn diffinio'r syniad mewn ystyr gadarn, lle caiff iaith ei weld fel ystorfa o draddodiadau, synhwyrau, arferion a gwerthoedd diwylliant ei siaradwyr. Yng ngeiriau Ngũgĩ wa Thiong'o: 'Language as culture is the collective memory bank of a people's experience in history. Culture is almost indistinguishable from the language that makes possible its genesis, growth, banking, articulation, and indeed its transmission from one generation to the next' (1986: 15).

Mae'r syniad bod iaith yn gist o ddiwylliant sy'n dylanwadu feddwl pobl yn ymddangos fel rhan o'r synnwyr cyffredin. Cymerwch y gair 'cŵl', er enghraifft. Er bod yna unigolion a haeddai'r disgrifiad cyn, e.e. Dadeni Harlem Affricanaidd-Americanaidd y 1920au a'r 30au, mae'n amlwg bod y dylanwadau diwylliannol (yn enwedig mewn cerddoriaeth a dawns) a darddodd o'r mudiad hwn wedi peri i'r cysyniad ennill poblogaeth aruthrol. O ganlyniad, mae defnydd eang y termau 'cŵl' ac 'uptight' wedi ein galluogi i ddeall ein hunain a'n hymddygiad yn gynyddol yn y fath dermau.

Ond yn anffodus, nid yw apêl at synnwyr cyffredin ddim ar ben ei hun yn ddigon i gyfiawnhau perthynoledd; ac erys rhychwant y gwahaniaeth rhwng categorïau a chysyniadau ieithyddol ar draws ieithoedd yn amhenodol. Os yw rhychwant y gwahaniaeth yn ddibwys, yna ni ellir profi perthynoledd ieithyddol i unrhyw radd sylweddol. Eto, os yw'r rhychwant yn ddibwys, yna ni fyddai llawer o bwrpas ei rhagdybio fel egwyddor ganolog yn y llenyddiaeth a'r mudiadau cenedlaetholgar ac ôl-drefedigaethol; ac yn ogystal â hyn, byddai amheuaeth yn codi o ran hygrededd rhagdybiaethau canolog i syniadaeth wleidyddol gyfredol. Naill ffordd neu'r llall, byddai fawr ddim rheswm derbyn y syniad bod iaith megis cist ac angor i nodweddion diwylliannol ei siaradwyr.

Beth, felly, yw'r dadleuon a'r dystiolaeth o blaid y ddwy egwyddor dan sylw? Dechreuwn gydag egwyddor (1), sef bod gwahaniaethau cysyniadol yn bodoli ar draws ieithoedd. Y syniad canolog yw bod yna lawer o achosion lle mae'n anodd neu'n amhosibl cyfieithu geiriau neu ymadroddion o'r iaith ffynhonnell i'r iaith darged heb golli llawer o yr ystyr lythrennol neu drosiadol. Gelwir hyn mewn astudiaethau cyfieithu yn broblem 'anghyfieithiadwyedd' ('untranslatability') sydd wedi'i gofnodi'n eang mewn astudiaethau academaidd, yn ogystal â bod yn eithaf sythweledol i unrhyw un sy'n siarad mwy nag un iaith yn rhugl.

Un enghraifft a ddyfynnir yn aml yn y cyswllt hwn yw'r cysyniad 'cariad': yn ysgolheictod y Testament Newydd, er enghraifft, nodir yn aml bod o leiaf tair synnwyr i'r gair mewn Hen Roeg: *φιλία*, *στοργή*, a *ἀστοργος*. Mae pob un o'r rhain yn gwahaniaethu rhwng graddau o gariad a chyfeillgarwch; ond yn y cyfieithiad Saesneg 'love' achosir i'r arlliwiau cysyniadol hyn fynd ar goll yn y broses gyfieithu. Enghraifft arall yw'r term Almaeneg *Schadenfreude*, a ddefnyddir gan siaradwyr Saesneg gan nad oes ganddo gyfieithiad uniongyrchol. Mae'r term hwn yn golygu'r boddhad neu'r pleser a deimlir trwy anffawd rhywun arall, ac mae'n ymgorffori agweddau diwylliannol sy'n wahanol i'r rhai a fynegir yn y lled-gyfystyrin Saesneg o 'getting their just deserts'. Un arall yw 'bromance', sy'n unigryw i'r Saesneg ac sy'n tueddu cael ei ddrysu gyda gwrywgydiaeth mewn diwylliannau eraill.

Gall y rhestr fynd ymlaen am byth. Mae'n werth nodi hefyd bod anghyfieithiadwyedd hefyd yn berthnasol i ystyrion trosiadol a phatrymau gramadegol megis rhyw. Dengys Cubelli et al. (2011: 449), er enghraifft, anawsterau ymgais Ivan Krylov i gyfieithu fersiwn Jean de la Fontaine o *The Ant and the Grasshopper* i Rwsieg. Gan bod 'grasshopper' yn fenywaidd yn Ffrangeg ond yn wrywaidd yn Rwsieg, bu rhaid i Krylov ei newid i 'dragonfly': byddai natur *chwareus* y ceiliog rhedyn fel arall wedi mynd ar goll yn y cyfieithiad.

Amlygiad mwyaf rhemp y broblem o anghyfieithiadwyedd, fodd bynnag, yw'r anallu cyffredin i atgynhyrchu ystyrion cynodiadol (*connotative*). Mewn sefyllfaoedd lle mae cyflawni cywerthedd cysyniadol llythrennol ar draws ieithoedd yn syml, yn aml collir ystyr cynodiadol yn y broses. Ystyriwch y gair 'urddas', sy'n dynodi cymysgedd o *strength*, *elegance*, a *dignity* yn Saesneg. Nid oes cyfieithiad uniongyrchol ar gael, o ystyried ei arwyddocâd diwylliannol penodol. Tra bo urddas yn cynodi pendefigaeth neu fawredd milwrol, nid yw ei led-gyfieithiad Saesneg yn cyfleu yr un ystyr. Ar ben hynny, mae defnyddiau ffigurol, idiomatig, doniol a mynegiannol eraill o iaith yn aml yn rhemp gyda anghyfieithiadwyedd cynodiadol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn achos barddoniaeth. Meddai Octavio Paz (1992):

...it is generally, albeit reluctantly, conceded that it is possible to translate the denotative meanings of a text but that the consensus is almost unanimous that the translation of connotative meanings is impossible. Woven of echoes, reflections, and the interaction of sound with meaning, poetry is a fabric of connotations and, consequently, untranslatable. (Paz 1992: 155)

Gellir codi'r gwrthwynebiad bod ystyrion cynodiadol (yn hytrach nag ystyr lythrennol, ddynodol) yn gymharol ddibwys yn yr ystyr canlynol. Er gall cynodiadau geiriau sbarduno cysylltiadau penodol gyda rhywfaint o gysonder, nid yw'n dilyn eu bod yn effeithio ar ystyr gyffredinol geiriau, ar wahân i'w swyddogaethau esthetig neu rethregol ychwanegol. Mae gwrthwynebiad o'r fath, fodd bynnag, yn gamarweiniol. Mewn astudiaethau ar effeithiau fframio, er enghraifft, mae tystiolaeth helaeth ar gael bod cyflwyno cysyniadau sy'n cyfateb yn llythrennol trwy ddefnyddio gwahanol eiriau gyda gwahanol gynodiadau yn effeithio dealltwriaeth pobl o bwnc penodol, a'r dewisiadau maent yn gwneud o ganlyniad. Mae hyn gan eu bod yn amlygu rhai agweddau ar realiti ar draul eraill (Kahneman 2011; Kahneman & Tversky 1984).

Mae fframio yn dechneg gyfarwydd a ddefnyddir yn helaeth, yn enwedig o ystyried y defnydd cyffredin o sbin mewn gwleidyddiaeth, cysylltiadau cyhoeddus, a'r cyfryngau; yn wir, mae'n un o'r cysyniadau a drafodwyd fwyaf mewn astudiaethau cyfathrebu (Benert & Beier 2016, Cacciatore et al. 2016). Mae Simon & Jerit (2007), er enghraifft, yn dadlau bod darllen erthyglau sy'n fframio'r ddadl erthyliad genedigaeth-rannol yn yr UD trwy ddefnyddio'r term 'babi' yn hytrach na 'ffetws' yn cynyddu cefnogaeth dros wahardd yr arfer; a *vice-versa*. Astudiaeth arall a ddyfynnwyd yn eang yw Bartels (1998), sy'n dadlau bod 44-48% o Americanwyr yng nghanol y 1970au wedi honni na fyddent yn 'caniatáu' i gomiwnydd roi araith gyhoeddus, tra dim ond 22% ohonynt a honnodd y byddent yn 'gwahardd' 'comiwnyddion rhag gwneud hynny. Er bod y termau 'peidio â chaniatáu' a 'gwahardd', a 'babi' a 'ffetws' (yng nghyd-destun yr astudiaeth) yn gyfystyr mewn ystyr lythrennol, ddynodiadol, mae eu cynodiadau gwahanol yn achosi i bobl ddehongli y mater dan sylw mewn ffyrdd gwahanol.

O ystyried bod ystyrion cynodiadol yn effeithio ar y modd y mae pynciau'n cael eu dehongli, ac o ystyried i ba raddau mae anghyfieithiadwyedd cynodiadol yn bodoli ar draws ieithoedd, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod egwyddor (1) - bod gwahaniaethau cysyniadol ar draws ieithoedd yn bodoli - yn wir i raddau sylweddol. Er nad ydynt eto'n sicr beth yw union rychwant anghyfieithiadwyedd, mae cynnydd arbrol ar y gweill. Astudiodd Jackson et al. (2019), er enghraifft, rwydweithiau ieithyddol 24 term emosiwn ar draws 2474 o ieithoedd trwy ddefnyddio cyd-ddetholi cysyniadol ('conceptual colexification', sef defnyddio'r un gair mewn iaith benodol ar gyfer cysyniadau gwahanol sy'n gysylltiedig eu hystyrion), a chanfod amrywiad sylweddol yn ffyrdd pob iaith o ddetholi cysyniadau. Dehonglwyd hyn fel arwydd o amrywiad traws-ddiwylliannol sylweddol yn nealltwriaeth y siaradwyr o bob gair; ac ar ben hynny, mae'n helpu i egluro'r amrywiad traws-ddiwylliannol sylweddol o ran profiadau emosiynol, a gofnodwyd eisoes mewn astudiaethau megis Mesquita et al. (2016) a Heyes (2019).

Er gwaetha'r gronfa dystiolaeth o blaid amrywiaeth traws-ieithyddol dynodol a chynodiadol sylweddol, fodd bynnag, nid yw'r astudiaethau hyn, nac enghreifftiau synnwyr cyffredin, ar eu pennau eu hunain, yn ddigon i wireddu perthynoledd ieithyddol a'i rychwant. Oblegid, fel y soniwyd yn barod, nid yw anghyfieithiadwyedd ynddo'i hun yn gwarantu gwahaniaethau gwybyddol cyfatebol ymhlith y siaradwyr; rhaid dangos hefyd bod y gwahaniaethau traws-ieithyddol dan sylw yn *achosi'r* gwahaniaethau cyfatebol mewn gwybyddiaeth er mwyn iddo gyfrif fel perthynoledd ieithyddol. Trown yn awr, felly, at archwilio'r ffordd fwyaf uniongyrchol y gellir profi'r ddolen achos-ac-effaith hwn; sef y dystiolaeth a'r dadleuon o blaid y cysylltiad annatod rhwng iaith a'r meddwl.

§2. Perthynoledd Ieithyddol: Y Cysylltiad Annatod Rhwng Iaith a'r Meddwl

Cofiwch bod y syniad bod meddwl yn dibynnu ar iaith yn tarddi'n wreiddiol o waith y Rhamantwyr Ellmyngig: roedd ei gweithiau sylfaenol yn y maes ysgolheictod cenedlaetholdeb yn ddi-ffael yn

diffinio cenedligrwydd yn nhermau iaith a'r diwylliant mae'n ymgorffori. Hawlia Herder, Fichte a Wilhelm von Humboldt, er enghraifft, bod iaith yn fynegiant o ysbryd cenedl. Yn ôl Von Humboldt, er enghraifft, iaith yw'r 'formative organ of thought... Thought and language are therefore one and inseparable from each other' (1988 FIC:54); yn ogystal â bod yn 'the external manifestation of the minds of the people. Their language is their soul, and their soul is their language' (Humboldt 1971: 24). Yn ôl Fichte, '...we give the name of People to men whose organs of speech are influenced by the same external conditions, who live together, and who develop their language in continuous communication with each other' (Fichte 1808: 56).

Mae'r mynegiannau uchod o berthynoledd ieithyddol yn rhai arbennig o gryf: maent yn uniaethu iaith ag ymwybyddiaeth cenedlaethol, gan awgrymu bod iaith yn cyfyngu cyflyrau meddyliol i'r fath radd eu bod wedi'i *carcharu* ynddo. Mae'n debyg bod y ffurf gref hon wedi bod yn ddigon credadwy yn y 19eg ganrif pan oedd mwy o undod diwylliannol o fewn grwpiau ethnig neu bobloedd; fodd bynnag, erbyn hyn mae mynegiannau mor gryf o berthynoledd ieithyddol wedi cael eu cyfnewid gan ieithyddion o blaid fersiynau mwy cymedrol (Ahearn 2011: 69). Mae'r rheswm am hyn yn ddeublyg: yn gyntaf, mae hunaniaethau diwylliannol yn llawer mwy hyblyg na'u fersiynau cyfatebol yn y 19eg ganrif oherwydd cyflymder cynyddol y broses globaleiddio. Yn ail, mae'r consensws bod bodau di-iaith hefyd yn gallu meddwl wedi peri iddynt roi'r gorau i'r farn bod cysylltiad *annatod* rhwng iaith a meddwl. O ganlyniad, maent erbyn hyn yn tueddi arddel fersiynau mwy cymedrol o'r theori, sy'n honni bod iaith ond yn dylanwadu ac yn gosod rhai cyfyngiadau ar feddwl⁴ (Everett 2013: 9-10).

Cyn inni archwilio'r dadleuon a'r dystiolaeth o blaid annatodrwydd iaith a meddwl, mae angen dwyn i gof natur a tharddiad y farn gyferbynnol - cyffredinoliaeth ieithyddol – sy'n honni bod iaith yn ddyfais offerynnol sy'n annibynnol o ddiwylliant, ac sydd mewn egwyddor yn gallu cael ei ddatgysylltu o wybyddiaeth. Y rheswm dros archwilio'r darlun hwn yw bod gwirionedd perthynoledd ieithyddol yn dibynnu ar anwiredd cyffredinoliaeth ieithyddol. Ymhellach, anwiredd y safbwynt hwn yw'r hyn a gaiff ei sefydlu yn y pendraw gan y dadleuon Wittgensteiniaid a fynegir maes o law yn y bennod hon.

Daeth cyffredinoliaeth ieithyddol i fodolaeth trwy weithiau'r Empirwyr Prydeinig, yn enwedig Locke a Hume. Yn *An Essay Concerning Human Understanding* (1975 [1689]), er enghraifft, mae Locke yn datblygu darlun o'r meddwl sy'n honni bod pob cysyniad yn gyfystyr a 'syniad' mewnol, sef delweddau meddyliol sy'n cynrychioli'r hyn a fynegir gan y cysyniad. Y berthynas rhwng iaith a meddwl yw bod geiriau'n sefyll am syniadau ym meddwl y siaradwr: ystyr gair yw'r syniad sy'n cyfateb iddo. 'Words in their primary or immediate signification signify nothing but the ideas in the mind of him that uses them' (III.2.2). Yn ôl y darlun hwn, dyw ystyr ieithyddol ddim yn fater cyhoeddus na chymunedol; mae deall iaith yn gyfystyr a chysylltu gair penodol â'i syniad cyfatebol. Does dim cysylltiad annatod rhwng iaith a gwybyddiaeth, gan fod gwybyddiaeth yn digwydd cyn iaith: mae'r syniadau yn cael eu ffurfio ar sail canfyddiad synnwyr, ac wedi hynny caiff eu labelu â geiriau. Afraid dweud, felly, bod y safbwynt hwn yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol, gan ei fod yn gwadu bod iaith a gwybyddiaeth yn annatod; ac mae'n honni bod ystyr ieithyddol yn unigolyddol ac yn ddatgysylltiedig o ddiwylliant.

Er na chaiff y darlun uchod bellach ei dderbyn ar ei ffurf wreiddiol 'seicoleg cadair freichiau', byddai'n gamarweiniol tybio bod ei ddylanwad wedi dirywio'n sylweddol, yn enwedig o ystyried dyfalbarhad ei waddol mewn gwyddoniaeth wybyddol, ieithyddiaeth, ac athroniaeth meddwl. Mae Kosslyn (1980, 1982), er enghraifft, yn arddel damcaniaeth a elwir ganddo'n 'pictorialist' lle mae meddwl yn digwydd trwy gyfrwng cynrychioliadau (*representations*) mewnol sy'n debyg i luniau.

⁴ Gweler Chen (2013), Wierzbicka (2014), a Bylund & Athanasopoulos (2017) er enghraifft.

Mae Fodor (1975, 1983) a Pylyshyn (1981a, 1981b, 2003) yn arddel darlun tebyg lle mae bodau dynol yn meddwl trwy gyfrwng cynrychiolaethau lled-ieithyddol o'r enw 'mentalese' neu 'Language of Thought' (LOT). Mewn modd tebyg, mae damcaniaeth ddylanwadol Chomsky o Ramadeg Cynhenid ('Universal Grammar') yn honni bod set unffurf a chynhenid o egwyddorion ieithyddol wedi'u hymgorffori yn ymennydd pawb, gan gynnwys gramadeg, synau llafar, ac ystyr (Chomsky 1983). Caiff y rhain eu cynhyrchu nid gan ieithoedd naturiol, ond yn hytrach gan fodiwl damcaniaethol yn yr ymennydd dynol o'r enw 'dyfais caffael iaith' ('Language Acquisition Device') (Chomsky 1965: 25).

Yn yr un modd a darlun yr Empirwyr Prydeinig, mae'r darluniau uchod o'r berthynas rhwng meddwl ac iaith hefyd yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol, yn enwedig gan eu bod yn gwadu'r cysylltiad annatod rhwng iaith a meddwl / gwybyddiaeth. Tra bo perthynoledd ieithyddol yn cynnwys yr amod angenrheidiol bod meddwl yn ddibynnol ar ieithoedd naturiol allanol, mae UG a LOT yn gwadu hyn trwy honni bod ystyr ieithyddol yn fewnol ac yn seicolegol: UG neu LOT sy'n cynhyrchu ac yn cyfyngu ar ein hystod o alluoedd ieithyddol, yn hytrach na'r ieithoedd naturiol cymunedol. Mae'r un peth yn berthnasol i'r safbwynt darluniadol ('pictorialist'): os all wybyddiaeth ddiwydd trwy gyfrwng cynrychioliadau tebyg i luniau, yna mae ystyr cysyniadau yn fewnol ac yn seicolegol; eto, nid oes unrhyw gysylltiad annatod rhwng meddwl a defnydd allanol, cymunedol geiriau.

§3. Beirniadaeth Wittgensteinaidd o'r Darlun Seicolegaidd o iaith

Beth, felly, yw'r dadleuon Wittgensteinaidd yn erbyn y casgliad hwn o safbwyntiau preifat, seicolegaidd (*psychologized*) o ystyr ieithyddol? Cyfraniad mwyaf arwyddocaol Wittgenstein at athroniaeth iaith, meddwl, a seicoleg oedd ei feirniadaeth lem o gyfeiriadaeth ('referentialism' - h.y. y farn bod gan eiriau ystyr gan eu bod yn cyfeirio at bethau), a'i gymhwysiad at y berthynas rhwng iaith a chyflyrau meddyliol. Mae grym y gyfres hon o ddadleuon, a'u harwyddocâd at ddarluniau seicolegaidd o ystyr ieithyddol, yn llechu yn y ffyrdd maent yn amlygu canlyniadau rhesymegol problemus y fath ddarluniau, unwaith caiff eu canlyniadau rhesymegol eu dilyn i'w heithafion.

Un broblem sylweddol gyda'r darluniau **seicolegaidd** a ddaw i'r amlwg yw: os yw ystyr ieithyddol yn seicolegol, preifat, ac yn annibynnol ar ymddygiad neu gonfensiwn allanol, sut allwn ni wybod a oes gan eraill yr un ddealltwriaeth o eiriau â ni? Hynny yw, sut gallwn wybod a yw ystyr person A o'r gair 'poen' yr un peth â'r hyn y mae person B yn ei olygu ganddo? Cyn belled ag y mae person A yn ymwybodol, gallai person B fod yn atodi'r term i deimlad mewnol gwahanol, fel 'pleser', ac ni fyddai unrhyw ffordd o wirio hyn, gan ei fod yn amhosibl cael mynediad i feddyliau eraill. O'u cymryd fel tystiolaeth, byddai enghreifftiau o ymddygiad nodweddiadol poen i gyd yn ddi-dddefnydd, oherwydd ar yr olwg breifat, nid ydynt yn rhan o ystyr poen; nid ydynt ychwaith yn feini prawf ar gyfer ei briodoli i eraill. Yn hytrach, dim ond cyflyrau meddyliol preifat sy'n ffurfio ystyr y cysyniad. Nid yw hyn, o ystyried ei anweledigrwydd llwyr i eraill, o unrhyw ddefnydd o gwbl: 'a wheel that can be turned though nothing else moves with it, is not part of the mechanism' (Wittgenstein 1953: §271).

Mae'r farn breifat, seicolegaidd o ystyr ieithyddol, felly, yn golygu nad oes ffordd ddibynadwy o wybod a yw pobl yn deall ac yn defnyddio eu geiriau yn gyson â'i gilydd. Hyd y gŵyr unrhyw un, gallem i gyd fod yn siarad at groes-ddibenion. Nawr gellir tybio bod hyn yn ganlyniad anghyfleus sy'n mynd yn groes i'n synnwyr cyffredin; ond eto, rhaid brathu'r fwled fel petai. *Prima facie*, nid yw hyn ynddo'i hun yn tansellio rhesymeg gynhenid y darlun seicolegaidd; yn hytrach, mae ond yn amlygu canlyniadau epistemaidd lletchwith. Yn wir, dyma'r casgliad y daeth Locke iddo (III: VI: 28-36). Fodd bynnag, fel y gwelwn is-law, mae'r dybiaeth hon yn afresymegol: datgymala Wittgenstein y darlun

seicolegaidd ymhellach, trwy gyflwyno'r hyn a elwir yn 'ddadl iaith breifat' (1953: §§244–271), er mwyn dangos ei fod yn wallus o safbwynt rhesymegol. Nid yw'r fwled ar y fwydlen, fel petai.

Dengys y dadl hon nad yw meddwl yn *gallu* cael ei ddatod rhag iaith, ac nad yw 'syniadau' mewnol, yn *ddigonol* ar gyfer deall cysyniadau. Gan symleiddio rhywfaint, mae prif ffurf y dadl yn rhedeg fel hyn. Tybiwch fod rhywun sy'n byw mewn unigrwydd yn siarad iaith breifat a ddyfeisiodd ef ei hun; iaith oedd o reidrwydd yn annealladwy i eraill. 'The words of this language are to refer to what can be known only to the speaker; to his immediate, private, sensations. So another cannot understand the language' (1953: §243). Pe bai cysylltu geiriau â chysyniadau mewnol yn ddigonol ar gyfer deall iaith - fel y mae safbwyntiau seicolegaidd o ystyr ieithyddol yn honni - yna dylai'r fath sefyllfa o leia fod yn bosibl i'w ddychmygu heb droi allan i fod yn rhesymegol anghyson. Y cwestiwn, felly, yw: a yw'r sefyllfa hon yn bosibl (h.y. rhesymegol gyson) mewn egwyddor, neu a yw'n troi allan i fod yn rhesymegol anghyson. Ydy, fel y gwelwn isod.

Yn §258, amlinella Wittgenstein y ddamcan-sefyllfa ganlynol: dychmygwch am funud bod iaith breifat yn bosibilrwydd go iawn yn yr ystyr rhesymegol gyson. Tybiwch bod yr unigolyn iaith breifat yn cadw dyddiadur er mwyn cofnodi ei brofiadau mewnol ei hun. Bob tro mae'n profi teimlad penodol a elwir ganddo yn 'S', mae'n gofnodi 'S' yn y dyddiadur we mwyn ceisio sicrhau bod y cysylltiad cywir rhwng y gair a'r teimlad yn cael ei sefydlu a'i gynnal yn y dyfodol.

Y broblem sy'n codi, fodd bynnag, yw: sut gall yr ieithydd preifat wybod a yw e'n parhau i ddefnyddio'r gair yn gyson mewn achosion yn y dyfodol? Hyd y gŵyr, efallai ei fod wedi dechrau cysylltu 'S' yn ddiarwybod â theimlad gwahanol i'r un gwreiddiol; ac ni fyddai unrhyw ffordd o wirio ei gywirdeb. Oblegid ni fyddai unrhyw feini prawf o gywirdeb allanol, cyhoeddus ar gael i'r ieithydd preifat ymgynghori â nhw. Efallai bydd yn *ydddangos* iddo ei fod yn defnyddio'r gair yn gywir, ond nid yw hyn yr un peth â'i ddefnyddio'n gywir mewn gwirionedd (yn wir, mae digon o dystiolaeth bod gwallau cof ac atgofion yn rhemp: gweler e.e. Brady, Schacter, & Alvarez (2018); Dewhurst, Anderson, & Berry (2018); a Maswood & Rajaram (2018) am enghreifftiau diweddar o astudiaethau o'r fath).

Byddai chwilio trwy'ch cof i geisio amgyffred yr ystyr 'cywir' 'As if someone were to buy several copies of the morning paper to assure himself that what it said was true' (§265). Yn wir, efallai na fyddai ystyr y gair 'cywir' yn sefydlog na chyson: byddai'n berffaith bosib i'r ieithydd preifat fod wedi dechrau cysylltu hwnnw hefyd a chysyniad gwahanol i'r un gwreiddiol. 'Whatever seems right will be right', a 'that only means that here we can't talk about "right"' (§258).

Yr hyn a ddengys uchod yw bod y cysyniad mewnol, seicolegaidd o ystyr ieithyddol yn hunan-drechol. Pe bai'n wir mai geiriau, lluniau neu syniadau mewnol, seicolegol sy'n creu ystyr ieithyddol, yna o reidrwydd, byddai'r iaith yn annealladwy i'w defnyddiwr. Oblegid heb feini prawf cywirdeb allanol a chyhoeddus, gellid camgofio ystyron niferoedd diddiwedd o eiriau, gan gynnwys y gair 'cywir', heb unrhyw faen prawf dibynadwy ar gyfer gwirio ei wir synnwyr. Ymhellach, mae'n nodwedd annatod o iaith ein bod ni'n rhagdybio bod ystyron geiriau fel arfer yn aros yn sefydlog ac yn gyson. Ond ni ellir tybio'n rhesymol y gallai defnydd rhywun o eiriau fod yn anghyson tra'n rhagdybio ar yr un pryd eu bod yn gyson. Byddai gwneud hynny ei hun yn anghyson. Yma ceir statws hunan-drechol y cysyniad seicolegaidd, preifat o'r berthynas rhwng meddwl ac iaith.

Mae'n amlwg, felly, bod safbwyntiau seicolegaidd o ystyr ieithyddol sy'n honni bod cyflyrau seicolegol mewnol (p'un ag ydynt ar ffurf syniadau mewnol, lluniau neu eiriau) yn ddigonol ar gyfer dealltwriaeth gysyniadol yn trechu ei hun, unwaith caiff eu canlyniadau ymhlyg eu gwthio i'w heithafion. Gan fod y cyfrifon seicolegaidd hyn yn honni bod deall cysyniadau yn digwydd trwy

gyfrwng cynrychioliadau tebyg i luniau neu eiriau, mae hefyd yn briodol ystyried sut mae dadleuon Wittgenstein yn berthnasol i'r rhain yn benodol. Yn yr hyn sy'n dilyn, ystyriaf pob un o'r rhain yn eu tro.

Dechreuwn gyda'r darlun sy'n ymwneud â'r cynrychioliadau tebyg i luniau a darddodd yn wreiddiol o weithiau Locke (1975 [1689]) a Hume (1999 [1748]). Yn ôl y farn hon, mae cysyniadau yn tarddu o'n canfyddiad synnwyr: rydym yn canfod gwrthrychau a digwyddiadau trwy'n synhwyrau, ac wedi hynny, mae ein meddyliau'n storio copiâu o'r profiadau hyn, sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i lygad ein meddwl ym mhob achos dyfodol lle rydym yn meddwl amdanynt. Mae hyn nid yn unig yn wir am wrthrychau allanol, ond hefyd am gyflyrau meddyliol mewnol. Rydym ni'n dysgu ystyron y geiriau 'hiraeth' neu 'boen', er enghraifft, trwy edrych mewn i'n meddyliau ein hunain: mae'r rhain oll yn gyflyrau meddyliol mewnol sy'n gwbl anhygyrch i eraill, ac yn gysyniadol annibynnol o unrhyw ymddygiad cysylltiedig. Ceir fersiynau tebyg cyfredol dylanwadol o'r farn hon yng ngweithiau e.e. Kosslyn (1980, 1982), Fodor (1975, 1983) a Pylyshyn (2003) sydd, er yn fwy cymhleth, serch hynny'n rhagdybio bod cynrychioliadau tebyg i luniau neu eiriau yn *ddigonol* ar gyfer dirnad ystyr cysyniadau.

Un anhawster fawr gyda'r math hyn o ddamcaniaeth yw nad yw lluniau'n gwisgo eu hystyron ar eu llewys. Fel y noda Wittgenstein (PI: 139), mae angen *dehongli* lluniau, a gellir dehongli'r un llun mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gall llun o berson yn penglinio gynrychioli gweithred o ymostwng, gweddio, baglu, ymarfer corff, neu ymestyn, *ad infinitum*. Felly, does gan luniau ddym ystyr ynddynt eu hunain, yn annibynnol ar ddehongliad person: gall dau berson glywed gair penodol a phrofi'r un ddelwedd feddyliol, ond eto deall y gair mewn ffyrdd gwahanol gan eu bod yn dehongli'r ddelwedd yn wahanol. Yn yr un modd, gall gwahanol ddelweddu gynrychioli'r un peth: gall person A ddychmygu braslun o dir yr Aifft wrth feddwl am yr Aifft, tra gall person B feddwl am yr Aifft trwy ddychmygu llun o faner yr Aifft, ac eto mae'r ddau yn meddwl am yr Aifft. 'From it alone it would mostly be impossible to conclude anything at all; only when one knows the story does one know the significance of the picture' (Wittgenstein 1953: §663).

Ail anhawster gyda'r darlun sy'n ymwneud â'r cynrychioliadau tebyg i luniau yw hyn. Pe bai'n wir bod cysyniadau'n debyg i ddelweddu meddyliol, fel bod siarad wrth ddeall geiriau yn gyfystyr a phrofi cyfres o'r delweddu meddyliol perthnasol, sut byddai'n bosibl bod yn *ymwybodol* o bob delwedd wrth siarad? Pan fydd rhywun yn rhoi araith gymhleth sy'n llawn is-gymalau, er enghraifft, sut gallai'r rîl ddiddiwedd o ddelweddu mewnol ddal i fyny â'r cynnwys cymhleth hwnnw? Tra gall system ddarluniadol o'r fath ymddangos yn gredadwy pan gaiff ei chymhwyso at eiriau neu frawddegau *syml*, mae ystyried achosion cymhlethach yn tanlinellu diffyg sens y darlun.

Mae'r un problemau'n codi o ystyried y darlun sy'n uniaethu'r broses o feddwl gyda phrosesu cynrychioliadau tebyg i iaith. Gellir deall y broblem hon, sef yr hyn a elwir gan Schroeder (2018: 13-14) yn 'baradocs profi cynnwys cymhleth ar amrantiad', trwy ystyried yr hyn sy'n dilyn. Sut all gysyniad hynod o gymhleth ac amlhaenog, fel gwyddbwyll (gyda'i holl fanylion a'i reolau), gael ei gynrychioli ar amrantiad ym meddwl rhywun cyn gynted ag y meddyliant amdano? Unwaith eto, er y gall syniad o'r fath ymddangos yn gredadwy ar yr olwg gyntaf, dadfeilir ei hygredded a'i synnwyr unwaith y craffwn ychydig yn galetach arno.

Ystyriwch y ddamcan-sefyllfa ganlynol, a gyflwynir yn §185 o'r *Ymchwiliadau Athronyddol*. Gofynnir i ddisgybl ysgol ysgrifennu'r gyfres o eilrifau o dan y gorchymyn '+2' am gyfnod amhenodol, ac mae'n gwneud hynny nes cyrraedd y rhif 1000. Wedi hynny, fodd bynnag, ar ôl i'r athro ofyn iddo barhau yn yr un ffordd, dechreuau ysgrifennu 1000, 1004, 1008, ac ati. Pan dorra'r athro'n torri ar ei draws i geisio esbonio bod e wedi dechrau gwyro oddi wrth y rheol, ac y dylai fod wedi parhau yn yr un ffordd, ateba'r disgybl ei fod yn mynd ymlaen yn yr un modd, a nid yw'n deall beth mae'r athro'n ei

olygu. Y pwynt a amlygir gan y ddameg hon yw na all gysyniadau cymhleth fel rheolau o bosibl gael eu profi na'u cynrychioli ar unwaith yn eu cymhlethdod llawn: sut all y gyfres dragwyddol o rifau gael eu profi neu eu cynrychioli ym meddwl yr athro pan roddodd y gorchymyn '+2'? Y gwir yw mai cyfranogi yn yr *arferion* sy'n rhoi'r ystyr i reolau - math o wybodaeth ymarferol - sy'n esbonio ein dealltwriaeth, yn hytrach na chynrychiolaethau meddyliol. Yn groes i'r farn seicolegaidd o ystyr ieithyddol, felly: ni all gynrychioliadau meddyliol, p'un a ydynt yn ddarluniadol, yn ieithyddol neu'n symbolaidd mewn modd gwahanol, fod yn *ddigonol* er mwyn deall cysyniadau.

Neges y dadleuon uchod yw bod y syniad bod meddwl rywsut yn annibynnol o iaith yn anghyson ac yn trechi ei hun. Cofiwch bod perthynoledd ieithyddol yn cynnwys dwy egwyddor angenrheidiol. Y rhain yw: (1) anghyfieithiadwyedd ar draws ieithoedd, a (2) annatodrwydd iaith a meddwl.

Sefydlwyd eisoes bod anghyfieithiadwyedd yn wir, ac mae'r dadleuon a archwilir yn yr adran hon gyda'i gilydd yn profi nad yw meddwl yn *gallu* bod yn annibynnol o ieithoedd naturiol: mae meddwl a iaith yn annatod i'w gilydd. Er mwyn ategi'r farn hon ymhellach, a deall ei goblygiadau penodol ar gyfer perthynoledd ieithyddol, fodd bynnag, rhaid esbonio beth yn union yw darlun Wittgenstein o ystyr ieithyddol, yn ogystal â'r dystiolaeth empirig o'i blaid. Archwiliaf y rhain yn yr adran ganlynol.

§4. Y Darlun Wittgensteiniaidd o Berthynoledd Ieithyddol: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd Ieithyddol

Darlun Wittgensteiniaidd o ystyr ieithyddol yw mai ystyr gair yw ei ddefnydd yn yr iaith (1953: §43): yr hyn sy'n rhoi ystyr i eiriau yw'r amgylchiadau yr ydym yn siarad oddi tanynt, a'r confensiynau cymdeithasol sydd yn ffurfio'r amgylchiadau hynny. Mae meddwl, yn ei dro, yn tarddi o hyn: 'When I think in language, there aren't 'meanings' going through my mind in addition to the verbal expressions: language itself is the vehicle of thought' (1953: §329). Nid mater o gysylltu geiriau â syniadau ym mhreifatrwydd eich meddwl eich hun yw deall iaith. Yn hytrach, math o allu ydyw i ddefnyddio iaith yn gymwys, yn gyson â defnydd cyhoeddus, confensiynol. Mae iaith wedi'i chydbblethu â ffurfiau ar fywyd (h.y. confensiynau ymddygiadol a chymdeithasol), a'r rhain sy'n creu ystyr: 'the speaking of language is part of an activity, or of a form of life' (1953: §23). Mae dysgu iaith yn fater o ddysgu sut i ddefnyddio geiriau'n gyson â'r arferion cymdeithasol sy'n ffurfio eu gwahanol ddibenion: arferion cymdeithasol sy'n sefydlu ystyron geiriau a'r safonau i'w defnyddio.

Gellir ategi'r pwynt hwn ymhellach trwy ystyried ym mha amgylchiadau rydym yn barnu bod eraill yn camddeall geiriau. Cymerwch y gair 'poen': pe bai rhywun yn ei atodi'n barhaus i bobl oedd yn gosod briciau, ni fyddem yn petruso cyn penderfynu ei fod wedi camddeall y cysyniad, oherwydd bod ei ddefnydd ohono'n anghyson â'r defnydd confensiynol. Ein meini prawf ar gyfer cywirdeb, felly, yw'r ffyrdd cyffredin caiff geiriau ac ymadroddion eu defnyddio. Mae ymddygiad nodweddiadol poen yn rhan o ystyr y term. Er ei bod yna achosion lle gall bobl brofi poen heb arddangos unrhyw ymddygiad nodweddiadol, mae'r rhain yn *eithriadau* i'r rheol. Yn wir, mae'r ffaith bod y sefyllfa hon yn cael ei ddeall yn gonfensiynol fel achos o guddio poen yn dangos mai ein meini prawf canolog yw'r achosion sydd yn cynnwys ymddygiad nodweddiadol poen.

I grynhoi, felly: arwyddocâd hyn oll yw na all darlun preifat, seicolegaidd o ystyr ieithyddol fod yn wir, gan nad yw iaith yn haniaethol nac yn ddatgysylltiedig rhag ffurfiau ar fywyd; yn hytrach, mae wedi seilio o reidrwydd ynddynt. Mae'r posibilrwydd o iaith yn dibynnu ar y posibilrwydd o ddefnydd cywir a sefydlog; a dibynna ddefnydd cywir yn ei dro ar gonfensiynau cyhoeddus, a'r natur ddynol. Atgyfnertha hyn natur annatod iaith a meddwl: gan na all iaith gael ei ddatgysylltu o'r meddwl, rhaid

iddi felly fod yn ran ohono. Mae ystyr ieithyddol yn 'interwoven with nonlinguistic activities' (Glock 1997).

Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i berthynoledd ieithyddol, gan ei fod yn dangos bod gwahaniaethau rhwng confensiynau cymunedau ieithyddol gwahanol o reidrwydd yn cyd-fynd â gwahaniaethau cysyniadol yn eu priod hieithoedd. Yn ôl perthynoledd ieithyddol, 'language, thought and culture are deeply interlocked' (Gumperz & Levinson 1996), fel bod iaith yn dylanwadu ar feddwl rhywun yn gyson â nodweddion diwylliannol ei gymuned ieithyddol. Rydyn ni'n meddwl trwy gysyniadau; ac mae'r cysyniadau hynny wedi'u treiddio â nodweddion diwylliannol ein cymunedau ieithyddol. Mae gwahaniaethau traws-ddiwylliannol, felly, yn cael eu hadlewyrchu yn ieithoedd y siaradwyr, ac effeithia hyn yn ei dro ar eu cyflyrau meddyliol; h.y. perthynoledd ieithyddol.

Mae'n bwysig nodi nad yw darlun Wittgensteinaidd o 'ystyr = defnydd' o iaith yn gwadu bod cyflyrau meddyliol yn chwarae rhan yn ein dealltwriaeth o gysyniadau; nid yw'n honni ychwaith bod modd uniaethu cyflyrau meddyliol â'i effeithiau ymddygiadol cyfatebol. Yr hyn mae'n honni, yn hytrach, yw nad yw cyflyrau meddyliol ar eu pennau eu hunain yn *ddigonol* ar gyfer deall cysyniadau, oherwydd (1) mae cysylltiad cysyniadol anochel rhwng iaith, meddwl, a chonfensiynau cymdeithasol ac ymddygiad; a (2) mae ein dealltwriaeth o gysyniadau yn barasitig ar gael ein trwytho yn y ffurfiau bywyd sy'n rhoi eu hystyr iddynt.

Agwedd bwysig arall o'r darlun hwn yw rôl hanes. Mae perthynoledd ieithyddol yn honni bod iaith yn ymgorffori diwylliant sy'n hanesyddol yn ogystal â phresennol: caiff ei weld fel ffynhonnell parhad diwylliannol rhwng cenedlaethau, fel y gwelir yn honiad Thiong'o bod iaith yn 'the collective memory bank of a people's experience in history' (1986: 15). Efallai ei fod yn ymddangos, fodd bynnag, nad yw darlun Wittgenstein yn gwneud lle i hyn. Os yw ystyr ieithyddol yn tarddu o normau diwylliannol ac ymddygiadol, yna siawns bod y diwylliant / ymddygiad yn rhagflaeni iaith, fel mai dim ond confensiynau *presennol* sy'n rhoi ystyr i eiriau?

Fodd bynnag, mae'r gwrthwynebiad hwn yn anwybyddu'r berthynas symbiotig dwyochrog rhwng iaith a diwylliant / meddwl. Nid yw darlun Wittgenstein yn honni bod iaith yn system unffordd lle mae ffurfiau bywyd yn dylanwadu ar iaith a meddwl, ond nid i'r gwrthwyneb. Yn hytrach, mae'n honni nad oes rhaniad cysyniadol caeth i'w dynnu rhyngddynt. Mae hyn yn gwbl gydnaws â'r honiad bod cysyniadau a gronnwyd yn hanesyddol - sydd wedi'u hymgorffori mewn iaith - yn dylanwadu neu'n helpu i gynnal normau diwylliannol, sydd yn eu tro yn dylanwadu ar alluoedd ieithyddol a gwybyddol y siaradwyr⁵. Er bod *dysgu* iaith yn broses lle mae normau diwylliannol ac ymddygiadol yn rhagflaeni iaith, nid yw hyn yn ei dro yn rhwystro unrhyw ddylanwadau ieithyddol cyfatebol maes o law ar gyflyrau meddyliol ac ymddygiad y siaradwyr.

Amlygir hyn gan y ffaith nad yw iaith yn datblygu o fewn gwagle; yn hytrach, caiff ei gynnal a chadw trwy ddefnydd parhaus ar draws cenedlaethau, a thrwy gymhathu trosiadau ac idiomau o lenyddiaeth, sydd eu hunain yn effeithio ar ystyron cynodiadol (*connotative*). Rydym eisoes wedi gweld bod ystyron cynodiadol yn effeithio ar feddyliau ac ymddygiad pobl (e.e. Simon & Jerit 2007; Bartels 1998); ac mae'r un peth yn wir am drosiadau ac idiomau, sy'n fframio prosesau meddwl (a thrwy hynny effeithio ar benderfyniadau / ymddygiad) trwy dynnu sylw at rai cysyniadau cysylltiedig ar draul eraill. Defnyddir y dechneg hon yn gyffredin mewn gwleidyddiaeth, lle mae effeithiau fframiau trosiadol (*metaphorical frames*) ar resymu gwleidyddol pobl wedi cael eu dogfennu'n

⁵ Yn wir, awgryma'r sylw canlynol y byddai Wittgenstein wedi cymeradwyo'r elfen hanesyddol hon i ystyr ieithyddol: 'Language is like 'a maze of little streets and squares, of old and new houses, and of houses with additions, *from various periods*; and this surrounded by a multitude of new boroughs with straight regular streets and uniform houses' (Wittgenstein 1953: §18).

helaeth dros y ddwy ddegawd diwethaf gan Ottati et al. (2014), Charteris-Black (2006), Musolff (2014), a Boeynaems et al. (2017), i enwi rhai.

I grynhoi, felly: caiff perthynoledd ieithyddol, sydd yn honni bod iaith, meddwl a diwylliant (hanesyddol a phresennol) yn annatod o'i gilydd, ei brofi i bob pwrpas gan y darlun Wittgensteinaidd o ystyr ieithyddol. Mae'r darlun hwn yn tanlinellu annatodrwydd iaith a meddwl, ac mae'n gyson â (ac yn wir yn awgrymu) gwahaniaethau trawsddiwylliannol mewn iaith a chyflyrau meddyliol. Ar ben hynny, mae'r darlun hwn hefyd yn gyson â dylanwad y trosiadau, idiomau, ac ystyron cynodiadol (a gronnwyd yn hanesyddol) ar feddwl; ac yn wir, gwelir yr effaith hwn yn yr astudiaethau uchod.

§4.1 Tystiolaeth Empirig o Blaid y Darlun Wittgensteinaidd

Yn ogystal â'r manteision *a priori* a dadansoddol a fanylir uchod, oes gan y darlun Wittgensteinaidd sail empirig hefyd? Oes: trwy gydol y ddau ddegawd diwethaf, mae yna nifer cynyddol o astudiaethau empiraidd wedi ymddangos sy'n ei gyfiawnhau; ac o ganlyniad, mae gwaith Wittgenstein yn dod yn gynyddol ddylanwadol yn y meysydd seico-ieithyddiaeth a niwroseicoleg (Moyal-Sharrock 2009). Mae archwiliad trylwyr o'r llenyddiaeth hon y tu hwnt i rychwant y bennod hon; ond serch hynny, mae'n werth cyflwyno rhai o'r prif astudiaethau yn eu plith, a'u harwyddocâd ehangach.

Un o'r cyfraniadau mwyaf arwyddocaol dros y ddau ddegawd diwethaf yw gwaith yr ieithydd Daniel Everett ar y llwyth Amazonaidd, y Pirahã. Yn ei 'Cultural Constraints on Grammar and Cognition in Pirahã' (2005), esbonia Everett sut mae'r iaith Pirahã yn ymgorffori rhai nodweddion trawiadol o'r diwylliant Pirahã, ac o ganlyniad, mae'n effeithio'n sylweddol ar y ffyrdd maent yn meddwl. Mae gan ramadeg yr iaith Pirahã, er enghraifft, 'immediacy-of-experience constraint' (2005: 26), sef y diffyg gallu i siarad am neu ddeall digwyddiadau o'r gorffennol pell. Mae hyn yn amlwg o'r ffaith nad oes gan yr iaith Pirahã yr un o'r nodweddion canlynol:

'number, numerals, or a concept of counting and of terms for quantification, the absence of color terms and embedding, the extreme simplicity of the pronoun inventory, the lack of a perfect tense, the simplicity of the kinship system, the absence of creation myths, the lack of individual or collective memory of more than two generations past, and the absence of drawing except for extremely crude stick figures representing the spirit world claimed to have been directly experienced' (Everett 2005: 25).

Y casgliad mae Everett yn ei dynnu yw bod yr agwedd 'yn y foment' hon ymhlith y Pirahã, a'r ffaith nad oes ganddynt unrhyw ddi-ddordeb ynglŷn ag unrhyw realiti tragwyddol, yn dangos nad oes ganddynt unrhyw *ddefnydd* ar gyfer cysyniadau o'r fath. Dyna, felly, pam nad yw'r cysyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng ngramadeg na geirfa'r iaith Pirahã. Does gan yr iaith Pirahã ddim rhifau, na'r swyddogaeth ramadegol 'atgynhyrchu' (*recursion*), lle gellir ailgylchu strwythurau ieithyddol syml er mwyn eu hymgorffori mewn brawddegau mwy cymhleth (e.e. 'dŵr yw H₂O' → 'nid yw pawb yn sylweddoli mai dŵr yw H₂O'). Yn ogystal â hyn, nid oes ganddynt unrhyw allu i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol pell, ychwaith. Y rheswm dros hyn yw nad oes unrhyw ddefnydd ar gyfer y fath eiriau neu nodweddion gramadegol yn eu cyd-destun diwylliannol nhw. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ieithyddol yma, dyw'r llwyth Pirahã methu meddwl ar hyd y termau hyn.

Tynna Everett y casgliad mai cyfyngiadau diwylliannol y Pirahãs sy'n gyfrifol am eu cyfyngiadau cysyniadol cyfatebol, gan honni bod y canfyddiadau hyn yn darparu 'striking evidence for the influence of culture on major grammatical structures' (2005: 25). Mae'r canfyddiadau hyn yn *sicr* yn

cyfiri fel tystiolaeth gadarnhaol o blaid y darlun Wittgensteinaidd mai ystyr gair yw ei ddefnydd mewn iaith, a bod iaith a meddwl yn annatod o ffurfiau bywyd cymunedau ieithyddol'. Efallai nad yw'n syndod felly bod yr astudiaeth hon hefyd yn 2-mewn-1, yn yr ystyr ei bod yn ategi annatodrwydd iaith a'r meddwl, yn ogystal â bod yn dystiolaeth o blaid anghyfieithiadwyedd trawsddiwylliannol.

Yn ogystal â'r dystiolaeth uchod, ceir hefyd nifer cynyddol o astudiaethau gwyddor wybyddol sy'n cadarnhau'r dull 'dysgu ystadegol' o gaffael iaith (gweler ee Bishop (2014, a ddyfynnir hefyd yn Moyal-Sharrock 2017), Dye (2010), a Perruchet (2019) ar gyfer rhai enghreifftiau diweddar). Dyma'r broses lle mae plant yn codi ac yn systemateiddio iaith ar sail patrymau ieithyddol dominyddol eu hamgylchedd, a'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu hailadrodd ar sail eu hamlder. Mae hyn yn eu galluogi i anwybyddu'r amrywiadau anghyson yn y mewnbwn ieithyddol, wrth iddynt systemateiddio ac atgynhyrchu'r patrymau mwy cyson a dibynadwy. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o blaid y darlun Wittgensteinaidd fod iaith ac ystyr ieithyddol yn *sylyfaenol gymdeithasol*, gan eu bod yn seiliedig ar gonfensiynau a rheoleidd-dra ieithyddol.

Damcaniaeth gysylltiedig sy'n atgyfnerthu'r darlun Wittgensteinaidd ymhellach yw'r ddamcaniaeth 'rhyngweithiol' (*interactionist*), sy'n nodi bod plant yn dysgu iaith trwy'r atgyfnerthu ieithyddol (*linguistic reinforcement*) ac adborth cywirol gan yr oedolion maent yn cyfathrebu â nhw. Dangosa Schoneberger (2010), er enghraifft, bod adborth cywirol uniongyrchol ac anuniongyrchol gan oedolion yn dylanwadu'n helaeth ar allu plant i ddysgu iaith. Cyflwynna Moerk (1994) feta-ddadansoddiad o 40 astudiaeth sy'n nodi effeithiolrwydd data cywirol ar gaffael iaith plant, ac mae hyn yn cadarnhau arwyddocâd ystadegol casgliadau'r 40 papur. Mae pob un o'r astudiaethau hyn sy'n dogfennu'r damcaniaethau 'dysgu ystadegol' a 'rhyngweithiol' yn atgyfnerthu'r safbwynt Wittgensteinaidd, gan eu bod yn dangos dibyniaeth sylfaenol iaith ar ymddygiad a chonfensiynau cymdeithasol a rhyng-bersonol.

Ni gyflwynwyd darlun Wittgenstein o ystyr ieithyddol a chaffaeliad iaith fel damcaniaeth wyddonol gynhwysfawr fel y cyfryw, oherwydd honnodd dro ar ôl tro nad yw athroniaeth yn esgor ar ddarganfyddiadau na damcaniaethau cyffrous (Wittgenstein 2005: 419). Pwrpas athroniaeth, yn hytrach, yw datglymu gweoedd o ddryswch cysyniadol sy'n tarddu o gamddefnyddio iaith, rhagdybiaethau camarweiniol, a gwallau rhesymegol sy'n llechu o dan yr arwyneb. 'While thinking philosophically we see problems in places where there are none' (Wittgenstein 1974: 47). Mae'r dull Wittgensteinaidd, felly, yn gyfystyr â throsi 'disguised nonsense to something that is patent nonsense' (1953: §464) er mwyn datgymalu rhithiau ac atgoffa pobl sut mae iaith a chysyniadau yn cael eu defnyddio a'u deall yn ôl synnwyr cyffredin (1953: § 127).

Wedi dweud hynny, mae yna fodd arall y gellir ystyried mewnwleidiadau Wittgenstein ynglŷn ag ystyr ieithyddol a chaffaeliad iaith i fod yn 'ddamcaniaeth'. Hynny yw: fel ad-drefniad o'r modd mae materion athronyddol a gwyddonol (sydd wedi cael eu heffeithio gan ddryswch cysyniadol) yn cael eu cyflwyno a'u dehongli, yn aml yn ôl gwybodaeth synnwyr cyffredin o'r hyn sydd bob amser o flaen ein llygaid (1953: § §122, 415). Gan nad yw dryswch athronyddol wedi'i gyfyngu i'r disgyblaeth academiaidd o athroniaeth, ond yn hytrach yn bresennol yn y mwyafrif o ddisgyblaethau, mae'n gwbl briodol cymhwyso ei fewnwleidiadau i ieithyddiaeth a gwyddoniaeth wybyddol fel y gwnaed yn yr enghreifftiau uchod. Felly, mae'r dystiolaeth empiraidd uchod, ynghyd â'r dadleuon dadansodol ynglŷn â chyd-ddibyniaeth sylfaenol iaith a meddwl, yn creu sail gref ar gyfer cyfiawnhau ail egwyddor perthynoledd ieithyddol: annatodrwydd iaith a meddwl.

§5. Ateb Wittgensteinaidd i'r Gwrthwynebiadau yn erbyn Perthynoledd Ieithyddol

Hyd yn hyn, gallwn weld bod dwy egwyddor ganolog perthynoledd ieithyddol – sef anghyfieithiadwyedd ac annatodrwydd iaith a meddwl – wedi cael eu profi gan ddadleuon rhesymegol a thystiolaeth empiraidd helaeth. Serch hynny, rhaid dwyn i gof bod seico-ieithyddwyr dal yn ystyried bod y ffaith bod anifeiliaid a babanod yn rhannu nifer o alluoedd gwybyddol â phobl (er nad ydynt yn siarad iaith) yn parhau i fod yn rwystr rhag derbyn annatodrwydd iaith a meddwl/gwybyddiaeth (Everett 2013: 9). Sut, felly, all y darlun Wittgensteinaidd ymateb i'r rhwystr hwn?

Rhaid craffu'n agosach ar beth, yn union, mae Wittgenstein yn golygu wrth iaith; a beth yw ei berthynas ag ymddygiad. Pwysleisiodd Wittgenstein yn barhaus nad yw iaith wedi'i chyfyngu i eiriau neu symbolau; yn hytrach, mae hefyd yn cynnwys ystumiau, ymatebion, a greddfau a phatrymau ymddygiad. Mae ieithoedd naturiol yn tarddu yn gyntaf oll allan o ymddygiad cyntefig cyn-ieithyddol neu broto-ieithyddol: 'The origin and the primitive form of the language game is a reaction; only from this can more complicated forms develop' (Wittgenstein 1993: 395). Yn wir, 'Our language-game is an extension of primitive behaviour' (Wittgenstein 1970: 545).

Yn ôl Wittgenstein, 'steady ways of living, regular ways of acting' sy'n gyffredin i bob person yw'r ymddygiad cyntefig a chyn-ieithyddol hyn (Wittgenstein 1993: 397), megis crio mewn ymateb i boen, chwerthin mewn ymateb i ddifyrrwch, cydymdeimlad mewn ymateb i dioddefaint eraill, ac ati. Ar ben hynny, mae iaith naturiol (sy'n datblygu'n uniongyrchol o'r patrymau ymddygiad hyn) yn gyfystyr ag addasu, neu fireinio'r ymddygiad cyntefig o dan sylw. Enghraifft a nodwyd yn aml o'r fath addasiad yw datblygu o grio er mwyn mynegi poen i ddisgrifio'r boen â geiriau, fel bod y geiriau yn disodli'r arferion crio (1953: 244). Mae'r broses hon o ddisodli ymatebion cyntefig cyn-ieithyddol yn digwydd trwy broses hyfforddi, lle mae gofawyr y plant yn mireinio eu hymddygiad trwy e.e. system o wobwr a chosb (Wittgenstein 1969: 77).

Arwyddocâd y darlun hwn yw ei fod yn dileu unrhyw raniad cysyniadol rhwng galluoedd ieithyddol a gwybyddol bodau dynol aeddfed, a galluoedd bodau cyn / an-ieithyddol fel anifeiliaid a babanod. Mae yna barhad anochel rhwng ar y naill law ffurfiau cyn-ieithyddol o ymddygiad a gwybyddiaeth, ac ar y llaw arall ieithoedd naturiol. Hynny yw: mae iaith naturiol a gwybyddiaeth yn datblygu o batrymau a greddfau ymddygiad cyntefig er mwyn eu hamnewid am gysyniadau mwy soffistigedig, amrywiol, cymhleth, a haniaethol. Yn wir, mae'r adweithiau a'r greddfau cyntefig hyn yn gyfystyr â 'the prototype of a mode of thought' (Wittgenstein 1980: 916). Caiff y gorgyffwrdd rhwng sgiliau gwybyddol bodau dynol aeddfed a babanod cyn-ieithyddol, felly, ei esbonio gan y ffaith nad yw e'n wir nad oes gan fabanod unrhyw fath o allu ieithyddol, unwaith caiff y syniad o iaith ei ehangu'n briodol.

Mae'r un egwyddor yn wir am anifeiliaid, heb law am y ffaith nad ydynt wedyn yn mynd ymlaen i amnewid eu hymatebion greddfol a'u hymddygiad cyntefig am ieithoedd naturiol. Yn wir, tynnodd Wittgenstein gymhariaeth rhwng babanod cyn-ieithyddol ac anifeiliaid, yn y synnwyr bod eu hymatebion greddfol a chyntefig yn debyg i'w gilydd, a bod eu hyfforddi allan o rai o'r arferion hyn yn gofyn am yr un math o gyflyru cosb a gwobr (Wittgenstein 1969: 77). Yn ngeiriau Danièle Moyal-Sharrock, mae hyn wedi perswadio'r seicolegwyr datblygiad Michael Tomasello 'to realize that – contrary to current primatologist dogma – apes' gestures, not their vocalizations, are the precursors of human language (2008, 53-5)' (Moyal-Sharrock 2010: 292).

Gallwn weld, felly, bod y prif rwystr rhag derbyn annatodrwydd iaith a meddwl yn hydoddi unwaith y defnyddiwn y syniad Wittgensteinaidd ehangach o iaith yn hytrach na'r syniad mwy cyfyng sy'n cyfeirio'n at eiriau yn unig. Mae'r darlun hwn o annatodrwydd iaith a'r meddwl yn berffaith gyson a'r gorgyffwrdd rhwng galluoedd gwybyddol babanod ac anifeiliaid, unwaith y sylweddolwn bod eu hymddygiad cyntefig yn cyfateb a gwreiddiau cychwynol iaith, yn hytrach na bod yn ddatgysylltiedig ohono.

Gwrthwynebiad arall at berthynoledd ieithyddol yw anghymesuredd (incommensurability) traws-ieithyddol. Os yw perthynoledd ieithyddol fel arfer yn cael ei nodweddu yn nhermau anghymesuredd traws-ieithyddol a thraws-ddiwylliannol, yna pam bod cymaint o unffurfiaeth i wybyddiaeth ac ymddygiad dynol ar draws diwylliannau gwahanol? Yn wir, o ystyried bod darlun Wittgenstein yn honni bod iaith yn datblygu allan o reddfau ac ymatebion cyntefig sy'n gyffredin i bawb (Wittgenstein 1970: 545), sut gellir honni wedyn bod ieithoedd a diwylliannau gwahanol yn anghymesur a'i gilydd? Yr ateb i'r gwrthwynebiad yma yw bod anghymesuredd yn derm *cymharol*, yn hytrach nag absoliwt. Does dim byd anghyson am honni bod llawer yn gyffredin ar draws diwylliannau pan mae'n dod at y natur ddynol ac ymddygiad sy'n gyffredin i bawb. Mae anghymesuredd, yn hytrach, yn berthnasol i amrywiadau diwylliannol lefel-uwch ar draws cymunedau ieithyddol. Mae graddfa'r amrywiad (ac felly'r anghymesuredd), yn ei dro, yn wahanol ar draws diwylliannau yn ôl e.e. pa mor ddiwydiannol debyg ac agos ydynt; ond i'r graddau bod gwahaniaethau diwylliannol yn parhau i fodoli, yna parha berthynoledd ieithyddol i fod yn berthnasol.

Gwrthwynebiad pellach yw'r mater o ieithoedd byd-eang *lingua franca* a thafodieithoedd lleol. Beth sy'n esbonio'r ffaith bod sawl diwylliant gwahanol yn siarad yr un iaith, ac ar yr un pryd yn parhau i fod yn ddiwylliannol wahanol? Byddai'n afresymol awgrymu bod siaradwyr Sbaeneg De America, dyweder, yn rhannu'r un diwylliant â'r Sbaenwyr ar y sail eu bod yn siarad yr un iaith. Yn yr yn modd, beth sy'n esbonio'r amrywiad rhanbarthol rhwng tafodieithoedd o fewn yr un iaith, a'r amrywiadau diwylliannol cydredol? Er mai'r un iaith a siaredir ar draws rhanbarthau, mae'r amrywiad tafodieithol a diwylliannol yn aml yn sylweddol, fel y byddai'r un mor afresymol awgrymu eu bod yn rhannu'r un diwylliant gan eu bod yn rhannu'r un iaith.

Yr ateb i'r gwrthwynebiad yma yw bod angen gwahaniaethu rhwng (1) gwahanol ieithoedd yn yr ystyr eu bod yn annealladwy i siaradwyr eu gilydd; a (2) gwahanol ieithoedd yn yr ystyr eu bod yn cael eu cydnabod yn ffurfiol neu'n wleidyddol fel gwahanol ieithoedd. Ystyriwch Arabeg, er enghraifft: er ei bod yn cael ei chydabod yn *ffurfiol* fel un iaith, mae'r amrywiadau traws-ranbarthol yn nhafodaethau Arabeg yn aml mor sylweddol nes eu bod yn annealladwy i'w gilydd. Mewn modd tebyg, er bod ieithoedd fel Hindi ac Wrdd yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel ieithoedd gwahanol, mae gradd eu tebygrwydd a'u cyd-ddealltwyedd yn arbennig o uchel; yn fwy felly na llawer o dafodieithoedd o'r 'un iaith', fel Arabeg.

Yr hyn a amlygir gan y pwyntiau hyn yw bod y broses o gategoreiddio ieithoedd / trafodaethau o'r un iaith yn aml yn gamarweiniol, ac yn ymwneud mwy ag ystyriaethau gwleidyddol yn hytrach na rhai ieithyddol. O ystyried hyn, gallwn weld bod yr amrywiaeth diwylliannol ymhlith siaradwyr yr hyn a elwir yn 'yr un iaith' yn gwbl gyson â pherthynoledd ieithyddol, unwaith y sylweddolir bod yr hyn a adnabyddir yn *ffurfiol* fel iaith unigryw yn aml yn derm ymbarél ar gyfer niferoedd eang o dafodaethau gwahanol, a rhai ohonynt yn annealladwy i siaradwyr eu gilydd. Felly, mae'n gamarweiniol cymryd yn ganiataol bod (1) ieithoedd a gydnabyddir yn ffurfiol o reidrwydd yn ieithoedd neilltuol unigryw yn eu hawl eu hunain; a (2) bod ieithoedd a gydnabyddir yn ffurfiol rhywsut yn fewnol-unigryw.

Ystyriwch Saesneg Indiaidd, er enghraifft. Dadleua Salman Rushdie: er gwaetha'r disodliad diwylliannol gwreiddiol a achosodd gormes ieithyddol Saesneg ar India, mae Saesneg bellach wedi'i siarad yn India ers digon o amser i amsugno llawer o'r diwylliant Indiaidd. I bob pwrpas, mae Saesneg Indiaidd wedi cael ei ail-bwrpasu a'i ail-ymgartrefi at ddibenion Indiaidd (Rushdie 1991, a ddyfynnwyd hefyd yn Boucher 2020). Os yw hyn yn wir, yna byddai'n gamarweiniol ei roi mewn i'r un categori o Saesneg â Saesneg Prydain. Ac yn wir, mae hefyd yn rhesymol tybio bod yr un egwyddor yn berthnasol i drafodaethau gwahanol o'r Saesneg, yn ogystal â *linguae francae* eraill.

Atgyfnerthir y pwynt hwn ymhellach gan y darlun Wittgensteinaidd o iaith: un canlyniad i'r egwyddor bod ystyr ieithyddol yn deillio yn bennaf o gonfensiynau cymdeithasol ac ymddygiadol yw hyn. Hyd yn oed os yw imperialaeth ieithyddol yn achosi disodliad diwylliannol sylweddol i ddechrau, gellir tybio bydd normau cymdeithasol y gymdeithas a gafodd ei wladychu cydblethu â iaith y gwladychwr hyd nes i'r iaith honno ddod i'w hadlewyrchu. Perthnasedd ehangach hyn i'r gwrthwynebiad *linguae francae* a thafodieithoedd yw: ar y darlun Wittgensteinaidd, nid yw'r hyn sy'n ymddangos yn arwynebol i fod yn 'iaith gyffredin' a siaredir gan wahanol ddiwylliannau mewn gwirionedd yn cyfri fel 'yr un iaith' o gwbl, o siarad yn fanwl gywir. Yn hytrach, mae graddfa y gwahaniaethau trawsddiwylliannol ymhlith siaradwyr 'yr un iaith' yn cyfateb â graddfa'r gwahaniaethau semantig ar draws pob fersiwn o'r iaith (a gydnabyddir yn ffurfiol) honno. Gan nad yw'r tafodieithoedd Sbaeneg a siaredir yn Ne America a'r rhai a siaredir yn Sbaen yr cyfri fel iaith unfath, gyffredin mewn ystyr ieithyddol lem, mae'r gwrthwynebiad bod perthynoledd ieithyddol rhywsut yn cael ei danseilio gan *linguae francae* yn seiliedig ar ragosodiad ffals.

Casgliad

Ar sail y dadleuon a'r gwahaniaethau a archwiliwyd yn y bennod hon, rydym bellach mewn sefyllfa i ateb y ddau aneglurder cysylltiedig a nodir yn y cyflwyniad. Y rhain yw: (1) a oes cysylltiad achos-ac-effaith rhwng y gwahaniaethau trawsddiwylliannol iaith a gwybyddiaeth? a (2) beth yw graddfa tebygol perthynoledd ieithyddol? O ran (1), cofiwch mai un o'r prif rwystrau mewn astudiaethau perthynoledd ieithyddol yw ei fod wedi bod yn anodd sefydlu cyswllt achos-ac-effaith rhwng y gwahaniaethau trawsddiwylliannol mewn iaith a gwybyddiaeth, am y rheswm bod diffyg parodrwydd i arddel annatodrwydd iaith a gwybyddiaeth. Y rheswm dros hyn yw'r consensws bod anifeiliaid a babanod yn rhannu rhai o'r un sgiliau gwybyddol â bodau dynol aeddfed, er nad ydynt yn siarad iaith. O ran (2) mae statws amhendiant llawer o'r astudiaethau perthynoledd ieithyddol yn cyflwyno rhwystr ychwanegol rhag cadarnhau rhychwant tebygol perthynoledd ieithyddol: nid yw'n amlwg bod yr effeithiau perthynolyddol â gofnodwyd yn astudiaethau megis (Everett 2005, 2008; Borodidsky & Gaby 2010; Dahl 1995) yn medru cael eu cyffredinoli ar draws cymdeithasau WEIRD.

Yr hyn mae'r dadleuon a'r gwahaniaethiadau Wittgensteinaidd a archwiliwyd yn y bennod hon yn eu dangos, fodd bynnag, yw bod modd gwrthsefyll y ddau rwystr hyn trwy ddefnyddio'r dadleuon a'r dystiolaeth o blaid y darlun cymdeithasol, dad-seicolegaidd (*de-psychologized*) o ystyr ieithyddol. Sefydla'r darlun hwn, ynghyd â thanseiliad Wittgenstein o'r darluniau seicolegaidd o ystyr ieithyddol, yn cadarnhau bod iaith a gwybyddiaeth yn annatod o'i gilydd. Mae hyn yn ei dro yn diddymu rwystr (1); ac ar ben hynny, mae darlun holistig Wittgenstein o iaith hefyd yn diddymu'r prif reswm nad yw seicolegwyr yn ddigon parod i arddel annatodrwydd iaith a gwybyddiaeth. Hynny yw: mae'r darlun Wittgensteinaidd yn dangos bod iaith yn barhaus gyda, ac yn estyniad o, reddfau a phatrymau ymddygiadol cyntefig anifeiliaid a babanod.

Beth, felly, yw goblygiadau hyn oll ar gyfer rychwant tebygol perthynoledd ieithyddol? Er mai tasg anthropolegwyr a seicoieithyddion yw parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer ateb cyflawn i'r cwestiwn hwn, mae rheswm da serch hynny i dybio bod yr effeithiau perthynolaidd traws-ddiwylliannol yn sylweddol i'r graddau eu bod yn gyson a'r ffordd gadarn mae perthynoledd ieithyddol fel arfer yn cael ei nodweddi. Rydym eisoes wedi gweld yn §1 a §4 bod anghyfieithiadwyedd traws-ieithyddol yn rhemp, yn enwedig o ran ystyron cynodiadol, a bod gwahaniaethau cynodiadol a throsiadol yn effeithio ar wybyddiaeth, fel y gwelir yn e.e. astudiaethau o effeithiau fframio. O ystyried bod y data presennol eisoes yn dangos bod anghyfieithiadwyedd yn digwydd i raddau sylweddol ar draws cymdeithasau WEIRD (ac i raddau llawer mwy mewn cymdeithasau heb eu diwydiannu), ac o ystyried annatodrydd iaith a meddwl, teg yw tynnu'r casgliad bod effeithiau perthynolyddol yn sylweddol i gyfiawnhau'r ddamcaniaeth.

Goblygiadau hyn oll ar gyfer y llenyddiaeth wleidyddol sydd naill ai'n rhagdybio gwirionedd perthynoledd ieithyddol, neu'n arddel honiadau sy'n dibynnu arno, felly, yw hyn. Mae cydnabod y sylfaen dystiolaeth o blaid perthynoledd ieithyddol, ynghyd â'r darlun Wittgensteinaidd o ystyr ieithyddol a chaffael iaith, yn rhoi cyfiawnhad rhesymegol dros ddefnyddio perthynoledd ieithyddol fel egwyddor ganolog yn y llenyddiaeth mewn golwg. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu imiwneiddio'r llenyddiaeth hwnnw rhag y gwrthwynebiad ei fod yn dŷ ar dywod, fel petai. Serch hynny, dyw'r achos cadarnhaol o blaid perthynoledd ieithyddol a ddatblygwyd yn y bennod hon ddim *ynddo'i hun* yn mynd i'r afael â'r damcaniaethau cyffredinolaidd o iaith a ysbrydolwyd gan ieithyddiaeth Chomsky (sy'n anghyson â pherthynoledd ieithyddol) mewn modd digon manwl. Trof yn awr, ym Mhennod 3, felly, at y darpar-gymhlethdodau hyn.

Pennod 3: Beirniadaeth Fethodolegol o Chomsky: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd Ieithyddol

Cyflwyniad

Pwrpas Pennod 2 oedd datblygu cyfiawnhad cadarnhaol o blaid perthynoledd ieithyddol trwy ddefnyddio dadleuon a gwahaniaethiadau Wittgensteiniaidd yn ogystal â thystiolaeth empirig cyfredol. I atgoffa'r darllynydd: mae perthynoledd ieithyddol yn dibynnu ar ddwy amod angenrheidiol: anghyfieithiadwyedd traws-ieithyddol ac annatodrwydd iaith a meddwl. Gwelsom fod tystiolaeth helaeth yn y meysydd o ieithyddiaeth ac astudiaethau cyfieithu o blaid amrywiadau traws-ieithyddol, yn enwedig o ran ystyrion cynodiadol. O ran annatodrwydd iaith a meddwl, dadleuais fod dadleuon Wittgenstein (1953) yn erbyn safbwyntiau seicolegaidd o ystyr ieithyddol, ynghyd â'i ddarlun (a gadarnhawyd yn empirig) o ddysgu iaith (Wittgenstein 1953, 1970, 1993) yn gyfiawnhad sylweddol o'i blaid. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth o blaid amrywiaeth traws-ieithyddol, ynghyd â'r achos Wittgensteiniaidd o blaid annatodrwydd iaith a meddwl, yn profi perthynoledd ieithyddol. Mae hyn, yn ei dro, yn darparu'r cyfiawnhad rhesymegol sydd hyd yma wedi bod ar goll o'r llenyddiaeth cenedlaetholdeb a theori wleidyddol sy'n rhagdybio neu'n dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol.

Un darpar-rwystr ychwanegol na chafodd ei archwilio mewn llawer o fanylder ym Mhennod 2, fodd bynnag, yw ieithyddiaeth Chomskyiaidd a'i waddol (*legacy*) cyfoes. Mae'r gwrthdaro rhwng perthynoledd ieithyddol a ieithyddiaeth Chomskyiaidd yn sylweddol; ac yn wir, mae dylanwad ieithyddiaeth Chomsky wedi arwain at duedd ymhlith ymchwilwyr ail hanner yr 20fed ganrif i anwybyddu perthynoledd ieithyddol ar seiliau damcaniaethol (Everett 2013: 21). Yn rhy aml, triniwyd amrywiadau traws-ddiwylliannol mewn iaith a gwybyddiaeth nid fel amlygiadau o berthynoledd ieithyddol, ond yn hytrach fel ffactorau arwynebol y gellid eu hesbonio yn nhermau set gyfyngedig o egwyddorion gramadegol cyffredinol sylfaenol (ibid.). Yn ôl Gumperz & Levinson: daeth ieithyddiaeth Chomskyiaidd i fod yn baradeim dominyddol mewn ieithyddiaeth prif-ffrwd *ar draul* perthynoledd ieithyddol (1996: 3-6).

Beth yw Gramadeg Cynhenid (*Universal Grammar* (UG))? Nodwedd ganolog y paradeim Chomskyiaidd ydyw, sef endid ddamcaniaethol sy'n cynnwys set o egwyddorion gramadegol cynhenid, cyffredinol a biolegol sy'n gyffredin i bob aelod o'r dynol ryw, ac sy'n gweithredu'n annibynnol ar ieithoedd naturiol (Chomsky 1965, 1986). Mae UG yn digwydd trwy 'fodiwl' o'r ymennydd o'r enw 'Dyfais Caffael Iaith' (*Language Acquisition Device* (LAD)). Mae'r ddamcaniaeth hon, yn ei dro, wedi ysbrydoli nifer sylweddol o ddamcaniaethau cyffredinolaid cysylltiedig ynglŷn ag iaith, megis y rhai a ddatblygwyd gan Fodor (1975, 1983), Pylyshyn (1981a, 1981b, 2003), Pinker (1994; 2002), Carey (2009), a Spelke (2003). Fe wnelo eu hanghysonder â pherthynoledd ieithyddol a'i honiad bod gwybyddiaeth yn digwydd trwy iaith, gramadeg neu gysyniadau cynhenid a chyffredinol, mewn modd sy'n annibynnol ar wahaniaethau ar draws ieithoedd naturiol. Nid yw ieithoedd naturiol, yn ôl y damcaniaethau hyn, yn cael unrhyw effaith sylweddol ar wybyddiaeth an-ieithyddol yr unigolyn.

Fel y gwelsom, prin yw'r ymwybyddiaeth ynghylch perthynoledd ieithyddol yn y llenyddiaeth ar genedlaetholdeb / theori wleidyddol cyfredol, er bod cyfran sylweddol ohono yn dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol. O ystyried hyn, efallai nad yw'n syndod bod llai fyth o ymwybyddiaeth o fewn y llenyddiaeth honno ynglŷn â'r damcaniaethau cyffredinolaid anghyson, megis ieithyddiaeth Chomskyiaidd a'i ddisgynyddion. Serch hynny, mae un eithriad rannol na allwn ei

anwybyddu: *The Language Animal* (2016) gan Charles Taylor. (Er nad yw'r llyfr ei hun yn mynd i'r afael â theori wleidyddol, mae'n gyfraniad at *oeuvre* awdur sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y llenyddiaeth honno). Yma, mae Taylor yn datblygu dadl faith yn erbyn cyffredinoliaeth ieithyddol; h.y. y farn bod iaith yn ddim mwy na dyfais offerynnol sy'n annibynnol o ddiwylliant. Yn wir, aiff Taylor cyd belled a honni bod ei ddadl yn tanseilio cyffredinoliaeth ieithyddol i'r fath raddau ei fod yn llwyddo gwrthbrofi ei holl waddolion. Yn lle cyffredinoliaeth, mae'n datblygu esboniad helaeth o'r ffyrdd mae iaith yn rhyng-gysylltiedig â diwylliant (egwyddor ganolog perthynoledd ieithyddol); er nad yw e, ar y cyfan, yn fframio hyn yn nhermau perthynoledd ieithyddol. Serch hynny, rhaid crybwyll bod triniaeth Taylor o berthynoledd ieithyddol yn rhy gyfyngedig: caiff ei gyfyngi, i raddau helaeth, at enghreifftiau hanesyddol a braidd yn hen ffasiwn, megis Hopi ac Yucatec, lle mae'r data naill ai'n gwbl ramadegol, neu'n seiliedig ar straeon personol, yn hytrach na data arbrofol.

Yn gysylltiedig, mae yna elfen hollbwysig ar goll o ddadl Taylor yn erbyn cyffredinoliaeth ieithyddol: ieithyddiaeth Chomskyidd a'i ddisgynyddion. Er bod Taylor yn dyfynnu nifer o gyfraniadau dylanwadol Chomsky at ieithyddiaeth, mae'n hepgor crybwyll unrhyw esboniad na gwrth-ddadl yn erbyn y cyffredinoliaeth ieithyddol sydd ymhlyg yng ngwaith Chomsky. Yn hytrach, mae ond yn tynnu sylw at y ffaith bod ieithyddiaeth Chomskyidd yn anghyflawn: mae'n 'very far from exhausting the functions, uses, and potentialities of language' (2016: 88-89). Ar ben hynny, 'the linguistic functions which theories of [...] innate grammar have mainly tried to explain [...] cannot be exercised independently of the other [linguistic] functions (2016: 89). Yn y bennod hon, byddaf yn dadlau bod gwaith Chomsky llawn elfennau o gyffredinoliaeth ieithyddol sy'n anghyson â pherthynoledd ieithyddol, a'r farn gyfansoddiadol o iaith mae Taylor yn ceisio ei brofi gyda sicrwydd.

Man cychwyn y bennod hon yw anghysonder ieithyddiaeth Chomsky (a'i disgynyddion) â pherthynoledd ieithyddol / y darlun gyfansoddiadol o iaith. Ar y sail hon, bydd y bennod bresennol yn mynd ymlaen i geisio cyflawni'r ddwy amcan ganlynol. Yn gyntaf, byddaf yn rhoi esboniad manwl o ble, yn union, mae'r anghysonder rhwng ieithyddiaeth Chomsky a pherthynoledd ieithyddol. Yn ail, byddaf yn darparu archwiliad manwl o nodwedd ganolog ieithyddiaeth Chomsky – sef gramadeg cynhenid (UG) - ac yn dadlau ei fod yn mynd yn groes i ddwy egwyddor sy'n ganolog i'r dull gwyddonol: egwyddor anwirio (*falsifiability principle*) ac Eilliwr Occam⁶ (Occam's Razor). Bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio hygredd y damcaniaethau cyffredinolaid pellach sydd wedi disgyn o UG: os dangosir bod eu prif ysbrydolaeth (ieithyddiaeth Chomsky) yn anghynladwy, yna tynnir y carped oddi tanynt, fel petai.

Arwyddocâd y bennod hon ar gyfer perthynoledd ieithyddol a'r farn gyfansoddiadol ar iaith, felly, yw ei fod yn mynd i'r afael â'r prif anghysonderau rhwng perthynoledd ieithyddol a damcaniaethau cyffredinolaid o iaith - sef ieithyddiaeth Chomsky - a thrwy hynny, caiff wared â'r brif rwystr rhag derbyn perthynoledd ieithyddol. Y man cychwyn ar gyfer cyflawni'r nod hwn yw cymhathu'r llenyddiaeth ieithyddiaeth ac anthropoleg cyfredol. Byddaf yn dadlau, trwy gyfeirio at waith arloesol Karl Popper's (1959, 1962, 1974) ynglŷn â'r dull gwyddonol, bod y llenyddiaeth ieithyddiaeth / anthropoleg o dan sylw yn dangos bod gwaith Chomsky yn tramgwyddo'r egwyddor anwirio. O ran tramgwyddiad Chomsky o'r egwyddor Eilliwr Occam, byddaf yn dadlau, *pace* Daniele Moyal-Sharrock (2017), bod ystyriaeth o ddarlun caffael iaith Wittgenstein (a brofwyd yn empirig) yn datgelu bod

⁶ Yn ôl yr egwyddor anwirio, mae'n rhaid i unrhyw ddatganiad sy'n honni bod yn wyddonol allu cael ei wrthbrofi mewn egwyddor (Popper 1959). Mewn termau ymarferol, mae'r egwyddor yn mynnu y dylem, wrth brofi damcaniaeth, edrych am yr effaith darged nid yn unig lle mae'r ddamcaniaeth yn darogan y byddai'n digwydd, ond hefyd mewn manau lle mae'r ddamcaniaeth yn darogan *na* fyddai'n digwydd. Gweler e.e. Firestone & Scholl (2016: 7) am fynegiad diweddar o bwysigrwydd yr egwyddor hon. Occam's Razor yw'r egwyddor na ddylai esboniad fyth luosogi cymhlethdod neu endidau y tu hwnt i'r lleiafrif sydd ei angen.

gramadeg yn tarddu yn anad dim o arferion cymuned ieithyddol, yn hytrach na'r ymennydd. Bydd hyn, yn ei dro, yn diddymu'r dirgelwch honedig y mae UG i fod i fod yn ddatrysiad iddo, i'r gradd na fydd bellach angen UG er mwyn esbonio'r gallu caffael iaith. Yn olaf, byddaf yn egluro sut mae hyn yn galluogi'r *Language Animal* - yr unig waith sylweddol sy'n rhychwantu'r rhyngwyneb rhwng y llenyddiaeth ieithyddiaeth gymharol ddiweddar a'r llenyddiaeth ddamcaniaethol ar y darlun cyfansoddiadol ar iaith - i gyflawni ei brif nod. Hynny yw: gwrthbrofi'r 'darnau sydd ar ôl' o'r darlun cyffredinolaid o iaith sy'n gwrthdaro â'r darlun gyfansoddiadol o iaith a pherthynoledd ieithyddol. Sgîl effaith hyn oll bydd dangos nad yw'r safbwynt cyffredinolaid o iaith hyd yn oed yn cyrraedd ei nod wyddonol yn llwyddiannus, gan fod ei brif fewnbwn damcaniaethol - sef ieithyddiaeth Chomsky - yn anghyson â'r dull gwyddonol.

Strwythurir y bennod yn y modd canlynol. Mae §1 yn amlinellu'r darlun cyfansoddiadol o iaith a'i berthnasedd at berthynoledd ieithyddol. Mae §2 yn darparu trosolwg o ieithyddiaeth Chomsky a'i brif ddisgynyddion, ac yn egluro ble, yn union, mae eu hanghysondeb â pherthynoledd ieithyddol. Eglura §3 sut mae ieithyddiaeth Chomsky yn tramgwyddo Eilliwr Occam, gan ddefnyddio dadleuon a gwahaniaethiadau eglurhaol sy'n seiliedig ar ddarlun Wittgenstein o gaffaeliad iaith. Esbonia §4 sut mae ieithyddiaeth Chomsky yn tramgwyddo'r egwyddor anwirio trwy olrhain yr holl achosion lle mae Chomsky wedi ail-fformiwleiddio'r diffiniad o UG mewn modd *ad hoc* yn wyneb tystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg mewn ieithyddiaeth ac anthropoleg. Mae §5 yn cymhathu'r holl ystyriaethau hyn er mwyn tynnu'r casgliad bod cydnabod statws anwyddonol UG yn diddymu'r prif rwystr rhag derbyn perthynoledd ieithyddol a'r darlun cyfansoddiadol o iaith. Bydd hyn, ynghyd â'r dadleuon cadarnhaol o blaid perthynoledd ieithyddol a ddatblygwyd ym Mhennod 2, yn cyfiawnhau rhoi pwyslais cryfach ar y darlun cyfansoddiadol o iaith [ac, *a fortiori*, perthynoledd ieithyddol] yn y llenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth wleidyddol o ddiwylliant cenedlaethol.

§1. Y Darlun Cyfansoddiadol o Iaith a'i Berthnasedd at Berthynoledd Ieithyddol

Yn ôl y darlun cyfansoddiadol o iaith, mae yna gysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a phrofiad goddrychol yr unigolyn. Yng ngeiriau'r damcaniaethwr hawliau iaith De Schutter: 'language constitutes who I am, that my language and my identity are inextricably intertwined, that I cannot have concepts or views for which I do not have language' (2007: 8). Caiff y darlun hwn ei arddel gan nifer helaeth o ddamcaniaethwyr hawliau iaith rhyddfrydol fel Will Kymlicka (1995), Alan Patten (2014), a Stephen May (2014). Mae pob un ohonynt yn arddel dadleuon o blaid sffêr gyhoeddus amlieithog ar sail hunaniaeth ddiwylliannol; ac mae'r dadleuon hyn wedi'i hysbrydoli i raddau helaeth gan genedlaetholwyr rhyddfrydol a chomiwnitariaid megis Yael Tamir (1995) ac Alasdair Macintyre (1988). Er bod y darlun cyfansoddiadol o iaith yn ganolog i berthynoledd ieithyddol, nid yw'r ddau yn gwbl unfath. Gellir credu, er enghraifft, bod iaith yn ganolog i ddiwylliant am resymau ffilolegol, heb o reidrwydd gredu bod yna anghymesuredd traws-ieithyddol ac amrywiaethau gwybyddol trawsddiwylliannol cyfatebol. Yn wir, prin y sonnir am berthynoledd ieithyddol yn y llenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth ddiwylliannol; ac mae'r enghreifftiau prin sydd yn ei grybwyll fel arfer yn methu ei ddisgrifio na'i gyfiawnhau yn iawn. O ganlyniad i hynny, maent yn colli allan ar gyfle hollbwysig i dynnu sylw at ei lawn berthnasedd, a'r rhesymau dylid ei fabwysiadu er mwyn rhoi seiliau llawer mwy cadarn a fyddai'n dwyn mwy o berswâd i'w gwaith.

O ganlyniad, does dim hanner digon o eglurder ynghylch beth yn union yw natur a chryfder y cysylltiad rhwng iaith a diwylliant; ac mae hyn yn broblem am y rheswm canlynol. Os yw'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant yn gymharol wan, yna nid oes fawr o reswm i'w ddefnyddio fel cyfiawnhad o

blaid sffêr gyhoeddus amlieithog, neu bolisiau iaith cadwraethol. Yn wir, byddai'n anodd gallu dyrchafu iaith ar unrhyw seiliau heb law rhai offerynnol – sef yr hyn a wneir gan bobl fel Barry (2001), Pogge (2003), Laitin & Reich (2003), sy'n arddel sffêr gyhoeddus unieithog tra'n anwybyddu swyddogaethau cyfansoddiadol iaith bron yn gyfan gwbl. O ystyried yr aneglurder ynghylch swyddogaeth gyfansoddiadol iaith, felly, efallai nad yw'n syndod bod damcaniaethwyr megis Rubin (2017) yn dadlau y dylid hepgor dadleuon sy'n seiliedig ar hunaniaeth o blaid dadleuon sy'n pwysleisio'r manteision offerynnol amlieithrwydd.

O ystyried mai Taylor (2016) yw'r prif ddamcaniaethwr sydd wedi mynd i'r afael â swyddogaeth gyfansoddiadol iaith mewn ffordd sy'n galluogi eraill i bontio'r bwlch llenyddol hwn yn well, felly, mae'n briodol dechrau trwy egluro beth, yn union, mae ei amddiffyniad ohono yn cynnwys. Mae Taylor yn fframio'r ddadl yn nhermau deuoliaeth rhwng y darlun cyffredinolaid 'HLC' (ar ôl Hobbes, Locke, Condillac), sy'n honni bod iaith yn ddyfais cwbl offerynnol, a'r darlun 'HHH' (Hamann, Herder, Humboldt), sy'n hawlio bod iaith yn cyfrannu at lunio sawl agwedd ar realiti, megis gwleidyddiaeth, celf, moeseg, athroniaeth, a chymdeithas ei hun.

Nodweddir yr HLC fel theori fframio ('enframing'), lle mae iaith yn cael ei hystyried fel un elfen 'within the framework... of human life, behaviour, purposes, or mental functioning' lle gellir ei 'characterised independently of language' (2016: 3). Mae Taylor yn ei briodoli'n bennaf i Hobbes, Locke, a Condillac, a oedd yn ystyried iaith i fod yn ddyfais offerynnol sy'n ymddatodadwy o realiti, yn hytrach na bod yn rhan ohono. Cofiwch ddarlun Locke (1975 [1689]), o feddwl, er enghraifft, sy'n honni bod pob cyflwr meddwl wedi'i gyfansoddi o 'syniadau', sef delweddau meddyliol sy'n cynrychioli gwrthrychau allanol neu meddyliol. Yn ôl y darlun hwn, does dim cysylltiad angenrheidiol rhwng iaith, meddwl a realiti. Mae meddwl (sy'n digwydd trwy 'syniadau mewnol') yn rhagflaenu iaith, ac mai geiriau yn ddim byd ond dyfeisiau offerynnol sy'n cyfleu eu syniadau cyfatebol.

Mae'r HLC yn anghyson â'r darlun cyfansoddiadol o iaith a pherthynoledd ieithyddol am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, mae'n honni bod ystyr ieithyddol yn fater unigolyddol, lle mae ystyr geiriau'n deillio tarddi o'r syniadau a gafaelyd trwy brofiadau canfod a mewnsyllu pobl, yn hytrach na chonfensiynau ieithyddol allanol sy'n llawn diwylliant. Yn ail, mae'n ensynio nad yw ieithoedd naturiol yn cyflyru nac yn dylanwadu ar gyflyrau meddyliol eu siaradwyr, gan fod syniadau yn rhagflaenu iaith.

Dadleua Taylor: er nad yw'r ddamcaniaeth HLC ar eu ffurf wreiddiol bellach yn cael eu arddel yn echblyg, mae nifer o'i rhagdybiaethau canolog wedi goroesi i mewn i ieithyddiaeth fodern ac athroniaeth ôl-Fregeaidd, megis yng ngweithiau Donald Davidson a Ferdinand de Saussure. Yn wir, cymaint yw gwaddol yr HLC, mae e wedi goroesi i fod yn baradeim dominyddol yn y disgyblaethau hyn. Dyfarniad Taylor yw: er bod yr HLC yn disgrifio ac yn llwyddo dadansoddi un agwedd sylweddol, mae rhydyllu iaith i'w swyddogaeth o gyfleu a phrosesi gwybodaeth yn gamarweiniol ac yn wallus. Oblegid mae'r agwedd hon yn ddim ond un dalaith mewn gwlad llawer mwy (2016: 83). Yn wir, mae tueddiadau naturiolaidd (*naturalistic*)⁷ y damcaniaethau hyn yn gamarweiniol yn eu hymgais i ymestyn y 'paradigm status of science' i feysydd lle nad yw'n gymwys (2016: 83-84). Mewn geiriau eraill, ni ellir rhydyllu swyddogaethau cyfansoddiadol iaith lawr i esboniadau sydd ond yn disgrifiadol a materol.

Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r darlun HHH yn ddamcaniaeth 'gyfansoddiadol' sy'n honni bod iaith yn creu 'new purposes, new levels of behavior, new meanings' nad oes modd eu cyfleu ar wahân i

⁷ Naturoliaeth, yng ngeiriau Taylor, yw'r ymgais i 'model the study of man on the natural sciences' (Taylor 1985: 1).

iaith. Yn hyn o beth, 'it is the antitype of the enframing sort' (2016: 4). Yn ôl y darlun hwn, mae yna gysylltiad annatod rhwng iaith a realiti, ac mae iaith yn cyfrannu at lunio llawer o'r realiti hwnnw. Gan gyfeirio at waith Herder *Treatise on the Origin of Language* (1772), er enghraifft, cymeradwya Taylor y cysyniad bod 'language makes possible a different kind of consciousness' a enwir gan Herder yn 'reflection', neu *Besonnenheit* (2016: 6).

Besonnenheit yw'r nodwedd ieithyddol sy'n ein galluogi i amgyffred pethau fel yr hyn ydyn nhw. Mae'n cynnwys synnwyr o 'gywirdeb' ieithyddol sy'n unigryw i fodau dynol, ac sy'n gwahaniaethu iaith rhag gyfathrebu anifeiliaid. Y syniad yw: er y gall bodau cyn / an-ieithyddol ymateb i bethau o'u cwmpas, ni allant amgyffred pethau *fel yr hyn ydyn nhw* heb iaith. Mae iaith yn galluogi pobl i ddisgrifio, ac mae pob ymadrodd disgrifiadol naill ai'n gywir neu'n anghywir. Mae cywirdeb neu anghywirdeb yn dibynnu ar nodweddion y gwrthrychau a ddisgrifir trwy iaith. Mae'n nodwedd angenrheidiol o iaith ein bod yn 'continuously responsive to rightness, and that is why we always recognize the relevance of a challenge that we have misspoken' (2016:7). Pan mae gair yn addas, mae'n addas 'because of the defined features, else it is not properly a word' (2016: 8). Mewn cyferbyniad, mae anifeiliaid ond yn ymateb i signalau er mwyn cyflawni nodau uniongyrchol, presennol. Yn wahanol i iaith, nid yw hyn yn gofyn am unrhyw sensitifrwydd i'r mater o gywirdeb cynhenid. Mae defnyddio iaith yn gyfystyr â 'operating, as it were, in another dimension', sef y 'semantic dimension' (2016: 11).

Modd arall mae *Besonnenheit*, yn gysylltiedig â realiti yw ei fod yn ein galluogi i ganolbwyntio ar wrthrychau trwy eu cydnabod ag iaith. 'Instead of being overcome by the ocean of sensations as they rush by us, we are able to distinguish one wave, and hold it in clear, calm attention. It is this new space of attention... of focused awareness... which Herder wants to call 'reflection' (2016:12). Mewn geiriau eraill, heb y gallu i ddefnyddio iaith i ddod â ffocws clir i bethau, byddem yn wynebu'r fersiwn weledol sy'n cyfateb â drygsain, yn hytrach na'r realiti trefnus yr ydym yn ei brofi yn ei le.

Dyma'r modd y mae Taylor yn cyflwyno'r darlun cyfansoddiadol o iaith; a thrwy hynny, ceisiai danseilio'r darlun HLC trwy ddangos ei fod yn gamarweiniol o syml. Mae'n werth nodi hefyd bod perthynoledd ieithyddol ymhlŷg yn yr HHH, tra'i fod yn anghyson â'r HLC. Mae hyn yn amlwg o'r ffaith bod iaith, cymdeithas, a phrofiad / meddwl yn cydblethu yn ôl yr HHH, ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae'r HLC, ar y llaw arall, yn anghyson â hyn o ganlyniad i'r cyffredinolrwydd sylfaenol mae'n ei briodoli i iaith a'i pherthynas â meddwl. Nid yw'n syndod, felly, fod llyfr Taylor yn gorffen gyda thrafodaeth o oblygiadau'r HHH ar gyfer perthynoledd ieithyddol.

Fodd bynnag, yn ei drafodaeth o arwyddocâd yr HHH ar gyfer perthynoledd ieithyddol, mae Taylor ond yn egluro pa agweddau o iaith mae perthynoledd ieithyddol yn berthnasol iddynt, yng ngoleuni'r ystyriaethau a nodwyd yng ngweddill y llyfr. Mae'n peri ychydig o syndod, felly, nad yw'n cyfeirio, heb sôn am esbonio, sut buasai ei 'ddisodliad' o'r HLC yn gallu diddymu'r prif rwystr rhag derbyn perthynoledd ieithyddol. Yn hytrach, daw ef i'r casgliad bod perthynoledd ieithyddol yn fwyaf berthnasol at 'issues of human meanings' a 'footings and social structures' (2016: 328), tra'n honni ar yr un pryd ei fod yn amherthnasol tuag at ffyrdd gwahanol o ddefnyddio cysyniadau lliwiau a rhifau (2016 : 322-324).

Fodd bynnag, mae'r dosbarthiad syml hon o ba feysydd mae perthynoledd ieithyddol yn berthnasol iddynt yn far llawer rhy isel, oblegid fel y gwelsom uchod, mae'r HLC yn sylfaenol anghyson â pherthynoledd ieithyddol, tra'i fod ar yr un pryd ymhlŷg yn yr HHH. Yn wir, perthynoledd ieithyddol yw'r mynegiant mwyaf uniongyrchol a soffistigedig o swyddogaeth gyfansoddiadol iaith. O ystyried hyn, byddai wedi bod yn llawer mwy buddiol i Taylor fod wedi dangos sut mae'r HLC a'i amlygiadau modern yn anghynladwy o'r cychwyn cyntaf, a sut mae'r prif wrthwynebiad tuag ato yn

atgyfnerthu'r HHH a, thrwy estyniad, perthynoledd ieithyddol. Dyma, felly, union ddiben y benod hon: darparu'r ddolen gyswllt goll. Gan droi at y mater o ieithyddiaeth Chomskyaid a'i waddol cyfoes, felly, mi welwn sut, yn union, mae'r ddamcaniaeth a'i disgynyddion yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol a'r darlun cyfansoddiadol o iaith.

§2. Ieithyddiaeth Chomsky a'i Elfennau Cyffredinolaid

Gramadeg Cynhenid (UG), yw'r ddamcaniaeth bod yna set unfurf a chynhenid o egwyddorion ieithyddol wedi ymgartrefi yn ymennyddau pob aelod o'r dynol ryw. Rhain yw 'the sum total of all the immutable principles that heredity builds into the language organ. These principles cover grammar, speech sounds, and meaning' (Chomsky 1983), ac fe'u cynhyrchir gan fodiwl ymenyddol (damcaniaethol) o'r enw 'dyfais caffael iaith' (LAD) (Chomsky 1965: 25). Yn wreiddiol, cyflwynwyd UG fel ateb arfaethedig i'r dirgelwch honedig 'problem resymegol caffael iaith', sy'n honni bod angen esboniad ynglŷn â pham bod plant yn gallu cynhyrchu cymaint o frawddegau gramadegol gywir ar sail cyn lleied (mewn ystyr cymharol) o fewnbwn ieithyddol.

Datrysiaid honedig Chomsky yw bod yna 'Ddyfais Caffael iaith' (LAD) ymenyddol sy'n galluogi plant i ddysgu iaith heb fawr o ymwneud â ieithoedd naturiol. Mae ymwneud ond ychydig â iaith naturiol benodol yn galluogi LAD i gydnabod pa iaith ydyw, gosod y paramedrau gramadegol cywir ar ei gyfer (Chomsky 1965), a thrwy hynny galluogi'r plentyn i lunio brawddegau synhwyrol. Mae hyn oherwydd bod gan bawb UG, sy'n set statig o egwyddorion gramadegol sy'n llechu ym mhob ymennydd dynol, cyn hyd yn oed iddo gael ei ddefnyddio neu ei sbarduno.

Ar ôl derbyn y mewnbwn ieithyddol, mae'r LAD yn 'trawsnewid' brawddegau arwynebol ('surface level') yr iaith naturiol mewn i'w strwythur 'sylfaenol' ('underlying') cyfatebol – sy'n gyffredinol ar draws pob defnyddiwr iaith (Chomsky 1957). Mae'r UG yn galluogi pob agwedd arwynebol o ieithoedd naturiol i gael eu trawsnewid mewn i'r 'strwythur dwfn' is-law sy'n cyfateb yn semantig a chystrawennol. '...once you've learned the vocabulary items and fixed the grammatical parameters for English, the whole system is in place. And the general principles genetically programmed into the language organ just churn away to yield all the particular facts about English grammar' (Chomsky 1983).

Gan fod yr holl egwyddorion ieithyddol hyn yn gynhenid ac yn gyffredinol, ac yn gyfrifol am gynhyrchu ein holl alluoedd ieithyddol, maent yn rhagflaenu ieithoedd naturiol o safbwynt esboniadol. Hynny yw, yr egwyddorion cynhenid a chyffredinol ymenyddol hyn sy'n cynhyrchu, penderfynu, ac yn cyfyngu ein holl alluoedd ieithyddol, yn hytrach na'r ieithoedd naturiol eu hunain. O ganlyniad, nid yw gwahaniaethau cysyniadol a gramadegol ar draws iaith naturiol yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar brosesau gwybyddol eu defnyddwyr, gan fod ystyr ieithyddol yn cael ei gynhyrchu gan yr ymennydd, yn hytrach na chan yr e.e. confensiynau cymdeithasol ac arferion diwylliannol cymuned ieithyddol.

Er mai testunau Chomsky (sy'n rhychwantu o'r 1950au hyd heddiw), yw prif ffynhonnell y ddamcaniaeth hon, mae hefyd wedi'i dylanwadu'n drwm ar nifer o ieithyddion, seicolegwyr ac athronwyr, megis Fodor (1975, 1983), Carruthers (2006), Keller & Keller (1996), Carey (2009), Spelke (2003), a Pinker (1994; 2002). Mae Fodor, er enghraifft, yn arddel damcaniaeth ddylanwadol sy'n honni bod pobl yn meddwl trwy gyfrwng 'iaith feddyliol' ('language of thought') (LOT) fewnol o'r enw 'mentalese', sydd eto'n gyffredin i bawb, ac sy'n gweithredu'n annibynnol ar ieithoedd naturiol.

Yn yr un modd â UG, mae LOT hefyd yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol. Fel yr ysgrifenna Steven Pinker yn *The Language Instinct* (1994), mae meddwl, sy'n digwydd trwy LOT, yn annibynnol ar ieithoedd naturiol. Gan fod LOT yn rhagflaeni ieithoedd naturiol, ni all ieithoedd naturiol gyflyru

gwybyddiaeth yn gyson â nodweddion diwylliannol cymuned ieithyddol, gan mai trwy LOT, yn hytrach na'r ieithoedd naturiol eu hunain, mae gwybyddiaeth yn digwydd. Sgîl-effaith berthnasol arall yw: yn ôl LOT, hyd yn oed pe bai yna anghymesuredd sylfaenol ar draws ieithoedd naturiol, ni fyddai gan hyn unrhyw oblygiadau o bwys tuag at y ffyrdd mae'r siaradwyr yn meddwl.

Maes arall sy'n benthyg yn helaeth o ieithyddiaeth Chomsky yw seicoleg esblygiadol, lle mae'r arfer o apelio at alluoedd cynhenid yn rhemp. Cyfeiria Cosmides and Tooby (1992), er enghraifft, at y darlun Fodoraidd er mwyn dadlau bod gan bawb fodiwl ymenyddol 'canfod twyllwr' ('cheater detection module'), sy'n defnyddio algorithm penodol i alluogi pobl i edrych allan am dwyllwyr a'u hadnabod yn eu hamgylcheddau cymdeithasol. Yn ogystal, dadleua Mark Baker (2001) bod plant yn meddu ar set gynhenid o 'osodiadau paramedr' (parameter settings') sy'n eu galluogi i gydnabod pa enghreifftiau o'r ieithoedd o'i hamgylch sy'n cyfateb â'i mamiaith eu hunain, ac o ganlyniad gallant siarad yn gywir. Gweler Hornstein et al. (2018) am enghreifftiau pellach, yn ogystal â throsolwg cynhwysfawr diweddar o waddolion Chomsky mewn ieithyddiaeth fodern.

Mae'n amlwg, o ystyried yr enghreifftiau canlynol, bod y damcaniaethau hyn wedi eu hysbrydoli gan ieithyddiaeth Chomsky. Ystyriwch, er enghraifft, y ddamcaniaeth 'modiwlaraidd' LOT gan Fodor, a fersiwn cryfach Carruthers (2006) ohono, sy'n honni bod y meddwl yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau 'cyfrifiadurol' sy'n cyflawni tasgau penodol (ee prosesu iaith, canfyddiad gweledol, ac ati). Mae'r rhain wedi'u hysbrydoli gan ieithyddiaeth Chomsky yn yr ystyr bod ganddynt sail gynhenid a chyffredinol. Ac yn yr un modd ag y mae ieithyddiaeth Chomsky yn honni bod egwyddorion haniaethol UG yn rhagflaeni ieithoedd naturiol pan mae'n dod at gynhyrchu ein galluoedd ieithyddol, mae damcaniaethau fel LOT yn atodi'r un blaenoriaeth i gynrychioliadau ieithyddol ymenyddol a chyffredinolaidd. Unwaith eto, mae'r rhain yn gweithredu'n annibynnol ar ieithoedd naturiol, i'r gradd nad yw amrywiadau traws-ieithyddol yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar brosesau meddwl y siaradwyr.

Y rheswm dros ganolbwyntio'n bennaf ar ieithyddiaeth Chomsky yn y bennod hon, felly, yw hyn. Bydd taseilio'r ddamcaniaeth hon yn cael effaith cyfatebol ar hygredd y damcaniaethau cynhenid eraill y mae wedi'u hysbrydoli. Oblegid os na all y damcaniaethau hyn gadw eu hygredd heb ymrwymiad sylweddol i agweddau sylfaenol o ieithyddiaeth Chomsky, ac os dangosir bod damcaniaeth Chomsky yn anghynladwy, yna caiff y carped ei dynnu oddi tanynt.

Byddai'n bosib codi'r gwrthwynebiad nad yw'r sylwadau uchod yn dangos bod UG yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol, am y rheswm canlynol. Er bod UG yn taseilio unrhyw awgrym o anghymesuredd ar draws *gramadeg* ieithoedd gwahanol, nid yw hyn profi nad oes anghymesuredd ar draws *geirfaeod* ieithoedd gwahanol. Nid yw UG, ar ei ben ei hun, yn diystyru'r posibilrwydd bod amrywiaeth o anghymesuredd cysyniadol ar draws ieithoedd. O ystyried hyn, felly, gallwn gymryd yn ganiataol, ar yr amod bod amrywiaeth cysyniadol ar draws ieithoedd, bod perthynoledd ieithyddol yn dal i fod yn bosibilrwydd sy'n gyson â ieithyddiaeth Chomsky.

Fodd bynnag, mae yna ddwy reswm dros wrthod gwrthwynebiad o'r fath. Yn gyntaf, mae Chomsky ei hun wedi cyfaddef bod 'the child has a repertoire of concepts as part of its biological endowment and simply has to learn that a particular concept is realized in a particular way in the language' Ar ben hynny, '[w]hen you read the huge Oxford English Dictionary ..., you may think that you are getting the definition of a word but you're not. All you are getting is a few hints and then your innate knowledge is filling in all the details and you end up knowing what the word means' (Chomsky 2000, a ddyfynnir hefyd yn Moyal-Sharrock 2017).

Mae'n ymddangos felly bod UG Chomsky hefyd yn cwmpasu geirfaeod: mae'n awgrymu nad oes unrhyw anghymesuredd cysyniadol yn ogystal â gramadegol ar draws ieithoedd naturiol, gan fod y cysyniadau hynny yn 'gynhenid', ac yn rhan o'n 'gwneuthuriad biolegol'. Yr ail reswm bod UG yn anghyson â pherthynoledd ieithyddol yw hyn. Os gall egwyddorion gramadegol fodoli'n annibynnol o ddefnydd a chymhwysiad, yna rhaid nad oes cysylltiad angenrheidiol rhwng iaith, profiad a realiti -

gan y gallai elfen ganolog o iaith - gramadeg - fodoli'n annibynnol ar brofiad a realiti. Mae hyn yn anghyson â'r darlun cyfansoddiadol o iaith, sy'n gwadu'r fath bosibilrwydd; ac mae gwirionedd y darlun cyfansoddiadol yn amod angenrheidiol o berthynoledd ieithyddol.

§3. Eilliwr Occam

Mae'n amlwg, felly, bod ieithyddiaeth Chomsky a'i ddisgynyddion yn ymhygu cyffredinoliaeth ieithyddol sy'n sylfaenol anghyson â pherthynoledd ieithyddol a'r farn gyfansoddiadol ar iaith. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystr hwn, trown yn awr at berthnasedd Eilliwr Occam i ieithyddiaeth Chomsky. Byddaf yn dadlau yn yr hyn sy'n dilyn, *pace* Daniele Moyal Sharrock (2017), bod ystyriaeth o ddarlun Wittgenstein o gaffaeliad iaith yn datgelu nad yw gramadeg yn cael ei gynhyrchu gan yr ymennydd, ond yn hytrach gan gonfensiynau cymdeithasol cymuned ieithyddol. Ymhellach, mae'r dehongliad ehangach Wittgensteinaidd hyn o iaith yn datgelu nad yw'r dirgelwch honedig o 'poverty of the stimulus' yn bodoli yn y lle cyntaf. *A fortiori*, dadleuaf ymhellach bod ymddatodiad o'r dirgelwch hwn yn dangos nad oes angen UG; ac o ganlyniad, gwelir ei fod yn tynnu'n groes i Eilliwr Occam.

Mae yna ddwy ran i feirniadaeth Moyal-Sharrock o UG. Y pwynt cyntaf i'w nodi yw nad yw'n wir bod plant yn datblygu'r gallu i ffurfio brawddegau sy'n ramadegol gywir ar sail data ieithyddol cyfyngedig. Mae'n ysgrifennu: 'There is hardly a day when I don't hear some of the errors made in the following sentence: 'I'm feeling more better than I done yesterday though I'm not my bestest; but still, I should of went to the gym!'' (2017: 11). Pe bai'n wir bod yr LAD yn gallu adnabod yr iaith berthnasol, gosod y paramedrau cywir ar ei chyfer, a thrwy hynny galluogi pobl i ffurfio brawddegau gramadegol gywir, yna pam bod cymaint o blant ac oedolion yn methu siarad yn ramadegol gywir? 'Such errors are much too frequent and consistent to be dismissed as slips of the tongue' (2017:11).

Ail ddadl Moyal-Sharrock yw nad oes angen UG ar gyfer egluro caffael iaith yn y lle cyntaf. Ar y darlun Wittgensteinaidd, nid set o egwyddorion haniaethol cyffredinol yn ymennyddau pobl yw gramadeg. Yn hytrach, cyfanswm y 'rules or bounds of sense that determine, and are embedded in, our use of language as a result of the evolution of languages in the various cultures of human life.' (2017: 23) yw e. Dyw'r rheolau hyn 'do not pre-exist language but are inextricably bound up with its practice' (ibid.) Unwaith y sylweddolir bod gramadeg wedi'i seilio ar gonfensiynau cymdeithasol ac ymddygiadol, ac mai rhain sy'n creu ystyr ieithyddol, gallwn weld nad oes gobaith caneri i'r ragdybiaeth bod y data ieithyddol sydd ar gael i blant yn gyfyngedig o gwbl.

Yng ngeiriau Moyal-Sharrock: 'contra Chomsky, first-language acquisition is essentially social; it requires that at least one member of the linguistic community mould the child's primitive reactions [...], bringing the child, through a process of enculturation, to assimilate, conform to and apply the standards of correctness of its linguistic community.' (2017: 21). Mae gramadeg yn ddim byd mwy cymhleth na 'rules for the use of words [...] exhibited in human discourse, in explanations of meaning, in corrections of errors, in what counts as accepted usage' (Hacker 2010: 29, dyfynnir hefyd yn Moyal-Sharrock 2017: 24).

Nid geiriau ar eu pennau eu hunain yw iaith; mae iaith hefyd yn fater o gonfensiynau diwylliannol cymuned ieithyddol rhywun. Yn ôl y darlun Wittgensteinaidd o gaffaeliad iaith, nid yw iaith yn gyfyngedig i eiriau neu symbolau; yn hytrach, mae hefyd yn cynnwys ystumiau, ymatebion, greddfau, a phatrymau ymddygiadol. Mae ieithoedd naturiol yn tarddu yn bennaf o arferion cyntefig a greddfol cyn-ieithyddol neu proto-ieithyddol, megis crio mewn ymateb i boen, chwerthin mewn ymateb i ddifyrrwch, ac ati (Wittgenstein 1993). Mae ieithoedd naturiol yn datblygu'n uniongyrchol o batrymau ymddygiad, ac maent i bob pwrpas yn gyfystyr ag addasiadau i'r fath ymddygiad, e.e. datblygu o grio i fynegi poen i'w fynegi â geiriau (1953: 244). Daw'r addasiad hwn i fod trwy broses o hyfforddi, lle mae gofawyr plant yn dysgu ac yn atgyfnerthu'r gwelliannau ymddygiadol trwy e.e.

wobrwyo a chosbi (Wittgenstein 1969: 77). Atgyfnerthir y darlun synnwyr cyffredin hwn ymhellach gan y damcaniaethau rhyngweithiol (Moerk 1994) a dysgu ystadegol (Bishop 2014; Dye 2010; Perruchet 2019) o gaffaeliad iaith sy'n ddylanwadol mewn ieithyddiaeth arbrofol.

Dyma'r modd y mae UG yn tramgwyddo Eilliwr Occam: unwaith y sylweddolir nad yw mewnbyn ieithyddol plant yn gyfyngedig i eiriau, ond ei fod hefyd yn cynnwys ymddygiad a chyfarwyddyd rhyngberonol, nid oes y fath ddirgelwch â 'poverty of the stimulus' yn codi yn y lle cyntaf. Oblegid mae'r data ieithyddol mae plant yn cymryd mewn yn llawer mwy amrywiol ac eang na mae Chomsky yn rhagdybio. Yn hynny o beth, mae UG yn endid di-angen yn yr ystyr nad oes ei angen er mwyn egluro gallu ieithyddol plant: mae'r data ieithyddol mae babanod a phlant yn ei gymryd mewn yn llawer mwy cyfoethog unwaith y defnyddir darlun Wittgenstein o iaith a gramadeg. O ganlyniad, mae'n amlwg nad yw'r fath fwch yn bodoli rhwng mewnbyn ieithyddol plant a'r nifer helaeth o frawddegau maent yn mynd ymlaen i allu eu cynhyrchu; ac felly nid oes angen UG i esbonio'r sefyllfa yn hyn o beth.

Er nad yw Moyal-Sharrock yn fframio'i dadl yn nhermau tramgwyddo Eilliwr Occam, mae ei phapur yn cynnwys digon o dystiolaeth a dadleuon i gyfiawnhau'r gwrthwynebiad hwn. Yn ôl eilliwr Occam, ni ddylai esboniadau fyth luosogi cymhlethdod nac endidau y tu hwnt i'r lleiafswm sydd ei angen; ond fel y dengys papur Moyal-Sharrock, mae ieithyddiaeth Chomsky yn gwneud y ddau. Ac yn bennaf oll, caiff UG ei gyflwyno fel esboniad gwyddonol, ond gan ei fod yn tramgwyddo eilliwr Occam – sydd yn egwyddor ganolog yn y dull gwyddonol - ni allai barhau i gadw ei statws gwyddonol honedig.

Byddai'n bosib gwrthwynebu nad oes rheswm amlwg i flaenoriaethu damcaniaeth Wittgenstein o gaffaeliad iaith dros ddamcaniaeth cyfatebol Chomsky. Ar un olwg, os yw darlun Wittgenstein yn wir, yna byddai hyn ynddo'i hunan yn dangos bod damcaniaeth Chomsky wedi'i adeiladu ar broblem rhithiol a'i fod yn tramgwyddo Eilliwr Occam o ganlyniad. Ond pam credu bod darlun Wittgenstein yn wir tra bod ieithyddiaeth Chomskyaid yn ffals? Yn wir, os yw damcaniaeth Chomsky yn wir, yna mae'n siŵr ei fod yn tansilio darlun Wittgenstein trwy ddangos nad yw iaith yn gymdeithasol yn ei hanfod; nac yn cynnwys nodweddiad ychwanegol fel ymddygiad, ystumiau, a greddfau, fel y mae Wittgenstein (1953, 1970, 1993) yn honni. Yn wir, byddai cynnwys yr endidau ychwanegol hyn yn dangos mai darlun Wittgenstein, yn hytrach na darlun Chomsky, sy'n tramgwyddo Eilliwr Occam.

I ateb y gwrthwynebiad hwn, rhaid dwyn i gof y damcaniaethau 'rhyngweithiol' a 'dysgu ystadegol' o gaffaeliad iaith y soniwyd amdanynt uchod, a'r gwrthwynebiadau *a priori* i ddamcaniaethau mewnol o ystyr ieithyddol a geir yn *Ymchwiliadau Athronyddol* Wittgenstein (1953: §§244–271) a archwiliwyd ym Mhenod 2. Dengys y dadleuon hyn bod y syniad bod 'syniadau' mewnol neu gynrychioliadau tebyg i iaith (gan gynnwys egwyddorion gramadegol haniaethol fel rhai UG) rywsut yn *ddigonol* ar gyfer dealltwriaeth ieithyddol yn trechu ei hun o safbwynt rhesymegol. Ymhellach, yn ogystal â chael ei danseilio o safbwynt *a priori*, mae damcaniaeth Chomsky - fel y gwelwn yn yr adran ganlynol - wedi'i anwrio gan astudiaethau empiraidd fel rhai Daniel Everett (2005, 2008) sydd ar yr un pryd yn cadarnhau'r darlun Wittgensteinaidd ymhellach. Yn yr hyn sy'n dilyn, daw'n fwyfwy amlwg mai darlun Wittgensteinaidd yw'r un y mae'r dystiolaeth yn drwm o'i blaid, tra bod yr un dystiolaeth yn ategu ymhellach anwiredd a statws anwyddonol damcaniaeth Chomsky.

§4. Yr Egwyddor Anwrio

Yn ei 'Cultural Constraints on Grammar and Cognition in Pirahã' (2005), cadarnhaodd Daniel Everett bod yna eithriad i'r egwyddor UG 'allan yn y gwyllt' fel petai. Fel yr esboniwyd yn barod, datgelodd ymchwil Everett ynglŷn â'r llwyth helwyr-gasglwyr Amazonaidd, y Pirahã, fod diffyg atgynhyrchu yn yr iaith Pirahã; h.y. y swyddogaeth ramadegol lle gellir ailgylchu strwythurau ieithyddol syml (e.e. 'dŵr yw H2O') mewn i frawddegau mwy cymhleth (e.e. 'nid pawb sy'n credu mai dŵr yw H2O').

Mae'r ffaith bod diffyg gallu i atgynhyrchu yn yr iaith Pirahã yn arwyddocaol tu hwnt, oherwydd yn ôl Chomsky, mae UG i fod i gynhyrchu gallu *cyffredinol* i atgynhyrchu mewn ieithoedd naturiol heb os nac oni bai. Hawlia Hauser, Chomsky & Fitch (2002), er enghraifft, bod atgynhyrchu 'is recently evolved and unique to our species' (2002: 1573) a bod UG, neu'r 'Gyfadran Iaith Gul' (Narrow Langugae Faculty (FLN)) – sef yr hyn maent yn galw UG yn y papur hwn – yn cynnwys atgynhyrchu *fel ei unig nodwedd sylfaenol*. 'At a minimum, then, FLN includes the capacity of recursion' (2002: 1571). Yn ôl Chomsky, y swyddogaeth atgynhyrchu yw *sine qua non* yr UG, sydd ei hun i fod i egluro'r gallu ieithyddol dynol. Felly pe bai UG yn wir, yna byddai'n rhaid i bob iaith naturiol gynnwys atgynhyrchu fel un o'u swyddogaethau gramadegol mwyaf sylfaenol.

Ond fel mae'n digwydd, mae ymchwil Everett yn datgelu bod eithriad iddo yn yr iaith Pirahã; ac yn wir, cofnodwyd eithriadau eraill hefyd, megis yn iaith latmul (Foley 1986), yn ogystal â'r iaith Wari (Everett & Kern 1997). Mae'r eithriadau hyn yn gwrthbrofi UG yn llwyr. Oblegid dim ond un gwrth- enghraifft sydd angen i anwirio damcaniaeth sy'n hawlio bod yn gyffredinol; ac mae gwaith Everett yn darparu'r gwrth- enghraifft hwnnw. Fel y dywed Everett, mae UG, sy'n cynnwys atgynhyrchu fel un o'i nodweddai sylfaenol, 'is either falsified or it has no empirical content' (Everett 2016).

Rydym eisoes wedi gweld yn §3 bod UG yn tramgwyddo Eilliwr Occam gan fod ystyriaeth o ddarlun Wittgenstein o gaffaeliad iaith yn diddymu'r 'dirgelwch' y mae UG i fod i fod yn ddatrysiaid iddo trwy ddangos nad oes y fath 'poverty of the stimulus' yn bodoli yn y lle cyntaf. Unwaith y sylweddolir hyn, gellir gweld nad yw UG yn gwneud unrhyw waith esboniadol. Ar ben hynny, mae gwaith empiraidd Everett yn cynnig ffordd arall y dylai UG 'should be excised by Occam's Razor' (Everett 2016): pwysleisir ei natur ddiangen gan y ffaith ei fod yn methu ag egluro'r ffenomen darged. Hynny yw: os yw UG - gyda'i nodwedd ganolog o atgynhyrchu - i fod i egluro hollbresenoldeb atgynhyrchu ar draws ieithoedd, yna beth sy'n esbonio bodolaeth ieithoedd sydd heb y swyddogaeth ramadegol hon?

Yn ogystal â hyn, mae ymchwil Everett yn dangos bod amddiffyniad Chomsky o UG hefyd yn tramgwyddo maen prawf arall sy'n ganolog i'r dull gwyddonol: yr egwyddor anwirio. Mynegwyd y maen prawf hwn a'i bwysigrwydd i'r dull gwyddonol gan Karl Popper (1959), a wahaniaethodd rhwng ei ffurf resymegol, a'i fethodoleg gymhwysol (*applied methodology*). Y ffurf resymegol yw'r gofyniad sylfaenol 'it must be possible for an empirical scientific system to be refuted by experience' (1959:19). Rhaid pwysleisio, fodd bynnag mai nid y fersiwn hon o'r egwyddor anwirio mae UG yn ei thorri, wrth gwrs. Oblegid, fel y dangoswyd uchod - mae ymchwil Everett (2005, 2008) wedi anwirio UG; ac felly byddai'n rhyfedd honni bod UG yn methu cael ei anwirio pan mae ymchwil Everett *wedi* ei anwirio'n barod.

Y math o egwyddor anwirio mae UG yn ei dramgwyddo, yn hytrach, yw'r egwyddor anwirio *methodolegol*; h.y. methodoleg gymhwysol yr egwyddor anwirio. Yn ôl fersiwn fethodolegol yr egwyddor, mae'n rhaid i wyddonwyr ddylunio arbrofion sy'n ceisio anwirio eu damcaniaeth, a mynd ati i chwilio am dystiolaeth a fyddai'n ei wrth-brofi, yn hytrach na chasglu a dethol dystiolaeth sydd dim ond yn ei gadarnhau. Mae manteision epistemaidd y dull hwn yn amlwg: os yw'r ddamcaniaeth yn llwyddo i wrthsefyll ymdrechion parhaus i'w gwrthbrofi, yna bydd y tebygolrwydd ei fod yn wir - neu gradd yr hyder y gellir credu'n rhesymol ei fod yn wir - yn cynyddu o ganlyniad.

Cydymffurfio â'r egwyddor hon yw un o'r prif ffyrdd o wahaniaethu rhwng gwyddoniaeth a ffugwyddoniaeth (pseudoscience). Nodweddir yr olaf o'r rhain gan e.e. chwilota am dystiolaeth gadarnhaol yn unig, a thrwy hynny gynrychioli realiti mewn modd gamarweiniol er mwyn cyd-fynd â'r ddamcaniaeth. Ymhlith y rhain ceir seicoleg Freudaid (Popper 1962: 37) a Marcisiaeth (ibid.) sydd yn 'elastic enough [...] to evade any further attack' (1962: 449) oherwydd eu diffyg manylder. Fel arfer, aiff hyn hefyd law-yn-llaw â mowldio'r ddamcaniaeth mewn modd *ad hoc* er mwyn gwneud lle – *post hoc* – i dystiolaeth a fyddai fel arall yn anghyson; a thrwy hynny maent yn 'refusing to acknowledge any falsifying experience whatsoever' (Popper 1959: 19). Yn ôl Popper, y 'readiness to

look for tests and refutations', yw'r hyn sy'n gwahaniaethu rhwng "'empirical" science from non-science, and especially from pre-scientific myths and metaphysics' (Popper 1974: 980-981).

Yn yr ail fodd methodolegol hyn y mae gwaith Chomsky ar UG yn tramgwyddo'r egwyddor anwirio - fel y gallwn weld o'r enghreifftiau canlynol. Yn 1983, diffiniad Chomsky o UG oedd: 'the sum total of all the immutable principles that heredity builds into the language organ. These principles cover grammar, speech sounds, and meaning' (Chomsky 1983). Erbyn 2002, roedd y diffiniad wedi newid yn sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o'r egwyddorion a'r syniadau cynharach a welwyd yn *Aspects of the Theory of Syntax* (1965) wedi'i hepgor. Yn wir, roedd UG bellach wedi cael ei rydyllu lawr i'r FLN (y 'Narrow Language Faculty') sydd yn gyfystyr â'r swyddogaeth atgynhyrchu, a dim byd arall (Hauser, Chomsky & Fitch 2002).

Ymhellach, erbyn 2005, ar ôl i Everette gyflwyno'r gwrth-enghraifft o lwyth y Pirahã roedd Chomsky wedi penderfynu *nad* oes rhaid i'r swyddogaeth atgynhyrchu fod yn bresennol mewn iaith bellach. Yn hytrach na hynny, y gallu i feddwl mewn modd atgynhyrchiol, yn hytrach na'r gallu ieithyddol i wneud hynny, oedd y maen prawf: 'it [Pirahã] surely does not affect the argument that recursion is part of the human language faculty: [...] our language faculty provides us with a toolkit for building languages, but not all languages use all the tools' (Fitch, Hauser & Chomsky 2005: 203-204). Mae hyn er gwaetha'r ffaith mai atgynhyrchu yw unig nodwedd sylfaenol gallu ieithyddol y dynol ryw, yn ôl diffiniadau Chomsky.

Ond mae'r ailddiffinio hyn yn *ad hoc*, a dweud y lleiaf. Yng ngeiriau'r ieithydd Arika Okrent: 'If you claim that recursion is the essential feature of language, and if the existence of a recursionless language does not debunk your claim, then what could possibly invalidate it?' (Okrent 2017). Ar ben hynny, tynna Everett sylw at y ffaith bod cyfaddefiad Chomsky nad yw'r swyddogaeth atgynhyrchu yn bresennol ym mhob iaith, er ei fod i fod i egluro eu bodolaeth, yn dangos nad oes unrhyw 'empirical connection any more to linguistic data if this "recursion is a state of mind" view is adopted' (Everett 2016).

Mae'r newidiad hyn i'r ddamcaniaeth UG hefyd yn mynd yn groes i'r hyn a fynnodd Chomsky yn flaenorol (e.e. 1963), sef y byddai gwrth-enghraifftiau empirig yn gallu anwireddu UG. Ysgrifenna Everett, er enghraifft: 'In Chomsky's earlier writings, he claimed that if two grammars produce the same surface strings (weak generative capacity [i.e. set of all strings generated by a given grammar]), we can still test them by examining the predictions of structures they predict for the strings (strong generative capacity [i.e. the 'structural descriptions' generated by the grammar])' (Everett 2016).

Felly mae'n amlwg bod y meini prawf wedi'u symud ar sawl achlysur yn natblygiad / mowldio Chomsky o'i ddamcaniaeth UG. Mae cymhwysiad methodolegol yr egwyddor anwirio yn ei gwneud hi'n glir na ellir mowldio'r diffiniad o'r theori neu'r ffenomen darged mewn modd *ad hoc* yn wyneb tystiolaeth annisgwyl, gan ddal i gadw ei statws gwyddonol. Ond dyma'n union y mae ail-ddiffiniadau Chomsky o UG wedi'u gwneud. Er enghraifft, cyn gynted ag ymddangosodd y gwrth-enghraifft o'r llwyth Pirahã, daeth UG i olygu y gallu i feddwl mewn modd atgynhyrchiol, yn hytrach na'r gallu ieithyddol i wneud hynny. Os nad yw'r ail-ddiffiniad hwn yn *ad hoc*, mae'n anodd gwybod beth sydd yn.

Mae'r egwyddor o anwirio methodolegol hefyd yn hawlio bod rhaid bod yn atebol ac agored tuag at ymdrechion i'w wrthbrofi. Ond mae'n amlwg o'r achos canlynol nad yw Chomsky wedi dangos unrhyw duedd o'r fath. Yn hytrach na chydabod bod tystiolaeth Everett yn her enbyd i hygrededd UG, mae Chomsky wedi newid y diffiniad o UG, yn ogystal â lansio ymosodiadau *ad hominem* ar Everette, gan ei alw yn 'an irrelevant, mistaken charlatan', er enghraifft (Chomsky 2009, dyfynnwyd hefyd yn Everett 2017). Mae'r enghreifftiau hyn yn gwbl groes i'r egwyddor anwirio methodolegol: ail-fformiwleiddiadau *ad hoc* o'r ddamcaniaeth ydynt sy'n dod i'r arwyneb yng ngoleuni tystiolaeth anghyson, er mwyn osgoi'r gwrth-enghraifftiau a'r heriau i hygrededd UG.

Mae'r un dystiolaeth sy'n anwirio ac yn tansilio statws gwyddonol ieithyddiaeth Chomsky hefyd yn amlygu gwirionedd y darlun Wittgensteinaidd. Mae'r ymchwil a wnaethpwyd ar lwyth y Pirahã, er enghraifft, yn dangos bod agwedd diwylliannol 'yn y foment' y Pirahã yn golygu nad oes unrhyw *ddefnydd* i'r gallu i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol pell; a dyma'r hyn sy'n esbonio ei absenoldeb o'u hiaith. Mae'r un peth yn wir am absenoldeb rhifau cardinal a threfnol, a thermâu penodol ar gyfer lliwiau yn eu hiaith (Everett 2007). Dengys rhain - ymhlith enghreifftiau eraill - nad oes defnydd ar gyfer cysyniadau o'r fath yn niwylliant Pirahã, ac o ganlyniad, dydyn nhw ddim yn cael eu hadlewyrchu yn eu hiaith. Mae hyn yn atgyfnerthu'r darlun Wittgensteinaidd bod iaith yn ffenomen gymdeithasol ac yn ddibynnu ar ddefnydd: mae'n tarddu o ac yn cael ei rheoleiddio gan gonfensiynau cymdeithasol a diwylliannol ei siaradwyr.

Mae'r damcaniaethau 'rhyngweithiol' a 'dysgu ystadegol' o gaffaeliad iaith sy'n tansilio UG hefyd yn atgyfnerthu'r darlun Wittgensteinaidd. Mae'r safbwynt dysgu ystadegol, sy'n hawlio bod blant yn mewnnoli ac yn systemateiddio iaith ar sail patrymau tebygolrwydd dosbarthiad geiriau yn eu hamgylchedd (Perruchet 2019), yn dangos bod ystyr ieithyddol yn sylfaenol gymdeithasol gan ei fod yn seiliedig ar gonfensiynau a rheoleidd-dra cymdeithasol. Ar ben hynny, mae'r farn ryngweithiol, sy'n hawlio bod plant yn dysgu iaith ar sail adborth cywirol a chyfathrebu helaeth â'u prif ofalwyr, yn dangos cyd-ddibyniaeth iaith ac ymddygiad a chonfensiynau cymdeithasol a rhyngbersonol.

Yn olaf oll, mae'n werth gofyn: a yw darlun Wittgenstein yn tramgwyddo'r egwyddor anwirio? Cyn ateb y cwestiwn hwn, mae'n werth cofio na chyflwynwyd darlun Wittgenstein o gaffaeliad iaith fel damcaniaeth wyddonol, ond yn hytrach fel nodyn atgoffa synnwyr cyffredin o sut mae ieithoedd a chaffaeliad iaith yn gweithio (Wittgenstein 1953: §127). Yn hynny o beth, gellir tybio bod y darlun Wittgensteinaidd wedi'i heithrio rhag bod yn atebol i ofynion yr egwyddor anwirio, o ystyried nad yw'n honni bod yn wyddonol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, gan ei fod yn cynnwys honiadau cadarnhaol am natur a gweithrediad iaith, rhaid cydnabod ei fod yn gofyn am ymdriniaeth craff serch hynny. Mae hyn oherwydd (1) ei fod yn cael ei drafod yng nghyd-destun tystiolaeth wyddonol; a (2) mae manteision epistemig yr egwyddor anwirio yr un mor berthnasol fan hyn: mae bod yn atebol i a gallu gwrthsefyll ymdrechion i wrthbrofi damcaniaeth yn cryfhau ei hygredded, hyd yn oed os nad yw'n cael ei chyflwyno fel un gwyddonol.

Gan ddechrau gydag ystyr lythrennol gyntaf yr egwyddor anwirio: mae'n amlwg bod darlun Wittgenstein yn gyson â'r maen prawf hwn, gan ei fod yn bosib i'w anwirio mewn egwyddor. Pe dangosid, er enghraifft, bod plant yn gallu dysgu eu hiaith gyntaf heb gael eu trwytho mewn confensiynau cymdeithasol ac ymddygiadol y mae ieithoedd yn deillio o'u hystyron, yna byddai darlun Wittgenstein o gaffaeliad iaith ac ystyr ieithyddol yn cael ei anwirio. O ran yr ail synnwyr methodolegol o'r egwyddor anwirio, nid oes unrhyw arwydd ei fod yn mynd yn groes i hyn chwaith. Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth berthnasol hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol tra dangoswyd bod hygredded y damcaniaethau cyffredinolaid a fyddai *wedi* gallu ei danseilio wedi'u tansilio. Yn ail, mae'r darlun wedi aros yr un fath ers iddo gael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn y *Philosophical Investigations* (1953): yn ofer y ffeindiwch unrhyw ymdrechion i'w ail-ddiffinio mewn modd *ad hoc* mewn ymateb i dystiolaeth annisgwyl.

§5. Casgliad: Goblygiadau ar gyfer Perthynoledd Ieithyddol a'r Darlun Cyfansoddiadol o Iaith

Gellir gweld, felly, fod damcaniaeth Chomsky o UG yn tramgwyddo Eilliwr Occam a meini prawf methodolegol yr egwyddor anwirio. Mae'r dystiolaeth o ieithyddiaeth ac anthropoleg, ynghyd â'r darlun Wittgensteinaidd o gaffaeliad iaith, ar y cyd yn sefydlu'r ddau gasgliad canlynol. Yn gyntaf, mae cyfoeth y data ieithyddol mae plant mewn gwirionedd yn cael eu trwytho ynddo wrth ddysgu eu hiaith gyntaf yn dangos nad oes unrhyw ddirgelwch i'w egluro yn y lle cyntaf; o ganlyniad mae UG

yn endid di-angen sy'n tramgwyddo Eilliwr Occam. Yn ail, mae darganfyddiad ieithoedd fel Pirahã, sydd heb y swyddogaeth atgynhyrchu, yn anwirio UG (a oedd un darogan y byddai pob iaith yn cynnwys atgynhyrchu fel nodwedd ganolog); ac ar ben hynny, mae'r ffaith bod Chomsky wedi ceisio ail-ddiffinio ei ddamcaniaeth mewn modd *ad hoc* yn mynd yn groes i gymhwysiad methodolegol yr egwyddor anwirio.

Nawr bod y prif rwystr rhag derbyn perthynoledd ieithyddol wedi'i ddiddymu, mae'n briodol troi at y cwestiwn o beth, yn union, yw goblygiadau hyn at y darlun cyfansoddiadol o iaith, a'i le yn y corff ehangach o lenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth wleidyddol o ddiwylliannau cenedlaethol. Fel y gwelsom, nid yw gwaith Taylor *The Language Animal* (2016) - yr unig waith lled-gyfoes sy'n rhychwantu'r rhyngwyneb rhwng yr olwg gyfansoddiadol ar iaith a damcaniaeth wleidyddol – yn fframio'r achos o blaid y darlun cyfansoddiadol yn nhermau perthynoledd ieithyddol. Yn hytrach, mae'n cyfleu rhai o'r ffyrdd mae iaith yn cyfrannu at realiti. Byddwn hefyd yn gweld ym Mhennod 4 bod damcaniaethwyr hawliau iaith fel Kymlicka (1995), Patten (2014, 2019), a May (2014) sy'n hyrwyddo dadleuon am sffêr cyhoeddus amlieithog ar sail hunaniaeth yn tueddi arddel y darlun cyfansoddiadol o iaith heb ddarparu unrhyw gyfiawnhad drosto. Yn yr un modd, nid yw cenedlaetholwyr rhyddfrydol fel Miller (1995) a Tamir (1995) – lle mae eu gweithiau yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r llenyddiaeth cyfiawnder ieithyddol - yn esbonio'r berthynas rhwng iaith, diwylliant, a'u swyddogaethau cyfansoddiadol mewn unrhyw fanylder chwaith.

Fy nadl i yw bod fframio'r darlun cyfansoddiadol o iaith yn nhermau perthynoledd ieithyddol yn fanteisiol ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder a hygrededd digonol yn y llenyddiaeth ar gydnabyddiaeth wleidyddol hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol. Y rheswm am hyn yw mai perthynoledd ieithyddol yw'r mynegiant mwyaf uniongyrchol ac ymchwiliedig o'r farn gyfansoddiadol o iaith. Nid yn unig yw perthynoledd ieithyddol yn rhan ganolog o weithiau sylfaenol Herder mewn ysgolheictod cenedlaetholgar (ac felly'n parhau i fod yn berthnasol i'w dylanwad a'u gwaddol yn y maes); dyma hefyd yw'r unig fframwaith eglur, ac sy'n bosib ei brofi'n empirig. O ganlyniad, mae'n bosib manteisio ar y cyfoeth o ddata arbrofol sydd wedi cynyddu yn ystod y ddau ddegawd diwethaf; tra na ellir gwneud yr un peth gyda'r darlun cyfansoddiadol o iaith.

Yn wir, heb yr eglurder a'r dystiolaeth mae perthynoledd ieithyddol yn darparu mewn perthynas â natur a chryfder swyddogaeth gyfansoddiadol iaith, ymddengys nad oes llawer o reswm i'w ddefnyddio fel sail i gyfiawnhau polisiâu amlieithog ar sail hunaniaeth. Fel y gwelsom ym Mhennod 1, mae absenoldeb y cydnabyddiaeth o berthynoledd ieithyddol o'r llenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth wleidyddol diwylliannau cenedlaethol yn gadael y llenyddiaeth hwnnw'n agored i linydd o wrthddadleuon diweddar. Ymhlith y rhain ceir y cyhuddiad o 'essentialeiddio' diwylliant cenedlaethol (Patten 2011, 2014), a blaenoriaethu diwylliannau cenedlaethol dros ddiwylliannau eraill mewn modd anghyfiawn (Perry 2014), a diffyg (*deficit*) democrataidd (Gerson & Rubin 2015). Mae dadl y bennod hon yn erbyn ieithyddiaeth Chomsky a'i disgynddion yn clirio'r ffordd i fynd i'r afael â'r gwrthwynebiadau hyn yn y bennod ganlynol, ac yn caniatáu i'r llenyddiaeth sy'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant gael ei roi ar sylfeini mwy cadarn.

Pennod 4: Ail-fframio'r Disgwrs Cyfiawnder Ieithyddol yng ngoleuni Perthynoledd Ieithyddol

Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth diweddar ar hawliau iaith wedi ymddangos o fewn y traddodiad rhyddfrydol sy'n seiliedig ar hawliau (Schmidt 2014). Mae ei brif ffocws yn ymwneud â hawliau siaradwyr ieithoedd leiafrifol vis-à-vis siaradwyr ieithoedd mwyafrifol, lle mae'r gwahaniaeth rhwng lleiafrifol a mwyafrifol yn cyfeirio nid yn unig at niferoedd, ond hefyd at wahaniaethau mewn statws, bri, dylanwad, a phŵer (May 2018). Mae'r broses 'lleiafrifoli' (*minoritization*) ieithoedd fel arfer yn gysylltiedig â hanesion ehangach o goncwest a gwladychiaeth, yn ogystal â pholisïau homogeneiddio ieithyddol sydd wedi bod yn nodweddiadol o brosesau adeiladu cenedl y canrifoedd diwethaf (Kymlicka 2001; May 2016). Mae'r maes hawliau iaith, felly, yn ymateb uniongyrchol i'r prosesau hyn sy'n achosi dadfeiliad ieithoedd sy'n arwain at 'hierarchies of prestige', fel y mae Liddicoat (2013) yn ei roi.

Fel y gwelwch ym Mhennod 1, mae'r damcaniaethwyr sy'n amddiffyn hawliau ieithoedd lleiafrifol trwy ddadleuon o blaid *sfêr* gyhoeddus amlieithog yn gwneud hynny i raddau helaeth ar sail y cysylltiad rhwng iaith grŵp lleiafrifol a'i hunaniaeth ddiwylliannol cyfatebol. Maent yn dadlau y dylid caniatáu e.e. triniaeth gyfartal gan sefydliadau cyhoeddus neu statws swyddogol i ieithoedd lleiafrifol ar sail eu cyfraniad anhepgor at egwyddorion rhyddfrydol fel rhyddid a dewis personol. Caiff y dadleuon hyn, yn eu tro, eu gyrru gan ymrwymiad sylfaenol i'r farn gyfansoddiadol o iaith, sy'n hawlio bod 'language constitutes who I am, that my language and my identity are inextricably intertwined' (De Schutter 2007: 8). Y syniad yw bod cysylltiad annatod rhwng ieithoedd a hunaniaethau personol eu siaradwyr, ac felly mae methu â rhoi cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r ieithoedd lleiafrifol yn tueddu tanseilio urddas, hunan-barch neu ryddid y siaradwyr.

Caiff dadleuon fel y rhain eu sbarduno gan eu rhagflaenwyr damcaniaethol: y mathau o genedlaetholdeb rhyddfrydol; ac yn benodol, eu syniad o ddiwylliant cenedlaethol. Yn ei wahanol ffurfiau, mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn honni bod diwylliant cenedlaethol (sydd wedi'i ddiffinio'n rhannol yn nhermau iaith), yn gydnaws â rhyddfrydiaeth, ac yn amod angenrheidiol ar gyfer gwerthoedd rhyddfrydol allweddol fel rhyddid personol neu gyfiawnder. Dadleua Kymlicka (1995) a Tamir (1993), er enghraifft, bod diwylliannau'n darparu 'cyd-destun o ddewisiadau' trwy amlinellu a chyfyngu'r dewisiadau bywyd ystyrion i'w haelodau. Dadleua Miller (1995) bod diwylliant cenedlaethol yn amod angenrheidiol o'r cydlyniant cymdeithasol sy'n angenrheidiol i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Bwydodd y dadleuon hyn, yn eu tro, mewn i'r disgwrs hawliau iaith trwy weithiau Kymlicka (1989, 1995). Rhoddodd bwyslais Kymlicka ar iaith, fel elfen sylweddol o ddiwylliannau lleiafrifol cenedlaethol, wedd newydd ar ddadleuon sy'n ymwneud ag urddas a rhyddid (ayyb) yn y maes hawliau iaith. O ganlyniad, cafodd syniad y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant ei ddwyn ymlaen i'r disgwrs cyfiawnder ieithyddol ar ffurf y darlun cyfansoddiadol o iaith.

Nid yw'r safbwyntiau hyn, fodd bynnag, wedi cael eu derbyn yn llwyr heb feirniadaeth, a dau gwestiwn uniongyrchol sy'n codi yw: yn gyntaf, pa mor annatod yw'r cysylltiad rhwng iaith a diwylliant? Yn ail, beth, yn fwy penodol, sy'n rhoi sail i ymlyniad pobl â'u diwylliant? Nid yw'r cwestiynau hyn yn amherthnasol, oherwydd os yw swyddogaeth gyfansoddiadol iaith i fod i gael ei defnyddio fel sail ar gyfer cyfiawnhau hawliau iaith leiafrifol, yna byddai'n well bod yna gyfiawnhad cadarn o'i blaid. Ac os dywedir bod ymlyniad â diwylliant cenedlaethol iach yn ganolog i hunan-barch ac urddas unigolion, byddai'n well bod yna rhywfaint o eglurder rhesymol o ran sut mae hyn yn wir. Fel y gwelwch ym Mhennod 1, fodd bynnag, does dim hanner digon o eglurder ymhlith cenedlaetholwyr rhyddfrydol ynghylch y ddau gwestiwn hyn. Er eu bod yn cadarnhau bod gan bobl ymlyniad cryf â'u diwylliant fel rheol, does dim eglurder ynglŷn â sut a pham mae hyn, heblaw am y

ffaith ei fod yn rhan o'r seicoleg ddynol (Kymlicka 1995: 90), ffynhonnell o ystyr (Tamir 1993: 90), neu ran o synnwyr cyffredin (Miller 1993: 4).

Ceir aneglurder cyfatebol yn y llenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol ynghylch y cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth ddiwylliannol. Hawlia Stephen May, er enghraifft: er nad oes cyfatebiaeth *anochel* rhwng iaith a hunaniaeth, mae tystiolaeth hanesyddol yn awgrymu bod cyfatebiaeth o'r fath yn *aml* yn bodoli: fel arall, sut allwn ni egluro e.e. merthyrdod myfyrwyr dros yr hawl i ddyrchafu Bengali fel iaith genedlaethol Dwyrain Pacistan ym 1952? (May 2015: 137). Hawlia Van Parijs, ar y llaw arall, bod unrhyw barch angenrheidiol tuag at ieithoedd yn deillio o barch blaenorol tuag at unigolion 'who happen to have that language as an important component of their collective identity' (2011: 146). Fodd bynnag, er gwaetha triniaeth gofalus May o'r dystiolaeth sosioieithyddol o blaid ymlyniad rhai grwpiau diwylliannol i'w hieithoedd, a defnydd Van Parijs o'r ymlyniad hwn fel sail i gyfiawnhau ei egwyddor 'cydraddoldeb parch' (h.y. parch cyfartal at ieithoedd mae pobl yn uniaethu â nhw), ni geir yr un esboniad o beth sy'n cyfiawnhau'r ymlyniadau hyn.

Yn wir, mae'r diffyg eglurder ynghylch yr atebion i'r cwestiynau hyn wedi arwain at nifer o erthyglau diweddar sy'n galw am hepgor dadleuon wedi'i seilio ar hunaniaeth o blaid dadleuon sy'n pwysleisio'r manteision offerynnol amlieithrwydd. Gwrthwyneba Aviad Rubin (2017), er enghraifft, y defnydd helaeth mae damcaniaethwyr gwleidyddol wedi'i wneud o ddadleuon sy'n seiliedig ar hunaniaeth o blaid hawliau ieithoedd lleiafrifol. Hawlia bod gradd y bwlch a'r datgysylltiad sy'n bodoli rhwng y gwaith damcaniaethol ar gyfiawnder ieithyddol, a'r polisïau iaith a geir mewn gwladwriaethau, yn amlygu eu methiant i gyflawni unrhyw effaith sylweddol yn y byd go iawn. Yn hytrach na phwysleisio'r cysylltiad rhwng iaith grŵp lleiafrifol a'i hunaniaeth cyfatebol, dadleua, byddai ysgolheigion yn elwa llawer mwy o ddefnyddio dadleuon sy'n apelio at fanteision offerynnol iaith.

Does dim consensws ymhlith Kymlicka, Tamir, na damcaniaethwyr gwleidyddol rhyddfrydol eraill sy'n amddiffyn hawliau diwylliannol lleiafrifoedd cenedlaethol (megis awdurdodaeth dros eu tir a'u hiaith eu hunain, rhywfaint o hunan-ymreolaeth cenedlaethol, a hyd yn oed cymorthdaliadau gwladwriaethol ar gyfer rhai traddodiadau diwylliannol) ynglŷn â beth, yn union, yw'r diwylliant cenedlaethol y dywedir ei fod wedi'i gysylltu'n annatod â rhyddid, urddas, a hunan-barch unigolion. Fel y dadleuaf, mae hyn yn peri problemau trwy eu gadael yn atebol i wrthwynebiadau megis y cyhuddiad o flaenoriaethu diwylliant cenedlaethol yn ddiangen (Perry 2014), essentielleiddio diwylliant (Patten 2011, 2014; Moore 2020), a diffyg democrataidd (Gerson & Rubin 2015).

Yn y bennod hon, dadleuaf fod perthynoledd ieithyddol yn helpu i wrthsefyll cyhuddiadau o'r fath, gan ei fod yn amlygu'r cysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a hanes. Yn gyson â pharadeim ethno-symboliaeth yr ysgolhaig cenedlaetholgar Anthony Smith (1998), a sefydlodd na ellir deall natur 'dychmygol' a 'modernaidd' hunaniaeth genedlaethol yn annibynnol o nodweddion diwylliannol a symbolau ethnig 'go iawn' a hanesyddol, dadleuaf nad yw honiad Gerson & Rubin (ymhlith eraill) bod yr hunaniaeth genedlaethol / ddiwylliannol y mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn cyfeirio ato yn 'ffals' neu'n 'ddychmygol' yn unig; yn hytrach, mae wedi'i seilio mewn gorffennol hanesyddol. Fel y dywed David Miller: er bod gan hunaniaeth genedlaethol lawer o agweddau dychmygol, sy'n cael eu diwygio a'u hail-lunio'n barhaus, mae hefyd wedi'i seilio'n rhannol ar orffennol hanesyddol go iawn: 'it is an identity that embodies historical continuity. Nations stretch backwards into the past' (1995: 23).

Bydd esbonio perthnasedd perthynoledd ieithyddol yn arwain at y manteision canlynol. Yn gyntaf, mae'n darparu cyfiawnhad rhesymegol dros y darlun cyfansoddiadol o iaith trwy ddarparu'r esboniad dros sut mae iaith a diwylliant yn cydblethu; yn ogystal â sut maen nhw'n dylanwadu ar feddwl a hunaniaeth bersonol. Yn ail, mae'n ein galluogi i weld pam y dylid pwysoli iaith yn drymach na nodweddion hunaniaeth eraill yn y llenyddiaeth ar sefydliadu hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol. Yn olaf, mae'n egluro sut mae iaith, diwylliant a hanes yn rhyng-gysylltiedig. Mae

cydnabod hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at danseilio'r gwrthwynebiadau uchod yn erbyn sefydliadu diwylliant cenedlaethol. Byddwn yn gweld bod y statws 'dychmygol' a 'dyfeisiedig' maent yn atodi i ddiwylliant cenedlaethol yn ddisgrifiad camarweiniol o anghyflawn ohono.

Caiff y bennod hon ei strwythuro yn y modd canlynol. Mae §1 a §2 yn cyflwyno tair beirniadaeth gyffredin o genedlaetholdeb rhyddfrydol. Mae'r cyntaf yn wrthwynebiad i flaenoriaethu diwylliant cenedlaethol yn ddiangen; mae'r ail yn wrthwynebiad i'r diffyg democrataidd (*democratic deficit*) a achosir gan sefydliadoli diwylliant cenedlaethol; mae'r trydydd yn ymwneud â'r cyhuddiad o 'essentialeiddio' hunaniaeth ddiwylliannol. Mae §3 yn esbonio'r modd mae perthynoledd ieithyddol yn amlygu'r cysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a hanes, ac yn cyfiawnhau'r darlun cyfansoddiadol o iaith. Mae §4 yn defnyddio'r ystyriaethau hyn i ymateb i'r gwrthwynebiadau a amlinellir yn §1-2. Mae §5 yn ystyried gwrthwynebiadau ychwanegol at ddefnyddio perthynoledd ieithyddol fel dolen gswllt esboniadol. Tynna'r bennod y casgliad bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn gywir i bwysleisio iaith a hanes fel nodweddion arwyddocaol o ddiwylliant cenedlaethol, ac nad yw eu dadleuon dros sefydliadoli'r diwylliant hwnnw'n cael eu tanseilio gan y gwrthwynebiadau cyffredin a amlinellir. Goblygiadau hyn ar gyfer y llenyddiaeth hawliau iaith yw bod y dadleuon sy'n seiliedig ar hunaniaeth dros sffêr gyhoeddus amlieithog yn llawer mwy perthnasol a phriodol nag y mae Rubin (2017) ac eraill yn honni; cyhyd a'i bod yn cydnabod llawn berthnasedd perthynoledd ieithyddol.

§1. Dwy Feirniadaeth: Blaenoriaethu Amhriodol Diwylliant Cenedlaethol a Diffyg Democrataidd

Cofiwch ddadl 'cyd-destun dewis' Kymlicka sy'n nodi: gan fod diwylliannau yn amlinellu ystod o ddewisiadau bywyd pobl ac yn eu gwneud yn ystyrion iddynt (Kymlicka 1995: 83), mae ymlyniad i ddiwylliant iach felly yn rhag-amod o ryddid personol, sydd ei hun yn gofyn am ystod ddealladwy ond cyfyngedig o ddewisiadau. Mae'r ddadl hon yn rhan o gyfiawnhad Kymlicka dros hawliau grwpiau lleiafrifoedd cenedlaethol: mae'n dangos sut mae rhyddid - sy'n ganolog i ryddfrydiaeth - yn dibynnu ar ymlyniad unigolyn i'r diwylliant maent yn digwydd bod wedi'i ymsefydlu ynddo. Yn ei 'Autonomy, Culture, and Nationality' (2014), fodd bynnag, ceir gwrthwynebiad gan Tomer Perry tuag at ddarlun Kymlicka o ddiwylliant cenedlaethol. Y prif hawliad yw y gall swyddogaeth diwylliant cenedlaethol (h.y. darparu 'cyd-destunau dewis' i unigolion) gael ei gyflawni yr un mor hawdd gan 'ddiwylliannau cynhwysfawr eraill' nad oes a wnelont â chenedligrwydd o gwbl.

Craidd gwrthwynebiad Perry yw nad oes angen i'r cyd-destunau dewis mae Kymlicka yn honni sy'n rhagamodau rhyddid fod yn ddiwylliannau cenedlaethol, fel y'u diffinnir gan Kymlicka yn yr ystyr ieithyddol, hanesyddol a thriogaethol. Yn hytrach, mae unigolion yn tueddi bod yn 'members of different cultural groups which provide different contexts for different choices as well as meaningful forms of identification' (2014: 62). Yn wir, gall 'diwylliannau cynhwysfawr' eraill, nad ydynt yn genedlaethol, fod yr un mor, os nad yn fwy, pwysig a dylanwadol i'w haelodau â diwylliannau cenedlaethol: mae hunaniaethau personol yn aml-haenog. Yn wir, 'There are various [non-national] groups and collective identities who embody a set of values and norms which prescribe behavior over the full range of human activities' (Perry 2014: 44).

Casgliad Perry yw nad oes unrhyw gyfiawnhad arbennig i'w wneud dros gydnabyddiaeth gwleidyddol lleiafrifoedd diwylliannol (cenedlaethol) a'u hawliau iaith ar sail eu cyfraniad at ryddid. Y rheswm dros hyn yw y byddai'n rhaid i'r un ymresymiad a geir yn y ddadl 'cyd-destun dewis' hefyd fod yn berthnasol i nifer amhenodol o 'ddiwylliannau cynhwysfawr' eraill sy'n mynd tu hwnt i ffiniau cenedlaethol, megis grwpiau LGBTQ, crefyddau neu chwaraeon - sydd oll yn gallu rhoi 'cyd-destunau dewis' yr un mor ystyrion i'w haelodau. Nid oes unrhyw reswm felly, yn ôl Perry, i flaenoriaethu diwylliannau cenedlaethol dros 'ddiwylliannau cynhwysfawr' eraill fel y mae Kymlicka yn ei wneud:

mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn 'privilege national cultures and identities in an unwarranted manner' (Perry 2014: 31).⁸

Yr hyn sy'n gyrru Perry i wadu bod hunaniaethau cenedlaethol yn rhagflaeni, neu yn haeddu mwy o bwyslais na mathau eraill o hunaniaeth yw ei honiad (a ysbrydolwyd gan foderniaeth): 'national identities are not something we 'happen to have'' (2014: 3). Yn hytrach, maent yn deillio o brosesau adeiladu cenedl sydd - yn aml yn orfodol - yn hyrwyddo ac yn gorfodi diwylliant a hunaniaeth genedlaethol ar ddinasyddion trwy e.e. ddiwygiadau cwricwlwm addysgol a pholisïau unieithog - yn aml ar draul hunaniaethau a diwylliannau eraill. Canlyniad hyn yw nad yw'r elfen gref o homogenedd ac undod diwylliannol y mae Kymlicka yn ei briodoli i ddiwylliannau cymdeithasol yn ddilys (Perry 2014: 37). O ganlyniad, daw i'r casgliad bod 'Kymlicka's definition of societal culture is either implausible, on the terms of his own theory, or incoherent' (2014: 7).

Beth, felly, yw rheswm Perry dros hawlio bod diwylliant cenedlaethol yn ddim byd ond sgil-effaith prosesau adeiladu cenedl, ac na ddylid felly ei bwysoli'n drymach na mathau eraill o ddiwylliant? Mae ei anghytgord yn ymwneud â'r ffordd 'idiosyncratig' mae Kymlicka yn diffinio cenedloedd a diwylliannau: mae'n gwyrto oddi wrth y llenyddiaeth berthnasol ar hunaniaeth genedlaethol trwy drin cenedloedd a diwylliannau fel cyfystyron. Yn ôl Perry, mae hyn yn anwybyddu'r ffaith bod y diwylliant mae Kymlicka yn cyfeirio ato wedi cael ei greu i raddau helaeth o ganlyniad ddyhead grŵp dominyddol am ymreolaeth wleidyddol. Mae'n ysgrifennu yn y cyswllt hwn:

'The existence of shared cultural characteristics is therefore the result of intentional and often coercive actions [...], partially justified in the name of the alleged cultural unity. But the pursuit of policies aiming to achieve cultural unity in the face of resistance is a clear sign that such unity is absent. It is also a reason to doubt its genuineness where it appears to exist' (Perry 2014: 37).

Y syniad, felly, yw bod seilio hunaniaeth genedlaethol ar nodweddion gwrthrychol fel iaith neu ddiwylliant cyffredin yn gamarweiniol. Mae undod diwylliannol a ieithyddol (lle maent yn bodoli) o fewn cenedloedd yn ganlyniad i brosesau adeiladu cenedl a ddigwyddodd o ganlyniad i foderneiddio a diwydiannu, yn hytrach na ffactorau naturiol o'r gwaelod i fyny, fel petai. Er mwyn cloriannu'r farn hon yn iawn, fodd bynnag, mae'n bwysig crynhoi yn gyntaf y darlun modernaidd o ffurfio hunaniaeth genedlaethol, sy'n hawlio, yng ngeiriau hyperbolig Ernest Gellner, bod cenedlaetholdeb yn 'dyfeisio cenedloedd lle nad ydynt yn bodoli' (Gellner 1964: 168). Ar y darlun hwn, dim ond sgil-gynnyrch moderniaeth yw hunaniaeth genedlaethol; sef trawsnewidiad cymdeithasau amaethyddol i gymdeithasau diwydiannol; yn hytrach nag – yng ngeiriau Anthony Smith - 'universalisation of a pre-existing political and social norm' (Smith 1983: 280-2).

Yn wir, erbyn hyn cytunir yn gydsyniol gan y mwyafrif o ysgolheigion cenedlaetholdeb bod hunaniaethau cenedlaethol i raddau helaeth yn gynnyrch moderneiddio, ac yn deillio o ddatblygiadau diwydiannol fel cyfalafiaeth print a'r gyfundrefn addysg. Bu datblygiadau fel safoni addysg a thwf y wasg argraffu yn allweddol wrth greu ymwybyddiaeth genedlaethol trwy gymhathu tafodieithoedd rhanbarthol i mewn i iaith genedlaethol safonol, a lledaenu naratifau - a thrwy hynny galluogi cyd-wladwyr i weld eu hunain fel rhan o gymuned ddiwylliannol-ieithyddol ehangach.

⁸ Ceir gwrthwynebiad tebyg yn Vincent (1995), sy'n dadlau nad oes unrhyw reswm pam y dylai diwylliannau cenedlaethol haeddu parch neu gydnabyddiaeth wleidyddol ar y sail eu bod yn rhan o hunaniaeth bersonol. Mae'n ysgrifennu:

'People may have neuroses, recurring odd fantasies, unpleasant or harmless habits, which may have been communally derived (even from a national culture or historical tradition – like duelling, cannibalism, genital mutilation, racial contempt or infanticide), but surely we would not automatically render them respect simply because they constitute part of an autonomous person?' (Vincent 1995: 290)

Yn ôl darlun Ernest Gellner o darddiad cenedlaetholdeb, er enghraifft, nid oedd angen cenedlaetholdeb ar gymunedau amaethyddol cyn y chwyldro diwydiannol, gan nad oedd angen i'r uchelwyr a'r werin rannu synnwyr o ddiwylliant cyffredin i gyd-weithredu. Fodd bynnag, aeth diwydiannu cynyddol law yn llaw ag angen cynyddol am ddiwylliant cenedlaethol. Datgysylltodd y symudedd cymdeithasol / daearyddol ac unigolyddiaeth cynyddol, a ddaeth yn sgil y dulliau cynhyrchu newydd, lawer o bobl oddi wrth eu clymau teuluol a chymunedol blaenorol. O ganlyniad, roedd angen creu ymwybyddiaeth newydd o ddiwylliant cyffredin er lles cydlyniant cymdeithasol, a fyddai'n lliniaru'r aflonyddwch cymdeithasol a greodd diwydiannu. Helpodd y datblygiadau newydd megis safoni tafodieithoedd rhanbarthol mewn i iaith 'genedlaethol' unedig trwy e.e. addysg safonol a'r wasg argraffu i hwyluso hyn.

Yn ôl y darlun modernaidd, felly, deilliodd hunaniaethau cenedlaethol o'r angen am ddiwylliant cyffredin i gwrdd â gofynion newydd cymdeithasau diwydiannol. Nid yw hunaniaethau cenedlaethol yn 'naturiol'; yn hytrach, maent yn artiffisial yn yr ystyr eu bod yn deillio o fudiadau cenedlaetholdeb: 'imposition of a high culture on society, where previously low cultures had taken up the lives of the majority, and in some cases the totality, of the population' ydynt, yn ôl Gellner (1983: 57).

Mae gwrthwynebiad Perry, felly, wedi'i ysbrydoli bron yn gyfan gwbl gan y darlun modernaidd uchod. Y darlun hwn sy'n ysgogi'r syniad nad yw hunaniaeth genedlaethol yn 'naturiol' nac yn 'ddilys', a bod diffyg cyfreithlondeb hanesyddol iddo. Byddai ei seilio ar iaith, diwylliant, a hanes gyffredin (fel y mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn gwneud) yn gamarweiniol: nid yw pawb o'r farn bod y nodweddion hyn yn ganolog i'w hunaniaeth genedlaethol; ac mae'r rhai sydd yn credu hyn wedi eu dylanwadu gan y diwylliant sydd wedi'i orfodi arnynt o'r brig i lawr, fel petai.

§1.1 Diffyg Democratiaeth o ganlyniad i Sefydliadu Diwylliant Cenedlaethol

Mae'r hyn sy'n gyrru gwrthwynebiad Gerson a Rubin (2015) ynghylch diffyg democrataidd yn adleisio'r hyn sydd y tu ôl i wrthwynebiad cyfatebol Perry (2014). Maent ill dau yn cyfeirio at weithiau ysgolheigion cenedlaetholdeb 'lluniadaethol' (*constructivist*) fel Anderson (1991), Gellner (1983) a Hobsbawm (1990) sy'n ystyried hunaniaeth genedlaethol i fod yn ddyfais modern lle mae pobl ond yn dychmygu eu hunain yn rhan o genedl sy'n ymestyn yn ôl trwy hanes. Mae Gerson a Rubin yn cydnabod bod damcaniaethwyr fel Kymlicka a Miller - sy'n gwneud defnydd helaeth o'r syniad o ddiwylliant cenedlaethol - yn berffaith ymwybodol o'r dehongliadau lluniadaethol hyn yn eu gweithiau. Y broblem, fodd bynnag, yn ôl Gerson & Rubin, yw hyn. Trwy gydnabod y dehongliadau lluniadaethol hyn, maent yn llwyddo i 'absolve themselves from the charge of setting up a fictional entity as an objective reality... [by claiming that their] national cultures are openly imagined and invented' (2015: 201). Ac er gwaetha hyn, maent yn parhau i roi pwyslais mewn modd di-sail ar nodweddion gwrthrychol fel iaith a hanes.

Prif feirniadaeth Gerson a Rubin (yn erbyn y cefndir hwn) yw hyn. O ystyried eu bod yn cefnogi amrywiath a heterogenedd diwylliannol, mae braidd yn anaddas ac eironig bod pobl fel Kymlicka a Miller o blaid blaenoriaethu un, neu ychydig, o ddiwylliannau gan y wladwriaeth. Gan gyfeirio at Bauman (1997) a Benhabib (2002), maent yn ychwanegu ymhellach bod sefydliadu un neu ychydig o ddiwylliannau gan y wladwriaeth hefyd 'favours a single generation's perception of its national culture over the choices of subsequent generations of the same nation' (1995: 202). Mewn gwirionedd, mae'r broses hon o adeiladu cenedl yn arwain at anghydbwysedd pŵer, yn ogystal â gwahaniaethu mewn modd annheg rhwng hawliau'r rhai sy'n perthyn i ddiwylliant cenedlaethol y wladwriaeth, a'r rhai sydd ddim. Does dim lle i hyn, meddant, mewn democratiaeth ryddfrydol sy'n honni cynnal gwerthoedd egalitaraidd.

Mae'r prosesau adeiladu cenedl hyn yn digwydd er gwaetha'r ffaith bod gweithiau'r 'lluniadaethwyr' wedi sefydlu nad oes craidd gwrthrychol i genedligrwydd (2015: 203). Mewn geiriau eraill, mae natur anniriaethol, dyfeisiedig, a dychmygol hunaniaeth genedlaethol yn ei gwneud yn gysyniad sydd â ffiniau hynod o hyblyg, heb unrhyw ddiffiniadau 'terfynol, gwrthrychol' (ibid). Er bod y cenedlaetholwyr diwylliannol o dan sylw (Kymlicka, Tamir, Miller yn bennaf) yn credu bod hyn yn fantais oherwydd ei fod yn caniatáu llawer o amrywiaeth, goddefgarwch, a dewis o fewn ffiniau diwylliannol, dadleua Gerson a Rubin bod hyn i bob pwrpas yn 'cop-out'. Maent yn ysgrifennu:

'national culture is characterised not by debate, but by its absence. This absence has to do with that dynamic, loose attribute of national culture that cultural nationalists underscore – its lack of final, objective definitions. Deliberation, like rational analysis, exposes the apparently self-evident to external view. Analysis and deliberation are verbal. They depend on signs whose meaning is fixed and accessible to all. National culture relies on being partially opaque to such processes.' (2015: 203).

Y broblem, felly, yw bod y ffordd hyn o nodweddu diwylliant cenedlaethol yn gwneud y cysyniad yn imiwn rhag cael ei graffu, ei ystyried, a'i drafod mewn modd democrataidd. Yma ceir gwrthdaro sylfaenol rhwng pwyslais rhyddfrydiaeth ar ddemocratiaeth (ac un o'i nodweddion canolog yw trafodaeth gyhoeddus), a natur 'gudd' y diwylliant cenedlaethol nas trafodir, y mae aelodau'r genedl i fod i'w dderbyn. Yn hytrach na bod yn gyson â rhyddfrydiaeth o ran ei hyblygrwydd a'i chynwysoldeb (*inclusivity*), felly, mae'r anallu hwn i ddiwylliant cenedlaethol gael ei drafod yn glir yn creu tensiwn difrifol i'r rhai sy'n honni bod ei sefydliadoli yn cyd-fynd â rhyddfrydiaeth.

Gellir gweld, felly, bod gwrthwynebiadau Perry, a Gerson a Rubin yn cael eu cymell gan yr un math o bryder. Hynny yw: nad yw'r diwylliant cenedlaethol / cymdeithasol y mae damcaniaethwyr fel Kymlicka, Tamir, a Miller yn arddel yn ddilys; yn hytrach, mae wedi'i ddyfeisio mewn modd artiffisial a phroblemus. Maent i gyd yn cyfeirio at waith ysgolheigion cenedlaetholdeb lluniadaethol (Anderson a Gellner yn bennaf) i danlinellu'r pwynt bod diwylliant cenedlaethol cenedligrwydd yn ddyfais ddiweddar yn hytrach na rhywbeth 'naturiol'. O'r safbwynt dechreuol hyn, maent wedyn yn datblygu dadleuon gwahanol sy'n cynnwys y rhagdybiaeth ganolog bod sefydliadoli un neu ychydig o ddiwylliannau cenedlaethol yn annilys, yn bennaf gan fod diwylliannau cenedlaethol yn ganlyniad ymdrechion canoledig i gyflawni undod diwylliannol a ieithyddol.

§1.2 Perthnasedd y Paradeim Ethno-Symboliaeth

Byddai ateb trylwyr i'r feirniadaeth hon yn gofyn am ystyriaeth fanwl o natur a pherthnasedd perthynoledd ieithyddol, a fydd yn cael ei archwilio yn § 3. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yn y cyfamser bod modd lliniaru grym perswâd y ddau wrthwynebiad hyn trwy ystyried gwaith yr hanesydd Anthony D. Smith ynghylch y paradeim esboniadol 'ethno-symboliaeth'. Yn ôl ethno-symboliaeth, ni ellir deall natur 'dychmygol' a 'modernaidd' hunaniaeth genedlaethol yn annibynnol o symbolau, gwerthoedd a thraddodiadau ethnig 'go iawn' a hanesyddol (Smith 1998). Er bod ideoleg cenedlaetholdeb yn ddatblygiad modern, gall y cysyniad o'r genedl sy'n annatod o genedlaetholdeb gael ei 'traced back to pre-modern ethnic communities' (Smith 1989: 340).

Ystyriwch yr hunaniaeth genedlaethol Seisnig, er enghraifft, sydd yn annatod o sefydliadau a thraddodiadau sy'n rhagflaenu bodolaeth unrhyw wladwriaeth fodern ym Mhrydain. Mae traddodiad y gyfraith gyffredin (common law) yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft, - sy'n rhan o hunaniaeth genedlaethol Lloegr yn enwedig - wedi cyfrannu'n helaeth at ddatblygiad Ewro-septigaeth fodern Prydain (Smith 2006). System 'o'r gwaelod i fyny' yw'r gyfraith gyffredin, sy'n

ymgorffori hanes helaeth o ddadleuon cyfreithiol 'bywyd go iawn'. Caiff cynseiliau barnwrol (*judicial precedents*) eu creu fesul achos; a daw y *ratio decidendi* - y rheswm y tu ôl i'r penderfyniad - yn gyfreithiol rwymol (neu'n berswadiol, yn dibynnu ar y llys y cafodd ei lunio ynddo) ar achosion y dyfodol. Cyfanswm y deddfau hyn sy'n adlewyrchu dadleuon y brodorion yw'r gyfraith gyffredin.

Mae'r ffaith bod pob cyfraith yn adlewyrchu datrysiad o anghydfod, sy'n deillio o broblemau 'bywyd go iawn', yn gwneud y gyfraith gyffredin yn system unigryw 'o'r gwaelod i fyny'. Mae wedi parhau i darddu'n uniongyrchol allan o'r gymdeithas ers diwedd y 9fed ganrif, pan amgodiodd Alfred Fawr ddeddfau Lloegr mewn i ddogfen cynhwysfawr. Ceir gwrthgyferbyniad yma â'r traddodiad cyfraith Rufeinig sy'n nodweddu deddfwriaeth yr UE, sy'n system 'o'r brig i lawr' yn yr ystyr ei fod yn cynnwys egwyddorion haniaethol i'w cymhwyso i achosion cyfreithiol yn y dyfodol. Bu natur rwymol (*binding*) cyfraith yr UE ar lysoedd Prydain yn ffynhonnell sylweddol o densiwn gan iddo gael ei ystyried fel enghraifft o lechfeddiant (encroachment) y Comisiwn Ewropeaidd ar 'political and possibly, cultural spheres' Prydain (Smith 2006: 435). Fodd bynnag, mae cyfraith gyffredin Lloegr yn rhagddyddio moderniaeth ers amser maith - ond eto i gyd fe'i ystyriwyd yn eang 'as one of the distinctive hallmarks of Englishness and as an integral part of English political culture' (Smith 2006: 440) ers y 13eg ganrif hyd heddiw. Dyma'r hyn sy'n egluro gwrthwynebiad Ewro-sgeptigwyr tuag at sefydliad rhyngwladol fel yr UE yn gorfodi ei hunaniaeth ar y DU, a thrwy hynny throsglwyddo teyrngarwch a hunaniaethau cenedlaethol y dinasyddion i'w melin ei hun (ibid: 434).

Pe bai'n wir bod hunaniaeth cenedlaethol yn ddyfais cwbl fodern heb 'graidd gwrthrychol', fel y tybia Gerson & Rubin (2015: 203) a Perry (2014), yna byddai'n amhosib egluro Ewrosgeptiaeth Lloegr yn rhannol yn nhermau ymrwymiad nifer o Saeson (sydd wedi'i wreiddio'n hanesyddol) i'r traddodiad cyfraith gyffredin, fel y mae Smith yn ei wneud. Ond sefydlodd Smith gyda'i gategori esboniadol 'ethno-symboliaeth' *bod* yna agweddau gwrthrychol sylweddol i hunaniaethau cenedlaethol, ar ben eu hagweddau goddrychol a dyfeisiedig. Tanseiliodd hyn y 'dominant modernist paradigm of Eric Hobsbawm, [and] Ernest Gellner' (Kaufmann 2018: 237), a thrwy hynny sbarduno consensws newydd ymhlith ysgolheigion cenedlaetholdeb bod hunaniaeth genedlaethol yn seiliedig ar ffactorau gwrthrychol yn ogystal â goddrychol.

Perthnasedd hyn ar gyfer gwrthwynebiadau Gerson & Rubin a Perry - sy'n honni bod sefydliadu diwylliant cenedlaethol ar draul diwylliannau eraill yn anghyfiawn - naill ai oherwydd ei fod yn achosi diffyg democrataidd, neu oherwydd na ddylid rhoi mwy o bwysau iddo nag ar eraill, yw hyn. Gellir tynnu'r carped oddi tanynt, fel petai, unwaith y sylweddolir eu bod yn dibynnu ar ddarlun modernaidd a lluniadaethol heb ei ddiwygio na'i ailffurfio sy'n honni bod hunaniaeth genedlaethol wedi'i ddyfeisio'n llwyr, heb nodweddion gwrthrychol dilys. Oblegid, fel y sefydlodd gweithiau Anthony Smith, mae'r paradeimau anniwygiedig modernaidd a lluniadaethol hyn bellach yn anghynladwy.

§2. Y Gwrthwynebiad 'Essentialeiddio'

Gwrthwynebiad pellach cyffredin yn erbyn cenedlaetholdeb rhyddfrydol yw'r honiad bod seilio diwylliant ar nodweddion gwrthrychol fel iaith a hanes yn gyfystyr â 'essentialeiddio' grwpiau diwylliannol (gweler Appiah 2005; Phillips 2010; Patten 2011, 2014; Moore 2020). Dyma'r cyhuddiad, fel y mae Margaret Moore yn ei fynegi, bod defnyddio'r cysyniad o ddiwylliant i gyfeirio at grŵp yn 'suggests that the group is determinate, bounded, and homogenous' (Moore 2020: 189) pan, mewn gwirionedd, nid yw hyn yn gywir⁹. Yn yr un modd, ysgrifenna Patten: 'all of the usual features that

⁹ Er bod Miller (1995) yn osgoi essentialeiddio trwy ddiffinio diwylliant yn nhermau 'tebygrwydd teuluol', gwrthwyneba Moore ei fod, serch hynny, yn parhau i fod yn atebol i'r ddwy broblem o ymwahanu a

are taken to define culture run foul of the problems of internal variation and external overlap: The relevant features are not shared by all and only the members of the [cultural] groups' (Patten 2011: 736).

Yr ensyniad yw bod diwylliannau wastad yn heterogenaidd i'r fath raddau bod ceisio eu diffinio yn nhermau nodweddion 'hanfodol' fel iaith, credoau neu hanes gyffredin, yn gamarweiniol. Gellir hawdd ddychmygu, er enghraifft, dau blymiwr sy'n byw ym Mhrydain a Ffrainc, ac sydd â mwy yn gyffredin â'i gilydd nag â beirniaid y Goruchaflys (Supreme Court) yn eu gwledydd eu hunain. O ystyried y gwahaniaethau diwylliannol tebygol rhwng y plymwyr a'r beirniaid, yna byddai priodoli diwylliant cyffredin iddynt yn seiliedig ar yr iaith neu'r hanes y maent yn ei rannu â'u cydwladwyr priodol yn ymddangos yn ddi-sail, ac yn enghraifft o essentielleiddio eu diwylliannau.

Ymhellach, cymhwysa Patten y cyhuddiad hwn o essentielleiddio nid yn unig at iaith a hanes, ond hefyd at gonfensiynau ymddygiadol ymhlith grwpiau diwylliannol. Ymestynna Patten y broblem hon i'r syniad o set gyffredin o normau diwylliannol: ar gyfer pob un arfer a norm ymddygiadol, 'there will be several publically established meanings that people enact in their behavior' (Patten 2011: 737). Naill ffordd neu'r llall, mae hyn yn broblemus gan fod gradd yr anghytundeb ymhlith aelodau'r grwpiau hyn ynghylch yr ystyrion perthnasol yn dangos bod 'the contours of shared cultures are going to look nothing like the contours of the groups that are typically thought of as cultures' (ibid.); ac o ganlyniad nid oes gennym unrhyw sail dros wahaniaethu rhwng gwahanol ddiwylliannau. Y broblem, yn ôl y fath wrthwynebiad, felly, yw nad yw nodweddu diwylliannau yn nhermau credoau, gwerthoedd ac ystyron penodol yn llwyddo 'track the cultural differences that are commonly supposed to exist' (ibid.) oherwydd y gwahaniaethau o fewn, a gorgyffwrdd ar draws, diwylliannau gwahanol.

Cofiwch ddiffiniad Kymlicka o ddiwylliant cenedlaethol: 'intergenerational community, more or less institutionally complete, occupying a given territory or homeland, sharing a distinct language and history' (Kymlicka 1995: 18). Mae'r gwrthwynebiad uchod yn ymddangos fel tipyn o her iddo – ac yn wir i ddiffiniadau cenedlaetholwyr rhyddfrydol eraill sy'n cyfeirio at nodweddion gwrthrychol tebyg – am y rheswm ganlynol. Pe bai'n wir bod modd diffinio diwylliannau yn nhermau e.e. iaith a hanes, yna sut mae esbonio aelodau o'r diwylliannau sydd heb ymwybyddiaeth hanesyddol, ac sydd ddim yn ystyried eu hiaith fel rhan sylweddol o'u diwylliant? Ar ben hynny, o ystyried yr holl amrywiaeth o fewn ac ar draws diwylliannau, nid yw'n anodd dychmygu dau blymiwr o Brydain a Ffrainc sydd â mwy yn gyffredin â'i gilydd na'u cydwladwyr. Ymddengys, felly, nad yw diffiniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant yn llwyddo amlygu'r nodweddion priodol.

Yr hyn a amlygir gan y fath wrthwynebiadau yw bod y diffyg eglurder ymhlith cenedlaetholwyr rhyddfrydol ynghylch pam y dylid pwysoli iaith a hanes i'r fath raddau yn eu diffiniadau o ddiwylliant yn eu gadael yn agored i wrthwynebiadau sylweddol. Yn ogystal â thynnu sylw at berthnasedd y dull ethno-symbolaidd, felly, sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at esbonio pam y dylid pwysoli hanes yn sylweddol, canolbwytiaf ar berthnasedd perthynoledd ieithyddol trwy weddill y bennod. Bydd egluro ei berthnasedd i ddiffiniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant, yn ogystal â'r darlun cyfansoddiadol o iaith, yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer ymateb i'r gwrthwynebiadau a archwilir yn yr adran hon. O ganlyniad, bydd gwrthwynebiadau Perry, Gerson a Rubin yn colli llawer o'u perthnasedd.

dyfalbarhad (*individuation and persistence*). Yn y drefn honno, cyfeiria rhain at yr anallu i wahaniaethu rhwng diwylliannau gwahanol; a'r methiant i egluro dyfalbarhad diwylliannau dros amser wrth iddynt fynd trwy newidiadau sylweddol. Hynny yw, mae natur llac y diffiniad tebygrwydd teuluol yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau dealltwriaeth gadarn o wahanol ddiwylliannau.

§3. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol tuag at ddiffiniad Cenedlaetholwyr Rhyddfrydol o Ddiwylliant

Mae gan berthynoledd ieithyddol oblygiadau sylweddol ar gyfer diffiniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant. Cofiwch bod y diffiniadau hyn yn cynnwys nodweddion gwrthrychol fel iaith a hanes, yn ogystal â dimensiynau goddrychol fel dychmygu eu hunain fel rhan o gymuned genedlaethol ehangach sy'n 'embody historical community' (Miller 1995: 22). Nid pawb sy'n derbyn y math hyn o ddiffiniad sy'n cyfeirio at nodweddion gwrthrychol, fel y gwelsom yn yr adran flaenorol. Fodd bynnag, mae perthynoledd ieithyddol, fel y byddwn yn gweld, yn ategu ac yn cydgrynhoi'r dimensiwn gwrthrychol i hunaniaethau cenedlaethol.

Mae perthynoledd ieithyddol yn amlygu'r cysylltiad annatod rhwng iaith, diwylliant a hanes, yn y fath ffordd na ellir eu datgysylltu oddi wrth ei gilydd bellach. Cofiwch ddisgrifiad Herder o berthynoledd ieithyddol yn nhermau (1) dibyniaeth anochel meddwl ar iaith; a (2) ystyr ieithyddol yn deillio o ddefnydd. Ei gyfiawnhad yw ein bod ni'n meddwl trwy gysyniadau, a bod cysyniadau / ystyron geiriau yn dibynnu ar ddefnydd hanesyddol a phresennol geiriau. O ystyried bod gan wahanol gymunedau ieithyddol wahanol ddefnyddiau ar gyfer geiriau (sy'n deillio o normau diwylliannol gwahanol), mae'n deg tybio bydd y gwahaniaethau diwylliannol hynny sydd wedi'u cronni yn hanesyddol yn cael eu hymgorffori yn eu hieithoedd. Ar sail yr ystyriaethau hyn, rydym bellach mewn sefyllfa i ddod i'r casgliad canlynol. Mae geiriau ac ymadroddion yn cyfeirio at gysyniadau a gronnyd yn hanesyddol gan gymuned ddiwylliannol-ieithyddol, ac mae'r cysyniadau hynny wedi'u cydblethu â normau diwylliannol y gymuned honno. Rydyn ni'n meddwl trwy gysyniadau; ac felly mae ein meddyliau, sydd wedi'i cyfansoddi o'r cysyniadau hyn, hefyd wedi'u cydblethu â normau diwylliannol ein cymuned ddiwylliannol-ieithyddol.

Mae canlyniad hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n dangos na ellir gwahanu iaith, diwylliant, a hanes oddi wrth ei gilydd pan mae'n dod at ddiwylliannau sy'n meddu ar eu hieithoedd eu hunain. Mae hyn oherwydd bod iaith yn ymgorffori cysyniadau sy'n adlewyrchu diwylliant y siaradwyr; ac mae'r cysyniadau hynny wedi'u cronni'n cynyddol trwy hanes. Yn hynny o beth, yr iaith - sy'n ymgorffori cyfanswm y cysyniadau hyn - yw'r cyfrwng sy'n adlewyrchu diwylliant hanesyddol a phresennol y gymuned ieithyddol. Yn ail, mae hyn yn arwain at gysyniad mwy dad-unigolyddol (*de-individualized*) o hunaniaeth bersonol. Prif nodwedd hunaniaeth bersonol yw'r meddwl. Gan fod y cysyniadau y mae pobl yn meddwl drwydynt wedi'u plethu â nodweddion diwylliannol eu cymuned ieithyddol, mae eu meddyliau hefyd wedi'u plethu â'r nodweddion diwylliannol hynny. Mae hyn yn consoliiddio'r cysylltiad rhwng diwylliant a hunaniaeth bersonol, a thrwy hynny mae'n cyfiawnhau'r darlun cyfansoddiadol o iaith.

Beth, felly, yw goblygiadau hyn oll ar gyfer cenedlaetholdeb rhyddfrydol? Yn gyntaf, mae'n dangos bod diffinio diwylliant yn nhermau nodweddion gwrthrychol megis iaith a hanes yn berffaith resymol, gan fod iaith, yn ôl perthynoledd ieithyddol, yn ystorfa o hanes a diwylliant ei siaradwyr. Yn ail, nid yw pwyslais y cenedlaetholwyr rhyddfrydol ar gyfraniad anhepgor diwylliant cenedlaethol at hunaniaeth bersonol, a'r casgliadau maent yn tynnu o hyn i gefnogi sefydliadu diwylliant cenedlaethol yn afresymol na di-sail, fel y dadleua Perry (2014) a Gerson & Rubin (2015). I'r gwrthwyneb: mae'r cysylltiad anhepgor rhwng iaith, diwylliant a hanes, a amlygwyd gan effaith iaith a diwylliant ar hunaniaeth bersonol, yn awgrymu y *dylid* rhoi mwy o bwyslais ar ddiwylliant cenedlaethol nag ar elfennau eraill o ddiwylliant sy'n annibynnol o genedligrwydd.

§4. Ateb i'r Gwrthwynebiadau yng Ngolau Perthynoledd Ieithyddol

Cofiwch wrthwynebiad Perry (2014), sef bod Kymlicka a chenedlaetholwyr rhyddfrydol eraill yn blaenoriaethu diwylliant cenedlaethol mewn modd direswm. Mae hyn oherwydd, yn gyntaf, mae

yna ddiwylliannau cynhwysfawr eraill fel grwpiau pêl-droed a LGBTQ + sydd yr un mor bwysig i hunaniaethau pobl. Yn ail, mae hunaniaethau cenedlaethol mewn gwirionedd yn ganlyniad i brosesau adeiladu cenedl gormesol sy'n gorfodi un diwylliant cenedlaethol ar y dinasyddion ar draul diwylliannau cystadleuol eraill. Daw Perry i'r casgliad nad oes rheswm dilys i flaenoriaethu diwylliannau cenedlaethol dros ddiwylliannau cynhwysfawr eraill, oherwydd (1) nid yw'n glir eu bod nhw'n ganolog i hunaniaethau personol; (2) pam dylid blaenoriaethu hunaniaeth ddyfeisiedig a dychmygol dros hunaniaethau eraill?

Mae'r ddadl hon gan Perry yn cyflawni'r gwall rhesymegol o gyffredinoli ar draws categorïau. Mae gwall sylfaenol ei ddadl yn ymwneud â'r rhagdybiaeth y dylid pwysoli iaith a hanes i'r un gradd ag elfennau eraill y mae pobl yn eu cymryd i ddiffinio eu hunaniaethau diwylliannol. Fodd bynnag, mae'r dybiaeth hon yn wallus, yn enwedig o ystyried perthnasedd perthynoledd ieithyddol. Fel y gwelwom, un o brif oblygiadau perthynoledd ieithyddol yw bod 'language [...] is the collective memory bank of a people's experience in history' (Thiong'o 1986: 15).

Mae'r astudiaethau empirig a'r darlun cymdeithasol o ystyr ieithyddol sydd ymhlyg yng ngweithiau Everette a Wittgenstein yn dangos bod iaith yn ymgorffori normau diwylliannol ac adnoddau cysyniadol sy'n cael eu cywasgu i'r iaith trwy gydol hanes. Mae perthynoledd ieithyddol yn nodi bod gan wahanol ieithoedd adnoddau cysyniadol gwahanol, a bod hyn yn dylanwadu ar feddyliau / credoau'r siaradwyr. Mae'n dilyn o hyn bod iaith yn angori parhad diwylliannol Pobl: iaith yw'r llinyn aur sy'n egluro annatodrydd iaith, diwylliant a hanes.

Yr ateb uniongyrchol i'r gwrthwynebiad o flaenoriaethu diwylliant cenedlaethol yn ddiangen', felly, yw hyn. Nid yw'n wir bod yr iaith a'r hanes y mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn apelio atynt yr un mor berthnasol i hunaniaeth ddiwylliannol pobl â nodweddion diwylliannol eraill sy'n annibynnol o genedligrwydd. Mae iaith (a'r hanes y mae'n ei ymgorffori) yn rhagflaenu nodweddion diwylliannol eraill oherwydd bod pobl o reidrwydd yn meddwl trwy ei gyfrwng yn unol â'r llinach hanesyddol mae'n ei gynrychioli; a dyma'r cyd-destun blaenorol maent wedyn yn ffurfio credoau a diddordebau eraill o'i fewn.

Trown yn awr yn ôl at wrthwynebiad Gerson a Rubin (2015), sy'n honni bod yr hunaniaeth ddiwylliannol y mae Kymlicka a chenedlaetholwyr rhyddfrydol eraill yn apelio ati yn cael ei ddiffinio mewn modd mympwyol ag anghyson. Mae'n ymddangos yn rhyfedd eu bod yn derbyn cydsyniad yr ysgolheigion cenedlaetholdeb modernaid a lluniadaethol sy'n honni bod hunaniaeth genedlaethol yn ddyfais ddiweddar, yn deillio o ddiwydiannu cymdeithasau Ewropeaidd, yn ogystal â'r ddelfryd o ymreolaeth cenedlaethol a ledaenodd ar ôl y Chwyldro Ffrengig.

Yn hytrach na bod yn ffenomen hynafol a naturiol, fe'i crëwyd gan e.e. gymhathu trafodaethau rhanbarthol, ac fe'i bropageiddiwyd trwy ddiwygiadau i'r gyfundrefn addysg, twf y wasg argraffu, a symudedd cymdeithasol a daearyddol cynyddol. Arweiniodd at yr hyn y mae Benedict Anderson (1991) yn ei alw yn gymunedau dychmygol, lle mae cyd-wladolion yn dychmygu eu bod yn perthyn i gymuned genedlaethol er nad ydynt erioed wedi cwrdd â'r rhan fwyaf o'u cydwladwyr na gwybod dim amdanynt. Gwrthwyneba Gerson a Rubin: o gofio bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn derbyn hyn, yna pam ydyn nhw'n blaenoriaethu iaith a diwylliant i'r fath raddau, a thrwy hynny awgrymu diffiniad gwrthrychol, homogenaidd o ddiwylliant cenedlaethol?

Mae yna hefyd ragdybiaeth gwallus yn nadl Gerson & Rubin. Hynny yw: y rhagdybiaeth bod hunaniaeth genedlaethol, o ganlyniad i fod yn dychmygol, hefyd yn *rhithiol*. Gellir amlygu natur wallus y dryswch hwn a'r goblygiadau ffals sy'n deillio ohono yn glir pan fydd rhywun yn ystyried eu dadl yng ngoleuni perthynoledd ieithyddol. Os yw iaith yn angori llinach hanesyddol pobl, yna hyd yn oed os mai moderneiddio sy'n egluro ymddangosiad ymwybyddiaeth fwy eglur o undod diwylliannol ac ieithyddol, nid yw hyn yn dod i fodolaeth o fewn gwagle.

Ar ben hynny, nid yw hyd yn oed yn wir bod diwylliant cenedlaethol wedi ymddangos dim hwyrach na'r Chwyldro Ffrengig mewn modd *ex nihilo*. Fel y sefydlodd gwaith arloesol Anthony Smith: ni ellir deall natur 'dychmygol' a 'modernaidd' hunaniaeth genedlaethol ar wahân i symbolau, gwerthoedd a thraddodiadau ethnig 'go iawn' a hanesyddol. Yn hytrach, yn fwy aml na pheidio, mae'n seiliedig ar ymwybyddiaeth cenedlaethol sy'n olrhain nodweddion diwylliannol go iawn. Mae'n werth pwysleisio hefyd: yn achos llawer o ddiwylliannau cenedlaethol lle mae egwyddorion cyfiawnder ieithyddol yn berthnasol iddynt, bod eu hymgyrch am gydnabyddiaeth wleidyddol yn cael eu sbarduno gan ymwrthod ymwybodol â pholisïau cymathu y wladwriaeth. Mae hyn oherwydd bod eu hunaniaethau cynhenid eu hunain wedi bodoli o flaen llaw, yn hytrach na'u bod wedi dod i fodolaeth gyda'r mesurau gwladwriaeth-saerïo (*state building*) o dan sylw: i'r gwrthwyneb, maent wedi'u *heithrio* ohono. Yn wir, mae hyn yn rhan fawr o'u hysfa am gydnabyddiaeth ddiwylliannol: mae angen cyfundrefnau hawliau diwylliannol / ieithyddol ar eu cyfer yn union oherwydd eu bod wedi cael eu heithrio yn y prosesau modernaidd hyn.¹⁰¹¹

I grynhoi natur wallus y dybiaeth hon, felly: mae Gerson a Rubin wedi cyflawni'r gwall rhesymegol genetig (*genetic fallacy*). Dyma'r gwall lle mae rhywun yn tybio bod dangos sut y tarddodd cred rhywsut yn dangos o ganlyniad bod y gred honno yn annilys. Mae'n amlwg nad yw hyn yn dilyn: mae'n rhesymegol gyfwerth â'r ddadl ganlynol. 'Mae eich cred y bydd Chelsea yn ennill yr uwch gynghrair yn seiliedig ar ofergoeliaeth; felly, ni fydd Chelsea yn ennill yr uwch gynghrair'. *Non-sequitur* ysgubol os bu un erioed.

Mae'r trydydd gwrthwynebiad, cofiwch, yn ymwneud â essentialieiddio. Dyma'r gwrthwynebiad bod cymaint o amrywiaeth a gorgyffwrdd o fewn ac ar draws diwylliannau cenedlaethol, nes bod honni eu bod yn tueddu bod yn seiliedig ar iaith neu hanes gyffredin yn gyfystyr â 'essentialieiddio'. Beth am aelodau o ddiwylliannau o'r fath sydd ddim yn credu bod eu hiaith na'u hanes yn berthnasol i'w diwylliant? Ar ben hynny, mae'r gwahaniaethau ymhlith yr aelodau o ran beth sy'n berthnasol i'w hunaniaeth, a'r gwahaniaethau ymddygiadol yn eu plith, mor heterogenaidd, ac yn gorgyffwrdd cymaint â diwylliannau eraill, nes y byddai honni eu bod yn seiliedig ar nodweddion mor wrthrychol ag iaith neu hanes yn fater o'i essentialieiddio.

Fodd bynnag, mae ystyriaeth o berthynoledd ieithyddol a'i oblygiadau yn datgelu'r pwynt canlynol. O'r ffaith nad yw pawb yn gweld eu hiaith a'u hanes fel rhan bwysig o'u hunaniaeth, nid yw'n dilyn eu bod yn iawn am hyn. I weld sut felly, rhaid ailedrych yn ôl yn fras ar oblygiadau perthynoledd ieithyddol. Mae perthynoledd ieithyddol yn honni bod yr adnoddau cysyniadol sydd wedi cronni yn hanesyddol wedi'u hymgorffori mewn iaith ac yn dylanwadu ar feddyliau'r siaradwyr. Mae hyn yn golygu bod prif elfen hunaniaethau personol pobl - eu meddyliau - hefyd yn cael eu treiddio gyda'r nodweddion diwylliannol hynny, gan eu bod yn meddwl trwy'r cysyniadau sydd wedi'u hymgorffori yn eu hiaith. Unwaith eto, mae hyn yn darparu'r cyd-destun blaenorol lle mae pobl yn datblygu credoau ac arferion eraill y maent yn eu hystyried yn berthnasol i'w hunaniaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn eilradd o'u cymharu ag iaith (a'r llinach hanesyddol y mae'n ei hymgorffori).

Ymddengys bod datrysiad Kymlicka yn iawn, felly, cyhyd â'i fod yn cael ei ystyried law yn llaw â pherthynoledd ieithyddol yn y ffordd a fynegir uchod. Datrysiad Kymlicka, cofiwch, yw bod diffinio diwylliannau cenedlaethol yn nhermau nodweddion gwrthrychol fel iaith yn caniatáu digon o undod mewnol tra hefyd yn caniatáu amrywiaeth a gorgyffwrdd â diwylliannau eraill. Pe bai'n wir y gallai iaith gael ei phwysoli'n gyfartal â'r nodweddion diwylliannol eraill, yna byddai datrysiad Kymlicka wir yn gwrthdaro â'r broblem o essentialieiddio, gan na fyddai unrhyw reswm i ystyried iaith fel angor i ddiwylliannau a fyddai fel arall yn gorgyffwrdd yn ormodol a'i gilydd. Yn y fath sefyllfa, dim ond un elfen ymhlith lluo o ffactorau eraill fyddai iaith; a byddai ei blaenoriaethu wir yn fympwylol (*arbitrary*)

¹⁰ Rwy'n ddiolchgar i Huw Williams am y pwynt hwn.

¹¹ Gweler J.R. Jones (1966) am amlygiad o'r broblem hon yng nghyd-destun y Cymry.

o ystyried nad yw holl aelodau'r grŵp hyd yn oed yn ystyried eu hiaith i fod yn berthnasol, heb sôn am ganolog, i'w hunaniaeth.

Fodd bynnag, gellir defnyddio perthynoledd ieithyddol, fel yr ydwyf wedi dadlau, fel sail resymegol ar gyfer diffiniad Kymlicka a chenedlaetholwyr rhyddfrydol eraill o ddiwylliant, sy'n cyfeirio at nodweddion gwrthrychol fel iaith a dehongliad hanesyddol. Oblegid mae'n dangos bod iaith yn rhagflaeni'r nodweddion eraill a ystyrir gan nifer i fod yn berthnasol i'w hunaniaeth a diwylliant. Mae hefyd yn amlygu'r ffaith bod cysyniadau, agweddau, ymadroddion, a chredoau diwylliannol sydd wedi'u cronni yn hanesyddol wedi'u hymgorffori mewn iaith; a dengys hyn nad yw iaith, diwylliant na hanes yn ddatgysylltiedig oddi wrth ei gilydd megis nodweddion posib yn hytrach nag annatod o ddiwylliant.

§4.1. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol at Ddarlun Patten o Ddiwylliant

Mae darlun 'llinach gymdeithasol' (*social lineage*) Alan Patten (2011; 2014) o ddiwylliant yn fwy hollgynhwysol na darlun Kymlicka; ac fe'i gyflwynwyd fel ymateb i'r cyhuddiad uchod o essentielleiddio. Yn hytrach na seilio diwylliant yn benodol ar e.e. iaith, credoau, neu dir, mae'n cynnig safbwynt 'an-hanfodol' sy'n pwysleisio llinach gymdeithasol a chymdeithasoli o fewn ac ar draws cenedlaethau. Yn ei *Equal Recognition* (2014), er enghraifft, mae'n honni bod diwylliant wedi'i gyfansoddi o 'an unbroken chain of intergenerational transmission' (Patten 2014: 50) yn y synnwyr bod 'one generation of a culture is controlling the socialization of a new generation or group of newcomers', gan ddarparu cyd-destun ffurfiannol cyffredin i'r newydd-ddyfodiaid hynny (ibid.). Nid yw hyn yn gofyn am iaith unigryw nac unrhyw set benodol o gredoau neu arferion; yn hytrach, mae ond yn gofyn am linach o barhad diwylliannol rhwng y cenedlaethau, a gynhaliwyd gan arfer o gymdeithasoli'r aelodau o fewn fframwaith ffurfiannol megis addysg, cyfreithiau, sefydliadau, neu llinach deuluol.

Mae darlun Patten yn sicr yn fanteisiol i'r graddau ei fod yn cydnabod yr ystod amrywiol o brosesau a all gyfrannu at y fframweithiau ffurfiannol sy'n diogelu bodolaeth barhaus diwylliannau, gan osgoi'r cyhuddiad o essentielleiddio ar yr un pryd. Serch hynny, mae ystyriaeth o berthynoledd ieithyddol yn creu amheuaeth ynghylch pa mor berthnasol yw ei *raison d'être* - sef osgoi essentielleiddio. Oblegi fel y soniwyd eisioes, mae goblygiadau perthynoledd ieithyddol yn datgelu nad yw blaenoriaethu iaith dros nodweddion diwylliannol eraill yn arwain at y gwall o 'essentielleiddio' yn y lle cyntaf. Er nad yw rhai aelodau o ddiwylliannau sy'n rhannu iaith unigryw yn gweld yr iaith honno'n ganolog i'w hunaniaeth, nid yw'n dilyn eu bod yn gywir am hyn. Y gwir yw bod perthynoledd ieithyddol yn dangos bod iaith (sy'n ymgorffori diwylliant a llinach hanesyddol) yn dylanwadu ar brosesau meddwl pobl yn unol â nodweddion diwylliannol eu cymuned ieithyddol; ac ni ellir gwadu bod hyn yn ganolog i'w hunaniaeth oherwydd mai'r meddwl yw prif nodwedd hunaniaeth bersonol.

Byddai'n bosib gwrthwynebu bod yna lawer o ddiwylliannau cenedlaethol lle nad yw iaith mewn gwirionedd yn ganolog i'w hunaniaeth: er enghraifft, diwylliannau sy'n siarad *lingua franca* fel prif iaith. Ystyriwch America neu Awstralia, er enghraifft: eu prif iaith swyddogol *de facto* yw Saesneg, ond eto, byddai'n afresymol awgrymu eu bod felly'n rhannu'r un hunaniaeth ddiwylliannol gan eu bod yn siarad Saesneg. Yn wir, awgryma'r ffaith mai Saesneg yw prif iaith yr Eingl-sffêr gyfan nad yw Saesneg yn berthnasol o gwbl i'r hunaniaethau cenedlaethol o dan sylw. O hyn, gellir dod i'r casgliad bod Patten yn iawn i dybio bod seilio diffiniad o ddiwylliant ar e.e. iaith yn afrealistig ac yn enghraifft o essentielleiddio.

Mae yna ddau ymateb i'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r cyntaf yn ymwneud â gwahaniaethu rhwng ieithoedd. Fel y gwelsom ym Mhennod 2, mae'n aml yn wir bod yr hyn sy'n cael ei gydnabod yn *ffurfiol* fel un iaith mewn gwirionedd yn gategori ymbarél ar gyfer gwahanol fathau o ffurfiau o ieithoedd sy'n gallu amrywio'n helaeth. Er enghraifft, mae Arabeg yn cael ei chydabod yn ffurfiol fel

un iaith; ac eto mae cymaint o amrywiad traws-ranbarthol ar draws tafodieithoedd Arabeg nes eu bod yn aml yn annealladwy i'w gilydd. Mae categorieiddio gwahanol ffurfiau ar iaith mewn i naill ai tafodieithoedd neu ieithoedd unigryw a gydnabyddir yn ffurfiol, felly, yn aml yn seiliedig ar feini prawf gwleidyddol yn hytrach nag ieithyddol. Byddai braidd yn gamarweiniol, felly, priodoli undod ieithyddol llwyr ar draws yr Eingl-sffêr gyfan: byddai'n anwybyddu'r ffaith bod Saesneg wedi cael ei hail-lunio a'i phlwyfo dro ar ôl tro ar draws diwylliannau gwahanol.

Yr ail ateb cysylltiedig, yw bod defnyddio diffiniad tebygrwydd teuluol yn ein galluogi i gydnabod nad oes gan y cysyniad o ddiwylliant cenedlaethol, fel y mwyafrif o gysyniadau eraill, ffiniau pendant. Felly er bod iaith yn rhan o bob diwylliant cenedlaethol, bydd ei pherthnasedd yn cael ei bwysoli'n wahanol ar draws gwahanol genhedloedd, yn ôl a yw'r iaith yn frodorol, unigryw i'r diwylliant hwnnw, yntau'n *lingua franca*. Fel y soniwyd uchod, mae *linguae francae* yn berthnasol i'r graddau eu bod wedi'u plwyfo yng nghyd-destunau y diwylliannau eraill, ond serch hynny, gall eu perthnasedd fod yn gymharol gyfyngedig, gan nad yw'r iaith wedi gwreiddio'n hanesyddol nac un unigryw i'r siaradwyr i'r un graddau a ieithoedd brodorol. Mae iaith Gwlad yr Iâ neu'r Gymraeg, er enghraifft, yn amlwg yn fwy perthnasol i ddiwylliannau cenedlaethol Gwlad yr Iâ a Chymru nag y mae Saesneg Awstralia i hunaniaeth Awstralia, oherwydd eu bod yn unigryw i'r diwylliannau, yn frodorol, ac wedi cael eu siarad fel ieithoedd brodorol am lawer iawn o amser, a thrwy hynny ymgorffori mwy o dreftadaeth ddiwylliannol.

A yw hyn yn dal i'n gadael gyda'r broblem a nododd Patten (2014); sef nad oes gennym fawr ddim sail dros wahaniaethu rhwng gwahanol ddiwylliannau? Ac *a fortiori*, a yw'r dull tebygrwydd teuluol - sy'n osgoi'r cyhuddiad o essentialieiddio - yn caniatáu cymaint o hyblygrwydd a dealltwriaethau dargyfeiriol o ran pa nodweddion sydd fwyaf perthnasol i ddiwylliant cenedlaethol nes ein bod yn dychwelyd i sgwâr un, fel petai, wrth fethu â esbonio dyfalbarhad diwylliannau dros amser, fel y mae Moore (2020) yn pwysleisio?

Nid felly. Rhan o arwyddocâd diffiniad tebygrwydd teuluol Wittgenstein yw'r ffordd y mae'n dangos nad oes *angen* diffinio pethau mewn termau unfath, cyffredinol, yn y rhan fwyaf o achosion yn y lle cyntaf. Y gwir amdani yw: mae'n berffaith bosib cyfeirio at enghreifftiau o'r mwyafrif o gysyniadau heb allu darparu diffiniadau; a nid yw'r cysyniad o ddiwylliant cenedlaethol yn ddim gwahanol yn hyn o beth. Sut arall y byddai Patten yn gallu honni bod 'the contours of shared cultures are going to look nothing like the contours of the groups that are typically thought of as cultures' (2011: 737) cyn cynnig ei diffiniad ei hun, petai e ddim eisoes yn deall y cysyniad?. Yn wir, yng nghyd-destun y 'craving for generality' hwn y datblygodd Wittgenstein y model tebygrwydd teuluol (1953: §66).

Yr hyn y mae'r bennod hon wedi'i ddadlau hyd yn hyn yw bod angen pwysleisio iaith yn llawer cryfach a'i phwysoli'n llawer trymach mewn cyfrifon o hunaniaeth ddiwylliannol / diwylliant cenedlaethol. Dyw hyn, fodd bynnag, ddim ar gyfer y pwrpas o allu darparu diffiniad cynhwysfawr - sydd fel arfer yn ddiangen yn y lle cyntaf. Yn hytrach, mae er mwyn tynnu sylw at y clystyru angenrheidiol rhwng iaith, diwylliant a hanes - fel y dangosir gan berthynoledd ieithyddol - er mwyn (1) cydgrynhoi'r dimensiwn gwrthrychol i hunaniaethau cenedlaethol; a (2) cyfiawnhau ac egluro natur a pherthnasedd y darlun cyfansoddiadol o iaith.

Dylai barn tebygol Patten o iaith ei orfodi i dderbyn perthynoledd ieithyddol fel canlyniad rhesymegol ohono beth bynnag. Fel y gwelsom ym Mhenodau 2 a 3, mae perthynoledd ieithyddol yn ganlyniad rhesymegol i'r darlun cyhoeddus, cymdeithasol o ystyr ieithyddol. Mae'n rhaid bod Patten yn derbyn y farn bod ystyr ieithyddol yn gyhoeddus [ac felly perthynoledd ieithyddol], oherwydd ei fod yn dyfynnu Clifford Geertz (1973: 12), sy'n ysgrifennu bod 'culture is public because meaning is'. Gan gytuno gyda Geertz, ysgrifenna Patten: 'Geertz draws on well-known accounts in the philosophy of language to argue that the meaning of words is settled publicly, by social conventions, and not by agreement of private beliefs' (Patten 2011: 2). Ar ben hynny, mae Patten wedi ysgrifennu mewn modd cymeradwyol am genedlaetholdeb ieithyddol Herder (Patten 2010, 2006) a swyddogaethau

cyfansoddiadol iaith – er nad yw e'n ei fframio yn nhermau perthynoledd ieithyddol mewn unrhyw ffordd allblyg.

Mae cydnabod y ffaith o berthynoledd ieithyddol, ynghyd â'r ffaith nad yw diffiniadau fel arfer yn unfath nac yn gynhwysfawr yn y lle cyntaf, yn dileu'r broblem o 'essentialeiddio' a achosodd Patten i gyflwyno ei ddiffiniad 'llinach gymdeithasol' er mwyn ceisio ei osgoi. Nid yw'r fath gamgymeriad â 'essentialeiddio' yn cael ei gyflawni yn y lle cyntaf trwy bwysleisio iaith fel un o brif nodweddion diwylliant cenedlaethol, fel y mae Kymlicka a chenedlaetholwyr rhyddfrydol eraill yn ei wneud. Fel y dangosa perthynoledd ieithyddol, mae iaith fel arfer yn ganolog i hunaniaeth ddiwylliannol a phersonol; a lle nad oes gan ddiwylliant penodol iaith hollol unigryw yn gysylltiedig â hi, gellir esbonio hyn yn nhermau'r diffiniad tebygrwydd teuluol, sy'n caniatáu gwahaniaethau ac eithriadau i'r rheol.

§5. Dau Wrthwynebiad Pellach i'r Defnydd o Berthynoledd Ieithyddol fel Dolen Gyswilt

Gan fod y bennod hon wedi gwneud sawl datganiad a ellir eu gweld yn anghonfensiynol o gryf ynghylch y graddau mae iaith yn cario treftadaeth ddiwylliannol ei siaradwyr, mae'n werth ystyried rhai gwrthwynebiadau pellach. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chenedloedd amlieithog: os yw iaith i fod i dderbyn cymaint o bwyslais yn nehongliadau cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol, sut fyddai hyn yn gweithio mewn cenedloedd nad yw eu hunaniaethau diwylliannol / gwleidyddol wedi'u hadeiladu o amgylch un iaith, fel y Swistir, Serbia, a Montenegro, i enwi ond rhai?¹² Cymerwch hunaniaeth ddiwylliannol Gwlad Belg, er enghraifft: mae dros hanner Gwlad Belg yn siarad Iseldireg tra bod dros draean yn siarad Ffrangeg. Ac eto, os yw iaith yn ganolog i hunaniaeth ddiwylliannol Gwlad Belg, pa iaith ddylai gael blaenoriaeth? Gan fod Ffrangeg ac Iseldireg yn adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau yn ôl y safbwynt perthynoledd ieithyddol, byddai'n ymddangos braidd yn ddi-sail i gysylltu'r naill ond nid y llall â diwylliant cenedlaethol Gwlad Belg.

Yr ateb symlaf i'r gwrthwynebiad hwn yw: gan fod Gwlad Belg yn wladwriaeth aml-genedlaethol wedi'i rhannu'n diriogaethol ac ethno-ieithyddol rhwng Fflandrys a Wallonia, mae diwylliant cenedlaethol Gwlad Belg yn gategori ymbarél sy'n cwmpasu'r Fflemeg a Ffrangeg. Nid yw hyn yn awgrymu bod hunaniaeth gyffredinol Gwlad Belg yn gwbl 'civic', o gofio bod Gwlad Belg yn rhannu gwerth bron i ddwy ganrif o hanes a thraddodiad crefyddol Catholig blaenorol, i enwi un enghraifft. Fodd bynnag, gellir dadlau serch hynny bod Fflandrys a Wallonia yn parhau i fod yn ddwy genedl wahanol o ystyried eu gwahaniadau diwylliannol-ieithyddol a'r gefnogaeth gynyddol o blaid annibyniaeth i Fflandrys, fel y gwelwch yn etholiadau 2019 lle daeth y pleidiau cenedlaetholdeb Fflemeg N-VA a Vlaams Belang yn fuddugol yn y poliau.

Mae perthynoledd ieithyddol yn ategu'r achos o blaid categoreiddio e.e. Fflandrys a Wallonia fel dwy is-wlad wahanol gyda gwahanol hunaniaethau cenedlaethol; fodd bynnag, nid yw hyn yn gwadu bod yr hunaniaethau hyn hefyd yn gorgyffwrdd â hunaniaeth gwladwriaethol ehangach Gwlad Belg. Er bod diwylliant gwladwriaeth Gwlad Belg yn llai 'sylweddhaidd' na'r hunaniaethau Fflemeg a Walwnaidd mae'n eu cwmpasu, mae hyn yn gwbl gyson â'r ffaith bod nifer yn ei ystyried fel categori hunaniaeth ehangach o fewn strwythur 'hunaniaeth nythol' (*nested identity*). Er enghraifft, er bod arolygon yn dangos bod ~ 30% o bobl Fflandrys yn ystyried eu hunain yn Fflemeg yn bennaf neu'n gyfan gwbl, dim ond ~ 27% sy'n uniaethu'n bennaf neu'n gyfan gwbl gyda Gwlad Belg (Brigevich 2016). A dim ond ~ 6% a ~ 12% sy'n uniaethu gyda'r hunaniaeth Fflemeg neu Wlad Belg yn *unig*, yn y drefn honno (ibid.). Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl Fflandrys - i gymryd un enghraifft - yn ystyried eu hunain fel Pobl Fflemeg a Belgaid o fewn strwythur hunaniaeth nythol, lle mae'r categori ehangach o hunaniaeth Gwlad Belg yn cael ei gyfyngu trwy'r hunaniaeth ddiwylliannol-

¹² Rwy'n ddiolchgar i David Miller am y pwynt hwn.

ieithyddol Fflemeg. Nid yw perthynoledd ieithyddol yn gwadu posibilrwydd na bodolaeth hunaniaethau aml-haenog o'r fath; yn hytrach, mae ond yn pwysleisio amlygrwydd ac arwyddocâd iaith o fewn strwythurau aml-haenog o'r fath.

Yr ail wrthwynebiad yn erbyn defnyddio perthynoledd ieithyddol fel dolen gyswllt esboniadol yw hyn. Os cyfaddefir bod perthynoledd ieithyddol yn medru cael ei gymhwyso at dafodieithoedd o ieithoedd ffurfiol (ee Saesneg Awstralia neu Ffrangeg *Quebécois*), onid yw hyn yn agor y gatiau i nifer di-ri o enghreifftiau pellach, megis jargon o fewn grwpiau cefnogi pêl-droed, neu fusnesau? Hynny yw: os gellir cymhwyso perthynoledd ieithyddol i nifer amhenodol o grwpiau cymdeithasol, yna sut mae perthynoledd ieithyddol i fod i gyfiawnhau darlun y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o *ddiwylliant cenedlaethol yn benodol*, a'u dadl y dylai'r wladwriaeth ei hyrwyddo a'i flaenoriaethu dros enghreifftiau eraill o ddiwylliant anghenedlaethol?

Rhaid pwysleisio fan hyn bod y graddau y mae ieithoedd naturiol yn cario diwylliant eu siaradwyr yn llawer uwch na slang neu jargon o fewn grwpiau megis cefnogwyr pêl-droed. Mae ieithoedd yn ymestyn yn ôl am ganrifoedd neu filenia, ac felly mae'r graddau y maent yn ymgorffori diwylliant eu siaradwyr yn anghymesur i gymharu a'r graddau y gall hyn ddigwydd o fewn grwpiau cefnogwyr pêl-droed. Ymhellach, mae'r ystod o dreftadaeth ddiwylliannol y mae iaith yn ei gynnwys yn llawer mwy cynhwysfawr na grwpiau diddordeb lle mae eu cysylltiad â hunaniaeth genedlaethol yn ddibwys ar y gorau. Yng ngeiriau Kymlicka: mae diwylliant cenedlaethol ['cymdeithasol'] yn 'provides its members with meaningful ways of life across the full range of human activities, including social, educational religious, recreational and economic life, encompassing both public and private spheres' (1995: 76).

Ni ellir dweud yr un peth am fathau eraill o ddiwylliant, sydd yn llawer llai cynhwysfawr. Er bod yna rai eithriadau rhannol i'r rheol yma, megis defosiwn crefyddol¹³, mae'r rhain serch hynny o reidrwydd yn digwydd yng nghyd-destun ehangach yr iaith, sydd ynddo'i hun yn darparu'r fframwaith cysyniadol parod y mae'r mynegiant crefyddol yn digwydd drwyddo. Felly nid yw defnyddio perthynoledd ieithyddol fel cyfiawnhad dros (1) gonsolideiddio'r dimensiynau gwrthrychol i ddiwylliant cenedlaethol (iaith a hanes), ac (2) annatodrwydd iaith, diwylliant a hunaniaeth bersonol, yn creu unrhyw broblem o esbonio gormod a thrwy hynny esbonio dim, fel petai. Oherwydd, fel y soniwyd, mae'r graddau y mae iaith yn ymgorffori diwylliant cenedlaethol yn gorbwysu'r graddau y mae'n ymgorffori mathau eraill o ddiwylliant nad oes a wnelont fawr ddim â chenedligrwydd nac ethnigrwydd.

Casgliad

Mae'r darlun cyfansoddiadol o iaith a ragdybir gan ddamcaniaethwyr hawliau iaith rhyddfrydol (sy'n dadlau o blaid *sfêr* gyhoeddus amlieithog) yn dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol. Pe bai'n anwir bod iaith yn ymgorffori diwylliant ei siaradwyr, ac yn dylanwadu ar eu prosesau meddwl yn unol â hynny, byddai'n anodd gweld pam y dylid rhoi unrhyw bwys mawr ar iaith yn y drafodaeth

¹³ Mae hefyd yn bwysig peidio ag anwybyddu'r ffaith bod hunaniaethau cenedlaethol yn aml yn rhyngweithio â hunaniaethau crefyddol ac yn cael eu cyfryngu trwyddynt i'r fath raddau bod tynnu ffin gref rhyngddynt yn gamarweiniol. Yn achos Cymru, er enghraifft, mae'r Gymraeg yn rhemp â chysyniadau ac idiomaau Cristnogol. Yn unol â barn Wittgensteinaidd bod iaith wedi'i wreiddio mewn arferion, gellir dod i'r casgliad bod hyn oherwydd bod Cristnogaeth wedi chwarae rhan ganolog yn hunaniaeth genedlaethol Cymru ers dwy fileniwm. Er enghraifft, cafodd y bobloedd Brythonig - hynafiaid diwylliannol-ieithyddol uniongyrchol y Cymry a boblogodd dir Prydain cyn i'r goresgyniadau Sacsonaidd ddechrau - eu Cristnogeiddio yn y ganrif 1af o dan wladychiaeth y Rhufeiniaid. Yna, yn 1588, cyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg a'i ddosbarthu ar draws holl eglwysi Cymru yn fuan wedi hynny; safonodd hyn yn ei dro yr iaith Gymraeg mewn dull Cristnogol i raddau helaeth. Yn olaf, chwaraeodd Anghydfurfiaeth Brotestannaidd Gymraeg ran ganolog yn adfywiad ymwybyddiaeth genedlaethol Cymru, a oedd ei hun yn annatod â'r iaith, yng nghanol y 19eg ganrif a thu hwnt (Morgan 1982).

ynghylch cydnabyddiaeth gyhoeddus o ddiwylliannau cenedlaethol yn y lle cyntaf. Byddai iaith a diwylliant yn ddatgysylltiedig oddi wrth ei gilydd, ac ni fyddai iaith yn rhan sylweddol o hunaniaeth bersonol: gallai un iaith gael ei disodli gan iaith arall, a *ceteris paribus*, byddai hunaniaeth ddiwylliannol y siaradwyr yn aros yn ei le.

Mae'r math o ddadleuon sy'n seiliedig ar hunaniaeth hefyd yn cael eu llywio i raddau helaeth gan gysyniad y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol, lle mae iaith fel arfer yn cael ei chyflwyno fel nodwedd ganolog ohono. Mae'r pwysigrwydd mae damcaniaethwyr hawliau iaith yn priodoli i gydnabyddiaeth wleidyddol ieithoedd lleiafrifoedd cenedlaethol hefyd yn tueddu i gael ei ysbrydoli gan ddadl y cenedlaetholwyr rhyddfrydol bod ymlyniad i ddiwylliant iach, a chydnabyddiaeth gyhoeddus o'r diwylliant hwnnw, yn rhag-amod angenrheidiol o ryddid yr unigolyn a chyfiawnder. Fel y gwelsom, fodd bynnag, nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o berthynoledd ieithyddol na'i oblygiadau ymhlith cenedlaetholwyr rhyddfrydol na damcaniaethwyr hawliau iaith. Mae hyn yn broblemus oherwydd bod eu dadleuon yn rhagdybio'r cysylltiad rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth bersonol – ac mae eu gwirionedd hwy yn dibynnu ar wirionedd cyfatebol perthynoledd ieithyddol. Nid yw'r rhagdybiaethau hyn yn wallus; ond heb gydnabod natur, tystiolaeth, a goblygiadau perthynoledd ieithyddol ar gyfer hunaniaeth ddiwylliannol a phersonol, erys eu dadleuon ar seiliau sigledig, ac yn agored i'r gwrthwynebiadau a archwiliwyd uchod.

Rwyf wedi dadlau mai'r ffordd i gryfhau'r sylfeini hynny yw pwysleisio bod perthynoledd ieithyddol yn tynnu sylw at annatodrwydd iaith, diwylliant a hanes. Mae hyn yn ei dro yn egluro'r cysylltiad rhwng diwylliant cenedlaethol a hunaniaeth bersonol. Mae cysyniadau sy'n deillio o normau diwylliannol ac ymddygiadol y siaradwyr (hanesyddol a phresennol) wedi'u hymgorffori mewn iaith; rydym yn meddwl trwy gysyniadau; a meddwl yw nodwedd fwyaf canolog hunaniaeth bersonol.

Ar ben hynny, gellir defnyddio annatodrwydd iaith, diwylliant a hanes i dynnu'r carped oddi tan y dadleuon cyffredin sy'n apelio at y syniad lluniadaethol a modernaidd bod diwylliant cenedlaethol yn ddyfais diweddar heb unrhyw wrthrychedd er mwyn sbarduno eu gwrthwynebiadau o 'ddiffyg democrataidd' a blaenoriaethu diwylliant cenedlaethol heb sail. Ar wahân i'r ffaith bod lluniadaeth o'r fath eisoes wedi'i thanseilio'n derfynol gan yr hanesydd Anthony Smith (1998), mae perthynoledd ieithyddol hefyd yn consolidateiddio gwrthrychedd diwylliant cenedlaethol. Mae'r cysyniadau y mae iaith yn eu hymgorffori yn deillio o normau ymddygiadol a diwylliannol hanesyddol a phresennol ei siaradwyr. Yn hynny o beth, mae iaith yn gyfrwng ar gyfer parhad diwylliannol gwrthrychol ar draws cenedlaethau.

Gellir gweld, felly, nad oes unrhyw reswm pam y dylid rhoi'r gorau i ddadleuon wedi'i seilio ar hunaniaeth o blaid sffêr gyhoeddus amlieithog a'u cyfnewid am ddadleuon offerynnol-eu-seiliau, fel y dadleua Rubin (2017). Cyn belled â bod natur a goblygiadau perthynoledd ieithyddol yn cael eu cydnabod, bydd modd egluro llawn berthnasedd a manteision dadleuon o'r fath mewn modd mwy perswadiol, o ystyried eu sylfeini cadarnach. Mewn modd tebyg, dangosir bod y ddadl cenedlaetholdeb rhyddfrydol o blaid sefydliadu diwylliant cenedlaethol (sydd fel arfer yn cynnwys iaith) yn dwyn llawer mwy o berswâd o ystyried bod perthynoledd ieithyddol yn atgyfnerthu gwrthrychedd a chanologrwydd diwylliant cenedlaethol i hunaniaeth bersonol.

Pennod 5: Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Chenedlaetholdeb Ceidwadol: Gwahaniaethiad Camarweiniol?

Cyflwyniad

Nawr bod perthnasedd perthynoledd ieithyddol i'r darlun cyfansoddiadol o iaith a chenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi'i ddwyn i'r wyneb, mae'n briodol gofyn: pa oblygiadau sydd gan berthynoledd ieithyddol at y rhan *rhyddfrydol* o genedlaetholdeb rhyddfrydol? Mae'r myfyrdodau ar berthynoledd ieithyddol a archwiliwyd hyd yn hyn yn ein gorfodi i ailfeddwl rhai o ddaliadau allweddol y drafodaeth athroniaeth wleidyddol gyfoes. Fel y dangosaf yn y bennod hon, mae perthynoledd ieithyddol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd yr ydym yn edrych ar ragdybiaethau ideolegol cenedlaetholdeb rhyddfrydol. Mae'n helpu i ddatgelu bod yna orgyffwrdd aruthrol rhwng cenedlaetholdeb rhyddfrydol a cheidwadaeth gymdeithasol (*social conservatism*), ac felly bod angen i genedlaetholdeb rhyddfrydol geisio darganfod ffyrdd eraill o wahaniaethu ei raglen ideolegol.

Prima facie, gall ymddangos bod y term 'cenedlaetholdeb rhyddfrydol' yn wrth-ddwywediad (*contradiction*) sythweledol. Onid yw hyrwyddiad y wladwriaeth o ddiwylliant cenedlaethol yn agenda geidwadol yn ei hanfod, o ystyried ei fod o reidrwydd yn ceisio *cadw*'r diwylliant hwnnw? Byddai rhagdybiaeth o'r fath, fodd bynnag, yn gamarweiniol, gan nad yw mudiadau cenedlaetholgar - p'un ai bod yn hyrwyddo annibyniaeth, mwy o ymreolaeth, cyrbau mewnfudo, mwy o sefydliadoli diwylliant cenedlaethol, neu fel arall - byth yn ymddangos ar eu pennau eu hunain. Yn hytrach, maent yn ddiethriad yn gorgyffwrdd ac yn plethu gydag un o'r ideolegau rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth neu sosialaeth.

Ystyriwch Wlad Belg a Chymru, er enghraifft: er bod cenedlaetholdebau 'annibyniaeth' *Vlaams Belang* ac i raddau llai N-VA yn dra-geidwadol, mae eu cyferth Cymreig - Plaid Cymru - yn fframio eu hagenda polisi mewn termau lled-ryddfrydol a chymdeithasol-ddemocrataidd. Mae hyd yn oed llywodraeth canol-chwith Denmarc wedi cefnogi cyfyngiadau mewnfudo tynnach yn ddiweddar, gyda'r Prif Weinidog Mette Frederiksen yn datgan nod i leihau'r niferoedd o geisiadau lloches i ddim oherwydd eu bygythiad i gydlyniant cymdeithasol¹⁴. Mae'r rhain, ymhlith amwyseddau eraill, yn agor y drws i'r angen am archwiliad manwl o beth, yn union, sy'n rhyddfrydol am genedlaetholdeb rhyddfrydol; yn ogystal ag archwiliad o berthnasedd perthynoledd ieithyddol at y cwestiwn hwn.

Cenedlaetholdeb rhyddfrydol, cofiwch, yw'r farn bod rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb yn gyson â'i gilydd, a bod diwylliant cenedlaethol yn angenrheidiol er mwyn i ryddfrydiaeth gyflawni ei nodau gwleidyddol. Mae wedi profi atgyfodiad o ddiddordeb yn ddiweddar (e.e. Erez 2018; Lenard & Miller 2018; Gustavsson 2019; Tamir 2019; Gustavsson & Miller 2020); yn bennaf yn sgil y twf mewn pleidiau ac ymgeiswyr poblyddol y gwelwom trwy'r 2010au. Canfyddiad cyffredin yw bod y twf hwn wedi gwyntyllu fflamau hiliaeth, senoffobia, a rhagfarn crefyddol, ac wedi peri i ddatganiad diweddar Vladimir Putin (2019) bod rhyddfrydiaeth orllewinol wedi "outlived its purpose" ennill statws symbolaidd. Mae'r sylweddoliad bod cenedlaetholdeb yma i aros wedi atgyfnerthu'r angen i ddamcaniaethwyr gwleidyddol fynegi math o genedlaetholdeb sy'n gyson â'r gwerthoedd rhyddfrydol canolog mae democratiaethau rhyddfrydol yn ceisio eu hymgorffori.

O ganlyniad, mae nifer o weithiau wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar, gyda'r nod o dynnu sylw at berthnasedd cyfoes cenedlaetholdeb rhyddfrydol. Mae Tamir (2019), er enghraifft, yn dadlau y gall cenedlaetholdeb rhyddfrydol fod yn *via media* rhwng poblyddiaeth adain dde a hollfydedd (*globalism*) neo-ryddfrydol sydd wedi mynd i'w heithafion ac sydd, trwy gydol yr unfed ganrif ar hugain, wedi gwaethygu'r anghydraddoldeb rhwng y cyfoethog a'r tlawd, wedi dwysáu lefelau tloidi

¹⁴ Gweler <https://www.telegraph.co.uk/news/2021/01/23/denmarks-pm-backs-zero-asylum-seekers-lurch-right/>

cymharol, ac wedi achosi rhai newidiadau diwylliannol digroeso o fewn gwladwriaethau. Mae hi'n dadlau bod gan genedlaetholdeb rhyddfrydol y potensial i liniaru anghydraddoldeb, polareiddio gwleidyddol, diffyg ymddiriedaeth, awdurdodiaeth (*authoritarianism*), a heriau cyfoes eraill i ddemocratiaeth gynhwysol. Cyflwyna Gustavsson a Miller (2020) gyfres o erthyglau amlddisgyblaethol ar effeithiau ymlyniadau cenedlaethol ar agweddau tuag at nodau polisi lles (*welfare*); tensiynau o bosib rhwng cenedlaetholdeb rhyddfrydol a niwtraliaeth y wladwriaeth ar faterion diwylliannol; a rhesymoledd a chysonder mewnol y syniad o ddiwylliant cenedlaethol yng ngoleuni hunaniaethau cymhleth ac aml-haenog.

Un agwedd nodedig sydd ar goll o'r llenyddiaeth ar genedlaetholdeb rhyddfrydol, fodd bynnag, yw eglurder ynghylch yr hyn, yn benodol, sy'n rhyddfrydol am y diwylliant cenedlaethol mewn golwg. Sut y dylid penderfynu pa agweddau ar ddiwylliant cenedlaethol sy'n gwarantu ymgorfforiad sefydliadol neu hyrwyddiad gwladwriaethol, ac ym mha ffordd y gallai'r diwylliant hwnnw gael ei ddisgrifio'n rhyddfrydol? Fel y noda Gina Gustavsson (2019) nid oes gennym hyd hyn unrhyw egwyddorion dadansoddol ar gyfer gwahaniaethu'n fanwl gywir rhwng syniadau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol. Yn wir, prin yw'r eglurder ynghylch yr hyn sy'n rhyddfrydol o *gwbl* ynglŷn â hunaniaethau cenedlaethol a gyflwynir mewn termau rhyddfrydol.

Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn yn achosi problemau am ddau reswm. Y cyntaf yw - yn syml - gall y term 'enedlaetholdeb rhyddfrydol' droi allan i fod yn gamarweiniol ar y gorau, ac yn ffals ar y gwaethaf. Yr ail yw bod y diddordeb newydd mewn cenedlaetholdeb rhyddfrydol, fel gwrthwennwyn i boblyddiaeth asgell dde, wedi digwydd mewn cyd-destun lle mae rhyddfrydiaeth yn ei ystyr ideolegol gyfoes yn cael ei gwrthod yn agored o'r chwith, o'r dde, ac o'r canol ymhlith pleidiau ac arweinwyr poblyddol a'i pleidleiswyr. Yn wir, gydag ychydig eithriadau, ychydig iawn o bleidiau poblyddol y degawd diwethaf a gellir eu disgrifio'n rhyddfrydol. Os yw cenedlaetholdeb rhyddfrydol am bontio'r bwlch rhwng theori ac ymarfer a thrwy hynny gyflawni'r nod o liniaru polareiddio gwleidyddol, diffyg ymddiriedaeth, ac aflonyddwch cymdeithasol, yna byddai'n well bod yna ateb parod i'r cwestiwn canlynol. I ba raddau mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn gyson â'r geidwadaeth gymdeithasol (*social conservatism*) sy'n gyffredin ymysg pleidiau poblogaidd cenedlaethol a'u cefnogwyr?

Pwrpas y bennod hon yw egluro beth, os unrhyw beth, sy'n rhyddfrydol ynglŷn â'r hunaniaeth genedlaethol mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn meddwl y dylid ei hyrwyddo gan y wladwriaeth, ac i ba raddau mae hyn yn gyson a chydawns â cheidwadaeth gymdeithasol gymedrol. Mewn geiriau eraill: a all cenedlaetholdeb rhyddfrydol wrthod yr hyn a ystyrir gan bleidleiswyr poblyddol fel elfennau anffafriol rhyddfrydiaeth tra'n aros yn rhyddfrydol ar yr un pryd mewn modd cyson? Yn y bennod hon, dadleuaf fod ymdrechion diweddar i amlinellu ffiniau hunaniaeth genedlaethol ryddfrydol wedi methu amlygu unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng cyfrifon rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol. Ymhellach, mae ystyried goblygiadau perthynoledd ieithyddol yn ategu hyn, ac *a fortiori*, mae'n awgrymu bod craidd yr hunaniaeth genedlaethol dan sylw mewn gwirionedd yn fwy ceidwadol na rhyddfrydol ar y cyfan.

Gan gyfeirio at deipoleg Gina Gustavsson (2019) ar gyfer gwahaniaethu rhwng darluniau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol, ac ymdrechion Lenard (2020) a Miller (2020a, 2020b) i nodweddu hunaniaeth genedlaethol ryddfrydol benodol, byddaf yn dadlau bod eu meini prawf yr un mor berthnasol i ddarluniau ceidwadol, â rhai rhyddfrydol. O ganlyniad, maent yn methu â amlinellu ffiniau'r ffenomen darged yn iawn. Yr ateb a awgrymaf yw tynnu sylw at echel (*axis*) wahanol lle gellir gwahaniaethu cenedlaetholdeb rhyddfrydol rhag ei gymar ceidwadol: cynwysoldeb democrataidd (*democratic inclusivity*). Awgrymaf ymhellach y byddai cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn elwa o symud y pwyslais i'r dimensiwn hwn wrth fframio eu theori yn y dyfodol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ideolegol, yn ogystal â phontio'r bwlch rhwng theori ac ymarfer (e.e. polisi diwylliannol); oherwydd anaml y mae theori wleidyddol ddylanwadol wedi datblygu'n annibynnol ar weithgaredd gwleidyddol.

Mae'n werth nodi: gan fod y term 'cenedlaetholdeb rhyddfrydol' yn cwmpasu gwe o ddadleuon gan ddamcaniaethwyr nad yw eu cymhellion cefndirol a'u hymrwymiaidau ideolegol yn gorgyffwrdd ym mhob ffordd, nid yw rhychwant y bennod hon yn holl-gynhwysol o fewn y maes. Yn hytrach, yn unol â'r ysgolheictod diweddar, canolbwyntiaf ar weithiau David Miller fel prif enghraifft cenedlaetholdeb rhyddfrydol, gan eu bod yn cynnwys yr amddiffyniad mwyaf helaeth a dadansoddol o'i gysondeb mewnol, a'u perthnasedd hwy sydd wedi derbyn y mwyaf o sylw yn y dadl gyfredol. Yn gyfatebol, byddaf yn defnyddio gweithiau Roger Scruton fel prif enghraifft cenedlaetholdeb ceidwadol (neu 'wladgarwch', fel y mae'n ei alw (Scruton 2002: 29-30)), oherwydd yn yr un modd, maent yn cynnwys yr amddiffyniad mwyaf cywrain a dylanwadol o athroniaeth wleidyddol ceidwadol a'i berthnasedd cyfoes.

Bydd y bennod wedi'i strwythuro yn y modd canlynol. Mae §1 yn egluro'r berthynas rhwng cynnydd poblyddiaeth cenedlaethol a'r syniad o genedlaetholdeb rhyddfrydol fel ymateb lliniarol. Dadleua §2 fod y term 'rhyddfrydol' wedi esblygu mewn i gategori ideolegol gwahanol i'w ystyron clasurol a chymdeithasol-ddemocrataidd traddodiadol, ac mai rhyddfrydiaeth yn ei ffurf ideolegol newydd sy'n cael ei gwrthod gan bleidleiswyr poblyddiaeth. Mae §3 yn archwilio ymdrechion Gustavsson (2019), Lenard (2020) a Miller (2020a, 2020b) i amlinellu hunaniaeth genedlaethol rhyddfrydol, ac yn dadlau bod eu gwahaniaethau yr un mor berthnasol i ddarluniau ceidwadol, a thrwy hynny maent yn colli'r darged. Mae §4 yn archwilio gweithiau David Miller a Roger Scruton er mwyn dadlau mai nodau a phrosesau ffurfio diwylliant cenedlaethol - yn hytrach na'u cynnwys - sy'n wahanol ar draws dehongliadau rhyddfrydol a cheidwadol. Mae §5 yn dadlau yn erbyn ymdrechion diweddar i nodweddu hunaniaeth genedlaethol ryddfrydol fel rhywbeth sy'n perthyn i'r sffêr gyhoeddus yn unig: dadleuaf nad yw'n bosib creu rhwyg cysyniadol rhwng y sfferau cyhoeddus / preifat ar delerau cenedlaetholdeb rhyddfrydol. Mae §6 yn archwilio pwysigrwydd canolog perthynoledd ieithyddol at genedlaetholdeb rhyddfrydol, ac i ba raddau y mae'n cynnwys elfen gref o geidwadaeth gymdeithasol. Daw'r bennod i'r casgliad mai'r echel (*axis*) o gynhwysiant democrataidd (*democratic inclusivity*), yn hytrach na rhyddfrydiaeth, y dylid ei bwysleisio wrth ail-fframio'r theori yn y dyfodol.

§1. Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol fel Ateb i Boblyddiaeth Cenedlaethol

Mae'r honiad y bydd y 2010au yn cael eu cofio mewn hanes fel Oes Poblyddiaeth (Goodwin 2019) megis ymwrthodiad â rhyddfrydiaeth Orllewinol wedi cael ei wyntyllu a'i adleisio dro ar ôl tro yn ddiweddar. O ddirchafiad gwleidyddol pleidiau asgell dde a chenedlaetholgar ledled Ewrop, India, Israel a Brasil; i Brexit a Trump; i fuddugoliaeth pleidiau asgell dde yn yr Eidal, Ffrainc, Gwlad Pwyl, a Hwngari a'r DU yn etholiadau Seneddol Ewropeaidd 2019, hyd at Chega yn torri tir etholiadol newydd yn etholiad arlywyddol Portiwgal 2021, mae rhywun yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i enghreifftiau o wledydd heb eu heffeithio gan ymgeiswyr a mudiadau asgell dde, cenedlaetholgar neu boblyddol.

Mae'r union achosion yn amrywio ac yn destun dadl; fodd bynnag, ni ellir gwadu eu bod yn ymwneud â materion economaidd yn ogystal â diwylliannol, yn ymwneud i raddau helaeth â chwâl y gyfatebiaeth flaenorol rhwng strwythurau dosbarth a gwerthoedd, a chynrychiolaeth wleidyddol gynhwysol. Mae'r esboniadau sy'n seiliedig ar economeg yn gyfarwydd: mae diwygiadau neoryddfrydol fel dadreoleiddio ariannol a busnes, mwy o breifateiddio'r sector cyhoeddus, a thoriadau treth i'r cyfoethog, ynghyd â siocau argyfwng ariannol 2008 a'r sefyllfa ddilynol gyda'r Ewro, wedi erydu ymddiriedaeth yn y system wleidyddol, a thrwy hynny ysgogi ymateb poblyddol (Roubini 2016; Guiso et al. 2017; Rodrick 2018; Berman a Snegovaya 2019). Wrth i bleidiau cymdeithasol-ddemocrataidd traddodiadol symud yn barhaus i'r dde ar faterion economaidd tra'n aros ar y chwith ar faterion diwylliannol, cafodd pleidleiswyr dosbarth gweithiol traddodiadol eu datgysylltu fwyfwy â'u cysylltiadau pleidiol blaenorol. Fe greodd hyn fwlch yn y farchnad etholiadol i bleidiau poblyddol symud i'r chwith ar economeg wrth aros ar y dde ar faterion diwylliannol, a thrwy

hynny ysgogi cefnogaeth gan y dosbarthiadau gweithiol a chanol-is a gafodd eu 'gadael ar ôl' (Berman a Snegovaya 2019 , Gidron 2020).

O ran diwylliant, mae rhwyg cynyddol wedi datblygu dros y degawdau diwethaf rhwng gwerthoedd y gweithwyr proffesiynol dosbarth canol, lleiafrifoedd ethnig, a graddedigion, ac ar y llaw arall dosbarthiadau gweithiol a phleidleiswyr gwyn hŷn (Inglehart 1997; Tilley 2005; Kiss and Park 2014; Norris & Inglehart 2019; Eatwell and Goodwin 2018). Yn gyffredinol, mae'r dosbarthiadau canol + yn ystyried lefelau uchel o amlddiwylliannedd ac ymfudo fel cryfderau cymdeithasol; discrimineiddio ar sail hil, rhyw, neu rhywioldeb fel drygau hollbresennol cyfoes; a rhyddid unigol fel gwerth canolog a ddylai gael blaenoriaeth dros gysylltiadau cymunedol. Ar y llaw arall, mae'r dosbarthiadau gweithiol / canol-is a'r boblogaeth wyn hŷn yn tueddu i flaenoriaethu cysylltiadau cymunedol, hunaniaeth genedlaethol, a chyfraith a threfn, gan werthfawrogi cadwraeth ddiwylliannol dros amlddiwylliannedd ac ymfudo torfol a chyflym (Ford and Goodwin 2017; Goodwin a Heath 2016).

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y shifftiau demograffig cyflym a achosir gan fewnfudo torfol wedi tanseilio cydlyniant, ymddiriedaeth a solidariaeth gymdeithasol ymhlith cymunedau dosbarth canol-is a gweithiol yn nemocratiaethau'r Gorllewin (gweler ee Putnam 2007; Alesina a La Ferrara 2002; a Kaufmann a Goodwin 2018, Maggio 2020)¹⁵. O ystyried ei fod yn ymddangos bod cysylltiadau cymunedol ac atodiadau lleol yn dad-integreiddio, felly, nid yw'n syndod bod cenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi'i gynnig yn ddiweddar fel *via media* rhwng globalyddiaeth (globalism) neo-ryddfrydol a'r enghreifftiau adweithiol o boblyddiaeth.

Felly: mae'r dystiolaeth o gymdeithaseg wleidyddol yn dangos bod dosbarthau economaidd-gymdeithasol canol-is a gweithiol yn blaenoriaethu cysylltiadau cymunedol a hunaniaeth genedlaethol dros amlddiwylliannedd; a gwrthod mudo torfol *cyflym* a gwleidyddiaeth hunaniaeth enchwythiedig (*inflated identity politics*). Fodd bynnag, gan i'r pleidiau cymdeithasol-ddemocratiaidd prif ffrwd fod wedi tueddu i symud i'r chwith ar faterion diwylliannol ac i'r dde ar economeg, maent wedi troi fwyfwy at bleidiau poblyddol sydd wedi manteisio ar yr ymddisodliad hwn. Yn anffodus, fodd bynnag, mae dyrchafiad poblyddiaeth yn aml yn cydblethu â senoffobia, a rhagfarn diwylliannol neu grefyddol. Mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol, felly, wedi'i gyflwyno fel tir canol ideolegol, gan fod ei seiliau comiwnitariaidd yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau cymunedol a chenedligrwydd ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, tra'n ymwrthod ar yr un pryd ag elfennau mwy amheus poblyddiaeth.

§2. Esblygiad y Defnydd o'r Gair 'Rhyddfrydol'

Er mwyn gallu archwilio'r ymdrechion i ddisgrifio hunaniaeth genedlaethol rhyddfrydol mewn digon o fanylder, rhaid egluro gwahanol ystyron y term 'rhyddfrydol' a ddefnyddir ar hyn o bryd gan genedlaetholwyr rhyddfrydol ac arweinwyr poblyddol. Fel y gwelwn, mae eu priod ddefnydd o'r term yn amlweddog ac amrywiol; a heb ddealltwriaeth gywir o'r gwahanol synhwyrau a ddefnyddir, byddai'n anodd datblygu deialog adeiladol am natur a pherthnasedd cyfoes hunaniaeth genedlaethol ryddfrydol.

Mae Rhyddfrydiaeth yn gysyniad hyblyg heb ddiffiniad sefydlog ac unffurf. Er ei fod yn gysylltiedig ag unigolyddiaeth, Rheol y Gyfraith (*Rule of Law*), rhesymoliaeth, llywodraeth minimal, cydraddoldeb,

¹⁵ Er bod canfyddiadau Putnam's ac Alesina & La Ferrara wedi'i derbyn tipyn o wrthwynebiad oherwydd eu bod yn gwrthdaro ag ymchwil anghyson megis Pettigrew a Tropp (2006) a Stolle et al., mae meta-analysis wedi cael ei gyflwyno gan Kaufmann & Goodwin ers hynny sy'n dangos bod cynnydd yng shâr lleiafrifoedd y boblogaeth yn gysylltiedig â chanfyddiadau o fygythiad ymhlith y gymuned ehangach yn 71% o'r achosion. O siarad yn gyffredinol, felly, mae'n ymddangos bod newidiadau demograffig cyflym o ganlyniad i fewnfudo torfol yn peri sialens i gydlyniant cymdeithasol.

llywodraeth trwy cydsyniad a chontractiaeth (*contractarianism*), nid yw'r un o'r nodweddion hyn yn hollol angenrheidiol, ac eithrio unigolyddiaeth o bosib (gweler ee Waldron 1987: 128; Freedman 1996: 86; Alexander 2015: 985; Kelly 2015: 2). Serch hynny, mae'n briodol gwahaniaethu rhwng ei ddwy brif ffurf: rhyddfrydiaeth glasurol a rhyddfrydiaeth 'newydd' (*New Liberalism*).

Mae gwreiddiau rhyddfrydiaeth glasurol yn gysylltiedig â *Two Treatises* John Locke (1689) ac economeg Goleuedigaeth yr Alban, ac mae iddo rhywfaint o undod ffurfiol, sef unigolyddiaeth a rhyddid rhag ormes gan y wladwriaeth (Vincent 1992: 29). Er bod y term 'rhyddfrydol' ar hyn o bryd yn cynodi llesyddiaeth (*welfarism*) a chyfiawnder dosbarthiadol (*distributive justice*), d'ym rhyddfrydiaeth glasurol ddim. I'r gwrthwyneb: mae ymrwymiad rhyddfrydiaeth glasurol i gyfundrefn marchnad rhydd sy'n rhydd rhag ymyrraeth gan y wladwriaeth yn anghyson â chyfundrefn sosialaidd. Yn wir, ymrwymiad rhyddfrydiaeth glasurol i economi marchnad ddi-rwystr yw'r hyn sydd, i raddau helaeth, yn nodweddu ei ddisgynydd modern: neo-ryddfrydiaeth - sydd ei hun yn hybu ddadroleiddio marchnadoedd cyfalaf, a phreifateiddio'r sector cyhoeddus: yr union wrthwyneb i sosialaeth.

§2. Shifftiau yn Nefnydd y Gair 'Rhyddfrydol'

Mae rhyddfrydiaeth gymdeithasol-ddemocrataidd 'newydd' y 19eg ganrif hwyr / dechrau'r 20ed ganrif yn wahanol i ryddfrydiaeth clasurol yn ei ymwrthodiad ag atomiaeth unigolyddol a'r syniad bod cymdeithas yn gallu rheoleiddio (*regulate*) ei hun. Mae'n honni bod cysylltiad annatod rhwng lles yr unigolyn a lles y gymuned, gan fod yr hunan yn 'penetrated, infected, characterized by the existence of others, its content implies in every fibre relations of community' (Bradley 1927: 172). Ysgogwyd yr ymwrthodiad hwn â gallu'r gymdeithas i hunan-reoleiddio gan y sylweddoliad na allai'r anghydbwysedd cymdeithasol a achoswyd gan ddiwydiannu helaeth gael ei ddatrys gan elusen wirfoddol; yn hytrach, roedd angen ymyrraeth gan y wladwriaeth. Arweiniodd y syniadau hyn at greu'r wladwriaeth les fodern, yn dechrau gyda diwygiadau lles y Blaid Ryddfrydol ym 1906-1914, a ysbrydolodd y mwyafrif o ddiwygiadau cymdeithasol-ddemocrataidd Gorllewin Ewrop tan ganol y 1970au (Vincent 1992: 31).

Y rhyddfrydiaeth lled-sosialaidd hwn, yn hytrach na'i wrthwyneb clasurol a neo-ryddfrydol, sy'n cyd-fynd â thueddiadau ideolegol Miller. Mae Miller yn gwrthod unigolyddiaeth o blaid comiwnitariaeth; ac yn wir, y prif gymhellant tu ôl i'w genedlaetholdeb rhyddfrydol yw cyfiawnder cymdeithasol - sy'n gofyn am wladwriaeth les yn hytrach na gwladwriaeth minimalyddol (*minimal*)¹⁶. Fodd bynnag, er bod yr elfen 'rhyddfrydiaeth newydd' hwn o genedlaetholdeb rhyddfrydol Miller yn gydnaws â thueddiadau cymdeithasol-ddemocrataidd pleidleiswyr poblyddol, mae'n parhau i fod yn aneglur a all cenedlaetholdeb rhyddfrydol hefyd wneud lle i'w ceidwadaeth ddiwylliannol. Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, rhaid egluro'n gyntaf sut mae'r term 'rhyddfrydol' yn cael ei ddefnyddio gan arweinwyr poblyddol neu 'dyn-cryf' mewn perthynas â hunaniaeth genedlaethol. Oblegid gall hyn ddangos yn gymharol uniongyrchol beth, yn fras, yw'r elfennau o ryddfrydiaeth mae'r pleidleiswyr poblyddol yn ymwrthod â.

Mae archwiliad o'r rhethreg wleidyddol ynghylch y term 'rhyddfrydol' gan Orbán, Bolsonaro, a Putin yn datgelu nad rhyddfrydiaeth glasurol na newydd sy'n cael ei wrthod gan arweinwyr a phleidleiswyr

¹⁶ Rhaid cydnabod nad yw'r acsis 'rhyddfrydiaeth clasurol v rhyddfrydiaeth gymdeithasol-ddemocrataidd' ac 'unigolyddiaeth v comiwnyddiaeth' yn rhedeg yn gwbl baralel i'w gilydd. Mae rhyddfrydiaeth Rawlsiaidd a chenedlaetholdeb rhyddfrydol 'newydd' Miller, er enghraifft, ill dau yn ddemocrataidd-gymdeithasol; fodd bynnag, dim ond y cyntaf sy'n unigolyddol. Fel y noda Miller (2000: 99), mae'n bosibl datgysylltu comiwnitariaeth ac unigolyddiaeth oddi wrth yr ideolegau maent yn cyd-fynd â. Fodd bynnag, dyma'r eithriad yn hytrach na'r rheol: mae rhyddfrydiaeth glasurol yn hynod o unigolyddol; ac er nad yw rhyddfrydiaeth gymdeithasol-ddemocrataidd Rawls (1971) yn gomiwnitariaidd, roedd y' rhyddfrydiaeth newydd 'gymdeithasol-ddemocrataidd' a'i ysbrydolodd yn sicr yn gomiwnitariaidd; felly hefyd fersiwn gyfoes Miller.

poblyddol. Yn hytrach, mae'r synnwyr cyfoes yn dynodi ymrwymiad i bolisiau mewnfudo agored, amlddiwylliannedd, gwleidyddiaeth hunaniaeth, a chyfyngiadau ar ryddid barn a achosir gan gywirdeb gwleidyddol. Mae'r synnwyr newydd hwn yn cynrychioli shift nodedig yn nhermau'r ddadl gyfredol: mae'r term 'rhyddfrydol' wedi dod i gael ei weld yn elyniaethus tuag at hunaniaeth a gwerthoedd cenedlaethol.

Mae propageiddio Orbán (2014, 2018) o'r cysyniad o 'democratiaeth anryddfrydol', er enghraifft, yn gwrthgyferbynnu democratiaeth ryddfrydol â'i gwrthwyneb 'anryddfrydol' trwy bwysleisio eu hagweddau gwrthwynebol tuag at amlddiwylliannedd, mewnfudo, cywirdeb gwleidyddol a achosir gan wleidyddiaeth hunaniaeth, a gwerthoedd cenedlaethol traddodiadol. Tra bod democratiaeth anryddfrydol yn arddel gwerthoedd a normau traddodiadol a etifeddiwyd o Gristnogaeth fel 'human dignity, the family and the nation' (Orbán 2018), mae democratiaeth ryddfrydol yn ceisio diddymu cenedligrwydd trwy flaenoriaethu polisiau mewnfudo agored ac amlddiwylliannedd dros hunaniaeth genedlaethol a diogelwch y wladwriaeth (ibid.). Yn yr un modd, mae dyfarniad Putin's (2019) bod y 'syniad rhyddfrydol' wedi 'gor-fyw ei bwrpas' yn cyfeirio'n arbennig at fewnfudo, ffiniau agored, ac amlddiwylliannedd. Ymhellach, mae rhethreg Bolsonaro ynghylch rhyddfrydiaeth yn gwrthod 'inverted values, the bloated state and political' (Bolsonaro 2019), ac yn addo 'value the family, respect the religions and our Judeo-Christian tradition, oppose gender ideology, and preserve our values' (ibid.).

Mae'r fath rhethreg, fodd bynnag, yn apelio at syniad o ryddfrydiaeth sydd i raddau helaeth yn groes i synhwyrâu traddodiadol y term. Fel y noda Plattner (2019), anaml y gwelwyd amlddiwylliannedd, polisiau mewnfudo agored, ac agwedd hyblyg tuag at y teulu mewn democratiaethau rhyddfrydol tan yr hanner canrif ddiwethaf. Ar ben hynny, roedd yr ychydig genhedloedd a brofodd lefelau uchel o fudo 'tended to favor assimilationist rather than multicultural approaches to integrating newcomers' (Plattner 2019: 11). Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae poblyddwyr (yn enwedig Orbán) yn fframio'r ddadl mewn modd camarweiniol yn nhermau deuoliaeth rhwng rhyddfrydiaeth a hunaniaeth genedlaethol, lle nodweddir rhyddfrydiaeth yn nhermau cefnogaeth at bolisiau mewnfudo agored, amlddiwylliannedd a gwleidyddiaeth hunaniaeth – er nad yw'r un ohonynt wedi bod yn gysylltiedig â'r cysyniad yn draddodiadol.

Er lles eglurder, felly, rhaid gwahaniaethu ymhellach rhwng (1) rhyddfrydiaeth fel term ymbarél am ei hystyton traddodiadol, a (2) rhyddfrydiaeth 'woke' yn yr ystyr ddiwygiedig y mae demagogwyr poblyddol yn defnyddio. Mae rhyddfrydiaeth draddodiadol ac ymlyniadau cenedlaethol wedi cydfodoli mewn democratiaethau rhyddfrydol ers canol y 19eg ganrif, ac yn wir, mae eu symbiosis wedi cael ei arddel gan ffigurau rhyddfrydol prif ffrwd fel J.S. Mill ac Isaiah Berlin (gweler Miller 2005); felly, nid ydynt yn anghyson a'i gilydd mewn synnwyr ymarferol na damcaniaethol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae tensiynau clir rhwng rhyddfrydiaeth 'woke' ac ymlyniadau cenedlaethol. Yr hyn sy'n broblemus, ar ben hynny, yw hyn. Trwy gymryd perchnogaeth o'r term 'rhyddfrydol' er mwyn awgrymu mai rhyddfrydiaeth yn *gyffredinol* yw'r broblem, yn hytrach na'r rhyddfrydiaeth 'woke' cyfoes, mae arweinwyr 'dyn cryf' yn symud pyst y ddadl. Mae hyn yn ei dro yn helpu i guddio anghyfreithlondeb eu tanseiliad o elfennau pwysig rhyddfrydiaeth draddodiadol, megis annibyniaeth farnwrol a rhyddid y wasg.

Ar y llaw arall, nid yw cenedlaetholdeb rhyddfrydol Miller yn cymeradwyo rhyddfrydiaeth yn ei ystyr ideolegol ddiwygiedig. Yn hytrach, mae wedi dadlau'n helaeth o blaid cyfyngiadau i fewnfudo (Miller 2015, 2016a, 2016b), tra bod ei ddadleuon dros sefydlogi hunaniaeth genedlaethol yn ymwneud â diwylliannau mwyafrifol sydd â gwreiddiau hanesyddol (Miller 2020b)¹⁷. Mae Miller hefyd yn feirniadol o wleidyddiaeth hunaniaeth chwyddedig: mae'n taseilio undod a solidariaeth

¹⁷ Mae hyn hefyd yn cyffredinoli ar draws lleiafrifoedd cenedlaethol is-wladwriaethol: cyfaddefa Miller bod systemau ffederal neu unedol yn addas ar gyfer rhoi ymreolaeth i gymunedau o'r fath er mwyn diogelu eu cenedligrwydd hwy (Miller 1995; 2000).

cededlaethol trwy beri i bobl 'affirm their singular identities at the expense of shared national identities' (2000: 79), ac mae'n tansellio ei gymhellion ei hun trwy geisio ennill cydnabyddiaeth wleidyddol i hunaniaethau sy'n disgyn tu allan i gwmpas cyfreithlon gwleidyddiaeth (ibid.). Er ei fod yn amlwg, felly, nad yw cenedlaetholdeb rhyddfrydol Miller yn cynnwys yr elfennau 'woke' o ryddfrydiaeth gyfoes, mae'n dal i fod yn gwestiwn agored a fedrai e wneud lle ar gyfer elfennau cymedrol o geidwadaeth gymdeithasol. Dyma'r cwestiwn a gaiff ei drafod yng ngweddill y bennod hon.

§3. Y Gwahaniaethiad Rhwng Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Chenedlaetholdeb Geidwadol

Ble, felly, mae'r ffin yn disgyn rhwng mathau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol? Hyd yn hyn, yr hyn a ystyriwyd yn rhyddfrydol am genedlaetholdeb rhyddfrydol yw bod y dadleuon o'i blaid yn dod i'r casgliad bod cenedligrwydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau rhyddfrydol. Mae Tamir (1993, 2019), Kymlicka (1989, 1995) a Margalit & Raz (1990), er enghraifft, yn dadlau bod diwylliant cenedlaethol yn rhag-amod o ryddid personol. Dadleua Miller (1995) a Tamir (1993, 2019) bod angen diwylliant cenedlaethol i feithrin digon o undod cenedlaethol i ddinasyddion gefnogi sefydliadau sy'n gwireddu cyfiawnder. Dadleua Canovan (1996), Miller (1995, 2000), a Moore (2001) bod diwylliant cenedlaethol yn angenrheidiol i ddemocratiaeth ystyriol sy'n gweithredu'n iawn, sy'n gynhwysol, ac sy'n gyfreithlon. Ond erys y cwestiwn: beth, os unrhyw beth, sy'n rhyddfrydol yn hytrach na cheidwadol ynghylch *cynnwys* - yn hytrach na nodau - y diwylliant cenedlaethol dan sylw?

Cyn i'r drafodaeth ddechrau, fodd bynnag, rhaid nodi prif nodweddion perthnasol ceidwadaeth. Y rhain yw: pwyslais ar draddodiad, parhad sefydliadol, natur wreiddiedig unigolion yn eu cymdeithas, amheuaeth ynghylch dibynadwyedd rhesymoledd dynol, a ffafiaeth dros newidiadau cymdeithasol graddol, yn hytrach na chyflym. Mae gwreiddiau Ceidwadaeth yn tarddu o waith Burke (1790), ac mi welwn yn fuan bod elfennau cryf o geidwadaeth Burke yn nodweddu fframweithiau ideolegol Miller a Scruton i raddau sylweddol, a thrwy hynny yn cymylu'r ffin rhwng eu darluniau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol. Fodd bynnag, cyfyngaf ffocws yr adran hon i'r ymdrechion cadarnhaol i wahaniaethu rhwng y ddau ddarlun.

Yn ddiweddar, datblygodd Gustavsson (2019) fframwaith er mwyn ceisio gwahaniaethu rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol; fframwaith sy'n amlinellu pum dimensiwn lle gellir gwahaniaethu cynnwys y ddau rhag eu gilydd. Er bod y fframwaith hwn yn ddechrau da, mae braidd yn gyfyngedig ar ei ffurf bresennol. Oblegid er gwaetha ei ymdriniaeth cynhwysfawr â chenedlaetholdeb rhyddfrydol Miller, mae'r drafodaeth o genedlaetholdeb ceidwadol yn annigonol o anghyflawn. Mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i bwrpas gwahanol papur Gustavsson, sef cyferbynnu fersiynau rhyddfrydol a cheidwadol cenedlaetholdeb â 'gwladgarwch cyfansoddiadol' (*consitutional patriotism*): nid yw'r ffocws ehangach yn caniatáu dadansoddiad mwy cywrain. At ddibenion y ddadl bresennol, fodd bynnag, rhaid cloddio ymhellach er mwyn dinoethi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng darluniau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol.

Mae fframwaith Gustavsson yn cynnwys pum dimensiwn lle gellir gwahaniaethu rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol. Y rhain yw: 1) a yw hunaniaeth genedlaethol yn cael ei diffinio gan glymau fertigol neu lorweddol; 2) parhad hanesyddol (h.y. a yw'r hanes cenedlaethol i'w barchu, ei gymryd fel man cychwyn, neu i'w graffu'n feirniadol); 3) a ddylid cynnal yr hunaniaeth yn y maes cyhoeddus neu breifat; 4) a ddylai'r agwedd y dylai dinasyddion meithrin tuag at eu mamwlad fod yn un o barchedigaeth neu deyrngarwch; a 5) i ba radd mae hunaniaeth genedlaethol yn gallu cael ei newid. Yn yr hyn sy'n dilyn, byddaf yn archwilio pob un o'r rhain yn eu

tro, ac eithrio (3), sy'n gofyn am driniaeth hirach, ac fydd felly'n cael eu archwilio yn \$5 – a fydd ei hun yn arwain at archwiliad o berthnasedd perthynoledd ieithyddol i'r ddadl.

Yn gyntaf, y dimensiwn fertigol / llorweddol i hunaniaeth genedlaethol. Mae'r cysylltiadau sy'n clymu cenedl gyda'i gilydd, eglura Gustavsson, yn fertigol i'r cenedlaetholwr ceidwadol, ac yn llorweddol i'r cenedlaetholwr rhyddfrydol. Hynny yw, er bod cenedlaetholwyr ceidwadol yn honni bod clymau cenedlaethol yn cysylltu pobl trwy ee deyrngarwch cyffredin, parchedigaeth (reverence), neu hyd yn oed ffyddlondeb (*piety*) tuag at awdurdodau sefydledig, mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ystyried yr un clymau i fod yn llorweddol, yn yr ystyr 'they link us to our fellow-nationals, in the present as well as in the past (Miller 1995: 124)' (Gustavsson 2019: 699).

Tynna Gustavsson sylw at y gwrthyferbyniad rhwng datganiad Scruton y dylai dinasyddion 'bestow authority upon the existing order' (Scruton 1980: 33) a syniad Miller o hunaniaeth genedlaethol sy'n newid ei ystyr dros amser - yn ddefnyddol trwy sgwrs genedlaethol gynhwysol lle 'no voice has a privileged status: those who seek to defend traditional interpretations enter the conversation on an equal footing with those who want to propose changes' (Miller 1995: 127). Yna, daw Gustavsson i'r casgliad bod cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn 'focuses on horizontal ties to our fellow-nationals rather than allegiance to national authority' (2019: 701).

Er y gallai fod rhywfaint o wahaniaeth mewn gradd yma, byddai'n anoddach darganfod unrhyw wahaniaeth pendant. Oblegid nid yw cenedlaetholdeb ceidwadol yn *gwadu* bod gennym gysylltiadau llorweddol â'n cydwladwyr cyfoes. Yn hytrach, mae'n pwysleisio'r syniad y dylai rhywun edrych ar hanes fel y 'best guide to understanding the present and planning for the future', fel y mae Kekes (1997: 352) yn ei roi¹⁸. Nid yw hyn yn gyfystyr â moesyngrymiaeth ddogmatig sy'n edrych yn ôl i'r gorffennol trwy dwnnel; yn hytrach, mae'n pwysleisio y dylid cynllunio materion gwleidyddol mewn ysbryd o barhad rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, ar ffurf partneriaeth rhwng 'those who are living, those are dead, and those who are to be born' (Burke 1999: 193). Yn wir, ni fyddai unrhyw bwynt edrych i'r gorffennol am ganllawiau presennol a dyfodol pe na bai pobl yn ystyried bod eu cysylltiad â'u cydwladwyr presennol (a dyfodol) yr un mor bwysig. Yn ôl Scruton, mae dyletswydd ar ddinasyddion i drosglwyddo'r treftadaeth o werthoedd, arferion, a sefydliadau i genedlaethau'r dyfodol er mwyn peidio 'mortgage our future for the gratification of those who are living now' (Scruton 1996).

Yn wir, mae hyn yn dechrau edrych yn eithaf tebyg i amod 'parhad' Miller yn ei ddiffiniad o genedligrwydd: mae hunaniaethau cenedlaethol yn 'stretch 'back and forward across the generations' [...] they always carry with them an irrevocable obligation to the past generations: that of continuing their work for the nation' (1995: 27). Felly, mae nodweddu cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn nhermau cysylltiadau llorweddol, a'i wrthyferbyniad ceidwadol yn nhermau rhai fertigol, felly, yn fater o or-ddweud. Oblegid mae'r ddau ohonynt yn gytûn ynglŷn â pherthnasedd clymau cenedlaethol sy'n rhychwantu'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Maent ill dau hefyd yn pwysleisio parhad diwylliannol a hanesyddol o fewn cenedloedd, ac yn gwadu y dylid cadw at draddodiad hanesyddol mewn modd llym a dogmatig. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau llai amlwg rhyngddynt ynghylch y cwestiynau o union statws hanes, traddodiad, ac awdurdod sefydliadol; fodd bynnag, er mwyn datgelu'r rhain, mae angen archwiliad cyd-destunol mwy manwl – sef yr hyn a geir yn \$4.

¹⁸ Nid yw hyn i awgrymu bod yna unffurfiaeth lem i safbwyntiau ceidwadol Kekes a Scruton; yn wir, mae eu priod ymagweddau at statws hanes a thraddodiad yn dra gwahanol i'w gilydd. Mae Ceidwadwyr fel John Kekes, Michael Oakeshott, a Kenneth Minogue yn cymeradwyo safbwyntiau gwannach sy'n pwysleisio pwyll, pragmatiaeth, ac amheuaeth o resymoliaeth di-ffrwyng mewn ymresymu gwleidyddol. Mewn cyferbyniad, mae ceidwadaeth Scruton yn debycach at *raglen* lle mae gan hanes, traddodiad ac ideoleg rôl gymdeithasol amlycach (Scruton 2002). Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ddadlau ynghylch maint y gwahaniaethau hyn (Vincent 1994), ac mae'r egwyddor o 'bartneriaeth Burkeaidd' yn gyffredin iddynt oll.

O ran yr ail ddimensiwn i hunaniaeth genedlaethol - parhad hanesyddol - mae Gustavsson yn cyferbynnu safbwyntiau rhyddfrydol a cheidwadol yn y modd canlynol. Tra bo'r safbwynt ceidwadol yn 'requires a national identity that reveres and follows history, taking it as a given authority' (2019: 703), mae'r safbwynt rhyddfrydol yn cymryd 'history as a starting point for an on-going process of change' (ibid.). Mae awdurdod hanesyddol, yn ôl Miller, yn cyfateb i awdurdod llyfr rysetiau: 'it lays out the existing principles of cuisine and provides a base from which experimentation and innovation are possible' (Miller 1995: 127).

Mae'n ddadlennol (instructive) bod Miller yn defnyddio'r enghraifft o lyfr coginio i amlygu statws egwyddorion sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â'r ystod o wyriadau y gall rhywun eu gwneud ohonynt. Mae llyfrau coginio yn cynnwys ryseitiai sydd wedi profi eu llwyddiant dros amser: ni gafodd y ryseitiai drwg eu cynnwys yn y llyfr. Yn hynny o beth, rhaid i unrhyw wyriadau ohonynt gael eu gwneud tra'n talu sylw i'r gronfa helaeth o egwyddorion coginio y mae'r ryseitiai naill ai'n eu crybwyll neu'n rhagdybio. Daw rhywun yn gogydd teilwng trwy ddysgu patrymau hir-sefydlog, a dim ond yn y cyd-destun hwn y gellir gwneud newidiadau llwyddiannus. Yn union fel ceidwadaeth, felly, rhaid i arloesi ac arbrofi ddigwydd yn gymharol raddol, gan dalu sylw at arferion ac egwyddorion sydd eisoes wedi'u cronni yn hanesyddol.

Pedwerydd dimensiwn hunaniaeth genedlaethol -sy'n ymwneud â'r agwedd y dylai rhywun ei chymryd tuag at ei famwlad, yw hyn. Tra ar y safbwynt ceidwadol, parch a moesyngrymiaeth yw'r agweddau y dylai cyd-wladwyr eu meithrin tuag at eu mamwlad, mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn credu mai teyrngarwch, yn hytrach na moesyngrymiaeth, y dylid ei annog. Y gwahaniaeth, yn ôl Gustavsson, yw bod teyrngarwch 'allows us to question and criticise, although it still demands that we side with and not against the object of our critique; that our goal be constructive criticism' (2019: 703-4); tra bod ffyddlondeb (*piety*), mae'n ymddangos, yn gwneud beirniadaeth yn fater llawer anoddach (2019: 704).

Mae'r gwahaniaeth hwn yn fan cychwyn naturiol yn yr ystyr canlynol. Er bod cymeradwyo teyrngarwch tuag at y famwlad yn gyffredin ymhlith cenedlaetholwyr ceidwadol a rhyddfrydol fel ei gilydd, nid yw ffyddlondeb yn agwedd y mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ei chymeradwyo'n benodol. Fodd bynnag, mae cyfleu'r gwrthgyferbyniad yn nhermau ffin rhwng yr hyn sy'n ganiataol / waharddedig yn fater o or-ddweud, gan fod ceidwadwyr yn caniatáu cwestiynu a beirniadu elfennau o ddiwylliant cenedlaethol. Ysgrifenna John Kekes mewn perthynas â thraddodiadau cenedlaethol: '[this is] not to say that values and the political arrangements that reflect them cannot be rationally justified or criticized' (Kekes 1997: 359). Ymhellach mae Scruton yn gwadu bod ceidwadwyr yn mabwysiadu agwedd o foesyngrymu diamheuol tuag at hunaniaeth genedlaethol, gan honni ei fod yn 'compatible with all manner of change, provided only that change is also continuity' (Scruton 1984: 11). Serch hynny, gellir tynnu gwahaniaethiad mwy cynnil yn nhermau caniatáu / peidio â chaniatáu cwestiynu a chraffu. Er mwyn ei ddeall, fodd bynnag, mae angen archwiliad manylach o fframwaith ceidwadol Scruton; archwilir hyn yn §4. Yn y cyfamser, fodd bynnag, gellir casglu nad oes unrhyw wahaniaethau *gweladwy* sylweddol rhwng y ddau safbwynt.

Yn ôl y pumed dimensiwn – (an)hyblygrwydd diwylliant cenedlaethol – mae cenedlaetholwyr ceidwadol yn gweld diwylliant cenedlaethol yn 'as per definition immutable' (Gustavsson 2019: 704), tra bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn caniatáu i ddiwylliant cenedlaethol newid dros amser; yn enwedig pan fo elfennau o'r hunaniaeth genedlaethol yn 'repugnant to the self-understanding of one or more component groups' (Miller 1995: 142). Nid yw hyn i awgrymu bod agwedd cenedlaetholwyr rhyddfrydol tuag at newidiadau diwylliannol yn gyfystyr â 'mae unrhyw beth yn mynd', gan fod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn credu bod diwylliant cyhoeddus cyffredin yn 'something that can legitimately be enforced politically' (Gustavsson 2019: 704). Mae'r gwahaniaeth, yn hytrach, yn fater o *radd*: mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn croesawu newid graddol a democrataidd, tra bod cenedlaetholwyr ceidwadol - yn ôl Gustavsson - yn wrthwynebus i unrhyw newid o'r fath.

Unwaith eto, fodd bynnag, mater o or-ddweud yw honni bod ceidwadwyr yn gweld diwylliant cenedlaethol 'as per definition immutable'; oherwydd gwelsom eisoes fod ceidwadwyr yn caniatáu newidiadau diwylliannol (Kekes 1997: 359; Scruton 2002: 11). Fodd bynnag, mae'n deg dweud bod yna gyfyngiadau llymach i *raddau*'r newidiadau a ganiateir ar y safbwynt ceidwadol o'i gymharu â'r safbwynt cyfatebol rhyddfrydol. Mae ceidwadaeth Scruton yn ceisio 'uphold all those practices and institutions [e.g. the common law, established state, monarchy etc.] through which the habits of allegiance are acquired' (Scruton 2002: 23); a dim ond o fewn y cyd-destun hwn y gall newidiadau ddigwydd. Nid yw ceidwadaeth Scruton yn caniatáu i sefydliadau sefydledig traddodiadol gael eu trawsffurfio'n llwyr nac eu chwalu. Serch hynny, caniateir eu diwygio yn ysbryd parhad (2002: 37). Ar y llaw arall, nid yw cenedlaetholdeb rhyddfrydol Miller yn gwahardd trawsffurfiant sefydliadol o'r fath, ar yr amod eu bod yn cael eu cymell yn ddemocrataidd o ganlyniad i newidiadau sylweddol yng ngwerthoedd yr etholwyr (Miller 2020a, 2020b).

Nid yw'r dimensiynau hyn, felly, yn llwyddo i ddinoethi unrhyw wahaniaethau pendant categorïaidd rhwng safbwyntiau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol. Serch hynny, mae fframwaith Gustavsson yn paratoi'r ffordd i ddatgelu gwahaniaethau mwy cynnil yn *nodau a phrosesau ffurfiant* hunaniaeth genedlaethol. Er mwyn egluro'r gwahaniaethau hyn, fodd bynnag, mae angen cloddio ymhellach i'r fframweithiau ideolegol cefndirol sy'n cymell cyfrifon Miller a Scruton. Yn yr hyn sy'n dilyn, felly, byddaf yn egluro'r gwahaniaethau hyn trwy archwilio eu barnau dargyfeiriol ynghylch awdurdod sefydliadol, rhesymoliaeth ac elitiaeth.

§4. Awdurdod Sefydliadol, Rhesymoliaeth, ac Elitiaeth

Hyd yn hyn, rydym wedi gweld bod yna lawer o orgyffwrdd rhwng safbwyntiau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol: mae Miller a Scruton ill dau yn gweld hunaniaeth genedlaethol fel mater o glymau fertigol a llorweddol; mae'r ddau yn caniatáu beirniadaeth hanesyddol; mae'r ddau yn caniatáu cwestiynu a beirniadu diwylliant cenedlaethol; ac mae'r ddau yn caniatáu newidiadau diwylliannol. Serch hynny, mae yna rhai gwahaniaethau mewn graddfeydd ar waith: mae cenedlaetholdeb ceidwadol yn gosod terfynau tynnach na'i wrthwynebydd rhyddfrydol ar feirniadaeth o a newidiadau i ddiwylliant cenedlaethol. Beth, felly, sy'n esbonio'r gwahaniaethau hyn? Yn yr hyn sy'n dilyn, dadleuaf bod yr esboniad yn llechu ym marnau dargyfeiriol Miller a Scruton ynghylch awdurdod sefydliadol, rhesymoliaeth ac elitiaeth.

Dadleua Scruton (2002, 2005) fod cyfreithlondeb gwleidyddol a threfn sifil yn dibynnu ar ymdeimlad o aelodaeth ac o berthyn sydd ill dau yn dibynnu ar gydnabyddiaeth o awdurdod ein treftadaeth o werthoedd a'n sefydliadau diwylliannol, megis teulu, iaith, cymunedau cymdeithas sifil, a sefydliadau sefydledig y wladwriaeth. Dylai sefydliadau gwladwriaethol, ar ben hynny, atgyfnerthu'r 'memory of that membership [and exalt it] into something natural, unchangeable and serene' (Scruton 2005: 112) ymhlith y dinasyddion. Oherwydd bod y gydnabyddiaeth hon o awdurdod diwylliant cenedlaethol yn rhag-amod angenrheidiol o ymdeimlad y dinasyddion o aelodaeth gyffredin, sydd yn ei dro yn angenrheidiol i'r cydlyniant cymdeithasol sy'n meithrin rhinweddau sifig (*civic virtue*), teyrngarwch cenedlaethol a dyletswyddau at genedlaethau'r dyfodol (Scruton 2005: 37).

Rhaid egluro synnwyr penodol Scruton o'r term 'awdurdod' mewn modd cwbl echblyg yma. Nid oes gan awdurdod, fel y mae pobl gyffredin yn ei ddeall ac fel y mae'n rhan o'r natur ddynol, eglura Scruton (2002), unrhyw beth i'w wneud â dewis na chydysyniad contractaidd (*contractual*). Yn hytrach, gellir ei egluro trwy ystyried ei ffurf flaenllaw: awdurdod teuluol rhieni dros eu plant. Mae'r clymau sy'n bodoli rhwng rhieni a phlant yn annewisol ac yn amhrisiadwy: yn gyffredinol, mae rhieni'n caru ac yn meithrin eu plant, a nhw yw eu prif ddylanwad ffurfiannol. Yn gyfatebol, mae plant yn cydnabod ac yn ymostwng i awdurdod eu rhieni a'i pŵer sefydledig. Nid yw'r rhwymedigaethau cydfuddiannol sy'n deillio o'r clymau hyn yn destunau i'w cwestiynu na'u craffu

arnynt; yn hytrach, maent wedi'u gwreiddio mewn parch, anrhydedd a ffyddlondeb (*piety*): 'to neglect my parents in old age is not an act of justice but an act of impiety' (2002: 23).

Awdurdod yn yr ystyr hwn yw'r hyn mae Scruton yn honni bod rhaid i sefydliadau'r wladwriaeth a chymdeithas sifil ei ymgorffori. Oblegid dim ond awdurdod o'r math hwn sy'n medru esgor ar deyrngarwch ymhlith dinasyddion, a thrwy hynny eu cymell i osod rhai o'i buddiannau personol o'r neilltu (heb orfodaeth) er budd eu cenedl a'i cyd-ddinasyddion, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Ac os yw'r ymdeimlad cyntefig hwn o deyrngarwch a rhwymedigaeth deuluol (lle mae awdurdod yn sail iddo) i ymledu 'from hearth and home to place, people and country' (2002: 23) rhaid i'r wladwriaeth a sefydliadau cymdeithas sifil drosglwyddo'r traddodiadau, y gwerthoedd a'r arferion etifedd ledled y gymdeithas.

Mae ceidwadaeth Scruton, felly, yn llai parod i ganiatáu cwestiynu a beirniadaeth ymhlith y dinasyddion na'i gyfarwydd. Oblegid mae'r cysyniad o awdurdod sy'n ganolog iddo bron yn gyfriniol oherwydd ei natur gyntefig. Yn yr un modd ag y mae awdurdod teuluol yn atal cwestiynu radical a beirniadaeth o gysylltiadau teuluol sefydledig, mae'r awdurdod a ymgorfforir gan sefydliadau'r wladwriaeth hefyd yn atal cwestiynu radical. Mewn cyferbyniad, nid yw Miller yn cymeradwyo unrhyw syniad tebyg o awdurdod sy'n atal cwestiynu radical. Yn hytrach, mae'n dadlau'n helaeth o blaid trafodaeth ddemocrataidd, gan honni y dylai cymunedau cenedlaethol fod yn 'actively self-determining rather than subject to the authority of tradition' (Miller 2000: 105). Ymhellach, dylai diwylliant cenedlaethol fod yn 'open to revision when the members deliberate collectively'.

Mae yna reswm dyfnach dros baham nad yw ceidwadaeth Scruton yn croesawi cwestiynu a beirniadu radical ar ran y dinasyddion: ei amheuaeth Burkeaidd ynghylch dibynadwyedd rhesymoledd dynol, yn enwedig pan caiff ei ddefnyddio mewn ymresymu gwleidyddol. Nid yw hyn o gwbl yn ymwrthodiad â rheswm nac yn ymrwymiad i afresymoldeb; yn hytrach, mae'n seiliedig ar ddadleuon sy'n tynnu gwahaniaethiadau cynnil a chraff rhwng gwahanol fathau o resymu. Y cymhelliant cyffredinol sydd tu ôl i hyn (a ddadleuon ceidwadol tebyg) yw'r gwrthodiad 'to condense intricate moral, social and political realities into a few principles or elements of an intellectual system' (Vincent 1994: 211). Mae ceidwadwyr yn tueddi amau bod rhesymu haniaethol a damcaniaethol yn y byd gwleidyddol yn tueddu bod yn annibynadwy a chamarweiniol. Dyma, felly, yw sail eu pwyslais ar agwedd fwy gofalus tuag at wleidyddiaeth lle rhoddir mwy o bwylais ar draddodiad (h.y. sefydliadau ac arferion sydd wedi sefyll phrawf amser). Er mwyn deall pam, fodd bynnag, rhaid inni archwilio'r gwahaniaethiad ceidwadol rhwng dau synnwyr gwahanol o'r term 'rhesymoledd'.

Gwahaniaethodd Burke rhwng, ar y naill law, rhagfarnau (*prejudices*), ac ar y llaw arall, haniaethu (*abstraction*) (Burke 1987: 188-9). Nodweddir rhagfarnau (yn llythrennol: rhag-farnau) nid yn nhermau credoau afresymol, ond yn hytrach yn nhermau rhag-ddyfarniadau¹⁹. Doethineb a gwybodaeth ymarferol y mae'r hil ddynol wedi'i gasglu trwy gydol hanes yw'r rhain - 'the supra-rational wisdom of the species' – yng ngeiriau Kirk (1953: 365). Er na ellir ei fynegu'n daclus mewn

¹⁹ Celi gwahaniaethiadau paralel ymhlith nifer o geidwadwyr eraill, megis Michael Oakeshott (1962) sy'n gwahaniaethu rhwng gwybodaeth ymarferol a thechnegol. Mae gwybodaeth dechnegol yn cynnwys egwyddorion sy'n dueddol o gael eu mynegi'n fanwl gywir, megis mewn mathemateg a'r gwyddorau naturiol. Mewn cyferbyniad, mae gwybodaeth ymarferol wedi'i chydblethu â thraddodiadau a ffyrdd arferol o fyw ac nid yw'n bosib i'w fynegi'n gwbl fanwl nac unfurf oherwydd ei fod yn cwmpasu sgiliau corfforol, chwaethau, synwyruswydd moesol ac esthetig ac ati na ellir eu cywasgu i athrawiaethau taclus. Mae arferion a thraddodiadau o'r fath yn rhoi '*intimations*' inni (gwybodaeth cynnil a gronnwyd yn hanesyddol sydd weithiau'n gudd neu'n ymgorfforedig) sy'n arddull mwy dibynadwy o resymu gwleidyddol na gwybodaeth dechnegol. Gweler hefyd wahaniaethiad Joseph de Maistre (1994 [1797]) rhwng 'rheswm' a 'greddf', a gwahaniaethiad Justus Moser rhwng 'meddwl' a 'bywyd' (gweler Mannheim 1986: 139-40, dyfynnwyd hefyd yn Vincent, 1994: 212).

ychydig eiriau, mae wedi'i wreiddio'n ddwfn yn sefydliadau, arferion a synnwyr cyffredin pobloedd. Mae haniaethu, ar y llaw arall, yn cyfeirio at systemau damcaniaethol neu ymresymu metaffisegol (megis hawliau naturiol Lockeaid neu raglenni iwtopaidd) sy'n ddatgysylltiedig o arfer a thraddodiad, ac yn dechrau o lechen wag, ond sydd yn gamarweiniol, artiffisial, ac yn tueddu arwain at ddinistr megis yng nghyfundrefnau comiwnyddol. Y pwynt allweddol yma yw bod rhesymoledd o'r math 'haniaethu' yn debygol o anwybyddu ffactorau sylfaenol allweddol fel arferion, traddodiadau a 'knowledge-how' (o'r math a'i ddisgrifiwyd gan Ryle (1945, 1949)). Er y gall y ffactorau sylfaenol hyn fod dim ond yn rhannol gudd neu reddfod, mae'n debyg eu bod wedi sefyll cwrs amser yn *union oherwydd* eu rhesymoledd cynhenid sydd ddim yn gwbl amlwg i'r rhai sy'n arsylwi o'r tu allan, ar lefel arwynebol.

Cymeradwya Scruton rhagfarnau Burkeaidd, gan bwysleisio nad arferion mympwyol ydynt, ond yn hytrach ffurfiau ar wybodaeth sy'n cynnwys 'residues of many trials and errors' (Scruton 2014: 21). Gan fod sawl agwedd o ddiwyllianau cenedlaethol – 'military honour, family attachment, the forms and curricula of education, the institutions of charity and good manners' (ibid.) - yn rannol gudd ac yn methu cael eu mynegi'n gwbl fanwl, mae eu beirniadu yn gallu bod yn gamarweiniol a dinistriol. Oblegid byddai'r fath feirniadaeth yn tueddu anwybyddu eu rhesymoledd cynhenid: yr 'accumulation of reason in society that we reject at our peril' (ibid.).

Nid yw Miller yn rhannu unrhyw amheuaeth tebyg ynglŷn â annibynadwyedd y rheswm dynol mewn trafodaethau democrataidd ynghylch diwygiadau diwyllianol. Fodd bynnag, nid yw'n resymolwr ynglŷn â hunaniaeth genedlaethol chwaith. Yn hytrach, mae'n gosod cyfyngiadau ar y *graddau* y dylid craffu ar hunaniaeth genedlaethol, sydd 'in large measure inherited from the past, and not fully open to rational scrutiny' (Miller 1989: 70). Mae hyn yn amlygiad o'i ymlyniad i'r syniad Tocquevilliaidd bod cymdeithas gydlynol yn dibynnu ar lefel gymharol uchel o gonsensws diwyllianol (gweler e.e. yr epigraff 1af i *On Nationality* (1995)). Mae'r consensws hwn yn ran angenrheidiol o'r man cychwyn ar gyfer trafodaeth ddemocrataidd (Miller 2000).

Y prif wahaniaeth rhwng agweddau Miller a Scruton tuag at resymoliaeth, felly, yw hyn. Mae ymrwymiad Scruton i'r gwahaniad Burkeaidd rhwng rhagfarn / haniaethu yn atal beirniadaeth a diwygiadau *radical* o ddiwylliant cenedlaethol, ar sail annibynadwyedd y rheswm dynol yn y sffêr wleidyddol. Nid yw gwrth-resymoliaeth Miller, ar y llaw arall, yn tarddu o unrhyw besimistiaeth tebyg ynglŷn â gallu'r rheswm dynol a'i ddefnydd yn y sffêr wleidyddol; yn hytrach, mae ond yn gosod y bwrn prawf ar y rhai sy'n dymuno diwygio neu gwrthod elfennau o'r diwylliant cenedlaethol. Mae hefyd yn gosod cyfyngiadau ar faint o feirniadaeth a newid a all ddigwydd ar un amser penodol: rhaid cymryd llawer o'r diwylliant cenedlaethol yn ganiataol er mwyn i drafodaethau am ei adolygu fod yn bosibl yn y lle cyntaf. Er mwyn osgoi cacoffoni o hawliadau dargyfeiriol a safbwyntiau gwrthwynebol heb unrhyw undod na chydlyniant, rhaid 'establish common parameters – questions that for this particular purpose are to be taken as settled' (Miller 2020b).

Mae'r gwahaniaethiad sylfaenol olaf rhwng cysyniadau Scruton a Miller o hunaniaeth genedlaethol yn ymwneud ag elitiaeth. Yn ôl Scruton, dylai'r diwylliant cenedlaethol sy'n cael ei bropageiddio mewn sefydliadau addysgol fod o'r math uchel-ael: 'art, literature, scholarship and philosophy that establish a shared frame of reference among educated people' (Scruton 2012). Ni ddylid penderfynu arno'n ddemocrataidd, oblegid 'the majority can't easily distinguish genuine culture, which is the province of a minority, from fake culture, which we can all acquire' (Scruton 2015). Ar ben hynny, mae democrateiddio diwylliant yn arwain at ormes y mwyafrif dros y lleiafrifoedd dysgedig; mae'r sentiment poblogaidd yn boddi arbenigedd haeddiannol. Yn wir, mae amheuaeth Scruton o ormes y mwyafrif yn mynd mor bell a'i arwain at gymeradwyo athrawiaeth o *ymdiriedolaeth ddiwyllianol* sy'n gosod cyfyngiadau gweithdrefnol ar ddemocratiaeth: dylai cyfansoddiadau fod yn rhwystrau yn erbyn gormes o'r fath, ac mae angen 'political discourse that conceals this fact from the majority' (ibid.).

Yn ôl elitiaeth Scruton, dylai sefydliadau gwladwriaethol hefyd bropageiddio mythau i gynnal a chadw trefn gymdeithasol. Dylai sefydliadau gwladwriaethol ledaenu ideoleg trwy gynnal seremonïau sy'n cyfleu dyfnder symbolaidd megis anrhydedd a mawredd milwrol, lle mae dinasyddion yn profi 'something 'transcendent', which they may only partly understand' (2002: 156). Yma cynhyrchir myth yr 'absolute unqualified right to allegiance' ar gyfer y genedl, a dylid ei atgyfnerthu â phob amlygiad gwladwriaethol o bŵer sifil neu filwrol, yn ogystal â dylanwadu ar y llenyddiaeth, crefydd a chelf (2002: 157). Fodd bynnag, rhaid cuddio statws chwedlonol ideoleg o'r fath i bawb ond yr 'elite which recognises them' a'i guddio rhag y pleidleisiwr cyffredin, gan y byddai'r dadrithiad yn ennyn amheuaeth, a thrwy hynny yn bygwth trefn a chydlyniant y gymdeithas (2002: 180- 181).

Yr elitiaeth hwn yw'r prif wahaniaeth rhwng fframweithiau ideolegol cefndirol Scruton a Miller. Mae dull democrataidd ac egalitaraidd Miller yn hollol anghydnaws ag elitiaeth Scruton: pwysleisia Miller yr egwyddor o ddinasyddiaeth cyfartal lle mae aelodau'n trafod dibenion a chynnwys eu diwylliant cenedlaethol mewn modd democrataidd, ac yn gallu ei ddiwygio ar y cyd mewn modd cyfartal (Miller 2000: 105 , 1995: 127). Yn unol â hynny, mae'n gwrthod y syniad y gall fod 'privileged guardians of national identity' (2020a: 27). Er bod Miller, fel Scruton, yn caniatáu bodolaeth rhai chwedlau sy'n cyflawni swyddogaethau cydlynol ymhlith dinasyddion, fel 'reassuring them that they are the legitimate holders of the territory they occupy' (2020b: 16), nid yw chwedlau o'r fath yn imiwn rhag cael eu craffu; a ni ddylai'r wladwriaeth ddeddfu ychwaith ar sut (os o gwbl) y dylid eu bropageiddio (ibid: 16-17).

Y cyferbyniad hwn rhwng democratiaeth egalitaraidd ac elitiaeth lled-aristocrataidd, felly, sy'n amlygu'r prif wahaniaeth rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol Miller a Scruton o hunaniaeth genedlaethol. Ymhellach, y gwahaniaeth hwn sy'n egluro eu barnau dargyfeiriol ynghlŷn â'r gradd priodol o gwestiynu a diwygio diwylliant cenedlaethol. Mae elitiaeth Scruton yn atal beirniadaeth a newidiadau radical i ddiwylliant cenedlaethol sefydledig ar sail ei ymrwymiad Burkeaidd at annibynadwyedd y rheswm dynol yn y sffêr wleidyddol - a'i besimistiaeth cysylltiedig ynghylch gallu dinasyddion i gydweithredu'n gydlynol heb chwedlau megis hawl diamod y genedl i'w teyrngarwch.

Mewn cyferbyniad, mae dull egalitaraidd a democrataidd Miller yn hawlio y dylai sefydliadeiddio'r diwylliant cenedlaethol fod yn amodol ar werthoedd presennol dinasyddion: democratiaeth yw'r llyso na ellir apelio ohono. Er bod rhaid i ddiwygiadau a chraffu beirniadol ar ddiwylliant cenedlaethol, a ddigwydd mewn modd graddol (2020b), nid oes unrhyw rwystr mewn egwyddor i ddymchwel sefydliadau sefydledig, ar yr amod nad yw'r mwyafrif bellach yn eu croesawi. Er enghraifft, hawlia bod gwerth cynhenid i grefydd sefydledig dim ond i'r graddau bod y rhan fwyaf o ddinasyddion yn parhau i 'value the fact that their physical environment bears of the marks of their country's historic religion' (Miller 2020a: 32).

§5. Y Sfferau Cyhoeddus a Phreifat

O ran y pedwar dimensiwn i fframwaith Gustavsson rydym wedi archwilio hyd yma, gellir cadarnhau mai'r hyn sy'n esbonio'r prif wahaniaethau rhwng cysyniadau Scruton a Miller o hunaniaeth genedlaethol yw eu rhagdybiaethau dargyfeiriol ynghylch rhesymoledd, awdurdod sefydliadol ac elitiaeth. Mae'r gwahaniaethau cefndirol hyn yn ymwneud â *phrosesau ffurfio* hunaniaeth genedlaethol yn hytrach na chynnwys yr hunaniaeth: mae Miller yn cymeradwyo democratiaeth ystyriol gynhwysol tra bod Scruton yn arddel athrawiaeth lled-aristocrataidd o ymddiriedaeth ddiwylliannol. Sut, felly, mae'r dimensiwn sffêr gyhoeddus / breifat a geir yn Gustavsson (2019) a Lenard (2020) yn ffitio mewn i hyn oll?

Yn ôl y gwahaniaethiad arfaethedig rhwng y sffêr gyhoeddus / breifat, rhaid i hunaniaeth cenedlaethol y cenedlaetholwr rhyddfrydol fod yn gwbl gyhoeddus, yn yr ystyr ei fod yn 'defines members in public spaces' megis 'political spaces, [...] public parks, beaches, community centres, libraries, and roads. Mae'r gwahaniaethiad arfaethedig hwn yn deillio o'r ffaith bod rhyddfrydiaeth glasurol yn draddodiadol wedi trin y sfferau cyhoeddus a phreifat fel petaent yn annibynnol ar ei gilydd: dim ond yn y sffêr gyhoeddus y caniateir ymyrraeth gan y wladwriaeth – tra bod y modd mae rhywun yn ymddwyn yn y sffêr breifat yn fater o ddewis rhydd unigol.

Fodd bynnag, mae dibynnu, fel y gwna cenedlaetholwyr rhyddfrydol, ar unrhyw fath o ffin gref rhwng y sfferau cyhoeddus a phreifat yn broblemus. Cofiwch bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn cymeradwyo'r cysyniad comiwnitaraidd bod pobl yn cael eu mowldio'n anochel gan gyfathrebu rhyng-oddrychol a sefydliadau'r gymdeithas sifil. Ni ellir anwybyddu'r sylfeini Hegelaidd a Burkeaidd hyn a ysbrydolodd waith y comiwnitariaid - ac a fwydodd wedyn i mewn i weithiau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol. Yr hyn maent yn tanlinellu yw nad yw'r sfferau cyhoeddus a phreifat yn annibynnol o'i gilydd yn y lle cyntaf.

Ysgrifenna Gustavsson (2019: 703), er enghraifft: yn ôl cenedlaetholwyr rhyddfrydol, dylid cyfyngu ffydd, traddodiadau, ac addoli i'r sffêr breifat, a thrwy hynny maent yn aros tu hwnt i gyrraedd ymyrraeth wleidyddol. Ond mae hyn yn anwybyddu'r ffaith eu bod wedi'u cysylltu'n symbiotig trwy ddylanwad cyfryngu'r gymdeithas sifil. Mae ieithoedd, arferion a chrefyddau, er enghraifft, yn deillio o'r gymuned: maent fel arfer yn dibynnu ar gael eu hymarfer mewn sefydliadau cymdeithas sifil cymunedol. Yn gyfatebol, mae dylanwad ffurfiannol sefydliadau cymdeithas sifil cymunedol ar unigolion yn cael sgil-fffaith ar eu gwerthoedd a'u gweithredu yn y sffêr breifat, ac felly ni ellir gwahanu'r ddau o'i gilydd i unrhyw raddau helaeth.

Gan fod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn derbyn bod unigolion yn cael eu mowldio gan eu cymunedau, ni all eu cysyniad o hunaniaeth ddiwylliannol fod yn fater cwbl gyhoeddus sy'n diffinio aelodau mewn mannau cyhoeddus yn unig. Mae'r ffaith bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn arddel y mewnwelediadau comiwnitaraidd yn atal y fath wahaniaethiad siarp rhag cael ei dynnu yn y lle cyntaf. Mae'r symbiosis hwn rhwng y sfferau cyhoeddus a phreifat yn tanlinellu'r ffaith na all cenedlaetholdeb rhyddfrydol eu datgysylltu oddi wrth ei gilydd ar ei delerau damcaniaethol ei hun. Ar ben hynny, gan bod y mewnwelediadau comiwnitaraidd hyn yn Hegelaidd a Burkeaidd eu hanfod, gellir dadlau bod elfen gref o ideoleg gwleidyddol ceidwadol wedi'i smyglo mewn trwy'r drws cefn, fel petai, i mewn i genedlaetholdeb rhyddfrydol.

§6. Goblygiadau Perthynoledd Ieithyddol tuag at y Gwahaniaethiad rhwng Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Cheidwadol

Hyd yn hyn, rydym wedi sefydlu nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o gynnwys hunaniaeth genedlaethol. Serch hynny, darganfyddom bod yna rai gwahaniaethau sylweddol rhwng eu nodau a'u prosesau ffurfio. Yr hyn sydd wedi bod ar goll o'n trafodaeth hyd yn hyn, fodd bynnag, yw rôl iaith a pherthynoledd ieithyddol yn hyn oll. Rydym eisoes wedi gweld ym Mhennod 4 bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ystyried iaith fel un o brif gyfansoddion diwylliant genedlaethol (Kymlicka 1995: 76; Miller 1995: 27; Tamir 1993: 75). Felly, o ystyried bod iaith yn gyfrwng i'r diwylliant hwnnw, mae'n hanfodol codi'r ddau gwestiwn canlynol. Yn gyntaf, a yw perthynoledd ieithyddol yn cael unrhyw effaith ar ryddfrydiaeth neu geidwadaeth cynnwys yr hunaniaeth genedlaethol? Yn ail, a yw'n cael dylanwad pellach ar ryddfrydiaeth neu geidwadaeth y broses ffurfio hunaniaeth genedlaethol?

Mae'r ateb i'r cwestiwn cyntaf ynghylch cynnwys yr hunaniaeth genedlaethol yn syml. Os yw iaith yn ymgorffori diwylliant hanesyddol-wreiddiedig ac yn dylanwadu ar wybyddiaeth yn unol â hynny, yna ceir goblygiadau ar gyfer y cysyniad rhyddfrydol o gynnwys yr hunaniaeth genedlaethol hwnnw. Fel y

gwelsom, mae cysyniadau ceidwadol o hunaniaeth genedlaethol yn pwysleisio parhad hanesyddol i raddau uwch na'u cymheiriaid rhyddfrydol. Ond os yw iaith yn ran o ddiffiniad y cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol, a bod iaith yn ymgorffori diwylliant hanesyddol-wreiddiedig, yna mae graddfa'r pwyslais mae cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn ei roi ar barhad hanesyddol - ar delerau eu diffiniadau eu hunain - yn cynyddu o ganlyniad. Hynny yw: maent yn cefnogi hyrwyddiad gwleidyddol y diwylliant cenedlaethol; a chan fod diwylliant cenedlaethol yn cynnwys iaith - sydd ei hun yn ffynhonnell parhad diwylliannol ar draws cenedlaethau - yna mae hyrwyddo'r iaith honno *ipso facto* yn arwain at atgyfnerthu'r parhad diwylliannol hwnnw. O ganlyniad, caiff y gwahaniaeth rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o gynnwys hunaniaeth genedlaethol ei bylu hyd yn oed ymhellach.

Pa arwyddocâd, felly, sydd gan berthynoledd ieithyddol tuag at broses ffurfio y diwylliant cenedlaethol? Cofiwch bod Miller yn arddel proses ddemocrataidd gynhwysol lle mae dinasyddion yn penderfynu ar y cyd pa agweddau ar ddiwylliant cenedlaethol dylid eu hyrwyddo'n wleidyddol. Fodd bynnag, o gofio bod trafodaethau democrataidd fel arfer yn cael eu cynnal trwy'r iaith genedlaethol, mae hyn yn cyflwyno rhai elfennau ceidwadol pellach i'r llun. Hynny yw: trwy ddefnyddio'r iaith genedlaethol i gynnal y drafodaeth ddemocrataidd, caiff y sgwrs ei fframio, o ganlyniad, yn nhermau'r diwylliant cenedlaethol hwnnw. O ganlyniad, mae'r sgwrs felly wedi'i lwytho'n rhannol o blaid y diwylliant cenedlaethol – ac mae hyn yn ei dro yn helpu hybu y diwylliant cenedlaethol hanesyddol-wreiddiedig hwnnw.

Ystyriwch, enghraifft, cymerwch genedlaethol am ddiwygiadau posib i'r system cyfiawnder troseddol. Yn Gymraeg, y term am *police* yw heddlu, sydd yn cynodi heddwch; mewn cyferbyniad, mae'r term Saesneg yn dynodi cadw trefn gyhoeddus: mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau hanesyddol cafodd y cysyniadau eu defnyddio ynddynt (gweler Jenkins 1977)²⁰. O ystyried faint mor rhemp yw effeithiau fframio lle mae gwahaniaethau cynodiadol yn effeithio ar sut mae pynciau'n cael eu deall a'u cysyniadu (e.e. Kahneman 2011; Simon & Jerit 2007; Bartels 1998), mae'n rhesymol casglu y byddai'r sgwrs genedlaethol yn cael ei fframio'n wahanol o iaith i iaith.

Neu ystyriwch fel enghraifft bellach y ddadl gyfredol am ddeddfwriaeth trais domestig yn Rwsia. Mae trais domestig, sy'n endemig yn Rwsia, wedi gweld ymgyrch ar ôl ymgyrch i'w droseddoli; ond eto, ar hyn o bryd, nid oes gan Rwsia unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o drais domestig, ac nid oes ganddynt unrhyw wahaniaethiad rhwng trais a gyflawnir yn eich cartref, a thrais a gyflawnir mewn unrhyw le arall (Aleynikova 2020). Hyd yn hyn, mae pob ymdrech i gyflwyno deddfau sy'n gwahardd trais domestig wedi cael eu gwrthwynebu gan ffigurau gwleidyddol a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n honni bod y cysyniadau o 'drais' a 'theulu' yn 'incompatible by definition' (Yurtaev 2020). Mae'r ffaith nad oes ganddynt ddiffiniad cyfreithiol o drais domestig, ynghyd â'r diffyg ymwybyddiaeth o'r cysyniad o drais domestig fel categori o drais sydd ar wahân i drais yn gyffredinol, yn fframio a gogwyddo'r ddadl gyhoeddus o blaid y *status quo*, sydd wedi'i ymgorffori yn yr iaith Rwsiaidd (nid yw hyn, wrth gwrs, yn awgrymu bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn arddel trais domestig o ganlyniad).

Yr hyn mae enghreifftiau fel hyn yn dangos yw bod proses ffurfio diwylliant cenedlaethol, yn ôl y cysyniad rhyddfrydol, hefyd ychydig yn fwy ceidwadol nag yr ymddangosodd i ddechrau. Er bod trafodaeth ddemocrataidd yn amlwg yn fecanwaith sylweddol ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r diwylliant cenedlaethol a hyrwyddir gan y wladwriaeth, mae'r ffaith bod yr iaith genedlaethol yn ymgorffori llawer o'r diwylliant hwnnw yn golygu bod llawer ohono'n cael ei ragdybio fel man cychwyn yn y lle cyntaf. Nid yw hyn yn awgrymu bod iaith yn rhyw fath o 'siaced syth' lle mae'r

²⁰ Roedd Cyfraith Hywel, system cyfiawnder cyfreithiol brodorol Cymru, yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfiawnder adferol na'i gymar cymharol ddialgar yn Lloegr. Yn ôl Cyfraith Hywel, y gosb am lofruddiaeth, er enghraifft, oedd iawndal ariannol i deulu'r dioddefwr gan y llofruddiwr a'i deulu estynedig (Davies 2007). Awgryma'r fath enghreifftiau bod y gair *heddlu* (sy'n dynodi cynnal yr heddwch) yn wahanol i'w lled-gyfystyrn Saesneg *police*, yn union oherwydd natur mwy adferol cyfiawnder troseddol gwreiddiol Cymru. Mae'n ymddangos, felly, bod yr agweddau diwylliannol dargyfeiriol hyn wedi'u cadw yn yr ieithoedd.

siaradwyr o reidrwydd yn cael eu gaethiwo ynddo, ac yn methu â diwygio eu cysyniadau o ganlyniad. Yn amlwg, gall ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadol neu gynodiadau camarweiniol yn eich iaith arwain at newidiadau terminolegol o'r top i lawr; ystyriwch fesurau cywirdeb gwleidyddol, er enghraifft. Fodd bynnag, mae hyn serch hynny yn digwydd yng nghyd-destun ehangach yr iaith, sy'n ffurfio'r fframwaith cysyniadol parod a rhagdybir yn y cefndir.

I ddychwelyd at gymhariaeth Miller (1995) â llyfr coginio: mae perthynoledd ieithyddol yn awgrymu bod iaith yn ffynhonnell sylweddol ar gyfer parhad ac awdurdod hanesyddol. Fel y llyfr coginio, mae iaith yn cynnwys y cysyniadau sydd wedi gwrthsefyll prawf amser ac sydd wedi profi'n defnyddiol: ni oroesodd yr elfennau aneffeithiol na diangen mewn i'r iaith gyfoes. Yn yr un modd ag na ellir gwyrto'n llwyddiannus o'r ryseitiau coginio heb ragdybio llawer o'r egwyddorion coginio â phrawf amser, mae'r un peth yn berthnasol i iaith. Hynny yw: rhaid i'r newidiadau diwylliannol a chysyniadol / ieithyddol cysylltiedig ddigwydd yng nghyd-destun - ac felly'n barhaus â'r - cysyniadau hanesyddol-wreiddiedig sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn yr iaith.

Ar y naill law, mae hyn yn atgyfnerthu ceidwadaeth y broses ffurfio hunaniaeth genedlaethol: mae'r drafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â pha elfennau o'r diwylliant cenedlaethol dylid eu hyrwyddo / hepgor yn rhagdybio llawer o'r diwylliant cenedlaethol hwnnw o dan yr arwyneb. Mae hyn, yn ei dro, yn atgyfnerthu'r elfen o barhad hanesyddol y credwyd i fod yn fwy nodweddiadol o geidwadaeth. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae amlygu statws iaith gyffredin fel ffynhonnell o awdurdod hanesyddol hefyd yn cynyddu natur gynhwysol (*inclusive*) a democrataidd (yn lle elitaidd) y broses o benderfynu pa agweddau ar ddiwylliant cenedlaethol sy'n haeddu hyrwyddiad gwladwriaethol. O ystyried perthynoledd ieithyddol, gellir gweld bod natur sylfaenol-gymdeithasol iaith yn golygu bod ystyr ieithyddol yn tarddu o'r gwaelod i fyny: mae'n adlewyrchu normau diwylliannol y boblogaeth mwyafrifol.

Casgliad

Mae goblygiadau perthynoledd ieithyddol ar gyfer y cysyniad rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol, felly, yn drobwynt pwysig i'w gofio wrth inni grynhoi prif ddatl y bennod hon. Hynny yw: mae'r prif wahaniaethau rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol yn ymwneud a'u nodau a'u prosesau ffurfio, a'u graddau tra wahanol o gynwysoldeb democrataidd. I ailadrodd, felly: mae'r ymdrechion diweddar i amlinellu natur a ffiniau hunaniaeth genedlaethol rhyddfrydol naill ai'n gorgyrraedd y darged trwy fod yr un mor berthnasol i'r cysyniad ceidwadol, neu'n ymddatod ar eu telerau damcaniaethol eu hunain, yn sgil eu ymlyniad i'r fframwaith gomiwnitariaidd sy'n tarddi'n wreiddiol o syniadaeth ceidwadol. Mae hyn, fodd bynnag, yn fantais yn hytrach nag yn rhwystr: mae'n dangos bod cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn gallu gwneud lle ar gyfer elfennau cymedrol o geidwadaeth gymdeithasol. Mae hyn yn angenrheidiol yn y cyd-destun diweddar lle mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi bod yn cael ei ystyried fel tir canol ideolegol posib a all helpu i lywio rhannau helaeth o'r etholwyr i ffwrdd o bleidiau'r dde eithafol a phoblyddol (*populist*) sy'n manteisio ar eu synnwyr o ddadleoliad diwylliannol.

Serch hynny, mae teipoleg Gustavsson yn helpu clirio'r ffordd i ddatgelu rhai gwahaniaethau allweddol rhwng cysyniadau Miller a Scruton. Rwyf wedi dadansoddi'r gwahaniaethau sylfaenol hyn yn nhermau agweddau dargyfeiriol Miller a Scruton tuag at awdurdod sefydliadol, rhesymoliaeth ac elitiaeth; ac amlygu'r ffaith bod y prif wahaniaeth rhyngddynt yn ymwneud â chynwysoldeb democrataidd Miller yn erbyn elitiaeth lled-aristocrataidd Scruton. Awgrymaf ymhellach mai'r elfen hon o gynhwysiant democrataidd y dylid ei hamlygu wrth fframio'r theori yn y dyfodol, gan ei fod yn cyfleu'r prif wahaniaethau cefndirol sylfaenol rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol. Mae hefyd yn egluro'r gwahaniaethau mewn gradd a amlygwyd gan fframwaith Gustavsson (2019).

I gloi, hoffwn awgrymu bod ‘cenedlaetholdeb cymdeithasol-ddemocrataidd’ yn derm mwy priodol ac ideolegol-dryloyw na chenedlaetholdeb rhyddfrydol, am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o gynnwys yr hunaniaeth genedlaethol; ac mae ymrwymiad y cenedlaetholwyr rhyddfrydol i gomiwnitariaeth a iaith fel elfennau sylweddol o ddiwylliant cenedlaethol yn pwysleisio hyn ymhellach. Yn ail, mae cenedlaetholdeb rhyddfrydol Miller yn lled-sosialaidd yn yr ystyr ei fod yn cael ei yrru i raddau helaeth gan ystyriaethau cyfiawnder dosbarthol (*distributive justice*); mae hefyd yn ddemocrataidd drwyddi draw. Yn olaf, mae ystyr cyfoes y term ‘rhyddfrydiaeth’, sy’n dynodi gwleidyddiaeth hunaniaeth chwyddedig, ffiniau agored, ac unigolyddiaeth hunan-ganolog ayyb yn gwrthdaro ag ysbryd a naws cenedlaetholdeb rhyddfrydol. Os yw cenedlaetholdeb rhyddfrydol i bontio'r bwlch rhwng theori a realiti, a thrwy hynny gyflawni'r nod a fynegwyd yn ddiweddar o liniaru polareiddio gwleidyddol, aflonyddwch, a diffyg ymddiriedaeth cymdeithasol-wleidyddol, yna dylid o leiaf ei ailfframio trwy ddefnyddio iaith sy'n fwy ideolegol-dryloyw.

Casgliad

Er mwyn cydgrynhoi canfyddiadau'r thesis hwn ac ategu eu perthnasedd ehangach, awn ati nawr i olrhain yr hyn a gyflawnwyd ym mhob pennod. Cawsom drosolwg ym Mhennod 1 o'r prif gyd-destunau hanesyddol a diwylliannol lle bu perthynoledd ieithyddol yn ganolog iddynt, a'r llenyddiaeth academaidd / moesegol cyfoes sy'n ei ragdybio. Archwiliom ddadleuon Herder dros berthynoledd ieithyddol, yn cynnwys y prosesau o *Besonnenheit*, *Gestalt*, a dysgu canfyddiadol (*perceptual learning*) sydd, fel y gwelsom, wedi'i trosglwyddo i'r maes cyfoes o wyddor gwybyddiaeth (*cognitive science*). Amlygais hefyd y casgliadau gwleidyddol y tynnodd Herder ar sail perthynoledd ieithyddol, megis ei ddadleuon o blaid cyfatebiaeth (*congruence*) y genedl a'r wladwriaeth, a hunanbenderfyniaeth diwylliannol. Wedyn, aethom ymlaen i archwilio gwahaniaethiad Fichte rhwng ieithoedd cyntefig a ieithoedd deilliadol, a dadleuais bod modd datgysylltu'r gwahaniaethiad hwn o'i gyd-destun hanesyddol rhagfarnllyd gwrth-Ffrenig, ac adfer offeryn dadansoddol defnyddiol ar gyfer gwahaniaethu rhwng graddau gwahanol o berthynoledd ieithyddol ar draws ieithoedd gwahanol.

Trwy archwilio'r llenyddiaeth gwrth-drefedigaethol a chenedlaetholdeb Cymraeg ym Mhennod 1, cawsom fewnwelediad i'r gwahanol raddau o ymddieithrio diwylliannol a achoswyd ledled y byd gan imperialaeth ieithyddol. Ymhlith y sgil-ffeithiau imperialaidd hyn, gwelsom: ddatblygiad cymhlethdod israddoldeb ymhlith pobl ddarostyngedig; perthynas achos-ac-ffaith rhwng dirywiad diwylliannol-ieithyddol a dirywiad moesol ac ysbrydol; drwg-ffeithiau seicolegol is-raddoliad ieithoedd brodorol allan o'r sffêr gyhoeddus; a'r duedd i fod yn or-barod i gydymffurfio â diwylliant y gormeswr er mwyn 'dod ymlaen'. Mae pob un o'r themâu hyn yn ymddangos ar wahanol ffurfiau yng ngweithiau Fichte, llenyddiaeth ôl / gwrth-drefedigaethol, a llenyddiaeth cenedlaetholdeb Cymreig yr 20fed ganrif. Mae hyn er gwaethaf eu gwahanol gyd-destunau o imperialaeth Ffrenig, imperialaeth Ewropeaidd, a imperialaeth Seisnig a'i etifeddiaeth – yn y drefn honno. Yn olaf, archwiliom y cyfeiriadau cyfoes mae'r dadleuon sy'n ymwneud â chyfiawnder ieithyddol a chenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi'i cymryd. Gwelsom bod absenoldeb unrhyw gyfiawnhad o natur a goblygiadau perthynoledd ieithyddol yn gadael y dadleuon o blaid polisïau amlieithog a chydabyddiaeth ddiwylliannol yn agored i nifer o wrthwynebiadau modernaidd a lluniadaethol (*constructivist*) cyfoes.

Wedyn, cliriodd yr hyn a gyflawnwyd ym Mhennod 1 y ffordd i archwilio ym Mhennod 2 y dystiolaeth a'r dadleuon o'r meysydd ieithyddiaeth ac athroniaeth lle gellir eu defnyddio i gyfiawnhau perthynoledd ieithyddol, a thrwy hynny gyfoethogi'r llenyddiaeth cenedlaetholdeb a theori wleidyddol sy'n dibynnu ar wirionedd perthynoledd ieithyddol. Yma, gwelsom fod dau amod angenrheidiol (*necessary condition*) i berthynoledd ieithyddol: (1) anghyfieithiadwyedd traws-ieithyddol; a (2) annatodrwydd iaith a gwybyddiaeth (*cognition*). O ran (1), gwelsom fod rhwystrau sylweddol rhag cywerthedd cysyniadol llythrennol rhwng ieithoedd cymunedau WEIRD ac an-WEIRD (Gorllewinol (*Western*), Addysgedig (*Educated*), Diwydiannol (*Industrialized*), Cyfoethog (*Rich*) a Democrataidd), o ystyried achosion fel y Pirahã, y Pormpuraawans, a Phobl Madagascar. Y prif enghraifft o anghyfieithiadwyedd, fodd bynnag, yw'r hyn a welir mewn ystyron cynodiadol a throsiadol: gwelsom fod gwahaniaethau o'r fath yn fframio prosesau meddwl yn wahanol; ac felly gellir cymhwyso'r agwedd hon ar berthynoledd ieithyddol i ieithoedd WEIRD yn ogystal â an-WEIRD.

O ran amod angenrheidiol (2) – sef annatodrwydd iaith a gwybyddiaeth - dadleuais y gellir defnyddio dadleuon Wittgenstein yn erbyn cysyniadau seicolegaidd (*psychologized*) o ystyr ieithyddol i ddangos bod iaith a meddwl yn wir yn annatod ac yn gyd-ddibynnol. Esboniais hefyd sut caiff y safbwynt Wittgensteiniaidd o ystyr ieithyddol a chaffael iaith ei atgyfnerthu gan gyfoeth o dystiolaeth empiraidd, yn ogystal â chael ei gyfiawnhau o safbwynt dadansoddol, *a priori*. Gellir gweld felly bod y cyfiawnhad dadansoddol ac empirig o blaid amodau angenrheidiol perthynoledd ieithyddol – anghyfieithiadwyedd ac annatodrwydd iaith a gwybyddiaeth - gyda'i gilydd yn sefydlu ei wirionedd. Mae hyn, yn ei dro, yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer atgyfnerthu ac egluro'r darlun cyfansoddiadol o iaith

a ddefnyddir yn eang yn y llenyddiaeth theori wleidyddol, gan mai perthynoledd ieithyddol yw'r unig fcanwaith digon eglur, cywasgedig, penodol, ac wedi'i brofi'n empirig, y gellir ei ddefnyddio i'r diben hwn.

Adeiladodd Pennod 3 ar y dadleuon a'r canfyddiadau hyn o Bennod 2 er mwyn mynd i'r afael â'r cysyniadau cyffredinolaid o gaffael iaith a ysbrydolwyd yn bennaf gan ieithyddiaeth Chomsky, ac sy'n anghyson â pherthynoledd ieithyddol. Yma, dadleuais fod cyffredinoliaeth ieithyddol a seicolegyddiaeth (*psychologism*) Chomsky a'i disgynyddion eisoes wedi cael eu tanseilio gan waddol (*legacy*) dadleuon Wittgenstein a elwir ar y cyd yn 'y ddadl iaith breifat'. Yn ogystal â hyn, dadleuais bod craidd ieithyddiaeth Chomsky, Gramadeg Cynhenid, hefyd yn sylfaenol anwyddonol. Mae hyn oherwydd ei fod yn tramgwyddo'r ddwy egwyddor Eilliwr Occam a'r egwyddor anwirio (yn enwedig ei fethodoleg gymhwysol). Gan ddefnyddio astudiaethau empirig ac ystyriaethau dadansodol ynglŷn â'r dull gwyddonol, diddymodd y bennod hon y prif rwystr rhag derbyn perthynoledd ieithyddol. Cliriodd hyn, yn ei dro, y ffordd i archwilio goblygiadau perthynoledd ieithyddol ar gyfer y darlun cyfansoddiadol o iaith a'i le yn y corff ehangach o lenyddiaeth ar gyfiawnder ieithyddol a chydabyddiaeth gwleidyddol diwylliannau cenedlaethol, a archwiliwyd ym Mhenodau 4 a 5.

Archwiliodd Pennod 4 arwyddocâd perthynoledd ieithyddol ar gyfer y llenyddiaeth gyfoes hawliau iaith a chenedlaetholdeb rhyddfrydol, lle mae'r ail yn parhau i ddylanwadu ar y cyntaf. Nodais: er gwaetha'r ychydig bwyslais diweddar ar berthynoledd ieithyddol ym maes cyfiawnder ieithyddol, erys y cwestiynau sylfaenol ynghylch ei union radd, ei berthnasedd at fodlau o hunaniaeth ddiwylliannol, a'i oblygiadau polisi bron heb eu harchwilio o gwbl. O ganlyniad, diben y bennod hon oedd pontio'r bwch hwn trwy egluro berthnasedd perthynoledd ieithyddol at (1) fodlau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol, (2) y llenyddiaeth hawliau iaith cysylltiedig. Dadleuwyd bod cydnabyddiaeth o natur a pherthnasedd perthynoledd ieithyddol yn rhoi tanwydd newydd i ddadleuon seiliedig ar hunaniaeth o blaid sffêr gyhoeddus amlieithog. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu imiwneiddio dadleuon rhyddfrydol dros gydnabyddiaeth gwleidyddol ar gyfer diwylliannau cenedlaethol (lleiafrifol) a'i hieithoedd yn erbyn gwrthwynebiadau cyffredin a ysbrydolwyd gan foderniaeth a lluniadaeth.

Cloddiodd Pennod 5 yn bellach mewn i'r cysyniad o genedlaetholdeb rhyddfrydol trwy archwilio (1) beth, yn union, sy'n rhyddfrydol amdano; a (2) beth yw goblygiadau perthynoledd ieithyddol ar gyfer ei natur rhyddfrydol honedig. Yma, dadleuais nad yw'r ymdrechion diweddar i ddiffinio hunaniaeth genedlaethol neilltuol-ryddfrydol yn llwyddo amlygu unrhyw beth unigryw rhyddfrydol, yn hytrach na cheidwadol, am ei gynnwys. Oblegid mae'r meini prawf maent yn amlinellu yn tueddi bod yr un mor berthnasol at gysyniadau ceidwadol o hunaniaeth genedlaethol: maent felly yn gor-ymestyn tu hwnt i'r darged. Fodd bynnag, datgelodd y cloddio ideolegol pellach a gyflawnir yn y bennod bod yna acsis gwahanol addawol ar gyfer gwahaniaethu rhwng cysyniadau rhyddfrydol a cheidwadol o hunaniaeth genedlaethol yn nhermau eu priod nodau a phrosesau ffurfio: cynwysoldeb democrataidd. Mae perthynoledd ieithyddol yn atgyfnerthu a chydgrynhoi y canfyddiad hyn yn y ddwy ffordd ganlynol. Yn gyntaf, mae'r ffaith bod iaith yn ran sylweddol o ddiffiniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol o ddiwylliant cenedlaethol yn atgyfnerthu'r elfen o barhad hanesyddol, gan fod iaith - fel yr amlygir gan berthynoledd ieithyddol - yn ffynhonnell parhad diwylliannol traws-genhedlaeth. Yn ail, mae natur ddemocrataidd iaith, o safbwynt perthynoledd ieithyddol (hy mae'n cronni nodweddion diwylliannol y boblogaeth fwyafrifol), yn atgyfnerthu'r elfen o 'gynwysoldeb democrataidd' yn y broses o drafod democrataidd lle penderfynir pa elfennau o ddiwylliant cenedlaethol y dylid eu hyrwyddo gan y wladwriaeth.

I grynhoi, felly: dechreuom ni allan trwy amlygu'r grym syniadaethol ac ysgogol aruthrol mae perthynoledd ieithyddol wedi'i gyflawni mewn mudiadau a llenyddiaeth genedlaetholgar a gwrth-drefedigaethol o'r 18fed ganrif hyd heddiw. Defnyddiwyd perthynoledd ieithyddol dro ar ôl tro fel yr *axiom* sylfaenol a fu'n sail i'r dadleuon ynghylch canologrwydd iaith i hunaniaeth ddiwylliannol, effeithiau seicolegol dadwreiddio diwylliannol-ieithyddol, ac angenrheidrwydd iaith i gynnal neu

adfywio hirhoedledd diwylliannol ei siaradwyr. Ac eithrio'r Rhamantwyr Almaeneg, ni fu unrhyw gyfiawnhad o blaid perthynoledd ieithyddol na'i natur / cryfder yn y llenyddiaeth cenedlaetholgar, gwrth-drefedigaethol, a theori wleidyddol cyfoes. Ceir yr un diffyg mewn trafodaethau gwleidyddol sy'n ymwneud â pholisi a chynllunio iaith, lle rhagdybir y cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth - fel y gwelsom yn achosion Cymru a Chymuned Dwyrain Affrica - fel y *raison d'être* tu ôl i fesurau o'r fath.

Nid yw hyn i awgrymu bod statws rhagdybiedig perthynoledd ieithyddol rhywsut yn annilysu neu'n tansailio'r mudiadau a'r categorïau hyn o lenyddiaeth. Yn amlwg, mae mewnwelediadau Fanon (1952) ynglŷn â'r berthynas rhwng iaith a drwg-ffeithiau seicolegol imperialaeth, cyfraniad Fichte at adfywio ymwybyddiaeth genedlaethol yr Almaen, a dadansoddiad seicolegol JR Jones o effeithiau mewnol dadwreiddiad diwylliannol-ieithyddol, er enghraifft, oll wedi cael dylanwad sylweddol. Yn hynny o beth, mae'n rhesymol casglu bod eu milltiredd gwleidyddol ynddo'i hun yn dyst i'w cyseiniant (*resonance*) pellgyrhaeddol, a gall hyn fod yn arwydd o'u gwirionedd.

Fodd bynnag, camgymeriad fyddai dod i'r casgliad bod modd eithrio'r dadleuon a'r mewnwelediadau hyn o'r angen i ddatblygu cyfiawnhad rhesymegol dros yr hyn sy'n gyrru eu grym perswâd o dan yr arwyneb, sef perthynoledd ieithyddol. Oblegid, fel y gwelsom, mae perthynoledd ieithyddol ymhell o fod wedi cael ei dderbyn fel consensws sefydlog yn y byd academiaidd, ac mae na ddigon o bobl sydd ddim hyd yn oed yn gweld eu hiaith yn rhan sylweddol o'u hunaniaeth genedlaethol yn y lle cyntaf. Ar ben hynny, os yw perthynoledd ieithyddol yn anwir, a bod iaith yn ddim ond dyfais offerynnol ar gyfer cyfleu gwybodaeth, yna ceir diffyg cyfiawnhad cyfatebol dros yr holl gynllunio ieithyddol a welir ymhlith lleiafrifoedd cenedlaethol is-wladwriaeth a chymdeithasau ôl-drefedigaethol. Ar wahân i gyflawni arwyddocâd symbolaidd, ni fyddai sefydliadoli'r iaith dan sylw yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gydlyniant / integreiddio diwylliannol; gallai unrhyw iaith arall gyflawni'r un swyddogaeth, ac ni fyddai unrhyw golled diwylliannol yn digwydd o ganlyniad. Heb gyfiawnhad dros berthynoledd ieithyddol, felly, erys y cwestiwn: a yw'r gwahanol ymgyrchoedd gwleidyddol a'r categorïau llenyddol sy'n ei ragdybio megis tai ar dywod, ac felly'n peri ffug-ymwybyddiaeth rhemp?

Er na fyddai rhywun yn disgwyl i'r llenyddiaeth gwleidyddol gyfiawnhau perthynoledd ieithyddol o ystyried nad yw ei bwrpas yn academiaidd yn y lle cyntaf, mae'n rhesymol, ar y llaw arall, disgwyl gweld cyfiawnhad yn y llenyddiaeth academiaidd. Hyd yn hyn, fodd bynnag, mae cyfiawnhad o'r fath wedi bod yn amlwg yn ei absenoldeb. Felly: y gobaith yw bod y traethawd ymchwil hwn wedi cyflawni milltiredd sylweddol tuag at bontio'r bwlch trwy gymhathu'r dystiolaeth empiraidd gyfredol, ei ategu â dadleuon dadansodol o weithiau Wittgenstein a Herder, ac amlygu perthnasedd perthynoledd ieithyddol ar gyfer y dadleuon cyfiawnder ieithyddol a chenedlaetholdeb rhyddfrydol.

Yn yr un modd ag y byddai'r llenyddiaeth wleidyddol yn parhau i fod ar seiliau ansicr heb gyfiawnhad ar gyfer perthynoledd ieithyddol, byddai grym gwleidyddol y llenyddiaeth academiaidd yr un mor ansicr heb drosolwg o'r dibenion gwleidyddol, hanesyddol, a diwylliannol mae perthynoledd ieithyddol wedi cael ei ddefnyddio fel sail iddynt. Trwy gyfuno'r ddwy agwedd hon yn nadl sylfaenol y traethawd ymchwil hwn, felly, rwyf wedi ceisio tanlinellu eu cyd-berthnasedd er mwyn clirio'r ffordd at gydweithredu rhyngddisgyblaethol cynyddol a all fynd ymlaen heb unrhyw amheuaeth cefndirol bod rhan sylweddol o'i *raison d'être* yn ffals.

Termau Allweddol

Amod angenrheidiol : *necessary condition*
Anghyfieithiadwyedd : *untranslatability*
Annatodrwydd : *inextricability*
Caffael iaith: *language acquisition*
Comiwnitariaeth: *communitarianism*
Cydberthyniad : *correlation*
Cydlyniant cymdeithasol : *social cohesion*
Cyfansoddiadol : *constitutive*
Cyfeiriadaeth : *referentialism*
Cyffredinoliaeth ieithyddol: *linguistic universalism*
Cyffredinolaidd : *universalist* (adj.)
Cyfiawnder dosbarthol : *distributive justice*
Cymdeithasol-ddemocrataidd : *social-democratic*
Cynodiadau, cynodiadol : *connotations, connotative*
Cynrychioliadau, cynrychioliadol : *representations, representational*
Cyntefig : *primitive*
Cynwysoldeb democrataidd : *democratic inclusivity*
Cywerthedd : *equivalence*
Dadwreiddiedig : *uprooted*
Damcaniaeth dysgu ystadegol: *statistical learning theory*
Damcaniaeth rhyngweithiol: *interactionist theory*
Deilliadol : *derived*
Dyfais caffael iaith : *language acquisition device*
Dysgu canfyddiadol : *perceptual learning*
Egwyddor Anwirio: *falsifiability principle*
Eilliwr Occam : *Occam's Razor*
Ffug-ymwybyddiaeth : *false consciousness*
Gramadeg Cynhenid : *Universal Grammar*
Gwahaniaethiad : *distinction*
Gwleidyddiaeth hunaniaeth : *identity politics*
Gwrth-drefedigaethol : *anti-colonial*
Gwybyddiaeth : *cognition*
Gwyddor gwybyddiaeth : *cognitive science*
Hunanbenderfyniaeth : *self-determination*
Lluniadaethol : *constructivist*
Lluniadaethwyr : *constructivists*
Methodoleg gymhwysol : *applied methodology*
Ôl-drefedigaethol : *postcolonial*
Perthynoledd ieithyddol : *linguistic relativity*
Poblyddiaeth : *populism*
Poblyddol : *populist*
Polareiddio gwleidyddol : *political polarization*
Sefydliadoli : *institutionalise*
Seicolegaidd : *psychologized*
Seicolegyddiaeth : *psychologism*

Llyfryddiaeth

- Achebe, C. (1975) 'An Image of Africa: Racism in Conrad's Heart of Darkness'. In: Achebe, C. *Hopes and Impediments: Selected Essays, 1965-1987* (1988), Anchor Books.
- Ahearn, L.M. (2011) *Living Language: An Introduction to Linguistic Anthropology*, Wiley-Blackwell.
- Ahmed, S., Castañeda C., Fortier, A.M. & Sheller, M. (2003) *Uprootings/Regroundings: Questions of Home and Migration*, Oxford: Berg.
- Alesina, A., La Ferrara, E. (2002) Who trusts others? *Journal of Public Economics* 85(2): 207-234.
- Alexander, J. (2014) 'The Major Ideologies of Liberalism, Socialism, and Conservatism'. *Political Studies* 63(5): 980-94.
- Aleynikova, E. (2020) 'Domestic Violence in Russia: The Impact of the COVID-19 Pandemic', Chatham House. Available on:
<https://www.chathamhouse.org/2020/07/domestic-violence-russia-impact-covid-19-pandemic>
- Alibhai-Brown, Y. (2020) 'The colonised enriched the language of the coloniser', *The i*, Tuesday, 4 August, 19.
- Alibhai-Brown Y. (2015) *Exotic England: The Making of a Curious Nation*. London: Portobello Books.
- Anderson, B. (1991) *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism*, Verso Books.
- Appiah, K.A. (2005) *The Ethics of Identity*, Princeton University Press.
- Baker, M. (2001) *The Atoms of Language: The Mind's Hidden Rules of Grammar*, New York: Basic Books.
- Barnard, F.M. (1965) *Herder's Social and Political Thought: From Enlightenment to Nationalism*, Oxford: Clarendon Press.
- Barnard, F.M. (1969) *J.G. Herder on Social and Political Culture*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Barry, B. (2001) *Culture and Equality: An Egalitarian Critique of Multiculturalism*, Cambridge: Polity Press.

- Bartels, L.M. (1998) 'Democracy with attitudes'. Paper presented at the annual meeting of the American Political Science Association, Boston, MA, September 3–6.
- Bauman, Z. (1997) *Postmodernity and Its Discontents*, Cambridge: Polity.
- Benhabib, S. (2002) *The Claims of Culture: Equality and Diversity in the Global Era*, Princeton, NJ: Princeton University Press.
- Benert, V., Beier, A. (2016) 'Influx of migrants versus people in need: a combined analysis of framing and connotation in the Lampedusa news coverage', *Global Media Journal*, German Edition 6.
- Berlin, I. (1976) *Vico and Herder: Two Studies in the History of Ideas*. New York: Viking Press.
- Berman, S., Snegovaya, M. (2019) 'Populism and the Decline of Social Democracy'. *Journal of Democracy*, <https://www.journalofdemocracy.org/articles/populism-and-the-decline-of-social-democracy/> (Accessed 4 April 2020).
- Bernabé J & Chamoiseau P & Confiant R (1990) 'In Praise of Creoleness', trans B Taleb Khyar, *Callaloo* vol 13, 886-909.
- Billig, M. (1995) *Banal Nationalism*, Sage Publications Ltd.
- Bishop, D. (2014) 'What Chomsky doesn't get about child language', Figshare, <http://dx.doi.org/10.6084/m9.figshare.1030403>.
- Boeynaems, A., Burgers, C., Konijn, E.A., & Steen, G.J. (2017) 'The Effects of Metaphorical Framing on Political Persuasion: A Systematic Literature Review', PP. 118-134, <https://doi.org/10.1080/10926488.2017.1297623>.
- Bolsonaro, J. (2019) Inauguration address, <https://www1.folha.uol.com.br/poder/2019/01/leia-a-integra-do-discurso-de-bolsonaro-na-cerimonia-de-posse-no-congresso.shtml> (Accessed 21 February 2020).
- Boroditsky, L. & Gaby, A. (2010) 'Remembrances of times east: Absolute spatial representations of time in an Australian aboriginal community', *Psychological Science* 21 (11). 1635– 1639.
- Boucher, D.E. (2020) 'Language and Liberation'. In: *Language, Culture and Decolonization*. Humanities Press: Cape Town.
- Bradley, F.H. (1927) *Ethical Studies*. 2nd edn. London: Oxford University Press.

- Brady, T., Schacter, D.L., & Alvarez, G. (2018) 'The adaptive nature of false memories is revealed by gist-based distortion of true memories', PsyArXiv, 16, <https://doi.org/10.31234/osf.io/zeg95>.
- Braithwaite, E. (1971) *The Development of Creole Society in Jamaica, 1770-1820*, London: Oxford University Press.
- Brigevich, A. (2016) 'Euro-sceptic Regionalists: Flemish and Walloon Identities Compared', *L'Europe en Formation*, Vol. 379, Issue 1, pp. 95-121.
- Bryan, B. (2004) 'Jamaican Creole: In the process of becoming'. *Ethnic and Racial Studies*, 27, 641-659. doi:10.1080/01491987042000216753.
- Burke, E. (1999) [1790] *Reflections on the Revolution in France*. Indianapolis, IN: Liberty Fund.
- Bylund E. & Athanasopoulos P. (2017) 'The Whorfian time warp: Representing duration through the language hourglass' in *Journal of Experimental Psychology: General*, July 2017: 146 (7), p.p. 911-916.
- Cabral, A. (1974) 'National Liberation and Culture', Hutchins Center for African and African American Research at Harvard University, Indiana University Press, DOI: <https://doi.org/10.2307/2935020>
- Cabral, A. (2016) [1969] 'Analysis of a Few Types of Resistance' in *Resistance and Decolonisation (Reinventing Critical Theory)*, Wood, D. (trans.), Rli.
- Cacciatore, M. A., Scheufele, D. A., & Iyengar, S. (2016), 'The End of Framing as We Know It ... And the Future of Media Effects', *Mass Communication and Society*, 19(1), pp. 7-23.
- Canovan, M. (1996) *Nationhood and Political Theory*. Cheltenham: Edward Elgar.
- Carey, S. (2009) *The Origin of Concepts*, New York, Oxford University Press.
- Carruthers, P. (2006) *The Architecture of the Mind*, Oxford: Oxford University Press.
- Charteris-Black, J. (2006) 'Britain as a container: Immigration metaphors in the 2005 election campaign', *Discourse & Society*, 17(5), pp. 563–581. doi:10.1177/09579265060666345.
- Chen, M. K. (2013) 'The effect of language on economic behavior: Evidence from savings rates, health behaviors, and retirement assets', *The American Economic Review*, 103(2), 690–731.
- Chomsky, N. (1957) *Syntactic Structures*, The Hague/Paris: Mouton.

- Chomsky, N. (1959) 'A Review of B. F. Skinner's Verbal Behavior' *Language*, 35, No. 1, 26-58.
- Chomsky, N. (1963) 'Formal properties of grammar' in Luce, R.D., Bush, R.R. & Galanter, E. (eds.) *Handbook of Mathematical Psychology*, II, New York: Wiley, pp. 323–418.
- Chomsky, N. (1965) *Aspects of the Theory of Syntax*, MIT Press.
- Chomsky, N. (1983) 'Things No Amount of Learning Can Teach', Noam Chomsky interviewed by John Gliedman, *Omni*, 6:11. <http://www.chomsky.info/inter-views/198311--.htm>
- Chomsky, N. (1986) *Knowledge of Language: Its Nature, Origin, and Use*, Praeger.
- Chomsky, N. (2000) The "Chomskyan Era", in *The Architecture of Language*, N. Mukhergi, B. N. Patniak, & R. K. Agnihotri (eds.). New Dehli, Oxford & New York: Oxford University Press (Oxford India Paperbacks).
- Chomsky, N. (2009) "'Ele virou um charlatão'", diz Chomsky in *Folha de S.Paulo*, 1 February 2009.
- Clark, S.R.L. (1989) 'Reason, Value, Tradition' in Clark, S.R.L. *Civil Peace and Sacred Order: Limits and Renewals*. Oxford: Clarendon Press.
- Cosmides L. & Tooby, J. (1992) 'Cognitive adaptations for social exchange' in Barkow, J.H., Cosmides, L. & Tooby, J. (eds.) *The adapted mind: Evolutionary psychology and the generation of culture*, Oxford: Oxford University Press, pp. 163–228.
- Cubelli, R, Paolieri, D, Lotto, L, & Job, R (2011) 'The effect of grammatical gender on object categorization', *Journal of Experimental Psychology: Learning, Memory, and Cognition* 37 (2), PP. 449– 460.
- Dahl, A. (1995) 'When the future comes from behind: Malagasy and other time concepts and some consequences for communication' in *International Journal of Intercultural Relations*, Vol. 19, Issue 2, pp. 197-209.
- Davies, J. (2007) *Hanes Cymru*, Penguin Books Ltd.
- Davies, J. (1994) *A History of Wales*, Penguin Books Ltd.
- DeGraff, M. (2003) 'Against Creole Exceptionalism'. *Language*, 79:391-410
- De Man, P. (1986), *The Resistance to Theory*, University of Minnesota.

- De Schutter, H. (2007) 'Language Policy and Political Philosophy: On the Emerging Linguistic Justice Debate', *Language Problems and Language Planning* 31(1): 1-23.
- De Schutter, H. and David Robichaud (2015), 'Van Parijsian Linguistic Justice: Context, Analysis and Critiques' in *Critical Review of International Social and Political Philosophy* 18 (2): 87–112.
- De Schutter, H. (2017) 'Two principles of equal language recognition', in *Critical Review of International Social and Political Philosophy*, 20:1, 75-87.
- Dewhurst, S.A., Anderson, R.J. & Berry, D.M. (2018) 'Individual differences in susceptibility to false memories: The effect of memory specificity' in *Quarterly Journal of Experimental Psychology*, Vol 71, Issue 7.
- Diop, B. (1947) *Contes d'Amadou Koumba*, Paris: Fasquelle.
- Dworkin R. (1985) *A Matter of Principle*, London: Harvard University Press.
- Dye, M. (2010) 'The Advantages of Being Helpless: Human brains are slow to develop – a secret, perhaps, of our success', *Scientific American*, Feb.
<http://www.scientificamerican.com/article/advantages-of-helpless/>.
- Eatwell, R., Goodwin, M.J. (2018) *National Populism: The Revolt Against Liberal Democracy*. Pelican Books, Penguin Random House: UK.
- Eggel, D., Liebich, A. & Mancini-Griffoli, D. (2007) 'Was Herder a Nationalist?' *The Review of Politics*, Vol. 69, No.1, pp. 48-78.
- Erez, L. (2018) 'Liberal nationalism, immigration, and the problem of multiple national identities'. *Critical Review of International Social and Political Philosophy*. DOI: 10.1080/13698230.2018.1479816.
- Everett, D. & Kern, B. (1997) *Wari': The Pacaas-Novos language of western Brazil*, London: Routledge.
- Everett, D. (2005) 'Cultural Constraints on Grammar and Cognition in Pirahã', in *Current Anthropology*, 46: 4, 621–46.
- Everett, D. (2007) 'Recursion and Human Thought: Why the Pirahã don't have Numbers', Edge. Available on: https://www.edge.org/conversation/daniel_i_everett-recursion-and-human-thought.
- Everett, D. (2008) *Don't Sleep, There are Snakes: Life and Language in the Amazonian Jungle*, Pantheon Books, New York.

- Everett, C. (2013) *Linguistic Relativity: Evidence Across Languages and Cognitive Domains*, edited by Gitte Kristiansen, and de Mendoza Ibáñez, Francisco J. Ruiz, De Gruyter, Inc.
- Fanon, F. (2017) [1952] *Black Skin, White Masks*, Pluto Press.
- Fanon, F. (2008) [1952] *Black Skin, White Masks*, Pluto Press, revised ed. edition.
- Fausey, C. & Boroditsky, L. (2011) 'Who dunnit? cross-linguistic differences in eyewitness memory', *Psychonomic Bulletin & Review* 18 (1). 150– 157.
- Ferber, I. (2010) 'Herder: On Pain and the Origin of Language', *The Germanic Review: Literature, Culture, Theory*, 85:3, PP. 205-223, DOI: 10.1080/00168890.2010.507569.
- Fichte, J.G. (1922) [1808] *Addresses to the German Nation*, translated by R. F. Jones and G. H. Turnbull, Chicago and London: The Open Court Publishing Company.
- Finkenstaedt, T. & Wolff, D. (1973) *Ordered profusion; studies in dictionaries and the English lexicon*, C. Winter.
- Firestone, C. & Scholl, B. (2016) 'Cognition does not affect perception: Evaluating the evidence for "top-down" effects', *Behavioral and Brain Sciences*.
- Fishman, J. A. (1999) *Handbook of Language and Ethnic Identity*, Oxford: Oxford University Press.
- Fitch, W., Hauser, M.D., & Chomsky, N. (2005) 'The evolution of the language faculty: clarifications and implications', *Cognition* 97(2): 179-210.
- Fodor, J.A. (1975) *The Language of Thought*, Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press.
- Fodor, J.A. (1983) *The Modularity of Mind*, Cambridge, MA: MIT Press.
- Foley, W.A. (1986) *The Papuan languages of New Guinea*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Ford, R., Goodwin, M.J. (2017) 'Britain After Brexit: A Nation Divided'. *Journal of Democracy* 28(1): 17-30. DOI: <https://doi.org/10.1353/jod.2017.0002>.
- Forster, M.N. (2010) *After Herder: Philosophy of Language in the German Tradition*, Oxford: Oxford University Press.
- Forster, M. (2002) 'Herder's Philosophy of Language, Interpretation, and Translation: Three Fundamental Principles', in *The Review of Metaphysics*, no. 56, 2002.
- Forster, M. (2018) *Herder's Philosophy*, Oxford: Oxford University Press.

- Francis, P. (2005) "Majority Favour Patois as an Official Language of Jamaica." *Gleaner* 2 November 2005, Print.
- Freeden, M. (1996) *Ideologies and Political Theory: A Conceptual Approach*. Oxford: Clarendon Press.
- Freud, S. (1915) *The Unconscious*, in Freud, S. (1953) *The Standard Edition of the Complete Psychological Works of Sigmund Freud*, Strachey, J. (ed.) London: Hogarth Press.
- Gans, C. (2003) *The Limits of Nationalism*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Gealy, W. (2009) 'J. R. Jones: 'How Do I Know Who I Am?': The Passage from Objects to Grammar'. In: *Publications of the Austrian Ludwig Wittgenstein Society*, Vol. 10, Chapter 4. Pp. 69-101.
- Geertz, C. (1973) *The Interpretation of Cultures*, New York: Basic Books.
- Gellner, E. (1964), *Thought and Change*, London: Weidenfeld and Nicholson.
- Gellner, E. (1983) *Nations and Nationalism*, Cornell University Press.
- Gerson, G. & Rubin, A. (2015) 'Cultural nationalism and liberal values: An elusive synthesis'. *International Political Science Review* 2015, Vol. 36(2) 197 –213.
- Gidron, N. (2020) 'Many Ways to be Right: Cross-Pressured Voters in Western Europe' *British Journal of Political Science*, First View, pp. 1-16 16 DOI: <https://doi.org/10.1017/S0007123420000228>
- Glissant, É. (1981) *Le Discours Antillais*, Paris: Éditions du Seuil).
- Glissant, É. (1990) *Poétique de la Relation*. Poétique III, Paris: Gallimard.
- Glissant, É. (1996) *Introduction à une poétique du divers*, Paris: Gallimard.
- Glissant, É. (1997a) *The Poetics of Relation*, trans. by and ed. B. Wing, Ann Arbor: University of Michigan Press.
- Glissant, É. (1997b) *Traité du Tout-monde*. Poétique IV, Paris: Gallimard.
- Glissant, É. (2002) 'The Unforeseeable Diversity of the World', in Elisabeth Mudimbe-Boyl (ed.), *Beyond Dichotomies: Histories, Identities, Cultures, and the Challenge of Globalization*. Albany: SUNY Press, pp. 287–296.
- Glock H. J. (1997) *A Wittgenstein Dictionary*, Blackwell, Oxford.

- Goodwin, M.J., Heath, O. (2016) 'Brexit Vote Explained: Poverty, Low Skills and Lack of Opportunities'. Report, Joseph Rowntree Foundation, UK, August.
www.jrf.org.uk/report/brexit-vote-explained-poverty-low-skills-and-lack-opportunities
 (accessed 3 February 2020).
- Goodwin, M.J. (2019) 'A new year resolution for the left: listen more'. *The Times*, 29 December.
- Griffiths, B. (1989) *Saunders Lewis*, University of Wales Press: Cardiff.
- Guiso, L., Helios, H., Massimo, M., Tommaso, S. (2017) 'Demand and Supply of Populism'. Innocenzo Gasparini Institute for Economic Research (IGIER), Bocconi University, Working Paper 610.
- Gumperz, J. and Levinson, S., (1996) 'Introduction: Linguistic Relativity Re-Examined' in *Rethinking Linguistic Relativity*, eds. Gumperz, J. and Levinson, S., Cambridge, England: Cambridge University Press.
- Gustavsson, G. (2019) 'Liberal national identity: Thinner than conservative, thicker than civic?' *Ethnicities* 19(4): 693–711.
- Gustavsson, G., Miller, D. (2020) *Liberal Nationalism and Its Critics: Normative and Empirical Questions*. Oxford: Oxford University Press.
- Hacker, P. M. S. (2010) 'Wittgenstein's Anthropological and Ethnological Approach' in J. Padilla Galvez (ed.), *Philosophical Anthropology: Wittgenstein's Perspective*, 15-32. Ontos Verlag: Open Library.
- Hall, S. (2015) 'Creolizing Europe' in *Creolizing Europe: Legacies and Transformations*, Rodríguez, E.G. & Tate, S.A. (eds), Liverpool University Press.
- Hampsher-Monk, I. (1987) *The Political Philosophy of Edmund Burke*. London: Longman.
- Hauser, M.D., Chomsky, N., & Fitch, T. (2002) 'The Faculty of Language: What Is It, Who Has It, and How Did It Evolve?', *Science* 298, 1569–1579, 10.1126/science.298.5598.1569.
- Herder, J.G. (1764) *On Diligence in Several Learned Languages*. In: *Johann Gottfried Herder: Selected Early Works, 1764–7*, Ernest A. Menze, Karl Menges, Michael Palma (eds.), University Park, PA: Pennsylvania State University Press, 1992.
- Herder, J.G. (1767-8) *Fragments on Recent German Literature*. In: J.G. Herder: *Philosophical Writings*, Michael N. Forster (trans. & ed.), Cambridge: Cambridge University Press, 2002.

- Herder, J.G. (1778) *On the Cognition and Sensation of the Human Soul* in *J.G. Herder: Philosophical Writings*, Michael N. Forster (trans. & ed.), Cambridge: Cambridge University Press, 2002, 187–244.
- Herder, J.G. (1783) *Vom Geiste der Ebraischen Poesie*.
- Herder, J.G. (2002) *Philosophical Writings*, Michael N Forster (ed. & trans.), Cambridge.
- Herder, J.G. (1971) [1795], *Briefe zu Beforderung der Humanitdt*, Berlin and Weimar.
- Herder (1772) *Treatise on the Origin of Language*. In: *J.G. Herder: Philosophical Writings*, Michael N. Forster (trans. & ed.), Cambridge: Cambridge University Press, 2002.
- Herder, J.G. (1784–91) *Ideas for the Philosophy of the History of Humanity*. In: *J.G. Herder on Social and Political Culture*, F.M. Barnard (ed.), Cambridge: Cambridge University Press, 1969.
- Herder, J.G. (1833) [1782-3] *On the Spirit of Hebrew Poetry*, James Marsh (ed.), Burlington, VT: Edward Smith.
- Herder, J.G. (1877-1913) *Sammtliche Werke*, ed. B. Suphan. Berlin: Weidmannsche Buchhandlung, (1877-1913).
- Heyes, C. (2019) 'Précis of cognitive gadgets: The cultural evolution of thinking', *The Behavioral and brain sciences*, Vol.42, p.e 169.
- Hobsbawm, E.J. (1990) *Nations and Nationalism Since 1780*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Hornstein, N., Lasnik, H., Patel-Grosz, P., & Yang, C. (2018) *Syntactic Structures after 60 Years: The Impact of the Chomskyan Revolution in Linguistics*, De Gruyter Mouton.
- Humboldt, W. (1971) [1836] *Linguistic Variability and Intellectual Development*, Coral Gables, Miami, University of Miami Press.
- Humboldt, W. (1988) [1836.] *On language: The diversity of human language-structure and its influence on the mental development of mankind*, trans. Peter Heath, Cambridge, UK: Cambridge University Press.
- Hume, D. (1999) [1748] *An Enquiry Concerning Human Understanding*, Oxford University Press.
- Inglehart, R. (1997). *Modernization and Postmodernization*. Princeton: Princeton University Press.

- Irvine, G.A. (2004) 'A good command of the English language: Phonological variation in the Jamaican acrolect', *Journal of Pidgin and Creole Languages*, Volume 19, Issue 1, pp. 41 – 76.
- Jackson, J.C., Watts, J., Henry, T.R., List, J., Forkel, R., Mucha, P.J., Greenhill, S.J., Grey, R.D., Lindquist, K.A. (2019) 'Emotion semantics show both cultural variation and universal structure' *Science*, Vol. 366, Issue 6472, pp. 1517-1522.
- Jenkins, D. (1977) 'The Significance of the Law of Hywel', *Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion*, 54–76.
- Jones, A.R. & Thomas, G. (1973) *Presenting Saunders Lewis*, University of Wales Press: Cardiff.
- Jones, J.R. (1961) 'Y Syniad o Genedl', *Efyrdiau Athronyddol*, 24, 3–17.
- Jones, J.R. (1963) 'Cristnogaeth a Chenedlaetholdeb', E-print, Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Available on: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1985~4x~8wS88MtU>
- Jones, J.R. (1966) *Prydeindod*, Llyfrau'r Dryw.
- Jones, J.R. (1970) 'Cenedligrwydd a Chrefydd'. In: Jones, J.R. *Gwaedd yng Nghymru* (2013). E-print: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Available at: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1986~4y~AkgxJXFh>
- Juliard, P. (1970) *Philosophies of Language in Eighteenth Century France*, The Hague and Paris: Mouton.
- Kahneman, D. (2011) *Thinking, fast and slow*. New York, NY: Farrar, Straus and Giroux.
- Kahneman, D. & Tversky, A. (1984) 'Choices, values, and frames', *American Psychologist*, 39: 341–350.
- Kaufmann, E. (2000) 'Liberal ethnicity: beyond liberal nationalism and minority rights' in *Ethnic and Racial Studies*, Vol. 23, Issue 6.
- Kaufmann, E. (2018) 'The intellectual legacy of Anthony D. Smith' in *Nations and Nationalism* 24 (2), pp. 237–239. DOI: 10.1111/nana.12403
- Kaufmann, E., Goodwin, M.J. (2018) 'The diversity Wave: A meta-analysis of the native-born white response to ethnic diversity'. *Social Science Research* 76: 120-131.
- Kekes, J. (1997) 'What Is Conservatism?' *Philosophy* 72(281): 351-374.

- Keller, C.M. & Keller, J.D. (1996) *Cognition and tool use: The blacksmith at work*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Kelly, P. (2015) 'Liberalism and nationalism' in Wall, S. (ed.) *The Cambridge Companion to Liberalism*. Cambridge Companions to Philosophy. Cambridge: Cambridge University Press.
- Kirk, R. (1953) 'Burke and the Philosophy of Prescription'. *Journal of the History of Ideas* 14(3): 365-380.
- Kiss, Z., Park, A. (2014) 'National Identity: Exploring Britishness'. British Social Attitudes: The 31st Report, Park, A, Bryson, C, Curtice, J (eds.). London: NatCen Social Research. http://www.bsa.natcen.ac.uk/media/38984/bsa31_national_identity.pdf (accessed 27 March 2020).
- Kosslyn, S.M. (1980) *Image and Mind*, Cambridge, Mass.: Harvard University Press.
- Kosslyn, S.M. (1982) 'The Medium and the Message in Mental Imagery', *Block*, pp. 207–246.
- Kymlicka, W. (1989) *Liberalism, Community and Culture*, Oxford: Oxford University Press.
- Kymlicka, W. (1995) *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights*, Oxford: Oxford University Press.
- Kymlicka, W. (2002) *Contemporary political philosophy: An Introduction* (2nd ed.), Oxford: Oxford University Press.
- Kymlicka, W. (2015) 'Solidarity in diverse societies: beyond neoliberal multiculturalism and welfare chauvinism' in *Comparative Migration Studies*, volume 3, Article number: 17.
- Kymlicka (2018) 'Liberal Multiculturalism as a Political Theory of State–Minority Relations', in *Political Theory* 2018, Vol. 46(1) 81–91.
- Laitin D & Reich R. (2003) 'A liberal democratic approach to language justice' in Kymlicka W, Patten A, editors. *Language rights and political theory*. Oxford: Oxford University Press; p. 80–104.
- Léger, R. & Lewis, D. (2017) 'Normative political theory's contribution to language policy research', in *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 38(7), 577-583.
- Lenard, P., Miller, D. (2018) 'Trust and National Identity' in Uslaner, E.M. (ed.) *The Oxford Handbook of Social and Political Trust*. Oxford University Press.
- Lenard, P. (2020) 'Inclusive Identities' in Gustavsson, G., Miller, D. (eds), *Liberal Nationalism and its Critics*. Oxford: Oxford University Press.

- Lewis, S. (1933) 'Un Iaith I Gymru' ['One Language For Wales'], in Dafydd, M. (1986) *Ati, Wyr Ifainc*, Cardiff University Press, pp. 65-67.
- Lewis, S. (1961) 'Dylanwadau' [Influences] in *Taliesin 2*.
- Lewis, S. (1985) [1933] 'Deg Pwynt Polisi' [Ten Points of Policy], in *Canlyn Arthur: Ysgrifau Gwleidyddol* [In Arthur's Footsteps: Political Essays].
- Lewis, S. 'Y Dilyw 1939' [The Deluge 1939] (trans Gwyn Thomas), in Jones, A.R. & Thomas, G. *Presenting Saunders Lewis*, University of Wales Press: Cardiff.
- Laitin D & Reich R. (2003) 'A liberal democratic approach to language justice' in Kymlicka W, Patten A, editors. *Language rights and political theory*. Oxford: Oxford University Press; p. 80–104.
- Locke, J. (1975 [1689]) *An Essay Concerning Human Understanding*, Peter H. Nidditch (ed.), Oxford: Clarendon Press.
- Macintyre, A. (1988) *Whose Justice? Which Rationality?* University of Notre Dame Press.
- Macintyre, A. (1981) *After Virtue*, University of Notre Dame Press.
- Maggio, C. (2020) 'Demographic Change and the 2016 Presidential Election. Social Science Research'. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.ssresearch.2020.102459>
- Maistre, J. (1994) [1797]. *Considerations on France*. Lebrun, RA (ed.). Cambridge University Press.
- Margalit A. and Raz J. (1990) 'National self-determination' in *Journal of Philosophy* 87(9): 439–461.
- Maswood, R. & Rajaram, S. (2018) 'Social transmission of false memory in small groups and large networks' in *Topics in Cognitive Science*, <https://doi.org/10.1111/tops.12348>.
- May, S. (2008) *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language*, New York: Routledge.
- May, S. (2014) 'Contesting Public Monolingualism and Diglossia: Rethinking Political Theory and Language Policy for a multilingual World' in *Language Policy* 13 (4): 371–393.
- Memmi, A. (2016) [1957] *The Coloniser and the Colonised*, London: Souvenir Press.
- Memmi, A. (1991) [1957] *The Colonizer and the Colonized*, Boston: Beacon Press.
- Mesquita, B., Boiger, M., De Leersnyder, J. (2016) 'The cultural construction of emotions', *Current opinion in psychology*, Vol.8, pp. 31-36.

- Miles, G. (1973) 'A Personal View' in *Presenting Saunders Lewis* (1973) Jones, A.R. & Thomas, G. (eds) University of Wales Press: Cardiff, pp. 14-19.
- Miller, D. (1989) 'In What Sense Must Socialism be Communitarian?' *Social Philosophy and Policy* 6(2): 51-73.
- Miller, D. (1993) 'In Defence of Nationality', *Journal of Applied Philosophy*, Vol.10, No. 1.
- Miller, D. (1995) *On Nationality*, Oxford: Clarendon Press.
- Miller, D. (2000) *Citizenship and National Identity*. Polity Press.
- Miller, D. (2004) 'Justice, Democracy and Public Goods' in *Justice and Democracy: Essays for Brian Barry*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Miller, D. (2005) 'Crooked Timber or Bent Twig? Isaiah Berlin's Nationalism'. *Political Studies* 53(1): 100-123.
- Miller, D. (2007) *National Responsibility and Global Justice*, Oxford Political Theory, Oxford University Press.
- Miller, D. (2015) 'Justice in immigration'. *European Journal of Political Theory* 14(4): 391-408.
- Miller, D. (2016) 'Is There a Human Right to Immigrate?' in Fine, S., Ypi, L. (eds), *Migration in Political Theory: The Ethics of Movement and Membership*. Oxford University Press.
- Miller, D. (2016) *Strangers in Our Midst: The Political Philosophy of Immigration*. Harvard University Press.
- Miller, D. (2020) 'The Coherence of Liberal Nationalism' in Gustavsson, G., Miller, D. (eds), *Liberal Nationalism and Its Critics: Normative and Empirical Questions*. Oxford: Oxford University Press.
- Miller, D. (2020) 'Liberal Nationalism and the Protection of Majority Cultures' in *National Identity: Problem or Cure for an Angry Age?* Workshop at the Department of Government, Uppsala University, February 3rd– February 5th, 2020, unpublished.
- Moerk, E. L. (1994) 'Corrections in first language acquisition: Theoretical controversies and factual evidence' in *International Journal of Psycholinguistics*, 10, 33-58.
- Moore, M. (2001) *The Ethics of Nationalism*. Oxford: Oxford University Press.
- Moore, M. (2020) 'Liberal Nationalism and the Challenge of Essentialism' in Gustavsson & Miller (eds) (2020) *Liberal Nationalism and its Critics*, Oxford University Press.

- Morgan, K. O. (1982) *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980*. Cardiff: University of Wales Press.
- Moyal-Sharrock, D. (2009) 'Wittgenstein and the Memory Debate' in *New Ideas in Psychology*, Special Issue: Mueller, U. / Racine, T. (eds.): 'Mind, Meaning and Language: Wittgenstein's Relevance for Psychology', 27, pp. 213-27.
- Moyal-Sharrock, D. (2010) 'Coming to Language: Wittgenstein's Social "Theory" of Language Acquisition', in V. Munz, K. Puhl and J. Wang (eds) *Language & World: Essays on the Philosophy of Wittgenstein*, Part I, Ontos Verlag, pp. 291–314.
- Moyal-Sharrock, D. (2017) 'Universal Grammar: Wittgenstein versus Chomsky' in *A Companion to Wittgenstein on Education: Pedagogical Investigations*, ed. M.A. Peters & J. Stickney, Singapore, Springer.
- Musolff, A. (2014) 'Metaphorical parasites and "parasitic" metaphors: Semantic exchanges between political and scientific vocabularies'. *Journal of Language and Politics*, 13(2), pp. 218–233.
- Musschenga, A. (1998) 'Intrinsic value as a reason for the preservation of minority cultures'. *Ethical theory and moral practice*, 1, 201–225.10.1023/A:1009942925624
- Norris, P. & Inglehart, R. (2019) *Cultural Backlash: Trump, Brexit, and Authoritarian Populism*, Cambridge University Press.
- Nozick, R. (1974) *Anarchy, State, and Utopia*, Basic Books.
- Oakeshott, M. (1991) 'The Political Economy of Freedom' in *Rationalism in Politics and Other Essays*. Indianapolis: Liberty Press.
- Okara, G. (1963) 'African Speech...English Words', *Transition*, No 10, September, 1963.
- Okrent, A. (2017) 'Is linguistics a science?', *Aeon*, available on: <https://aeon.co/essays/is-the-study-of-language-a-science>
- Orbán, V. (2014) Public address at Băile Tuşnad, 26th July 2014. English translation available at: www.kormany.hu/en/the-prime-minister/the-prime-minister-s-speeches/prime-minister-viktor-orban-s-speech-at-the-25th-balvanyos-summer-free-university-and-student-camp (accessed 15 January 2020).
- Orbán, V. (2018) Public address at Băile Tuşnad, 28th July 2018, English translation available at: www.miniszterelnok.hu/prime-minister-viktor-orbans-speech-at-the-29th-balvanyos-summer-open-university-and-student-camp (accessed 15 January 2020).

Ottati, V., Renstrom, R., & Price, E. (2014) 'The metaphorical framing model: Political communication and public opinion' in M. Landau, M. D. Robinson, & B. P. Meier (eds.), 'The power of metaphor: Examining its influence on social life', Washington, DC: American Psychological Association.

Parekh, B. (2000) *Rethinking Multiculturalism: Cultural Diversity and Political Theory*, Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Patten, A. (2006) 'THE HUMANIST ROOTS OF LINGUISTIC NATIONALISM', *History of Political Thought*, Vol. 27, No. 2, pp. 223-262.

Patten, A. (2010) 'The Most Natural State': Herder And Nationalism', *History of Political Thought* 31 (4): pp. 657-689.

Patten, A. (2011) 'Rethinking Culture: The Social Lineage Account' in *American Political Science Review*, Vol. 105, No. 4.

Patten, A. (2014) *Equal Recognition: The Moral Foundations of Minority Rights*, Princeton: Princeton University Press.

Patten, A. (2019) 'Protecting Vulnerable Languages: The Public Good Argument' in *Oxford Studies in Political Philosophy* (Forthcoming), published online: https://scholar.princeton.edu/sites/default/files/apatten/files/protecting_vulnerable_languages_-_pre-publication_version.pdf , last accessed 3rd July 2019.

Paz, O. (1992) 'Translation: Literature and letters', in *Theories of translation*, R. Schulte & J. Biguenet (eds.), Chicago, The University of Chicago Press.

Peled, Y. & Bonotti, M. (2016) 'Tongue-Tied: Rawls, Political Philosophy and Metalinguistic Awareness' in *American Political Science Review*, Vol. 110, Issue 4 , November 2016 , pp. 798-811.

Peled, Y. & Bonotti, M. (2019) 'Sound Reasoning: Why Accent Bias Matters for Democratic Theory' in *The Journal of Politics*, 81, no. 2, pp. 411-425.

Perry, T. (2014) 'Autonomy, Culture and Nationality: The Failure of Liberal Nationalism', APSA 2014 Annual Meeting Paper. Available at SSRN: <https://ssrn.com/abstract=2453549>

Perruchet, P. (2019) 'What Mechanisms Underlie Implicit Statistical Learning? Transitional Probabilities Versus Chunks in Language Learning', *Topics in Cognitive Science*, Special Issue: Aligning Implicit Learning and Statistical Learning: Two Approaches, One Phenomenon, Monaghan, P. & Rebuschat, P. (eds.), Vol. 11, Issue3, pp. 520-535.

- Pettigrew, T.F., Tropp, L.R. (2006) 'A meta-analytic test of intergroup contact theory'. *Journal of Personality and Social Psychology* 90: 751-783.
- Phillips, A. (2010) 'What's wrong with essentialism?' *Distinktion: Scandinavian journal of social theory*, 11 (1). pp. 47-60. ISSN 1600-910X. DOI: 10.1080/1600910X.2010.9672755.
- Phillips, D.Z. (1993) 'Pam Achub Iaith?' *Efyrdiau Athronyddol*, Vol. 56, pp. 1-12.
- Phillips, D.Z. (1995) *J R Jones*, University of Wales Press.
- Pinker, S. (1994) *The Language Instinct: How the Mind Creates Language*, Perennial.
- Pinker, S. (2016) [2002] *The Blank Slate: The Modern Denial of Human Nature*, New York, NY: Viking.
- Plattner, M.F. (2019) 'Illiberal Democracy and the Struggle on the Right'. *Journal of Democracy* 30(1): 5-19.
- Pogge, T. (2003) 'Accommodation Rights for Hispanics in the United States' in *Language Rights and Political Theory*, edited by Will Kymlicka and Alan Patten, 105-122, Oxford: Oxford University Press.
- Popper, K. (1959) *The Logic of Scientific Discovery*, Routledge.
- Popper, K. (1974) 'Replies to My Critics', in Schilpp, P.A. (ed.) (1976) *The Philosophy of Karl Popper*, Vol. 2, Open Court Publishing Company.
- Popper, K. (2002) [1962] *Conjectures and Refutations: The Growth of Scientific Knowledge*, Routledge, 2nd edition.
- Putin, V. (2019) Financial Times interview with Vladimir Putin, first published: 27 June 2019. <https://www.ft.com/content/670039ec-98f3-11e9-9573-ee5cbb98ed36> (accessed 21 February 2020).
- Putnam, R.D. (2007) 'E Pluribus Unum: Diversity and Community in the Twenty-first Century'. The 2006 Johan Skytte Prize Lecture. First published: 15 June 2007. DOI: <https://doi.org/10.1111/j.1467-9477.2007.00176.x>
- Pylyshyn, Z. (1981a) 'Imagery and Artificial Intelligence', *Block*, pp. 170–194.
- Pylyshyn, Z. (1981b) 'The Imagery Debate: Analog Media versus Tacit Knowledge', *Psychological Review*, 88, pp. 16–45.
- Pylyshyn, Z. (2003) *Seeing and Visualizing: It's Not What You Think*, Cambridge, Massachusetts: MIT Press.

- Rawls, J. (1971) *A Theory of Justice*, Cambridge, Mass: Harvard University Press.
- Raz, J. and Margalit, A. (1990) 'National self-determination', in *Journal of Philosophy*, vol. 87, pp. 439-61.
- Réaume, D. (2000) 'Official Language Rights: Intrinsic Value and the Protection of Difference' in *Citizenship in Diverse Societies*, edited by W. Kymlicka, and W. Norman, 245–272. Oxford: Oxford University Press.
- Rockefeller, S.C. (1994) 'Comment'. In: A. Gutmann, ed. *Multiculturalism and the politics of recognition*. Princeton: Princeton University Press, 87–98.
- Rodríguez & Tate (2015) *Creolizing Europe: Legacies and Transformations*, Liverpool University Press.
- Rodrik, D. (2018) 'Populism and the Economics of Globalization'. *Journal of International Business Policy* 1 (1–2): 12–33.
- Ross, D. (2005) *Wales: History of a Nation*, GEDDES & Grosset.
- Roubini, N. (2016) 'Globalization's Political Fault Lines'. Project Syndicate. Available at: <https://www.project-syndicate.org/commentary/globalization-political-fault-lines-by-nouriel-roubini-2016-07>
- Rubin, A. (2017) 'Beyond identity: the desirability and possibility of policies of multilingualism', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 38:7, 632-644.
- Rushdie, S. (1991) 'Commonwealth Literature' Does Not Exist' in Rushdie, S. (1991) *Imaginary Homelands: Essays and Criticism 1981-1991*, London: Granta, PP. 63-70.
- Ryle, G. (1945) 'Knowing How and Knowing That'. *Proceedings of the Aristotelian Society* 40(6): 1-16.
- Ryle, G. (1949) *The Concept of Mind*, London: Hutchinson.
- Sandel, M. (1982) *Liberalism and the Limits of Justice*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Sardar, Z. (2008) 'Preface' in Fanon, *Black Skin White Masks*, London: Pluto Press, pp. 1-7.
- Sartre J.P (1965), 'Black Orpheus', *The Massachusetts Review*, Vol. 6, No. 1, 13-52.
- Sartre J.P (1962) 'The Sleepwalkers' *Sartre, Colonialism and Neo-colonialism*. London and New York: Routledge, 147-152.

- Schmidt, R. (2014) 'Democratic Theory and the Challenge of Linguistic Diversity' in *Language Policy* 13 (4): 395–411. doi:10.1007/s10993-014-9324-0.
- Schoneberger, T. (2010) 'Three Myths from the Language Acquisition Literature', in *The Analysis of Verbal Behavior*, 26: 107–131.
- Schroeder, S. (2018) 'Wittgenstein and his legacy' in Kind, A. (ed.) *Philosophy of Mind in the Twentieth and Twenty-First Centuries. The History of the Philosophy of Mind* (6). Routledge, London.
- Scully, R. (2018) Welsh Election Study 2016, email correspondence dated: 25 September 2018.
- Scruton, R. (1980) *The Meaning of Conservatism*. Harmondsworth: Penguin.
- Scruton, R. (1990) 'In Defence of the Nation'. *Ideas and Politics in Modern Britain*: 53-86.
- Scruton, R. (1996) 'Communitarian Dreams'. *City Journal*. <https://www.city-journal.org/html/communitarian-dreams-12144.html> (accessed 17 February 2020).
- Scruton, R. (2002) *The Meaning of Conservatism*. 3rd edition. Palgrave Macmillan.
- Scruton, R. (2005) *A Political Philosophy: Arguments for Conservatism*. Continuum.
- Scruton, R. (2012) 'The great swindle'. *Aeon*. <https://aeon.co/essays/a-cult-of-fakery-has-taken-over-what-s-left-of-high-culture> (accessed 3 March 2020).
- Scruton, R. (2014). *How to be a Conservative*. Bloomsbury Publishing.
- Scruton, R. (2015) 'In Defense of Elitism'. Lecture, The Future of the Symphony Conference, University of Baltimore, 2014. <https://theimaginativeconservative.org/2015/04/in-defense-of-elitism-roger-scruton.html> (accessed 3 March 2020).
- Simon, A. F. & Jerit, J. (2007) 'Toward a Theory Relating Political Discourse, Media, and Public Opinion'. *Journal of Communication*, 57(2), pp. 254-271.
- Smith, A. D. (1983) [1971] *Theories of Nationalism*, 2nd edition, London: Duckworth, and New York: Holmes and Meier.
- Smith, A.D. (1989) 'The origins of nations' in *Ethnic and Racial Studies*, Volume 12, Issue 3, pp. 340-367.
- Smith, A. D. (1998) *Nationalism and Modernism: A Critical Survey of Recent Theories of Nations and Nationalism*, London: Routledge.

- Smith, A. D. (2006) ‘Set in the silver sea’: English national identity and European integration’ in *Nations and Nationalism*, Volume 12, Issue 3, July 2006, pp. 433-452.
- Spelke, E. (2003) ‘What makes us smart: core knowledge and natural language’ in Gentner, D. & Goldin-Meadow, S. (eds.), *Language in Mind: Advances in the Study of Language in Thought*, Cambridge, MA., MIT Press, 277–311.
- Stamper, K. (2017) *Word by Word: The Secret Life of Dictionaries*, Pantheon.
- Stolle, D., Soroka, S., Johnston, R. (2008) ‘When does diversity erode trust? Neighborhood diversity, interpersonal trust and the moderating effect of social interactions’. *Political Studies* 56(1): 57-75.
- Tamir, Y. (1993) *Liberal Nationalism*. Princeton NJ: Princeton University Press.
- Tamir, Y. (1995) *Liberal Nationalism*, 2nd edition, Princeton NJ: Princeton University Press.
- Tamir, Y. (2019) *Why Nationalism*. Princeton and Oxford: Princeton University Press.
- Taylor, C. (1985a) *Human Agency and Language*, Cambridge University Press.
- Taylor, C. (1985b) ‘Atomism’ in *Philosophy and the Human Sciences: Philosophical Papers 2*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Taylor, C. (1989) *Sources of the Self: The Making of the Modern Identity*. Harvard University Press.
- Taylor, C. (1994) ‘Multiculturalism and the Politics of Recognition’ in Gutmann, A (ed.) *Multiculturalism: Examining the Politics of Recognition*. Princeton: Princeton University Press.
- Taylor, C. (2016) *The Language Animal: The Full Shape of the Human Linguistic Capacity*, Harvard University Press.
- Thiong’o, Ngũgĩ wa (1986) *Decolonising the Mind: the Politics of Language in African Literature*, Heinemann Educational.
- Tilley, J.R. (2005) ‘Research Note: Libertarian-Authoritarian Value Change in Britain, 1974–2001’. *Political Studies* 53(2): 442-453.
- Tolkien, J.R.R. (1955) ‘English and Welsh’, Inaugural O’Donnell Memorial Lecture, October 21, 1955, in *Angles and Britons*, ed. Lewis, H., Cardiff: Cardiff University Press, pp. 1-41.
- Tomasello, M. (2008) *Origins of Human Communication*, Cambridge, Ma: MIT Press.

- Tomasello, M., Herrmann, E. (2010) 'Ape and Human Cognition: What's the Difference?', *Current Directions in Psychological Science*, Vol 19, Issue 1.
- Tria, F., Servedio, V.D.P., Mufwene, S.S., Loreto, V. (2015) 'Modeling the Emergence of Contact Languages'. *PLOS ONE*. DOI: <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0120771>.
- Turnbull, G.H. (2018) 'Introduction' in *Addresses to the German Nation*, trans. R.F. Jones & G.H. Turnbull, Franklin Classics.
- Vincent, A. (1992) *Modern Political Ideologies*. Oxford: Blackwell.
- Vincent, A. (1994) 'British Conservatism and the Problem of Ideology'. *Political Studies* 42(2): 204-227.
- Vincent, A. (1995) 'Liberal Nationalism: An Irresponsible Compound?' in *Political Studies*, XLV, pp. 275-295.
- Voltaire, F.A. (2011) [1756] *An Essay on Universal History, the Manners, and Spirit of Nations: From the Reign of Charlemaign to the Age of Lewis XIV*, Nabu Press.
- Von Humboldt, W. (1999) [1836] *On Language: On the Diversity of Human Language Construction and its Influence on the Mental Development of the Human Species*, Michael Losonsky (ed.), translated by Peter Heath. Cambridge Texts in the History of Philosophy, Cambridge: Cambridge University Press.
- Waldron, J. (1987) 'Theoretical Foundations of Liberalism'. *Philosophical Quarterly* 37(147): 127–50.
- Walzer, M. (1983) *Spheres Of Justice: A Defense of Pluralism and Equality*, Basic Books.
- Wedeen, L. (2002) 'Conceptualizing Culture: Possibilities for Political Science' in *American Political Science Review* 96 (4): 713– 28.
- Weinstock, D. (2003) 'The Antinomy of Language Policy' in *Language Rights and Political Theory*, edited by Will Kymlicka and Alan Patten, 250-270, Oxford: Oxford University Press.
- Welsh Government (2017) 'Cymraeg 2050: A million Welsh speakers'. Available at: <https://senedd.wales/Laid%20Documents/GEN-LD11108/GEN-LD11108-e.pdf> (accessed 31 January 2021).
- Welsh Government (2021) 'Welsh language data from the Annual Population Survey: October 2019 to September 2020'. Available at: <https://gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-october-2019-september-2020> (accessed 31 January 2021).
- Wierzbicka, A. (2014) *Imprisoned in English*, Oxford: Oxford University Press.

- Wittgenstein, L. (1969) *The Blue and Brown Books*, 2nd Edition. Oxford: Blackwell.
- Wittgenstein, L. (1970) *Zettel*, G. E. M. Anscombe and G. H. von Wright (eds). Tr. G. E. M. Anscombe. Berkeley: University of California Press.
- Wittgenstein, L. (1974) *Philosophical Grammar*, ed. Rush Rhees, trans. Anthony Kenny, Oxford: Blackwell.
- Wittgenstein, L. (1980) *Culture and Value*, ed. G.H. von Wright in collaboration with H. Nyman, tr. P. Winch. Amended 2nd edition. Oxford: Blackwell.
- Wittgenstein, L. (1993) 'Cause and Effect: Intuitive Awareness'. In: Klagge J. C. & Nordman A. (eds.), *Philosophical Occasions: 1912-1951*. Indianapolis: Hackett Publishing, 371-426.
- Wittgenstein, L. (2005) *The Big Typescript: TS 213*. Ed. & tr. C. G. Luckhardt and M.A. E. Aue. Oxford: Blackwell Publishing.
- Wittgenstein, L. (2009) [1953] *Philosophical Investigations*, Wiley-Blackwell; 4th Revised edition edition.
- Wynn, K. (1992) 'Addition and subtraction by human infants', *Nature* 358 (6389), 749– 750.
- Yurtaev, A. (2020) 'Inside the fight over Russia's domestic violence law', *openDemocracy*. Available on: <https://www.opendemocracy.net/en/odr/russia-domestic-violence-law/>
- Xu, Y., Duong, K., Malt, B.C., Jiang, S., Barbara C., Srinivasan, M. (2020) 'Conceptual relations predict colexification across languages', *Cognition*, Vol. 201, 104280.
-